1872 PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY


1872 150 2022

# Dyma dy le



## Prosbectws Uwchraddedig 2022

# Ein campws



Llety Myfyrwyr
Penbryn
Pentre Jane Morgan
Fferm Penglais
Cwrt Mawr
Rosser G
Cyfleusterau academaidd
Adeilad Edward Llwyd
Adeilad Llandinam
Canolfan Uwchraddedigion
Adeilad y Gwyddorau Ffisegol
Llety Myfyrwyr
Pantycelyn
LLGC NLW
Llyfrgell Genedlaethol Cymru
Llyfrgell y Gwyddorau Ffisegol
Llyfrgell Hugh Owen
Canolfan y Celfyddydau
Cyfleusterau academaidd
Penbryn P5
Adeilad Hugh Owen
Adeilad Gwleidyddiaeth Ryngwladol
Adeilad Parry-Williams
Undeb y Myfyrwyr
Adeilad academaidd
Adeilad Carwyn James
Canolfan a Labordai Milfeddygol1
Y Ganolfan Chwaraeon

# Cynnwys

## Cyflwyniad


| | |
|---|---|
| Croeso | 2 |
| "Nid byd, byd heb wybodaeth" | 4 |
| Rhagoriaeth ymchwil | 6 |
| - Brwydro yn erbyn newid yn yr hinsawdd | 8 |
| - Wynebu heriau iechyd byd-eang | 10 |
| - Uchafbwyntiau ymchwil arall diweddar | 11 |
| Cydweithio â diwydiant | 14 |
| Hanes un myfyriwr | 16 |
| Astudiaethau uwchraddedig yn Aberystwyth | 18 |
| Ysgol y Graddedigion | 20 |
| Dysgu trwy'r Gymraeg | 22 |


## Ein pynciau


| | |
|---|---|
| Addysg | 24 |
| Astudiaethau Gwybodaeth | 36 |
| Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu | 44 |
| Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig | 54 |
| Astudiaethau Busnes | 76 |
| Celf | 90 |
| Cyfrifiadureg | 98 |
| Cymraeg ac Astudiaethau Celtaidd | 110 |
| Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear | 116 |
| Ffiseg | 124 |
| Gwleidyddiaeth Ryngwladol | 130 |
| Hanes a Hanes Cymru | 138 |
| Ieithoedd Modern | 146 |
| Mathemateg | 152 |
| Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol | 158 |
| Seicoleg | 164 |
| Y Gyfraith a Throseddeg | 170 |


## Bywyd myfyriwr


| | |
|---|---|
| Sut i wneud cais | 180 |
| Cyllid a ffioedd | 182 |
| Llety | 184 |
| Bywyd ar y campws | 190 |
| - Ein lleoliad a'n campws | 192 |
| - Mannau astudio | 194 |
| - Undeb Myfyrwyr Cymraeg Aberystwyth | 196 |
| - Undeb y Myfyrwyr | 198 |
| - Cyfleusterau chwaraeon | 200 |
| - Chwaraeon a chymdeithasau | 201 |
| - Canolfan y Celfyddydau | 202 |
| - Cerddoriaeth yn Aberystwyth | 205 |
| Aberystwyth i bawb | 206 |
| Cymorth i fyfyrwyr | 208 |
| Gyrfaoedd | 209 |
| Dysgu ychwanegol | 210 |
| Darganfod Aberystwyth | 212 |
| Ymweld ag Aber | 216 |
| Mynegai o'r cyrsiau | 217 |


THE TIMES THE SUNDAY TIMES
CANLLAW PRIFYSGOLION DA 2020
PRIFYSGOL Y FLWYDDYN YNG NGHYMRU

THE TIMES THE SUNDAY TIMES
CANLLAW PRIFYSGOLION DA 2019
PRIFYSGOL Y FLWYDDYN AR GYFER ANSAWDD Y DYSGU

# Croeso



**Rwy'n falch iawn eich bod yn ystyried ymuno â Phrifysgol Aberystwyth fel myfyriwr uwchraddedig. P'un a ydych yn dewis gradd Meistr a ddysgir neu radd ymchwil, cewch yma awyrgylch groesawgar a chefnogol, adnoddau rhagorol, addysgu o ansawdd uchel a chyngor gyrfaol wedi'i deilwra er mwyn i chi gyflawni eich uchelgais.**

Mae ein hacademyddion yn aml yn ymchwilwyr gweithredol eu hunain, yn gwthio ffiniau gwybodaeth yn eu maes arbenigol. Eu gwaith ymchwil yw'r sylfaen sydd wrth wraidd eu haddysgu a'u goruchwylio, ac mae cyfleoedd i uwchraddedigion weithio ar amrywiaeth o brosiectau gwahanol. Mae ymgymryd ag ymchwil sy'n cael effaith drawsffurfiol ar y byd yn ehangach yn bwysig i ni ac rydym yn falch iawn bod 95% o'r gwaith a gyflwynwyd gennym i'r Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil diweddaraf yn cael ei ystyried o safon a gydnabyddir yn rhyngwladol neu uwch.

Yn Aberystwyth, rydym yn ymdrechu i sicrhau bod pob un o'n myfyrwyr yn cael y cyfle i barhau â'u hastudiaethau, ac y gallant gyfrannu'n weithredol at ein cymuned ymchwil. Unwaith eto eleni, mae'n bleser gennym ariannu ffioedd dysgu'r ddoethuriaeth (PhD), a chynnig lwfans cystadleuol i nifer o'n myfyrwyr ymchwil drwy ein cynllun Ysgoloriaeth AberDoc.

Cafodd safon ein haddysgu ei gydnabod trwy'r wobr Aur a ddyfarnwyd i ni yn Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu 2018. Ac mae ein henwi'n Brifysgol y Flwyddyn yn y DU am Ansawdd y Dysgu yng Nghanllaw Prifysgolion Da y Times a'r Sunday Times ddwy flynedd yn olynol yn 2018 a 2019 yn dweud cyfrolau am ansawdd yr addysg a ddarparwn.

Yn ogystal â'n henw da am addysgu ac ymchwil, mae Prifysgol Aberystwyth yn adnabyddus hefyd am ei lleoliad trawiadol ar arfordir Bae Ceredigion a mynyddoedd godidog y Canolbarth yn gefnlen. Rydym yn brifysgol ar gampws sydd â chysylltiadau daearyddol a chymdeithasol â thref glan y môr hanesyddol Aberystwyth – caiff ei disgrifio gan lawer fel "prifddinas ddiwylliannol Cymru". Rydym yn gartref i un o'r canolfannau celfyddydol mwyaf ym Mhrydain a thafliad carreg i ffwrdd saif Llyfrgell Genedlaethol Cymru, un o bump yn unig o lyfrgelloedd hawlfraint yn y Deyrnas Unedig – trysordy ar gyfer ymchwilio a darganfod.

Mae nifer o'n huwchraddedigion yn dewis aros gyda ni ar ôl cwblhau eu graddau cyntaf; mae eraill yn cael eu denu gan ein henw da ledled y DU ac yn rhyngwladol. Beth bynnag fo'ch disgyblaeth, mae ein cymuned o uwchraddedigion yn cael cefnogaeth gan Ysgol y Graddedigion, sy'n darparu amrywiaeth ardderchog o raglenni i'ch helpu i ddatblygu trwy gydol eich astudiaethau ac i'ch paratoi ar gyfer cam nesaf eich bywyd.

Cewch ragor o wybodaeth ar bob agwedd ar fywyd uwchraddedig yn Aberystwyth yn y prosbectws hwn ac ar ein gwefan. Os gallwch, dewch i weld Aberystwyth drosoch eich hun a siarad â rhai o'r staff a fydd yn fentoriaid ac yn dywyswyr i chi ar eich llwybr uwchraddedig i'r dyfodol. Gobeithio y caf gyfle i gwrdd â chi ar y campws yn y dyfodol agos a dymunaf yn dda i chi gyda'ch astudiaethau uwchraddedig.

**Yr Athro Elizabeth Treasure**

**Is-Ganghellor**





"Nid byd, byd heb wybodaeth"


# "Nid byd, byd heb wybodaeth"



## Yr ymchwilydd rhyngwladol

Er mai tref ganolig ei maint yng nghanolbarth Cymru yw Aber, mae gan yr ymchwil a wneir yma gan ein gwyddonwyr a'n hymchwilwyr effaith yn rhyngwladol, yn ogystal ag yn lleol. Mae'r gwaith yma'n amrywio o greu cnydau bwyd y gellir eu tyfu ar dir sych iawn i geisio sicrhau tyfiant bwydydd mewn gwledydd trydydd byd; atal masnachu pobl yn Romania, i astudio effaith cynnydd yn nhymheredd ein byd ar ein rhewlifoedd, a chreu offer a chyfarpar ar gyfer y teithiau nesaf i'r gofod.

Ar lefel mwy lleol mae'r Brifysgol yn gweithio gyda nifer o asiantaethau gan gynnwys Llywodraeth Cymru, drwy weinyddu Arolwg Ffermio Cymru, ac ymgynghori ar bolisïau er enghraifft. Mae gwaith lleol hefyd wedi cynnwys prosiectau ar ieithoedd lleiafrifol a chynnal canolfannau sy'n astudio effaith ymarfer corff ar iechyd yr henoed, gan ddarganfod ffyrdd o leihau effaith rhai clefydau mewn pobl hŷn.

## Yr arbenigwr trawsbynciol

Dysgir nifer o wahanol bynciau yma yn Aberystwyth, yn aml iawn gan arbenigwyr yn eu maes. Ceir gwybodaeth am ein cyrsiau yn nes ymlaen yn y prosbectws hwn, ond yma cewch fod yn rhan o gymuned fywiog, lle mae ymchwil a dysgu'n digwydd ar y cyd.

O astudio rhyfela a diogelwch ar gwrs gwleidyddiaeth ryngwladol, i astudio hanes Cymru, y gwyddorau, ieithoedd hen a newydd, ceir trawstoriad gwych o bynciau yma yn Aberystwyth. Gallwch astudio nifer ohonynt ar y cyd, i ehangu eich gorwelion a'ch pynciau ymhellach.

## Llysgennad yr iaith

Yn Aberystwyth cewch gyfle i fyw drwy'r Gymraeg, i ddefnyddio'r iaith bob dydd ym mhob agwedd o'ch bywyd - wrth gymdeithasu, wrth fwynhau hobïau megis chwaraeon ac wrth astudio. Mae'r awyrgylch gartrefol a'r gymdeithas Gymraeg gref yma'n ddelfrydol i wella eich sgiliau iaith, a cheir hefyd nifer o gyfleoedd i ddysgu'r iaith o'r dechrau.

Fel un o aelodau cyntaf y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, a Neuadd Pantycelyn wedi ailagor ei drysau i fod yn ganolbwynt i fywyd Cymraeg y Brifysgol unwaith eto, mae'r ystod o gyrsiau ac ysgoloriaethau sydd ar gael i astudio trwy gyfrwng y Gymraeg yn cynyddu bob blwyddyn. Gellir astudio nifer o bynciau drwy'r Gymraeg yma yn Aberystwyth - yn rhannol neu'n gyfan gwbl. Mae rhai cyrsiau cyfrwng Cymraeg ar gael i ddysgwyr hefyd.

Mae Prifysgol Aberystwyth yn cynhyrchu eitemau o galedwedd ar gyfer dau o'r offerynnau optegol ExoMars 2020 - PanCam ac ISEM. Diolch i'r ESA am y caniatâd i ddefnyddio'r llun hwn.



# Rhagoriaeth ymchwil














**Caiff Prifysgol Aberystwyth ei harwain gan ymchwil ac mae'n dathlu creu gwybodaeth, dylanwadu, dyfeisgarwch a chyfnewid gwybodaeth.**

Mae ymchwil yn sylfaen i'n gwaith dysgu, yn bwydo ein haddysg ac yn cyfoethogi'ch profiadau dysgu chi. Byddwch yn cael eich dysgu a'ch mentora gan staff sy'n dylanwadu ar ein dealltwriaeth o'r byd o'n cwmpas ac sy'n ymestyn terfynau ein gwybodaeth.

Mae ymchwil yn Aberystwyth o fudd i'r gymdeithas ehangach ac yn edrych allan ar y byd ac ymlaen tua'r dyfodol. Effeithia'r ymchwil ar yr economi, yr amgylchedd, ar bolisi cyhoeddus ac ar fywyd diwylliannol yng Nghymru a'r tu hwnt. Trwy feithrin partneriaethau masnachol, mae ein hymchwil yn helpu i ddatblygu cynnyrch, prosesau a thechnegau newydd a all helpu pawb i fyw bywydau gwell.

Mae'r gwaith yn amrywio o fynd i'r afael â newid hinsawdd, gwella ansawdd a dulliau cynhyrchu bwyd, hybu iechyd pobl ac anifeiliaid, i ddatblygu deallusrwydd artiffisial a helpu i ddatblygu'r gwaith o archwilio'r gofod. Mae ein hymchwilwyr ar y rheng flaen o ran arloesedd ac mae buddiannau rhyngwladol eang wedi deillio o ddylanwad ac effaith ein hymchwil.







# Brwydro yn erbyn newid yn yr hinsawdd

**Mae'r ymchwilwyr sy'n gweithio yma, sydd ymhlith yr ymchwilwyr gorau drwy'r byd yn eu maes, yn cyfrannu at y gwaith o astudio amryfal agweddau ar y newid yn yr hinsawdd. Mae'r gwaith yn cynnwys helpu i fonitro'r datblygiadau, canfod yr effaith ar ein byd a dod o hyd i atebion er mwyn helpu i wella pethau.**


## Defnyddio Deallusrwydd Artiffisial i fonitro rhewlifoedd sy'n toddi.

Mae gwyddonwyr o Athrofa'r Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig (IBERS) a'r Adran Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear yn rhan o dîm rhyngwladol sy'n defnyddio Deallusrwydd Artiffisial, delweddau a dynnir o loerennau a thechnoleg drôn i fonitro organebau microsgopig sy'n byw ar rewlifoedd a llenni iâ yn yr Arctig. Mae'r ymchwil yn helpu i gadarnhau a oes perthynas rhwng pa mor gyflym y mae rhewlifoedd yn toddi a'r bywyd microsgopig sy'n byw arnynt.



Ymchwilydd o Aberystwyth, Joseph Cook, yn addasu cwadcopter. Llun: Marc Latzel + Rolex.






Cydnabyddiaeth: Asiantaeth Ofod Ewrop (ESA)

## Cyflwyno map carbon newydd yng Nghynhadledd Newid Hinsawdd y Cenhedloedd Unedig ym Madrid

Mae map newydd sy'n dangos y newid yn y carbon sy'n cael ei storio fel biomas ar hyd a lled coedwigoedd a llwyndiroedd y byd wedi cael ei greu gan ddefnyddio delweddau lloeren technoleg uwch gan dîm o ymchwilwyr yn Adran Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear Prifysgol Aberystwyth. Cafodd y map ei greu gan ddefnyddio data optegol, lidar a radar a'i gyflwyno yn y Gynhadledd Newid Hinsawdd ddiweddar (COP25). Mae llawer o'r carbon sydd mewn coedwigoedd yn cael ei storio yng nghoedwigoedd glaw'r trofannau gwlyb, ond mae'r map newydd yn dangos bod biomas wedi cael ei ddosbarthu'n helaeth ar hyd a lled bïomau eraill, yn enwedig y trofannau sych, yr isdrofannau a'r parthau boreal. Mae deall y newid sy'n dal i ddigwydd yn y ffordd y caiff carbon ei storio yn gam enfawr tuag at sicrhau dyfodol hir dymor y bïomau amrywiol hyn ac at fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd.

## Adeiladu strwythurau arfordirol artiffisial

Mae ymchwilwyr yn IBERS yn cysylltu teils arbennig i strwythurau atal llifogydd arfordirol yn y Borth, sydd wedi'u cynllunio i ddynwared yr amgylchiadau delfrydol i alluogi bywyd gwyllt i gydio. Mae'r teils concrit wedi'u cynllunio yn defnyddio proses o'r enw ffotogrametreg sy'n creu delwedd 3D o'r dirwedd a geir ar lannau creigiog naturiol, a bydd yn galluogi i'r rhywogaethau mwyaf amrywiol a phrin oroesi.



# Wynebu heriau iechyd byd-eang

## Ymchwil i brysuro prawf Covid-19 ar gyfer gwledydd incwm isel

Mae ymchwilwyr Athrofa'r Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig (IBERS) yn gweithio ar dechneg i wella profi ar gyfer y Coronafeirws mewn gwledydd incwm isel. Fel arfer caiff profion eu cynnal mewn labordy gyda chyfarpar mawr a drud. Byddai'r dull profi'n addas mewn gwledydd lle nad yw'n hawdd ymuno â chadwyni cyflenwi'r seilwaith profi a gellid eu cynnal heb fod angen cyfleusterau feiroleg arbenigol.



## Llai o halen er mwyn lleihau clefyd y galon

Mae gwyddonwyr yn IBERS wedi llwyddo i gynhyrchu bwyd y gellir ei ddefnyddio i sicrhau bod llawer llai o halen yn cael ei gynnwys mewn prydau a byrbrydau wedi'u rhagbecynnu. Mae'r cynhwysyn blas wedi ei ddatblygu o sgil-gynnyrch mycoprotein, y prif gynhwysyn mewn cynnyrch Quorn. Bydd lleihau'r halen a ddefnyddir mewn bwyd wedi'i ragbecynnu yn helpu i leihau cyflyrau fel clefyd y galon sy'n achosi cyflyrau gwanychol yn y tymor hir ac yn amharu ar fywydau miliynau o bobl dros y byd.

## Gweithio i atal afiechydon trofannol

Mae Parasitolegydd ym Mhrifysgol Aberystwyth yn rhan o dîm o ymchwilwyr bedwar ban byd sy'n astudio'r defnydd a wneir o offeryn golygu genynnau er mwyn lleihau effaith Sgistosomiasis, salwch sy'n effeithio ar fwy na chwarter biliwn o bobl yn Ne-ddwyrain Asia, Affrica Is-Sahara ac America Ladin. Mae'r Athro Karl Hoffmann, ynghyd â chyd-weithwyr o bob cwr o'r byd, wedi llwyddo am y tro cyntaf i ddefnyddio dulliau golygu genynnau er mwyn lleihau effaith y llyngyr parasitig sy'n gyfrifol am Sgistosomiasis ac am haint llyngyr yr afu. Gall yr haint achosi sbectrwm amrywiol o glefydau mewn pobl gan gynnwys ffibrosis yr afu a chanser dwythell y bustl. Bydd defnyddio'r dechnoleg hon gyda genynnau neu lyngyr sgistosom eraill yn chwyldroi ein gallu i ddatblygu strategaethau rheoli newydd y mae eu hangen ar frys.

## Y frwydr yn erbyn Twbercwlosis (TB) Buchol

Mae gwyddonwyr yn IBERS wedi datblygu profion croen i wartheg sy'n gallu gwahaniaethu rhwng anifeiliaid sydd â TB Buchol a'r rhai sydd wedi eu brechu yn erbyn y clefyd. Drwy wahaniaethu rhwng gwartheg sydd wedi eu brechu a heb eu brechu, bydd y profion newydd yn hwyluso rhaglenni brechu dros y byd. Gallai hyn gyfrannu'n sylweddol at arafu trosglwyddiad y clefyd bacteriol heintus o wartheg i bobl.



# Uchafbwyntiau ymchwil arall diweddar

Llwyfannau digidol a'r gyfraith – pam y dylid trin Airbnb ac Uber yn wahanol?

Ydy dynion yn fwy digrif na menywod?

Pam mae rhai pobl yn rhoi'r gorau i ddefnyddio Facebook? Dyfodol y cyfryngau cymdeithasol.

Cyfieithiad ynteu ddehongliad? Yr effaith ar achosion llys.

Profi bod yr arloeswr geneteg o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, Mendel, yn gywir.

Yr heriau sy'n gysylltiedig â hyrwyddo iaith leiafrifol ymysg plant a phobl ifanc.

Datgloi treftadaeth a hanes porthladdoedd yng Nghymru ac Iwerddon.

# Ymchwil sy’n cael effaith

## Gwyddorau Biolegol

Canfuwyd bod haidd perlog yn helpu i atal diabetes math 2 rhag datblygu, yn ogystal â helpu dioddefwyr i reoli eu cyflwr. Gan ddatblygu ar sylfaen prosiect blaenorol oedd yn golygu datblygu rhywogaethau newydd o haidd perlog a all dyfu yn India, mae gwyddonwyr IBERS yn datblygu amrywiadau a chroesrywiau newydd a all ffynnu yn Affrica Is-Sahara.





## Gwyddorau Biolegol/ Cyfrifiadureg

Mae gwyddonwyr yn adrannau’r Gwyddorau Biolegol a Chyfrifiadureg wedi datblygu ap ar gyfer ffonau symudol i wella ansawdd bywyd cleifion strôc.

## Ffiseg

Mae ein ffisegwyr solar wedi dangos bod maes magnetig yr haul ddeg gwaith yn gryfach nag a dybiwyd.











## Seicoleg a Chyfrifiadureg

Mae gwyddonwyr yn y ddwy adran yn astudio’r defnydd o rith-wirionedd i gefnogi oedolion hŷn iach i hel atgofion. Y gobaith yw y gall y math hwn o hel atgofion yn y dyfodol helpu oedolion bregus i wella eu lles a chadw eu gwybyddiaeth yn gryfach.

## Y Gyfraith

Mae’r prosiect Dewis Choice, sy’n rhoi cymorth i bobl hŷn sy’n dioddef neu wedi dioddef o gam-drin domestig, wedi’i leoli yn Adran y Gyfraith a Throseddeg. Mae’n torri tir newydd ac yn gweithredu ledled y Deyrnas Unedig.

## Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol

Mae ymchwilwyr wedi darganfod bod y ddwy ddelw yn y dull gothig sydd yn dal dwylo yn Eglwys Gadeiriol Chichester, a fu’n ysbrydoliaeth i gerdd Philip Larkin ‘An Arundel Tomb’, hefyd wedi ysbrydoli cerdd John Keats ‘La Belle Dame Sans Merci’.





## Theatr, Ffilm a Theledu

Yn seiliedig ar egwyddorion geometreg ffractal ac yn pontio’r gagendor rhwng y celfyddydau a gwyddoniaeth, cydnabuwyd ‘Cloc Ffractal’ Richard Downing (81 triongl o wydr wedi’u ffurfio â llaw yn cylchdroi ar ystod o rythmau i alinio’n union ar yr awr) ar raglen *BBC Wales Arts Review of the Year*.



# Cydweithio â diwydiant

**Mae gan ein hadrannau gysylltiadau a phartneriaethau gwaith cryf gyda sbectrwm eang o unigolion, cwmnïau a sefydliadau dros y byd, gan gynnwys Airbus, yr Asiantaeth Ofod Ewropeaidd, y GIG, Wellcome Trust, y BBC, S4C, Waitrose, Unilever, Ford a Jaguar, ac enwi dim ond rhai.**

Yn ogystal â'r cyfraniadau y gallwn ni eu gwneud, rydym ni hefyd yn elwa o allu rhannu safbwyntiau, canfyddiadau ymchwil a gwybodaeth ag eraill ac mae hynny, yn ei dro, yn agor ystod ehangach o gyfleoedd i'n myfyrwyr.

## Gweithio gyda busnesau

Gan fanteisio ar arbenigedd ein hymchwilwyr a'n hadnoddau sydd o'r radd flaenaf, mae'r Brifysgol yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau i fusnesau a sefydliadau allanol. Mae'r gwasanaethau'n cynnwys gwaith ymgynghori, cydweithio â sefydliadau allanol ar brosiectau ymchwil ac agor y drysau i eraill gael defnyddio ein labordai a chyfleusterau eraill.

## Cefnogi Mentergarwch

Mae'r Brifysgol hefyd yn cynnig cymorth i fyfyrwyr a staff er mwyn eu helpu i wireddu eu syniadau busnes. Mae AberPreneur yn helpu cleientiaid gyda gwybodaeth, cyngor, hyfforddiant a chyllid ac yn cynnal cyfres o ddigwyddiadau entrepreneuriaeth yn rhad ac am ddim drwy gydol y flwyddyn.

Mae ein Campws Arloesi a Menter newydd, ArloesiAber, gyda'i adnoddau arloesol, yn lle perffaith i waith gael ffynnu rhwng busnesau a'r byd academaidd, yn lle i gael cymorth gyda gweithgareddau ymchwil a datblygu, i hwyluso'r gwaith o ddatblygu cynnyrch a phrosesau newydd a chyflymu'r llwybrau i gyrraedd y farchnad.






## ArloesiAber

Mae ArloesiAber yn gartref i gyfleusterau ac arbenigedd o safon fyd-eang yn y sectorau biotechnoleg, amaeth-dechnoleg, a bwyd a diod. Mae'r ganolfan ddatblygu £43 miliwn hon, a leolir ar Gampws Gogerddan, yn lle gwych ar gyfer cydweithio diwydiannol ac academaidd ei natur.

Mae prosiectau Ymchwil a Datblygu yn ArloesiAber yn mynd i'r afael â rhai o'r heriau mwyaf dybryd ein hoes, megis lliniaru newid hinsawdd, diogelwch bwyd ac ynni gwyrdd. Bydd arloesi'n llwyddiannus yn y meysydd hyn yn allweddol er mwyn meithrin bioeconomi gynaliadwy sy'n seiliedig ar wybodaeth.

Gan adeiladu ar fri a hanes balch Prifysgol Aberystwyth o ymchwil amaethyddol a biowyddonol, yn ogystal â'i gysylltiadau agos â phartneriaid allweddol y diwydiannau, mae ArloesiAber yn cynnig amrywiaeth o adnoddau o'r radd flaenaf er mwyn cefnogi gwaith ymchwil a datblygu arloesol. Mae'r adnoddau'n cynnwys Canolfan Bioburo, Canolfan Bwydydd y Dyfodol, Uwch Ganolfan Ddadansoddi a Biofanc Hadau, ac mae Canolfan Arloesi ar gyfer hyfforddiant, cydweithio a chynadledda yn cefnogi'r gwaith hwn.

Mae Liliana Castillo Villamor wedi cwblhau Doethuriaeth yn ddiweddar ym maes Synhwyro Delweddau Geothermol yn yr Adran Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear. Â chymorth y ddarpariaeth datblygu menter yn y Brifysgol ac yn ArloesiAber, mae Liliana wedi sefydlu Amigrow. Llwyfan yw hwn sy'n cyfuno dysgu peirianyddol â delweddau lloeren i helpu ffermwyr i gynyddu'u cnwd. Meddai Liliana:

> "Mae bod yn rhan o ArloesiAber yn sicrhau cyfle unigryw i rwydweithio â sefydliadau o'r sector busnes ac ymchwil. Pan fyddwch yn ymuno ag ArloesiAber, gallwch fanteisio ar adnoddau ffisegol a dod yn aelod o rwydwaith sy'n eich galluogi chi i fanteisio ar weithdai, digwyddiadau, cyfleoedd cyllido, a llawer mwy."

# Gradd a allai eich tywys i'r blaned Mawrth:

## hanes un myfyriwr

**Yn sgil cyfle i weithio ar brosiect Asiantaeth Ofod Ewrop (ESA)/Roscosmos ar y blaned Mawrth, aeth myfyriwr o Brifysgol Aberystwyth gam yn nes at yrfa yn y diwydiant gofod. Treuliodd Ariel Ladegaard o Bergen, Norwy gyfnod o amser yn Anialwch Atacama yn Chile, fel rhan o brofion maes ESA i brofi cerbyd, wrth i wyddonwyr baratoi i chwilio am fywyd ar y blaned goch.**

Pan oedd yn fyfyriwr israddedig yn astudio Gwyddor y Gofod a Roboteg yn Aberystwyth, gwahoddwyd Ariel gan y darlithydd cyfrifiadureg Dr Helen Miles i edrych ar sut y gellid cywiro delweddau a anfonir yn ôl o'r blaned Mawrth i adlewyrchu gwir liwiau'r blaned. Mae Dr Miles a'i chyd-weithwyr wedi bod yn gweithio ar PanCam - system camera panoramig y prosiect, gan fod â'r dasg o gipio delweddau stereo a 3D o dir y blaned i'w hastudio gan ddaearegwyr wrth iddynt chwilio am fwynau a allai ddangos presenoldeb dŵr a chonglfeini cynnal bywyd.

Ar gyfer ei brosiect israddedig blwyddyn olaf yn 2018, gosodwyd yr her i Ariel ddatblygu pecyn meddalwedd prototeip a allai wneud iawn am ddiffygion yng nghamera'r prosiect, a'r draul ar y camera wrth weithio yn amgylchedd gelyniaethus Mawrth. Canolbwyntiai gwaith Ariel ar ddatblygu fframwaith prawf cysyniad ar gyfer y cywiro, a defnyddiodd waith a wnaed ar lawr gwlad ar gyfer Telesgop Gofod James Webb yn NASA.

Ac yntau bellach yn fyfyriwr PhD yn Aberystwyth, mae Ariel yn gweithio ar y cam nesaf ac yn datblygu'r algorithmau ar gyfer cywiro'r delweddau.

Wrth siarad am ei waith ar ExoMars, ychwanegodd Ariel: "Mae wedi bod yn braf iawn gweld pa mor agored y mae pobl yng nghymuned ExoMars wedi bod i bobl newydd yn dod i mewn gyda chwestiynau a gyda'u syniadau a'u barn eu hunain ar bethau. Ar y dechrau, roedd y prosiect ei hun bron â mynd yn drech na mi, gan ei fod wedi bod ar y gweill ers cymaint o amser. Mae hynny'n dipyn o rwystr i bobl newydd sy'n cyrraedd wrth geisio deall yn union sut mae popeth yn cyd-fynd â'i gilydd, nid yn unig ar lefel dechnegol, ond hefyd ar y lefelau cymdeithasol a gwleidyddol. Ond y mwyaf rydw i'n ymchwilio iddo, fodd bynnag, y mwyaf hyderus ydw i fod gennyf rywbeth i'w gynnig i'r prosiect."

Yn ogystal â datblygu meddalwedd i brosesu delweddau, mae Ariel wedi bod yn ymwneud ag ExoFiT, sef profion maes dan arweiniad Airbus gan ESA yn Sbaen a Chile wrth ddefnyddio cerbyd prototeip tebyg i ExoMars. Wrth weithio ger Arsyllfa Paranal yn uchel yn Anialwch Atacama ym mis Chwefror 2019, roedd yn rhan o'r tîm oedd yn profi gweithdrefnau a dulliau'r prosiect o gasglu gwyddoniaeth. Roedd hefyd yn gyfle i roi'r weithdrefn prosesu delweddau ar brawf, gan anfon lluniau yn ôl i'r Deyrnas Unedig i'w cywiro.



"Mae Aberystwyth wedi bod yn wych. Dyma bopeth y gallwn fod wedi gobeithio ei gael drwy addysg, o ran pa mor gyflym rydw i wedi gallu cymryd rhan mewn rhywbeth ystyrlon i mi: prosiect go iawn. Fy nod yw mynd i weithio yn y maes archwilio gofod robotig - diwydiant arbenigol a all fod yn anodd mynd i mewn iddo - ond yn sicr mae Aberystwyth wedi agor y drws i mi."



# Astudiaethau uwchraddedig yn Aberystwyth

**Yn Aberystwyth rydym yn cynnig cyfleoedd amrywiol ar gyfer astudiaethau uwchraddedig, a'r rheiny'n amrywio o Ddiplomâu a Thystysgrifau i raddau a ddysgir a graddau ymchwil.**





## Ein pynciau


| | |
|---|---|
| Addysg | t.24 |
| Astudiaethau Gwybodaeth | t.36 |
| Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu | t.44 |
| Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig | t.54 |
| Astudiaethau Busnes | t.76 |
| Celf | t.90 |
| Cyfrifiadureg | t.98 |
| Cymraeg ac Astudiaethau Celtaidd | t.110 |
| Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear | t.116 |
| Ffiseg | t.124 |
| Gwleidyddiaeth Ryngwladol | t.130 |
| Hanes a Hanes Cymru | t.138 |
| Ieithoedd Modern | t.146 |
| Mathemateg | t.152 |
| Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol | t.158 |
| Seicoleg | t.164 |
| Y Gyfraith a Throseddeg | t.170 |


## Graddau a ddysgir (EMBA, EMMgt, MA, MSc, LLM, MRes, MBA)

Yn draddodiadol mae'r rhain yn cynnwys dau semester o addysgu, sef darlithoedd a/neu seminarau traddodiadol fel arfer, ac yna'r trydydd semester yn astudio ar eich pen eich hunain, fel arfer i gwblhau traethawd hir a/neu brosiect dan oruchwyliaeth. Fel arfer astudir y graddau hyn fel cwrs preswyl blwyddyn yn y Brifysgol. Mae'r MRes yn rhaglen a addysgir sydd â mwy o bwyslais ar yr elfen traethawd hir/prosiect.

Mewn rhai meysydd, gellir astudio am Dystysgrif Uwchraddedig neu Ddiploma Uwchraddedig. Mae'r rhain yn gyrsiau sy'n fyrrach na'r rhaglen Meistr llawn.

## Graddau ymchwil (MPhil, PhD, DAg, DProf, LLM drwy Ymchwil)

Mae'r rhain yn canolbwyntio ar brosiectau ymchwil ac yn cynnwys astudiaeth fanwl mewn maes penodol. Rhaid i'r astudiaeth hon fod yn gydnaws â diddordebau ymchwil yr adran academaidd sy'n goruchwylio'r prosiect, a phortffolio'r Brifysgol yn gyffredinol. Mae'r gwaith a gynhyrchir yn waith gwreiddiol y gellir ei gyhoeddi, a chyflwynir ei ganlyniadau mewn traethawd ymchwil. Bydd ymgeiswyr PhD yn cyflwyno ac yn amddiffyn eu traethwd ymchwil mewn arholiad llafar (viva voce) ar ddiwedd y cyfnod astudio. Rhaid i fyfyrwyr ymchwil amser llawn fod yn Aberystwyth am o leiaf 44 wythnos y flwyddyn.

## Hyfforddi Athrawon (TAR)

Mae ein rhaglen arloesol Addysg Gychwynnol i Athrawon (TAR) yn cael ei hastudio ar sail amser llawn. Cewch eich rhoi yn un o'n hysgolion partner cynradd neu uwchradd am gyfanswm o 26 wythnos, ac ar gyfer elfen y cwrs a ddysgir byddwch yn aros ym Mhrifysgol Aberystwyth am 8 wythnos. Cewch eich asesu'n barhaus trwy gydol y tri lleoliad.

## Dulliau astudio

Caiff y rhan fwyaf o'n cyrsiau eu haddysgu yn llawn amser, ond gellir astudio rhai ohonynt yn rhan-amser hefyd, ac mae hynny'n cynnig yr hyblygrwydd i chi ffitio'ch gradd o gwmpas eich bywyd gwaith neu fywyd teulu.

Mae ambell gwrs hefyd ar gael drwy Ddysgu o Bell. Fe welwch ein bod hefyd wedi cynnwys Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) a chyrsiau byr yn y prosbectws hwn, er hwylustod i chi.

## Gofynion mynediad

Fel arfer, y gofyniad lleiaf i gael eich derbyn i'r rhan fwyaf o gyrsiau Meistr a ddysgir yw gradd anrhydedd ail ddosbarth is (2:2).

Os ydych chi'n gwneud cais am gwrs ymchwil neu gwrs Meistr neu PhD a ariennir, dylech fod â – neu'n disgwyl ennill – gradd anrhydedd ail ddosbarth uwch (2:1) neu radd uwch, a gall fod angen gradd Meistr berthnasol ar rai rhaglenni PhD.

Mae croeso i bobl heb radd sydd ag o leiaf dwy flynedd o brofiad gwaith amser llawn perthnasol wneud cais am unrhyw gwrs Meistr. Byddwn yn pwyso a mesur eich cais yn unigol. Os ydych o dramor ac nad Saesneg yw eich iaith gyntaf, yna bydd gofyn i chi fodloni gofynion iaith Saesneg y Brifysgol (gweler ein gwefan).

# Ysgol y Graddedigion

**Bydd Ysgol y Graddedigion yn cynorthwyo ac ehangu eich profiad uwchraddedig a'ch helpu i ragori ym mhob agwedd academaidd o'ch astudiaethau.**

## Rhaglen ehangu gyrfaoedd

Mae ein rhaglen ehangu gyrfaoedd, a gefnogir yn helaeth gan Wasanaeth Gyrfaoedd y Brifysgol, yn ymdrin ag amrywiaeth o gyfleoedd i ymgysylltu â'r cyhoedd, a chyfleoedd masnachol a gwirfoddol a fydd yn eich cynorthwyo i gysylltu eich astudiaethau â chyrff allanol anacademaidd.

## Rhaglen hyfforddi athrawon

Er mwyn cefnogi uwchraddedigion sy'n cyfrannu at agweddau addysgu'r Brifysgol, rydym wedi datblygu rhaglen hyfforddi athrawon sy'n rhoi ystod o sgiliau addysgu i chi, a hynny'n amrywio o sesiynau tiwtorial i ddarlithoedd ac asesu. Hefyd, drwy'r rhaglen Addysgu i Uwchraddedigion ym Mhrifysgol Aberystwyth (AUMA), gallech ddatblygu eich sgiliau addysgu ymhellach a dod yn Gymrawd Cyswllt o'r Academi Addysg Uwch (AFHEA).

## Rhaglen datblygu ymchwilwyr

Trwy gyfres o fodiwlau generig a phwnc-benodol, gall ein Rhaglen Datblygu Ymchwilwyr ddatblygu eich sgiliau ymchwil ymhellach. Mae'r rhaglen hon yn ceisio ymdrin ag agweddau gwahanol ar y Fframwaith Datblygu Ymchwilwyr Vitae (**www.vitae.ac.uk**). Rydym hefyd yn ymroddedig i gynnal rhannau o'r rhaglen hon trwy gyfrwng y Gymraeg.

## Ysgoloriaethau

Gellir darparu ysgoloriaethau llawn drwy ein hymwneud â nifer o gydweithrediadau hyfforddi doethurol a gyllidir gan Ymchwil ac Arloesi yn y DU, a thrwy ysgoloriaethau AberDoc.

## Ysgoloriaethau AberDoc

Ysgoloriaethau a ddyfernir, trwy broses gystadleuol, i ymgeiswyr llwyddiannus am gwrs PhD amser llawn yn unrhyw ddisgyblaeth. Maent yn talu ffioedd dysgu am gyfnod cofrestriad 3 blynedd.

## Ysgoloriaeth Graddedigion

Os ydych eisoes yn fyfyriwr yn Aberystwyth, ac yn ystyried aros yma i astudio gradd uwchraddedig efallai eich bod yn gymwys i dderbyn disgownt gwerth 10-20% oddi ar eich ffioedd dysgu.



# Dysgu trwy'r Gymraeg

**Mae Prifysgol Aberystwyth yn croesawu graddedigion sydd am gyflwyno eu gwaith yn Gymraeg a cheir yma Gyfarwyddwyr ymchwil sy'n gallu cynnig cefnogaeth a chymorth drwy'r Gymraeg. Gellir astudio ein cyrsiau TAR Uwchradd drwy gyfrwng y Gymraeg ac mae cyrsiau Meistr Cyfrwng Cymraeg ar gael hefyd.**

Ar ein cyrsiau PhD/MPhil, mae goruchwyliaeth ar gael yn Gymraeg yn y pynciau canlynol: Addysg, Amaethyddiaeth, Astudiaethau Theatr/Drama, Astudiaethau Ffilm a Theledu, Busnes/Marchnata, Cyfrifiadureg, Cymraeg, Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear, Ffiseg, Gwleidyddiaeth Ryngwladol, Gwyddorau Biolegol, Hanes, Mathemateg, Milfeddygaeth, Saesneg, Seicoleg, y Gyfraith. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r adran berthnasol.

## Cynhadledd Ymchwil

Mae'r Coleg yn trefnu Cynhadledd Ymchwil Cyfrwng Cymraeg flynyddol sydd yn gynhadledd ryngddisgyblaethol ar gyfer myfyrwyr ymchwil ac ysgolheigion mwy profiadol. Dyma gyfle i gyflwyno papur ymchwil a/neu glywed am waith ymchwil a gyflawnir gan eraill. Mae Aberystwyth hefyd yn falch o fod yn lleoliad sefydlog i Gynhadledd Wyddonol Gymraeg y Coleg, a chynhelir cynadleddau Cymraeg a dwyieithog amrywiol o dan nawdd y Coleg neu Gangen Prifysgol Aberystwyth yma yn rheolaidd. Hyd yn hyn, mae meysydd y cynadleddau wedi cynnwys hanes, busnes ac entrepreneuriaeth, astudiaethau ieithyddol ac astudiaethau Celtaidd.

## Seminarau ymchwil

Mae nifer o adrannau yn cynnal seminarau ymchwil sy'n rhoi cyfle i raddedigion hogi eu sgiliau cyflwyno. Yn ogystal â'r rhain fe gynhelir cyfres o seminarau ymchwil cyfrwng Cymraeg amlddisgyblaethol yn flynyddol sy'n agored i bawb sy'n medru'r Gymraeg, beth bynnag yw cyfrwng iaith eu hastudiaethau.

## Hyfforddiant ymchwil

Mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn cynnig hyfforddiant ymchwil trwy gyfrwng y Gymraeg sydd ar gael i bawb, nid i ddeiliaid ysgoloriaethau yn unig. Ochr yn ochr â'r ddarpariaeth hon mae Ysgol Graddedigion y Brifysgol yn cynnig rhaglen gynhwysfawr o hyfforddiant ymchwil sy'n cynnwys rhai modiwlau cyfrwng Cymraeg, sesiynau setlo i mewn a datblygu gyrfa.

## Cymorth ysgrifennu

Mae Aberystwyth yn cynnal wythnos o weithdai ysgrifennu ar gyfer eu myfyrwyr ymchwil a bydd rhai o'r sesiynau hyn yn Gymraeg. Mae gan y Brifysgol diwtor sgiliau academaidd cyfrwng Cymraeg. Mae ar gael i helpu gydag ysgrifennu academaidd yn Gymraeg, megis dod o hyd i adnoddau sydd ar gael yn Gymraeg, sut mae defnyddio deunydd darllen Saesneg wrth ysgrifennu yn Gymraeg, bathu a rheoli termau, cywair academaidd, strwythuro gwaith ysgrifenedig ac yn y blaen. Bydd yn darparu rhaglen o sesiynau grŵp a sesiynau un wrth un. Mae croeso i unrhyw fyfyrwyr fynychu'r sesiynau hyn.



Yr Ysgol

# Addysg

## Graddau a ddysgir

| | |
|---|---|
| TAR | t.26 |
| Cynradd: (3-11 oed) | t.28 |
| Uwchradd: | |
| Bioleg gyda Gwyddoniaeth Gytbwys | t.29 |
| Cemeg gyda Gwyddoniaeth Gytbwys | t.29 |
| Cymraeg | t.30 |
| Daearyddiaeth | t.30 |
| Drama | t.31 |
| Ffiseg gyda Gwyddoniaeth Gytbwys | t.31 |
| Hanes | t.32 |
| Ieithoedd Modern | t.32 |
| Mathemateg | t.33 |
| Saesneg | t.33 |
| Addysg (Cymru), MA | t.34 |

## Graddau ymchwil

| | |
|---|---|
| MPhil, PhD, DProf | t.35 |

Sefydlwyd ein Hysgol yn 1892, ac mae ymhlith yr adrannau Addysg hynaf yn y Deyrnas Unedig. Ein nod yw cyfuno'r gorau o'n traddodiad ni am ragoriaeth academaidd â'r dulliau diweddaraf oll o ddysgu, cysylltu â'r myfyrwyr ac ymchwilio.

Gyda'n cwrs Addysg Gychwynnol i Athrawon (TAR) arloesol , byddwch yn cael profiad yn y sectorau Cynradd ac Uwchradd wrth hyfforddi. Gallech ddechrau eich gyrfa ddysgu gyda chefnogaeth bwrsariaeth TAR gwerth hyd at £20,000.





# TAR

## Addysg Gychwynnol i Athrawon

Yn yr Ysgol Addysg mae ein rhaglen TAR newydd yn cynnig dau lwybr tuag at Statws Athro Cymwysedig (SAC). Rydym wedi datblygu rhaglen arloesol, integredig sy'n ymateb i anghenion addysgu athrawon yn yr 21ain ganrif. Bydd y cwrs hwn yn eich hyfforddi i addysgu yn y sectorau cynradd ac uwchradd. Mae'r pwyslais hwn ar addysgu ar draws y cyfnodau yn unol â Chenhadaeth Genedlaethol Llywodraeth Cymru a'r Cwricwlwm i Gymru, yn ogystal â thwf cynyddol ysgolion pob oed.

Yn ogystal ag Addysg Gychwynnol i Athrawon Cynradd, mae'r Ysgol yn cynnig Addysg Gychwynnol i Athrawon Uwchradd yn y pynciau canlynol: Bioleg gyda Gwyddoniaeth Gytbwys, Cemeg gyda Gwyddoniaeth Gytbwys, Ffiseg gyda Gwyddoniaeth Gytbwys, Drama, Saesneg, Daearyddiaeth, Hanes, Mathemateg, Ieithoedd Modern (Ffrangeg a Sbaeneg) a'r Gymraeg.

Gan ein bod yn sefydliad dwyieithog, gallwch astudio'r holl bynciau hyn trwy gyfrwng y Gymraeg hefyd. Bydd hyn yn eich rhoi mewn sefyllfa i wneud cais am grant cymhelliant cyfrwng Cymraeg y llywodraeth.

I gael rhagor o wybodaeth am sut i ymgeisio, gweler ein tudalennau 'Sut i wneud cais' neu ewch i'n gwefan.

**Pam hyfforddi yn Aberystwyth?**

- Mae ein cwrs Addysg Gychwynnol i Athrawon (TAR) yn eich galluogi i brofi hyfforddiant athrawon mewn ysgolion Cynradd, Uwchradd 3-19 a 3-19.
- Byddwn yn cynnig llety yn y Brifysgol am ddim ar gyfer yr 8 wythnos y disgwylir i chi fod ar y campws (trwy gydol yr amser y byddwch yn y Brifysgol), a chewch ddefnyddio'r holl adnoddau (Undeb y Myfyrwyr, Llyfrgell, aelodaeth Blatinwm o'r Gampfa am ddim).
- Cewch eich dysgu a'ch mentora gan ymarferwyr â phrofiad, gwybodaeth a sgiliau helaeth.
- Mae gennym bartneriaeth ag ysgolion Cynradd ac Uwchradd ar draws canolbarth a gogledd Cymru (ewch i'n gwefan am restr llawn).
- Os nad oes gennych y graddau y gofynnwn amdanynt mewn TGAU Mathemateg, Gwyddoniaeth, Cymraeg neu Saesneg, gallwch ddilyn rhaglen Cyfwerthedd yn y Brifysgol.
- Prifysgol Aberystwyth yw'r unig brifysgol yng Nghymru i'w henwi'n Brifysgol y Flwyddyn am Ansawdd ei Dysgu ddwywaith yn olynol gan Ganllaw Prifysgolion Da y Times a'r Sunday Times (2018 a 2019).
- Mae'r Brifysgol hefyd wedi ennill Gwobr Aur am Astudiaethau Uwchraddedig yng Ngwobrau Dewis Myfyrwyr What University 2019.

**Bwrsariaethau ar gyfer Addysg Gychwynnol i Athrawon**

Mae gan Lywodraeth Cymru Grant Addysg Gychwynnol Athrawon ar gyfer rhai pynciau/llwybrau. Bob blwyddyn, mae Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi, ym mis Chwefror fel arfer, pa bynciau sy'n gymwys a faint o arian sydd ar gael. Gall y bwrsariaethau hyn amrywio ond fe'u cynigir gan amlaf am bynciau uchel eu blaenoriaeth ac am raddau anrhydedd dosbarth cyntaf. Ewch i wefan Addysgwyr Cymru: **www.addysgwyr.cymru** am wybodaeth pellach.

**Strwythur y cwrs**

Bydd y cwrs fel arfer yn rhedeg rhwng mis Medi a diwedd Mehefin. Byddwch ar leoliad mewn ysgolion am 26 wythnos. Gydag arweiniad gan diwtoriaid y Brifysgol a mentoriaid ysgol sydd wedi eu hyfforddi, bydd hyn yn cynnwys addysgu yn y dosbarth a gwahanol weithgareddau yn yr ysgol. Yn ystod eich 8 wythnos bloc prifysgol rydych yn mynychu'r rhan o'ch cwrs a ddysgir yn y Brifysgol. Y Brifysgol ynghyd ag ysgolion arweiniol y bartneriaeth fydd yn trefnu eich lleoliad ysgol.

Yn ystod eich lleoliad ysgol cewch gyfle i addysgu, cynllunio eich gwersi ac mewn rhai achosion i gymryd rhan yn y gofal bugeiliol sydd bellach yn rhan o fod yn athro, ymysg dyletswyddau eraill. Mae'r rhan fwyaf o'n myfyrwyr sy'n dychwelyd o brofiad mewn ysgol wedi gwirioneddol fwynhau, ac yn dweud eu bod wedi teimlo'n rhan o'r ysgol.

**Asesiad**

Bydd sawl ffurf o asesu athrawon dan hyfforddiant, gan gynnwys traethodau, ysgrifennu adfyfyriol, cyflwyniadau, cynlluniau gwersi, a phrosiect ymchwil gweithredol. Nid oes arholiadau ffurfiol. Mae asesiad o'r ymarfer dysgu yn digwydd trwy gydol y tri lleoliad ac yn barhaus.

**Rhaglenni cyfwerthedd**

Bydd ymgeiswyr TGAU nad ydynt yn bodloni'r gofynion ar gyfer TGAU Saesneg, Cymraeg, Mathemateg a Gwyddoniaeth yn cael cynnig cyfle i ddilyn rhaglen cyfwerthedd. Lluniwyd y rhaglenni hyn er mwyn bodloni gofynion gradd TGAU er mwyn cael mynediad i gyrsiau Addysg Gychwynnol i Athrawon Prifysgol Aberystwyth yn unig.

**Themâu traws-gwricwlaidd**

Mae pob athro/athrawes yn gyfrifol am addysgu tair thema draws-gwricwlaidd, sef llythrennedd, rhifedd, a chymhwysedd digidol yng nghyd-destun eu pwnc eu hunain. Cefnogir myfyrwyr wrth gynllunio darpariaeth llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol yng nghyd-destun eu gwersi eu hunain.

**Astudio trwy gyfrwng y Gymraeg**

Gan ein bod yn sefydliad ddwyieithog, gallwch astudio'r holl bynciau hyn trwy gyfrwng y Gymraeg hefyd. Am ragor o wybodaeth ewch i'n gwefan.





# Cynradd (3-11 oed)

Cymraeg ar gael drwy'r Gymraeg 100%

## TAR (Cynradd)

Bwriad y cwrs TAR cynradd yw eich galluogi i ddatblygu'r sgiliau proffesiynol y bydd eu hangen arnoch i ddod yn athrawon llwyddiannus sydd yn gallu ennyn diddordeb pob dysgwr ac arwain dysgu ar draws yr ystod oedran cynradd.

Gan weithio ar draws pob Maes Dysgu a Phrofiad, byddwch yn gweithio gydag ymarferwyr medrus a phrofiadol i ddysgu sut mae addysgu dysgwyr uchelgeisiol, medrus a hyderus sy'n wybodus a hyderus am y byd y tu hwnt i'r ysgol. Mae hwn yn gwrs arloesol a fydd yn rhoi dealltwriaeth gyfoethog i chi o ddilyniant disgyblion i gyfnodau nesaf eu haddysg wrth i chi ymwneud â phrofiadau penodol mewn cyfnodau eraill o addysg.

Ar y cyd â'ch cyd-athrawon dan hyfforddiant sy'n dilyn y cwrs cynradd a chyrsiau uwchradd eraill, byddwch yn astudio egwyddorion addysgeg effeithiol, asesu, cynllunio gwersi a chynllunio cwricwlwm. Byddwch yn cymryd rhan weithredol mewn dysgu, cyfrannu at seminarau, cyflwyniadau ac yn rhoi ystyriaeth feirniadol i ymchwil. Yn ystod y cyfnodau yn y Brifysgol, byddwch yn cynllunio ac yn cyflwyno micro-wersi er mwyn paratoi at elfen ymarferol y cwrs. Byddwch yn astudio holl ystod y cwricwlwm cynradd gyda chyfle i ganolbwyntio ar feysydd a chyfnodau arbenigol naill ai yn y Cyfnod Sylfaen neu'r Cynradd Uwch. Byddwch hefyd yn cwblhau project ymchwil gweithredol er mwyn datblygu elfen ar eich ymarfer a chychwyn eich gyrfa fel athro/athrawes sy'n hyddysg mewn ymchwil.

Yn ogystal â lleoliadau arbenigol mewn ysgolion cynradd, cewch brofiad o leoliad byr mewn ysgol uwchradd gydag athrawon cynradd sydd â sgiliau arbennig.

### Ffeithiau allweddol

**Math o radd:** TAR

**Cod y cwrs:** 3DHL

**Hyd:** 1 flwyddyn (amser llawn)

**Gofynion mynediad:** Gradd Baglor (Anrhydedd) neu gyfatebol. Bydd hefyd angen TGAU gradd B neu'n uwch mewn Mathemateg, a Saesneg neu Gymraeg (iaith gyntaf), ac C yn un o'r gwyddorau.



# Bioleg gyda Gwyddoniaeth Gytbwys

Cymraeg ar gael drwy'r Gymraeg 100%

## TAR (Uwchradd)

Bwriad y cwrs Bioleg yw eich galluogi i ddatblygu'r sgiliau proffesiynol y bydd eu hangen arnoch i fod yn athrawon llwyddiannus sy'n gallu datblygu sgiliau a dealltwriaeth dysgwyr o Fioleg, a'i ddefnydd.

Byddwch yn astudio'r cwricwlwm Bioleg o fewn y Maes Dysgu a Phrofiad Gwyddoniaeth a Thechnoleg a byddwch yn cydweithio â myfyrwyr o feysydd pynciol eraill i ddatblygu eich arferion tra'n gweithio ar draws y cwricwlwm. Byddwch yn canolbwyntio ar ddysgu Bioleg yn rhan o'r TGAU sengl a dwbl ac UG/Safon Uwch Bioleg. Mae pob myfyriwr yn derbyn hyfforddiant i ddysgu Gwyddoniaeth Gytbwys i ddisgyblion CA3.

Yn ogystal â lleoliadau arbenigol mewn ysgolion uwchradd, cewch brofiad o leoliad byr mewn ysgol gynradd gydag athrawon cynradd medrus. Byddwch hefyd yn cwblhau prosiect ymchwil gweithredol er mwyn datblygu elfen ar eich ymarfer a chychwyn eich gyrfa fel athrawon sy'n hyddysg mewn ymchwil.

### Ffeithiau allweddol

**Math o radd:** TAR

**Cod y cwrs:** 3DGQ

**Hyd:** 1 flwyddyn (amser llawn)

**Gofynion mynediad:** Gradd Baglor (Anrhydedd) neu gyfatebol, gydag o leiaf 50% ohono yn berthnasol i Fioleg. Bydd hefyd angen TGAU gradd B neu'n uwch mewn Mathemateg, a Saesneg neu Gymraeg (iaith gyntaf).

# Cemeg gyda Gwyddoniaeth Gytbwys

Cymraeg ar gael drwy'r Gymraeg 100%

## TAR (Uwchradd)

Bwriad y cwrs Cemeg yw eich galluogi i ddatblygu'r sgiliau proffesiynol y bydd eu hangen arnoch i fod yn athrawon llwyddiannus sy'n gallu datblygu sgiliau a dealltwriaeth dysgwyr o Gemeg, a'i ddefnydd.

Byddwch yn astudio'r cwricwlwm Cemeg o fewn y Maes Dysgu a Phrofiad Gwyddoniaeth a Thechnoleg a byddwch yn cydweithio â myfyrwyr o feysydd pynciol eraill i ddatblygu eich arferion tra'n gweithio ar draws y cwricwlwm. Byddwch yn canolbwyntio ar ddysgu Cemeg yn rhan o'r TGAU sengl a dwbl ac UG/Safon Uwch Cemeg. Mae pob myfyriwr yn derbyn hyfforddiant i ddysgu Gwyddoniaeth Gytbwys i ddisgyblion CA3.

Yn ogystal â lleoliadau arbenigol mewn ysgolion uwchradd, cewch brofiad o leoliad byr mewn ysgol gynradd gydag athrawon cynradd sydd â sgiliau arbennig. Byddwch hefyd yn cwblhau prosiect ymchwil gweithredol er mwyn datblygu elfen ar eich ymarfer a chychwyn eich gyrfa fel athrawon sy'n hyddysg mewn ymchwil.

### Ffeithiau allweddol

**Math o radd:** TAR

**Cod y cwrs:** 3DGS

**Hyd:** 1 flwyddyn (amser llawn)

**Gofynion mynediad:** Gradd Baglor (Anrhydedd) neu gyfatebol, gydag o leiaf 50% ohono yn berthnasol i Gemeg. Bydd hefyd angen TGAU gradd B neu'n uwch mewn Mathemateg, a Saesneg neu Gymraeg (iaith gyntaf).

# Cymraeg

ar gael drwy'r Gymraeg 100%

## TAR (Uwchradd)

Bwriad y cwrs Cymraeg yw eich galluogi i ddatblygu'r sgiliau proffesiynol y bydd eu hangen arnoch i fod yn athrawon llwyddiannus sy'n gallu cymell dysgwyr i ymateb yn feirniadol ac yn greadigol i iaith a llenyddiaeth. Y nod yw meithrin disgyblion i ddod yn siaradwyr hyderus mewn amrywiol gyweiriau, yn ddarllenwyr brwd ac yn ysgrifennwyr hyderus a fydd yn gallu mynegi eu hunain yn glir a chroyw.

Byddwch yn astudio cwricwlwm y Gymraeg o fewn y Maes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Dysgu a Chyfathrebu. Trwy gydweithio â myfyrwyr mewn meysydd pynciol eraill ar draws y cwricwlwm, byddwch yn datblygu dealltwriaeth fanwl o bryd a ble mae gweithgareddau arbennig yn addas er mwyn sicrhau dysgu effeithiol.

Bydd y cwrs yn canolbwyntio ar ddysgu'r Gymraeg i holl ystod oed uwchradd, gan gynnwys manylebau Cymraeg TGAU ac UG/Safon Uwch yn y Gymraeg (iaith gyntaf) neu Cymraeg Ail Iaith.

Yn ogystal â lleoliadau arbenigol mewn ysgolion uwchradd, cewch brofiad o leoliad byr mewn ysgol gynradd gydag athrawon cynradd medrus. Byddwch hefyd yn cwblhau prosiect ymchwil gweithredol er mwyn datblygu elfen ar eich ymarfer a chychwyn eich gyrfa fel athro/athrawes sy'n hyddysg mewn ymchwil.

### Ffeithiau allweddol

- **Math o radd:** TAR
- **Cod y cwrs:** 3DHH
- **Hyd:** 1 flwyddyn (amser llawn)
- **Gofynion mynediad:** Gradd Baglor (Anrhydedd) neu gyfatebol, gydag o leiaf 50% o'r radd yn berthnasol i Gymraeg. Bydd hefyd angen TGAU gradd B neu'n uwch mewn Mathemateg, a Saesneg neu Gymraeg (iaith gyntaf).

# Daearyddiaeth

ar gael drwy'r Gymraeg 100%

## TAR (Uwchradd)

Bwriad y cwrs Daearyddiaeth yw eich galluogi i ddatblygu'r sgiliau proffesiynol y bydd eu hangen arnoch i fod yn ymarferwyr egnïol, creadigol, a brwdfrydig er mwyn cymell dysgwyr i fod yn awyddus i ddarganfod mwy am y gymdeithas a'r byd.

Mae'r cwrs TAR Daearyddiaeth yn ymwneud â dulliau damcaniaethol ac ymarferol o ddysgu Daearyddiaeth i holl ystod oed uwchradd, gan gynnwys TGAU ac UG/Safon Uwch. Mae hyn yn cynnwys astudio amrediad o strategaethau dysgu ac addysgu mewn amrywiaeth o'r sefyllfaoedd dosbarth rydych yn debygol o ddod ar eu traws. Trwy gydweithio â myfyrwyr mewn meysydd pynciol eraill ar draws y cwricwlwm, byddwch yn datblygu dealltwriaeth fanwl o bryd a ble mae gweithgareddau arbennig yn addas er mwyn sicrhau dysgu effeithiol.

Yn ogystal â lleoliadau arbenigol mewn ysgolion uwchradd, cewch brofiad o leoliad byr mewn ysgol gynradd gydag athrawon cynradd medrus. Byddwch hefyd yn cwblhau prosiect ymchwil gweithredol er mwyn datblygu elfen ar eich ymarfer a chychwyn eich gyrfa fel athro/athrawes sy'n hyddysg mewn ymchwil.

### Ffeithiau allweddol

- **Math o radd:** TAR
- **Cod y cwrs:** 3DH4
- **Hyd:** 1 flwyddyn (amser llawn)
- **Gofynion mynediad:** Gradd Baglor (Anrhydedd) neu gyfatebol, gydag o leiaf 50% ohono yn berthnasol i Ddaearyddiaeth. Bydd hefyd angen TGAU gradd B neu'n uwch mewn Mathemateg, a Saesneg neu Gymraeg (iaith gyntaf).



# Drama

ar gael drwy'r Gymraeg 100%

## TAR (Uwchradd)

Bwriad y cwrs Drama yw eich galluogi i ddatblygu'r sgiliau proffesiynol y bydd eu hangen arnoch i fod yn athrawon llwyddiannus sy'n gallu datblygu sgiliau dysgwyr i'w galluogi i archwilio, ymateb a chreu.

Byddwch yn astudio'r cwricwlwm Drama o fewn Maes Dysgu a Phrofiad y Celfyddydau Mynegiannol, a byddwch yn cydweithio â myfyrwyr o feysydd pynciol eraill i ddatblygu eich arferion tra'n gweithio ar draws y cwricwlwm. Byddwch yn canolbwyntio ar ddysgu sesiynau ymarferol, dyfeisgar ac yn seiliedig ar destunau i holl ystod oed uwchradd, gan gynnwys manylebau TGAU ac UG/Safon Uwch Drama a'r Celfyddydau Perfformio.

Yn ogystal â lleoliadau arbenigol mewn ysgolion uwchradd, cewch brofiad o leoliad byr mewn ysgol gynradd gydag athrawon cynradd medrus. Byddwch hefyd yn cwblhau prosiect ymchwil gweithredol er mwyn datblygu elfen ar eich ymarfer a chychwyn eich gyrfa fel athrawon sy'n hyddysg mewn ymchwil.

### Ffeithiau allweddol

- **Math o radd:** TAR
- **Cod y cwrs:** 3DGY
- **Hyd:** 1 flwyddyn (amser llawn)
- **Gofynion mynediad:** Gradd Baglor (Anrhydedd) neu gyfatebol, gydag o leiaf 50% ohono yn berthnasol i Ddrama. Bydd hefyd angen TGAU gradd B neu'n uwch mewn Mathemateg, a Saesneg neu Gymraeg (iaith gyntaf).

# Ffiseg gyda Gwyddoniaeth Gytbwys

ar gael drwy'r Gymraeg 100%

## TAR (Uwchradd)

Bwriad y cwrs Ffiseg yw eich galluogi i ddatblygu'r sgiliau proffesiynol y bydd eu hangen arnoch i fod yn athrawon llwyddiannus sy'n gallu datblygu sgiliau a dealltwriaeth dysgwyr o Ffiseg, a'i ddefnydd.

Byddwch yn astudio'r cwricwlwm Ffiseg o fewn y Maes Dysgu a Phrofiad Gwyddoniaeth a Thechnoleg a byddwch yn cydweithio â myfyrwyr o feysydd pynciol eraill i ddatblygu eich arferion tra'n gweithio ar draws y cwricwlwm. Byddwch yn canolbwyntio ar ddysgu Ffiseg yn rhan o TGAU sengl a dwbl ac UG/Safon Uwch Ffiseg. Mae pob myfyriwr yn derbyn hyfforddiant i ddysgu Gwyddoniaeth Gytbwys i ddisgyblion CA3.

Yn ogystal â lleoliadau arbenigol mewn ysgolion uwchradd, cewch brofiad o leoliad byr mewn ysgol gynradd gydag athrawon cynradd medrus. Byddwch hefyd yn cwblhau prosiect ymchwil gweithredol er mwyn datblygu elfen ar eich ymarfer a chychwyn eich gyrfa fel athrawon sy'n hyddysg mewn ymchwil.

### Ffeithiau allweddol

- **Math o radd:** TAR
- **Cod y cwrs:** 3DGW
- **Hyd:** 1 flwyddyn (amser llawn)
- **Gofynion mynediad:** Gradd Baglor (Anrhydedd) neu gyfatebol, gydag o leiaf 50% ohono yn berthnasol i Ffiseg. Bydd hefyd angen TGAU gradd B neu'n uwch mewn Mathemateg, a Saesneg neu Gymraeg (iaith gyntaf).

# Hanes

ar gael drwy'r Gymraeg 100%

## TAR (Uwchradd)

Bwriad y cwrs Hanes yw eich galluogi i ddatblygu'r sgiliau proffesiynol y bydd eu hangen arnoch i fod yn ymarferwyr egnïol, creadigol, a brwdfrydig er mwyn cymell dysgwyr i fod yn awyddus i ddarganfod mwy am y gymdeithas a'r byd.

Mae'r cwrs TAR Hanes yn ymwneud â dulliau damcaniaethol ac ymarferol o ddysgu Hanes i holl ystod oed uwchradd, gan gynnwys TGAU ac UG/Safon Uwch. Mae hyn yn cynnwys astudio amrediad o strategaethau dysgu ac addysgu mewn amrywiaeth o'r sefyllfaoedd dosbarth rydych yn debygol o ddod ar eu traws. Trwy gydweithio â myfyrwyr mewn meysydd pynciol eraill ar draws y cwricwlwm, byddwch yn datblygu dealltwriaeth fanwl o bryd a ble mae gweithgareddau arbennig yn addas er mwyn sicrhau dysgu effeithiol.

Yn ogystal â lleoliadau arbenigol mewn ysgolion uwchradd, cewch brofiad o leoliad byr mewn ysgol gynradd gydag athrawon cynradd medrus. Byddwch hefyd yn cwblhau prosiect ymchwil gweithredol er mwyn datblygu elfen ar eich ymarfer a chychwyn eich gyrfa fel athro/athrawes sy'n hyddysg mewn ymchwil.

### Ffeithiau allweddol

- **Math o radd:** TAR
- **Cod y cwrs:** 3DH6
- **Hyd:** 1 flwyddyn (amser llawn)
- **Gofynion mynediad:** Gradd Baglor (Anrhydedd) neu gyfatebol, gydag o leiaf 50% ohono yn berthnasol i Hanes. Bydd hefyd angen TGAU gradd B neu'n uwch mewn Mathemateg, a Saesneg neu Gymraeg (iaith gyntaf).

# Ieithoedd Modern (Ffrangeg/Sbaeneg)

ar gael drwy'r Gymraeg 100%

## TAR (Uwchradd)

Bwriad y cwrs Ieithoedd Modern yw eich galluogi i ddatblygu'r sgiliau proffesiynol y bydd eu hangen arnoch i fod yn athrawon llwyddiannus sy'n gallu datblygu meistrolaeth dysgwyr i ddefnyddio'r iaith dramor maent yn ei hastudio. Gallwch astudio un neu ddwy iaith yn ystod eich cwrs Addysg Gychwynnol Athrawon (TAR).

Ym Mhartneriaeth Addysg Gychwynnol i Athrawon Aberystwyth, byddwch yn cael eich hyfforddi i addysgu eich iaith dramor fodern eich hun, neu gyfuniad o ieithoedd hyd yn oed. Bydd y cwrs yn cynnwys methodoleg addysgu iaith wedi'i chymhwyso i'ch arbenigedd, er enghraifft Ffrangeg a/neu Sbaeneg, Sbaeneg a/neu Ffrangeg.

Trwy weithio ym Maes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu, byddwch yn hyfforddi i addysgu pobl ifanc i ddod yn bobl greadigol, uchelgeisiol, egwyddorol a hyderus wrth ddarganfod mwy am y gymdeithas a'r byd ac yn arbennig y wlad y maent yn ei hastudio. Byddwch yn canolbwyntio ar ddysgu Ieithoedd Modern i holl ystod oed uwchradd, gan gynnwys manylebau TGAU Ffrangeg neu Sbaeneg ac UG/Safon Uwch Ieithoedd Modern.

Yn ogystal â lleoliadau arbenigol mewn ysgolion uwchradd, cewch brofiad o leoliad byr mewn ysgol gynradd gydag athrawon cynradd medrus. Byddwch hefyd yn cwblhau prosiect ymchwil gweithredol er mwyn datblygu elfen ar eich ymarfer a chychwyn eich gyrfa fel athro/athrawes sy'n hyddysg mewn ymchwil.

### Ffeithiau allweddol

- **Math o radd:** TAR
- **Cod y cwrs:** Ffrangeg 3DHB, Sbaeneg 3DHG
- **Hyd:** 1 flwyddyn (amser llawn)
- **Gofynion mynediad:** Gradd Baglor (Anrhydedd) neu gyfatebol, gydag o leiaf 50% o'r radd yn berthnasol i'r iaith y bwriedir ei hastudio. Bydd hefyd angen TGAU gradd B neu'n uwch mewn Mathemateg, a Saesneg neu Gymraeg (iaith gyntaf).



# Mathemateg

ar gael drwy'r Gymraeg 100%

## TAR (Uwchradd)

Bwriad y cwrs Mathemateg yw eich galluogi i ddatblygu'r sgiliau proffesiynol y bydd eu hangen arnoch i fod yn athrawon llwyddiannus sy'n gallu datblygu sgiliau dysgwyr, a'u hyder mewn mathemateg a rhifedd.

Byddwch yn astudio'r cwricwlwm Mathemateg o fewn y Maes Dysgu a Phrofiad Gwyddoniaeth a Thechnoleg a byddwch yn cydweithio â myfyrwyr o feysydd pynciol eraill i ddatblygu eich arferion tra'n gweithio ar draws y cwricwlwm. Byddwch yn canolbwyntio ar ddysgu Mathemateg i holl ystod oed uwchradd, gan gynnwys y manylebau TGAU ac UG/Safon Uwch Mathemateg. Mae gan y Grŵp Partneriaeth Addysg Gychwynnol i Athrawon Statws Rhagoriaeth ar ôl ennill y 'Mathematics Tribal Award'. Mae'r grŵp hefyd wedi ei gymeradwyo gan ERW ar gyfer statws ysgol arfer gorau wrth addysgu mathemateg a rhifedd ar draws y cwricwlwm. Mae pob ysgol yn brofiadol wrth gynnal athrawon dan hyfforddiant.

Yn ogystal â lleoliadau arbenigol mewn ysgolion uwchradd, cewch brofiad o leoliad byr mewn ysgol gynradd gydag athrawon cynradd medrus. Byddwch hefyd yn cwblhau project ymchwil gweithredol er mwyn datblygu elfen ar eich ymarfer a chychwyn eich gyrfa fel athro/athrawes sy'n hyddysg mewn ymchwil.

### Ffeithiau allweddol

- **Math o radd:** TAR
- **Cod y cwrs:** 3DH8
- **Hyd:** 1 flwyddyn (amser llawn)
- **Gofynion mynediad:** Gradd Baglor (Anrhydedd) neu gyfatebol, gydag o leiaf 50% ohono yn berthnasol i Fathemateg. Bydd hefyd angen TGAU gradd B neu'n uwch mewn Mathemateg, a Saesneg neu Gymraeg (iaith gyntaf).

# Saesneg

ar gael drwy'r Gymraeg 100%

## TAR (Uwchradd)

Bwriad y cwrs Saesneg yw eich galluogi i ddatblygu'r sgiliau proffesiynol y bydd eu hangen arnoch i fod yn athrawon llwyddiannus sy'n gallu cymell dysgwyr i ymateb yn feirniadol ac yn greadigol i iaith a llenyddiaeth.

Byddwch yn astudio'r cwricwlwm Saesneg o fewn y Maes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Dysgu a Chyfathrebu a byddwch yn cydweithio â myfyrwyr o feysydd pynciol eraill i ddatblygu eich arferion tra'n gweithio ar draws y cwricwlwm. Byddwch yn canolbwyntio ar ddysgu iaith a llenyddiaeth i holl ystod oed uwchradd, gan gynnwys manylebau TGAU ac UG/Safon Uwch Saesneg Iaith a Llenyddiaeth.

Yn ogystal â lleoliadau arbenigol mewn ysgolion uwchradd, cewch brofiad o leoliad byr mewn ysgol gynradd gydag athrawon cynradd medrus. Byddwch hefyd yn cwblhau prosiect ymchwil gweithredol er mwyn datblygu elfen ar eich ymarfer a chychwyn eich gyrfa fel athro/athrawes sy'n hyddysg mewn ymchwil.

### Ffeithiau allweddol

- **Math o radd:** TAR
- **Cod y cwrs:** 3DH2
- **Hyd:** 1 flwyddyn (amser llawn)
- **Gofynion mynediad:** Gradd Baglor (Anrhydedd) neu gyfatebol, gydag o leiaf 50% ohono yn berthnasol i Saesneg. Bydd hefyd angen TGAU gradd B neu'n uwch mewn Mathemateg, a Saesneg neu Gymraeg (iaith gyntaf).

# Addysg (Cymru)

## MA

Mae'r MA Addysg (Cymru) cenedlaethol yn rhaglen wirioneddol drawsnewidiol ac arloesol ar gyfer gweithwyr addysgol proffesiynol yng Nghymru, o athrawon ar ddechrau gyrfa i uwch arweinwyr.

Mae byd addysg yng Nghymru yn newid yn gyflym. Mae addysgu nid yn unig yn gofyn am feistrolaeth ar set gymhleth o sgiliau i arwain, ysgogi, a hwyluso dysgu myfyrwyr, ond hefyd y gallu i ymholi i ymarfer proffesiynol er mwyn ei wella. Bydd yr MA Cenedlaethol mewn Addysg (Cymru), sydd wedi'i datblygu ar y cyd gan saith prifysgol yng Nghymru, drwy gydweithio'n uniongyrchol ag amrywiaeth o randdeiliaid allweddol gan gynnwys Llywodraeth Cymru - yn sicrhau bod pob gweithiwr addysg proffesiynol yng Nghymru yn cael yr un cyfle o ansawdd uchel i wella ei wybodaeth broffesiynol, ymwneud ag ymchwil, a gwella eu hymarfer proffesiynol.

### Sylwch:

- **Mae'r cwrs yn rhan-amser dros 3 blynedd. Nid oes opsiwn amser llawn.**
- Mae'r rhaglen yn cynnwys 200 awr o astudio fesul modiwl 20 credyd, a bydd 22 ohonynt yn oriau cyswllt. Bydd dysgu yn gyfuniad o sesiynau ar-lein ac wyneb yn wyneb. Bydd y gweithgareddau'n gyfuniad o ddarlithoedd, seminarau, gweithgareddau grŵp a gweithgareddau unigol.
- Bydd myfyrwyr ar y cwrs hwn yn ymuno â myfyrwyr ar yr un cwrs mewn 6 Sefydliad Addysg Uwch arall.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y byddwch o bosibl yn eu hastudio:

- Sgiliau Ymchwil ac Ymholi Uwch
- Anghenion Dysgu Ychwanegol
- Rhagoriaeth Mewn Ymarfer
- Cynllunio a Gwireddu'r Cwricwlwm
- Arfer Sy'n Seiliedig ar Dystiolaeth.

## Ffeithiau allweddol

**Hyd:** 3 blynedd (rhan-amser)

**Cod y cwrs:** X3PG

**Gofynion mynediad:** Mae'n rhaid i ymgeiswyr feddu ar statws athro cymwysedig a chael eu cyflogi yn y sector addysg orfodol yn y DU ar hyn o bryd.

**Gwybodaeth ychwanegol:** Mae cyllid Llywodraeth Cymru ar gael i gefnogi athrawon ym mlynyddoedd 3-6 o'u gyrfa.

**Gwybodaeth ychwanegol:** Anogir darpar fyfyrwyr i gysylltu â Dr Rosemary Cann: **ooj@aber.ac.uk** i gael rhagor o wybodaeth.



# MPhil, PhD, DProf

Mae'r Ysgol Addysg yn cynnig graddau MPhil, PhD a DProf (Gradd Ddoethuriaeth Broffesiynol). Graddau'n seiliedig ar ymchwil yw'r rhain, lle mae myfyrwyr yn cyflawni prosiectau ymchwil unigol o dan oruchwyliaeth academaidd agos o fewn yr adran. Gellir eu hastudio ar sail amser llawn neu'n rhan-amser.

Fel arfer, mae'r MPhil yn cynnwys blwyddyn o ymchwil ar sail amser llawn (dwy flynedd yn rhan-amser), ac yna mae myfyrwyr yn llunio ac yn cyflwyno traethawd hir a fydd oddeutu 60,000 o eiriau.

Fel arfer, mae'r PhD yn cynnwys tair blynedd o ymchwil amser llawn (pum mlynedd yn rhan-amser), ac yna mae myfyrwyr yn llunio ac yn cyflwyno traethawd hir a fydd oddeutu 80-100,000 o eiriau.

Mae'r DProf yn eich rhoi mewn sefyllfa i gael doethuriaeth ac aros mewn gwaith. Mae'n cyfuno rhaglen o astudiaeth a ddysgir, a phrosiect ymchwil.

Rydym yn cynnig goruchwyliaeth ymchwil mewn nifer o feysydd, gan gynnwys astudiaethau plentyndod, addysg wledig, ac ymchwil pedagogaidd. Dyma rai o themâu ymchwil yr Ysgol:

**Ymchwil Pedagogaidd sy'n cynnwys:**

- dysgu ac addysgu
- gwybodaeth a dealltwriaeth am y pwnc
- asesu TGCh
- asesu ar gyfer dysgu
- cyrhaeddiad addysgiadol
- cyd-destun dwyieithog.

**Astudiaethau Plentyndod sy'n cynnwys:**

- sut mae plant yn dysgu; astudiaethau rhywedd
- cyrhaeddiad addysgiadol
- astudiaethau iechyd a lles
- ysgolion iach
- datblygiad y cwricwlwm yng Nghymru ac mewn rhannau eraill o'r DU
- anghenion addysgol arbennig.

**Addysg Wledig sy'n cynnwys:**

- partneriaethau mewn addysg
- addysg gymunedol
- polisi addysgiadol cenedlaethol a lleol a'r effaith ar ysgolion bychain
- Llwybr Dysgu 14-19
- addysg i oedolion.

I gael rhagor o wybodaeth, gweler y tudalennau 'Sut i wneud cais' neu cysylltwch â ni.

## Yr Adran

# Astudiaethau Gwybodaeth

### Graddau a ddysgir a Dysgu o bell

Astudiaethau Gwybodaeth a Llyfrgellyddiaeth, MA t.38
Gwybodaeth Ddigidol a Rheolaeth Cyfryngau, MSc t.39
Rheoli Archifau a Chofnodion, MA t.40

### Datblygu Proffesiynol Parhaus a Chyrsiau Byr

Cadwraeth Ddigidol, Tystysgrif t.41

### Graddau ymchwil

MPhil, PhD t.42

Mae gan yr Adran Astudiaethau Gwybodaeth enw da sydd wedi'i hen sefydlu yn rhyngwladol fel darparydd cyrsiau proffesiynol, o ansawdd uchel, sy'n canolbwyntio ar y myfyrwyr ym maes astudiaethau gwybodaeth. Sefydlwyd yr Adran ym 1964, ac rydym yn cynnig addysg o ansawdd byd-eang ar gyfer y rhai sy'n gweithio neu'n cynllunio gyrfa mewn llyfrgelloedd, archifau, a byd gwybodaeth ddigidol sy'n datblygu'n gyflym. Mae hyn, ynghyd â'r adnoddau sydd ar gael yn y Brifysgol a'r Llyfrgell Genedlaethol gyfagos, yn gwneud Aberystwyth yn fan delfrydol i astudio'r pwnc cyffrous hwn.

Mae pob un o'n cynlluniau gradd wedi'u hachredu'n broffesiynol gan Sefydliad Siartredig Llyfrgellwyr a Gweithwyr Gwybodaeth (CILIP) a / neu'r Gymdeithas Archifau a Chofnodion (ARA).



# Astudiaethau Gwybodaeth a Llyfrgellyddiaeth

## MA

Bydd y radd hon yn eich cyflwyno i'r heriau a'r dulliau gorau wrth bennu llif gwybodaeth o fewn cyrff a rhyngddynt a'u defnyddwyr.

Yn ogystal ag astudio materion megis sensoriaeth, amlddiwylliannaeth a rhyddid deallusol, byddwch hefyd yn astudio sut mae technoleg yn effeithio ar y modd y mae gwasanaethau gwybodaeth a llyfrgell yn cael eu darparu mewn amrywiaeth o gyd-destunau cymdeithasol pwysig, megis ym maes iechyd, addysg a busnes.

Drwy astudio egwyddorion a defnydd ymarferol y rhain a llawer o feysydd pwnc eraill, byddwch yn magu sgiliau sy'n dra dymunol i bob cyflogwr sy'n dibynnu ar lif gwybodaeth, gan gynnwys llyfrgelloedd cyhoeddus, academaidd ac arbenigol, a gwasanaethau gwybodaeth ar draws y sectorau cyhoeddus a phreifat.

Dyma rai o'r cyfleoedd arbenigol sydd ar gael i fyfyrwyr Astudiaethau Gwybodaeth a Llyfrgellyddiaeth yn Aberystwyth:

- ystod amrywiol o fodiwlau dewisol perthnasol i ddatblygiad gyrfa
- cyfle i glywed siaradwyr gwadd o sectorau allweddol yn y proffesiwn llyfrgell a gwybodaeth
- gweithdy traethawd hir dwys i adnabod pynciau ymchwil a meithrin sgiliau ymchwil
- taith astudio 3-4 diwrnod yn Llundain.

**Cyflogadwyedd**

Mae ein cyn-fyfyrwyr yn cynnwys nifer o lyfrgellwyr cenedlaethol ar hyn o bryd ac yn y gorffennol (Cymru, Yr Alban, Malta a Maleisia), y llyfrgellydd cenedlaethol du cyntaf yn Ne Affrica, a chyn Gyfarwyddwr Canolfan Gwasanaethau Llyfrgell a Gwybodaeth y Cenhedloedd Unedig. Yn ogystal â'r sector traddodiadol o wasanaethau llyfrgell a gwybodaeth, mae ein graddedigion hefyd yn mynd ymlaen i weithio'n swyddogion gwybodaeth, rheolwyr, swyddogion a dadansoddwyr systemau, yn ogystal â swyddogion systemau cyfrifiadurol. Mae cwmnïau yn elwa hefyd o sgiliau gwybodaeth ein graddedigion pan gânt eu cymhwyso i feysydd rheoli, gwerthu, cynhyrchu neu farchnata.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau craidd y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn:

- Information Organisation and Retrieval
- Information Services: Planning for Delivery
- Information and Society
- Collection Management
- Studies in Management.

**Information Organisation and Retrieval**

Mae'r modiwl yn rhoi ystyriaeth i'r ffaith bod dosbarthiadau a chatalogio bellach ddim ond yn rhai o'r dulliau a ddefnyddir i adalw gwybodaeth yn gyflym ac effeithiol o lyfrgelloedd, cronfeydd data a dogfennau unigol. Astudir datblygiad dulliau o drefnu ac adalw gwybodaeth ers y 1950au, a sut mae datblygiadau mewn technoleg er mwyn adalw'n fwy llwyddiannus wedi ategu hyn.

**Information Services: Planning for Delivery**

Cyflwyniad i elfennau allweddol cynllunio a darparu Gwasanaethau Gwybodaeth, swyddogaeth defnyddwyr, cloriannu dulliau gweithredu, themâu ymchwil allweddol sy'n berthnasol i roi cyd-destun i'r defnydd a wneir o wasanaeth gwybodaeth, dulliau o ddadansoddi a chloriannu ffynonellau a gwasanaethau, a chynllunio gwasanaeth strategol.

**Collection Management**

Mae'r modiwl hwn yn ymdrin â phynciau megis hyrwyddo'r defnydd o gasgliadau, cadwraeth, a phroblemau casglu'n gysylltiedig â fformatau penodol.

Byddwch hefyd yn dewis o blith casgliad o fodiwlau eraill sydd ar gael.

I gael rhagor o fanylion a'r wybodaeth ddiweddaraf, ewch i'n gwefan.

## Ffeithiau allweddol

**Math o radd:** MA

**Cod y cwrs:** P194, P194D (Dysgu o bell)

**Hyd:** 1 flwyddyn (amser llawn) neu 2 flynedd (rhan-amser) neu 2-5 mlynedd (dysgu o bell)

**Gofynion mynediad:** Gradd Baglor (Anrhydedd) 2:2, neu gyfatebol, a 6 wythnos o brofiad gwaith mewn sector berthnasol. Bydd angen i fyfyrwyr Dysgu o bell gael 6 mis o brofiad gwaith a bod mewn cyflogaeth barhaus neu waith gwirfoddoli rheolaidd mewn sector berthnasol. Caiff unigolion heb radd eu hystyried fesul un ar sail eu profiad gwaith perthnasol.

**Amser cyswllt:** Tua 10-14 awr yr wythnos yn y ddau semester cyntaf, yna bydd y myfyriwr a'r tiwtor yn cytuno rhyngddynt ar gyfnodau'r amser cyswllt.



# Gwybodaeth Ddigidol a Rheolaeth Cyfryngau

## MSc

Bwriedir i'r radd hon roi hyfforddiant i chi yn y sgiliau uwch sydd eu hangen i gasglu a churadu gwybodaeth electronig a'i pharatoi i'w defnyddio gan unigolion a sefydliadau.

Erbyn diwedd y cwrs, bydd gennych ddealltwriaeth drylwyr o gymhlethdodau rheoli asedau digidol a chadwraeth ddigidol yn y tymor hir. Byddwch yn meistroli'r polisïau, y gweithdrefnau a'r dulliau llywodraethu sydd eu hangen i sicrhau uniondeb deunydd digidol dros amser, ac yn graddio â'r sgiliau a'r profiad i drin gwybodaeth ar gyfer sefydliadau beth bynnag fo'u maint, boed ar lefel genedlaethol, llywodraethol neu ryngwladol. Yn ogystal, cewch hyfforddiant cymedroli hefyd er mwyn i chi allu ymdrin â'r ddeialog rhwng rhanddeiliaid yn yr ecoleg wybodaeth ddigidol newydd.

Dyma rai o'r cyfleoedd arbenigol sydd ar gael i fyfyrwyr Gwybodaeth Ddigidol a Rheolaeth Cyfryngau yn Aberystwyth:

- prosiect ymarferol yn gweithio gyda rheolwyr gwybodaeth ddigidol proffesiynol
- hyfforddiant i ddefnyddio meddalwedd catalogio a chadwraeth safonol y diwydiant
- addysg mewn ieithoedd codio perthnasol
- gweithdy ymarferol 3-4 diwrnod ar ddulliau ac offer
- gweithdy traethawd hir dwys i adnabod pynciau ymchwil a meithrin sgiliau ymchwil
- cynadleddau, ymweliadau a darlithoedd proffesiynol
- taith astudio 3-4 diwrnod yn Llundain.

**Cyflogadwyedd**

Bydd y cwrs yn eich gwneud yn gyfarwydd â'r datblygiadau diweddaraf mewn curadu gwybodaeth ddigidol, o ran dulliau technolegol a damcaniaethol. Trwy gydbwyso'r damcaniaethau a'r arfer, byddwch mewn safle cadarn i lwyddo yn y farchnad swyddi, yn enwedig mewn sefydliadau neu gwmnïau sy'n gwerthfawrogi gweithwyr wedi'u hyfforddi'n dda i reoli eu hadnodd pennaf, sef gwybodaeth. Bydd y cwrs hefyd yn rhoi ichi gyfres o sgiliau gwaith mwy cyffredinol – mewn ymchwil, dadansoddi, ysgrifennu, cyflwyno a rheoli – i sicrhau eich bod yn datblygu'n fwy cyflogadwy ar draws pob maes.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau craidd y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn:

- Information Systems in Organisations
- Knowledge and Information Architecture
- Archives Collection Development and Description
- Digital Information: Management for Access and Preservation
- Records and Information Governance.

**Information Systems in Organisations**

Rhoi'r sgiliau a'r wybodaeth i gloriannu a dadansoddi systemau gwybodaeth sydd ar gael eisoes. Byddwch yn gallu gweld sut i wella'r system, sut y gellir gwneud y newidiadau angenrheidiol, a byddwch yn gallu mesur effeithiolrwydd y system newydd i'r sefydliad.

**Knowledge and Information Architecture**

Gyda dealltwriaeth o ddatblygiadau technolegol ynglŷn â'n dulliau o drin gwybodaeth yn ein cymdeithas a sut mae sefydliadau'n defnyddio gwybodaeth yn dactegol, byddwch yn gallu defnyddio'r cyfleoedd a roddir i ymdrin â gwybodaeth fel asedau sefydliadol a chymdeithasol.

I gael rhagor o fanylion a'r wybodaeth ddiweddaraf am ein modiwlau, ewch i'n gwefan.

## Ffeithiau allweddol

**Math o radd:** MSc

**Cod y cwrs:** P124, P124D (Dysgu o bell)

**Hyd:** 1 flwyddyn (amser llawn) neu 2 flynedd (rhan-amser) neu 2-5 mlynedd (dysgu o bell)

**Gofynion mynediad:** Gradd Baglor (Anrhydedd) 2:2, neu gyfatebol, a 6 wythnos o brofiad gwaith mewn sector berthnasol. Bydd angen i fyfyrwyr Dysgu o bell gael 3 mis o brofiad gwaith a bod mewn cyflogaeth barhaus neu waith gwirfoddoli rheolaidd mewn sector berthnasol. Caiff unigolion heb radd eu hystyried fesul un ar sail eu profiad gwaith perthnasol.

**Amser cyswllt:** Tua 10-14 awr yr wythnos yn y ddau semester cyntaf, yna bydd y myfyriwr a'r tiwtor yn cytuno rhyngddynt ar gyfnodau'r amser cyswllt.

# Rheoli Archifau a Chofnodion

## MA

Wrth astudio am y radd hon, byddwch yn dysgu egwyddorion a thechnegau proffesiynol ac yn magu'r sgiliau craidd a fydd yn eich galluogi i chwarae eich rhan wrth gadw, rheoli ac elwa ar adnoddau gwybodaeth a hanesyddol amhrisiadwy.

Mae'r cwrs hwn wedi'i gynllunio er mwyn eich paratoi i weithio mewn unrhyw amgylchedd archifol neu reoli cofnodion. Mae'n darparu'r hyfforddiant a'r cymwysterau proffesiynol sy'n angenrheidiol er mwyn cael gweithio yn y meysydd proffesiynol hyn.

Bydd cyfran sylweddol o'ch dysgu ar y cwrs hwn yn digwydd mewn ymweliadau astudio a gwaith maes, lle bydd angen i chi arsylwi a chysylltu'r hyn rydych wedi'i ddysgu â'r arfer mewn nifer o amgylcheddau cadw cofnodion. Mae'r profiad ymarferol a geir cyn dechrau ar y cwrs yn cynnig sylfaen pwysig iawn i brofiad hyfforddi'r cwrs ei hun.

Dyma rai o'r cyfleoedd arbenigol sydd ar gael i fyfyrwyr Rheoli Archifau a Chofnodion yn Aberystwyth:

- prosiect ymarferol yn gweithio gydag archifwyr proffesiynol
- astudiaeth fanwl o baleograffeg gan ddefnyddio dogfennau mewn gwahanol ddwylo
- llwybrau paleograffeg ganoloesol ac ôl-ganoloesol
- hyfforddiant i ddefnyddio meddalwedd catalogio a chadwraeth safonol y diwydiant
- gweithdy traethawd hir dwys i gefnogi adnabod pynciau ymchwil a meithrin sgiliau ymchwil
- cynadleddau, ymweliadau a darlithoedd proffesiynol
- taith astudio 3-4 diwrnod yn Llundain.

**Cyflogadwyedd**

Bydd y cwrs hefyd yn rhoi cyfres eang o sgiliau gwaith cyffredinol ichi, megis ymchwil, dadansoddi, ysgrifennu, cyflwyno a rheoli, i sicrhau eich bod yn datblygu'n fwy cyflogadwy ar draws pob maes. Wrth raddio, byddwch wedi profi'ch gallu i adeiladu a mynegi syniadau'n effeithlon, siarad ac ysgrifennu ar gyfer gwahanol fathau o gynulleidfaoedd, cloriannu a threfnu gwybodaeth, gweithio'n effeithiol gyda phobl eraill a gweithio o fewn i gyfnodau gwaith cyfyng ac erbyn dyddiadau penodol.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau craidd y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn:

- Recordkeeping: Theory and Contexts
- Recordkeeping: Processes and Practice
- Access, Outreach, and Advocacy
- Collections Care
- Archives and Records: Practical Project.

**Recordkeeping: Processes and Practice**

Rhoi'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i lunio a gweithredu polisïau, strategaethau, a systemau cadw cofnodion o unrhyw oed ac ar unrhyw fformat.

**Collections Care**

Rhoi'r wybodaeth ddamcaniaethol a'r sgiliau sydd eu hangen i sicrhau hygyrchedd hir dymor at ddeunydd trwy ddatblygu a gweinyddu rhaglenni cadwraeth priodol beth bynnag yw eu fformat.

**Archives and Records: Practical Project**

Gan weithio ochr yn ochr â phobl broffesiynol perthnasol, byddwch yn paratoi, prosesu a chofnodi casgliad sy'n archif, yn ymwneud â threftadaeth ddiwylliannol neu wybodaeth sy'n bodoli er mwyn creu adnodd y gellir ei ddefnyddio.

Byddwch hefyd yn dewis o blith casgliad o fodiwlau eraill sydd ar gael.

I gael ragor o fanylion a'r wybodaeth ddiweddaraf, ewch i'n gwefan.

## Ffeithiau allweddol

**Math o radd:** MA

**Cod y cwrs:** P132, P132D (Dysgu o bell)

**Hyd:** 1 flwyddyn (amser llawn) neu 2 flynedd (rhan-amser) neu 2-5 mlynedd (dysgu o bell)

**Gofynion mynediad:** Gradd Baglor (Anrhydedd) 2:2, neu gyfatebol, a 6 wythnos o brofiad gwaith mewn sector berthnasol. Bydd angen i fyfyrwyr Dysgu o bell gael 6 mis o brofiad gwaith a bod mewn cyflogaeth barhaus neu waith gwirfoddoli rheolaidd mewn sector berthnasol. Caiff unigolion heb radd eu hystyried fesul un ar sail eu profiad gwaith perthnasol.

**Amser cyswllt:** Tua 6-10 awr yr wythnos yn y ddau semester cyntaf, yna bydd y myfyriwr a'r tiwtor yn cytuno rhyngddynt ar gyfnodau'r amser cyswllt.



# Cadwraeth Ddigidol

Cwrs dysgu o bell

## Tystysgrif

Bwriedir i'r Dystysgrif Uwchraddedig hon mewn Cadwraeth Ddigidol alluogi rheolwyr gwybodaeth, llyfrgellwyr ac archifwyr cymwys, neu'r rhai sydd â phrofiad gwaith perthnasol, i feithrin dealltwriaeth drylwyr o lif gwaith, polisïau, gweithdrefnau a llywodraethu gwaith rheoli gwybodaeth ddigidol yn y tymor hir.

Byddwch yn dysgu dod o hyd i ffyrdd effeithiol a chynhyrchiol o weithio drwy ddealltwriaeth drylwyr o'r safonau technegol a threfniadol sydd wrth wraidd rheoli gwybodaeth ddigidol a chymhwyso technolegau TGCh yn briodol.

Erbyn diwedd eich cwrs, byddwch yn gallu dangos meistrolaeth ar brosesau technolegol llywodraethu gwybodaeth a chadwraeth ddigidol. Byddwch yn gwneud hyn drwy ddefnyddio eich sgiliau arbenigol mewn sefyllfaoedd go iawn drwy gydol y cwrs, a thrwy wneud yn fawr o'r cyfle hwn i ddysgu drwy brofiad, byddwch yn cwblhau'r cwrs â phrofiad ymarferol gwerthfawr o'r pwnc cynyddol bwysig hwn.

Dyma rai o'r cyfleoedd arbenigol sydd ar gael i fyfyrwyr Cadwraeth Ddigidol yn Aberystwyth:

- prosiect ymarferol yn gweithio mewn awyrgylch proffesiynol
- addysg mewn ieithoedd codio perthnasol
- gweithdy ymarferol 3-4 diwrnod dewisol ar ddulliau ac offer
- hyfforddiant i ddefnyddio meddalwedd catalogio a chadwraeth safonol y diwydiant.

I gael rhagor o fanylion a'r wybodaeth ddiweddaraf, ewch i'n gwefan.

### Cyrsiau Byr DPP drwy ddysgu o bell ar-lein

Cynigiwn bortffolio eang o Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) ar-lein. Ymhlith rhai enghreifftiau o'n cyrsiau arbenigol sydd â chredydau ynghlwm wrthynt mae cadwraeth ddigidol, pensaernïaeth gwybodaeth a llyfrau prin. Cynigiwn nifer o ddyddiadau cychwyn a chyfle i drosglwyddo credydau i'n Graddau Uwchraddedig, a bwrw eich bod yn gymwys.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i: **www.aber.ac.uk/cy/dis/courses/short-courses**

## Ffeithiau allweddol

**Math o radd:** Tystysgrif

**Cod y cwrs:** P123D

**Hyd:** 2 flynedd (Dysgu o bell)

**Gofynion mynediad:** Gradd Baglor (Anrhydedd) 2:2, neu gyfatebol, a 6 wythnos o brofiad gwaith mewn sector berthnasol. Bydd angen i fyfyrwyr Dysgu o bell fod mewn cyflogaeth barhaus neu waith gwirfoddoli rheolaidd mewn sector berthnasol. Caiff unigolion heb radd eu hystyried fesul un ar sail eu profiad gwaith perthnasol.



# MPhil, PhD, DProf

Mae'r Adran yn gallu goruchwylio myfyrwyr sy'n ymchwilio i unrhyw agwedd ar reoli gwybodaeth, llyfrgelloedd neu archifau.

Mae'r pynciau ar y cyfan yn perthyn i'r categorïau eang canlynol:

- gwybodaeth a rheoli gwybodaeth
- trefnu gwybodaeth
- agweddau cymdeithasol, diwylliannol, ac ymddygiadol gwybodaeth.

## MPhil

Cwrs blwyddyn yw'r MPhil (neu ddwy flynedd rhan-amser) lle bydd disgwyl i chi ysgrifennu traethawd hir oddeutu 50-60,000 o eiriau. Byddwch yn gweithio o dan gyfarwyddyd un neu ragor o oruchwylwyr ond ni fydd disgwyl ichi fynychu dosbarthiadau.

## PhD

Dyfernir PhD ar ôl cwblhau traethawd hir boddhaol oddeutu 80-100,000 o eiriau, gydag arholiad viva voce i ddilyn. Y cyfnod cofrestru arferol yw tair blynedd (amser llawn), a disgwylir y bydd y traethawd hir yn cael ei gyflwyno ymhen pedair blynedd ar ôl cofrestru. Mae'n ofynnol i fyfyrwyr ymchwil amser llawn gofrestru ar Raglen Hyfforddiant Ymchwil, tra bydd myfyrwyr dysgu o bell yn cwblhau modiwlau hyfforddiant ymchwil yr adran. Dynodir dau oruchwyliwr i bob ymgeisydd er mwyn gallu trafod y gwaith yn rheolaidd.

## DProf

Mae'r ddoethuriaeth broffesiynol, neu DProf, yn fwy addas i'r rheiny sy'n dilyn gyrfa broffesiynol yn hytrach nag un academaidd, ac fe'i chynllunir i ganiatáu i unigolion proffesiynol cymwys astudio am ddoethuriaeth a pharhau i weithio.

Dyfernir DProf i gydnabod bod unigolyn wedi cwblhau rhaglen o astudio cydnabyddedig a ddysgir yn llwyddiannus, ynghyd â darn o waith ymchwil uwch. Mae'r elfen o gydweithio a geir yn y prosiect ymchwil sy'n seiliedig ar waith yn gyfle gwych i sefydlu gwybodaeth newydd yn y gweithle ac i sicrhau bod eich ymchwil yn berthnasol i ddiwydiant.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i'n gwefan neu cysylltwch â ni.



# Ein hymchwil

Mae ein gweithgarwch ymchwil yn ymwneud â materion sy'n gysylltiedig â gallu unigolion, sefydliadau a chymdeithasau i gael gafael ar wybodaeth, ei rheoli, ei threfnu a'i hadalw mewn oes ddigidol gynyddol gymhleth ac amrywiol.

Mae pynciau cyfoes yn ymwneud ag eiddo deallusol, hunaniaeth, cof diwylliannol, curadu, cyfathrebu a dyfodol gwasanaethau llyfrgell a gwybodaeth mewn oes ddigidol. Mae arloesi a datblygiadau digidol, y cyfryngau cymdeithasol, y we 2.0 a thu hwnt, y potensial ar gyfer 'archif ddiddiwedd' a newidiadau cysylltiedig yn y ffordd y mae pobl a sefydliadau yn rhyngweithio, yn agor cyfleoedd a heriau newydd i lyfrgelloedd, gwasanaethau gwybodaeth, amgueddfeydd ac archifau.

Mae themâu ymchwil yr Adran yn cynnwys

- **Gwybodaeth a Rheoli Gwybodaeth:** rheoli gwybodaeth sefydliadol ac adnoddau gwybodaeth mewn oes ddigidol sy'n fwyfwy cymhleth.
- **Trefnu Gwybodaeth:** semioteg strwythurau gwybodaeth ac egwyddorion adalw gwybodaeth.
- **Agweddau Cymdeithasol, Diwylliannol ac Ymddygiadol Gwybodaeth:** gwybodaeth mewn cymdeithasau rhanbarthol, cenedlaethol a byd-eang, yn cynnwys pynciau eiddo deallusol, cof diwylliannol, hunaniaeth, cyfathrebu a chreadigrwydd mewn oes ddigidol.

Un maes ymchwil newydd yw curadu digidol, sy'n cynnwys prosesau trefnu, pensaernïaeth dechnegol, safonau cymdeithasol a chreu polisïau – sef agweddau sy'n ofynnol ar gyfer rheoli cylch bywyd deunyddiau digidol.

Mae gan staff yr Adran swyddi golygyddol mewn cyfnodolion academaidd a chyfresi llyfrau, gan gynnwys: *Archives and Records:* the *Journal of the Archives and Records Association; ASLIB Proceedings; Digital Preservation Coalition's Technology Watch Series; International Journal of Information Management; Journal of Information Science; Library and Information Research; Library Review; New Library World; New Review of Information Behaviour Research; Open Information Science; Performance Measurement and Metrics: The International Journal for Library and Information Services; Public Library Quarterly;* a *The Electronic Library.*



## Yr Adran

# Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu

Yn un o'r adrannau mwyaf o'i math yn y DU, mae gan yr Adran Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu broffil rhyngwladol am ei gwaith ymchwil arloesol a dysgu o safon uchel, sy'n gwneud Aberystwyth yn lle delfrydol ar gyfer astudio graddau Meistr ac Ymchwil.

## Graddau a ddysgir

| | |
|---|---|
| Creu Ffilm Ddogfen: Tirwedd ac Ecoleg, MA | t.46 |
| Cynhyrchu Ffilm, MA | t.47 |
| Ymarfer Theatr: Perfformio a Senograffi, MA | t.48 |

## Dysgu o bell

| | |
|---|---|
| Cynhyrchu Cyfryngau Uwch, MSc | t.50 |

## Graddau ymchwil

| | |
|---|---|
| MPhil, PhD, DProf | t.51 |





*Quarantine Theatre:* Simon Banham

# Creu Ffilm Ddogfen: Tirwedd ac Ecoleg

## MA

Mae'r radd Meistr unigryw hon yn manteisio ar leoliad Aberystwyth rhwng y mynyddoedd a'r môr, a fydd yn caniatáu i chi ddatblygu arfer gwneud ffilmiau dogfen sydd wedi'i lywio gan natur, tirlun a gwleidyddiaeth amgylcheddol.

Fe gewch y cyfle i ymchwilio i ystod o dechnegau, arbrofi â dulliau newydd a chymryd risgiau wrth ichi ddatblygu'ch llais creadigol eich hun yn ystod cyfnod o fyfyrio a fydd yn arwain at brosiect ymarferol terfynol. Mae'r cynllun wedi'i gynllunio i roi arbenigedd technegol i chi, wedi'i chefnogi gan sylfaen gref ym mhrif drafodaethau beirniadol y maes ffilmiau dogfen. Byddwch yn cael eich annog i arbrofi â gwahanol gyfryngau a dulliau, ac i feddwl am ffilmiau dogfen fel ffurf ar fynegiant personol ac ymyrraeth wleidyddol, gan ysgogi ffyrdd newydd o weld ac ymgysylltu â'r byd. Byddwch yn manteisio ar ddiddordebau adrannol ym maes hanes a damcaniaeth dogfennu, gofod, lleoliad a thirlun, ymgyrchu, ecofeirniadaeth a pherfformiadau safle-benodol.

Dyma'r cyfleoedd arbenigol sydd ar gael i fyfyrwyr Creu Ffilm Ddogfen yn Aberystwyth:

- manteisio'n uniongyrchol ar gryfderau'r Adran ym maes arferion safle-benodol
- defnyddio cyfleusterau i weithio ar draws ffilm ddigidol, 8mm ac 16mm, gan gynnwys labordy ymchwil digidol ac ystafelloedd tywyll ar gyfer ffilmiau analog a ffotograffiaeth
- mynediad i'r Archif Sgrin a Sain Genedlaethol
- cymryd rhan mewn gweithdai gydag artistiaid gwadd
- gwaith maes a theithiau.

**Cyflogadwyedd**

Yn raddedigion y cwrs hwn, byddwch yn meddu ar y sgiliau creadigol a beirniadol sydd eu hangen er mwyn dilyn gyrfa fel gwneuthurwyr ffilmiau annibynnol, artistiaid neu weithwyr ar y cyd mewn sefydliadau proffesiynol. Byddwch yn datblygu gwybodaeth dechnegol ar lefel uwch yn yr arbenigedd o'ch dewis, gan gynnwys gwaith camera, sain a golygu.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn:

- Documentary Practices
- 16mm Filmmaking
- Key Concepts and Debates in Human Geography
- Risk, Resilience and Behaviour in a Changing Environment
- Ecocriticism and Ecocinema
- Human Geography: Theory and Method
- Exhibiting Film
- Engaging Publics
- Practice Research Project.

**Documentary Practices**

Modiwl sy'n annog myfyrwyr i ddatblygu eu llais eu hunain fel awduron ac i archwilio posibiliadau'r ffurf ddogfennol, gan ymestyn y tu hwnt i dechnegau traddodiadol er mwyn canfod ieithoedd newydd a blaengar.

**16mm Filmmaking**

Modiwl sy'n rhoi cyfle prin i archwilio posibiliadau materol ffilmiau 16m. Gan ddefnyddio ein labordy arbenigol a chael eu dysgu gan arbenigwyr ym maes ffilm ffotocemegol, bydd myfyrwyr yn archwilio ffilmio Bolex, prosesu â llaw, argraffu optegol, defnyddio arlliw a thôn, yn ogystal â thaflunio a gosod.

**Ecocriticism and Ecocinema**

Modiwl sy'n cyflwyno myfyrwyr i faes eco-feirniadaeth, sef dull amgylcheddol-ymwybodol o astudio cynyrchiadau diwylliannol a ddylanwadodd yn sylweddol ar ddamcaniaeth ac arfer ym maes ffilm.

I gael rhagor o fanylion a'r wybodaeth ddiweddaraf am ein modiwlau, ewch i'n gwefan.

## Ffeithiau allweddol

**Math o radd:** MA

**Cod y cwrs:** P311

**Hyd:** 1 flwyddyn (amser llawn) neu 2 flynedd (rhan-amser)

**Gofynion mynediad:** Gradd Baglor (Anrhydedd) 2:2 neu gyfatebol mewn pwnc perthnasol. Caiff unigolion sydd heb gyrraedd y radd eu hystyried fesul un ar sail eu profiad gwaith perthnasol.

**Amser cyswllt:** Tua 10-14 awr yr wythnos yn y ddau semester cyntaf, yna bydd y myfyriwr a'r tiwtor yn cytuno rhyngddynt ar gyfnodau'r amser cyswllt.



# Cynhyrchu Ffilm

## MA

Nod y radd Meistr hon yw ehangu eich gwybodaeth a'ch profiad o Gynhyrchiad Ffilm a Chynhyrchu Ffilm. Mae ein haddysgu'n cynnig hyfforddiant mewn methodolegau ymchwil, yn cynnig cyfuniad o ymchwil cymhwysol a hyfforddiant galwedigaethol, ac yn ysgogi ymchwilio deallusol trylwyr.

Ym mhob maes o'r cwrs hwn, cewch eich annog i ddatblygu'ch gwybodaeth academaidd ac ymarferol o greu ffilm trwy weithio ar gyfres o astudiaethau achos ac archwiliadau a arweinir gan ymchwil. Bydd modd i chi gymryd rhan mewn seminarau i gyfathrebu ar lafar ac yn feirniadol am eich gwaith mewn cyd-destun proffesiynol ehangach hefyd.

Dyma rai o'r cyfleoedd arbenigol sydd ar gael i fyfyrwyr Cynhyrchu Ffilm yn Aberystwyth:

- gweithio gyda chynhyrchydd ffilm profiadol ar bob agwedd ar y modiwlau cynhyrchu ffilm
- hyfforddiant galwedigaethol drwy'r modiwlau cynhyrchu ffilm
- dosbarthiadau meistr a gynhelir gan weithwyr proffesiynol o'r diwydiant
- mynediad i stiwdios a gweithdai, offer ymchwil digidol, a chyfleusterau ac offer ffilmio ac ôl-gynhyrchu'r adran.

**Cyflogadwyedd**

Mae'r MA Cynhyrchu Ffilm yn cyfuno ymarfer ym maes ffilm sy'n seiliedig ar yr agwedd ddamcaniaethol â sgiliau technegol a meddwl yn feirniadol, gan roi'r cyfle ichi ddatblygu gwaith cynhyrchu ar lefel uchel, yn ogystal â gwerthfawrogiad o grefft, hanes a chyd-destun proffesiynol ehangach gwneud ffilmiau. Y nod yw ysgogi creadigrwydd a sefydlu dealltwriaeth a gwybodaeth systematig trwy gyfrwng cyfuniad o'r damcaniaethol a'r ymarferol, yn ogystal â meithrin y cymwyseddau a'r gallu hanfodol sy'n ofynnol gan gyflogwyr allweddol yn y diwydiant a chan y sector cynhyrchu annibynnol.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau craidd y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn:

- Case Studies in Film History
- Aspects of Media Law
- Film Producing
- Film Distribution and Exhibition
- Financial Analysis and Decision Making
- Film Production Project.

**Case Studies in Film History**

Trwy ddadansoddiad hanesyddol o destunau ffilm, byddwch yn datblygu dealltwriaeth arbennig o destun yng nghyswllt cyd-destunau cynhyrchu, arddangos neu dderbyniad. Byddwch yn astudio parhad a thrawsnewid yn Hollywood, sinema Ewropeaidd a sinema byd, fydd yn cynnwys sinema boblogaidd ac amgen.

**Aspects of Media Law**

Dysgir sut i ymchwilio a chloriannu'n feirniadol yr amddiffynfeydd a'r strwythurau cyfreithiol a sefydlwyd i sicrhau cydymffurfio â chynseiliau llym a chymhleth, ac i archwilio agweddau strategol newydd i'r busnes gwneud ffilmiau. Bydd gan y modiwl agwedd alwedigaethol iawn.

I gael rhagor o fanylion a'r wybodaeth ddiweddaraf am ein modiwlau, ewch i'n gwefan.

## Ffeithiau allweddol

**Math o radd:** MA

**Cod y cwrs:** P313

**Hyd:** 1 flwyddyn (amser llawn) neu 2 flynedd (rhan-amser)

**Gofynion mynediad:** Gradd Baglor (Anrhydedd) 2:2 neu brofiad proffesiynol perthnasol. Caiff unigolion heb radd eu hystyried fesul un ar sail eu profiad gwaith perthnasol.

**Amser cyswllt:** Tua 10 awr yr wythnos yn y ddau semester cyntaf, yna bydd y myfyriwr a'r tiwtor yn cytuno rhyngddynt ar gyfnodau'r amser cyswllt.

# Ymarfer Theatr: Perfformio a Senograffi

## MA

Mae'r radd Ymarfer Theatr yn gwrs ar gyfer myfyrwyr sy'n bwriadu parhau ag arfer creadigol mewn perfformio a senograffeg er mwyn dod yn artistiaid proffesiynol a/neu'n ymchwilwyr seiliedig ar arfer.

Yn ei adeilad pwrpasol ei hun ac wedi'i arwain gan ymarferwyr a gaiff eu cydnabod yn rhyngwladol, mae'r radd hon yn galluogi datblygiad personol a phroffesiynol drwy ddefnyddio arfer creadigol ym maes perfformio a senograffeg yn barhaus.

Yn Ystafelloedd Cynnull hanesyddol Aberystwyth, bydd gennych ofodau gweithio pwrpasol, a chyfle i weithio'n ddyddiol mewn stiwdios a gweithdai fel cymuned (neu 'Gynulliad') o artistiaid arbrofol sy'n datblygu, yn arbenigo mewn agweddau amrywiol ar arfer perfformio cyfoes, o senograffeg, dylunio a gosodwaith, i actio, sgriptio a chyfarwyddo. Wrth gefnogi llwybrau personol, bydd yr addysgu'n meithrin arbenigeddau o'r fath drwy eu hannog i groestorri a rhyngblethu, gan ffurfio amgylchedd diwylliannol o gydweithio a chyfnewid, er mwyn cryfhau creadigrwydd yr unigolyn, ac unigoliaeth eu creadigrwydd.

Dyma'r cyfleoedd arbenigol sydd ar gael i fyfyrwyr Ymarfer Theatr yn Aberystwyth:

- gofodau gweithio pwrpasol
- stiwdios a gweithdai
- datblygiad creadigol dan arweiniad ymarferwyr a gydnabyddir yn rhyngwladol
- mynediad i Lyfrgell Genedlaethol Cymru a'i harchifau
- gweithio mewn lleoliad ac amgylchedd eithriadol ac ysbrydoledig.

**Cyflogadwyedd**
Yn raddedigion y cwrs hwn, byddwch wedi'ch paratoi'n dda i weithio mewn amrywiaeth eang o ddiwydiannau creadigol a diwydiannau cysylltiedig, fel ymarferwyr unigol neu fel gweithwyr ar y cyd mewn cwmnïau a sefydliadau creadigol. Byddwch hefyd yn magu sgiliau hanfodol er mwyn gwneud gwaith ymchwil ar ffurf ymarfer a dilyn astudiaethau academaidd pellach ar lefel doethuriaeth.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau craidd y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn:

- Compositional Practices
- Creative Production Project
- Space, Time, Material and Form
- Research Project.

**Compositional Practices**
Bydd hyn yn caniatáu i chi astudio nifer o strategaethau a dulliau cysyniadol, cyfansoddiadol ac ymarferol ar gyfer creu theatr, perfformiad a senograffeg gyfoes, yn sail i ddatblygiad creadigol unigol.

**Creative Production Project**
Prosiect yn ymwneud â gwaith perfformio sylweddol, gwreiddiol, wedi ei greu, ei gynhyrchu a'i gyflwyno'n gydweithrediadol, a'i gynorthwyo gan aelod proffesiynol profiadol o staff a/neu artist gwadd.

I gael rhagor o fanylion a'r wybodaeth ddiweddaraf am ein modiwlau, ewch i'n gwefan.

## Ffeithiau allweddol

**Math o radd:** MA

**Cod y cwrs:** W461

**Hyd:** 1 flwyddyn (amser llawn) neu 2 flynedd (rhan-amser)

**Gofynion mynediad:** Gradd Baglor (Anrhydedd) 2:2 neu brofiad proffesiynol perthnasol. Caiff unigolion heb radd eu hystyried fesul un ar sail eu profiad gwaith perthnasol.

**Amser cyswllt:** Tua 10 awr yr wythnos yn y ddau semester cyntaf, yna bydd y myfyriwr a'r tiwtor yn cytuno rhyngddynt ar gyfnodau'r amser cyswllt.





*National Theatre Wales:*
Mike Brookes
(MA Ymarfer Theatr)

# Cynhyrchu Cyfryngau Uwch

Cymraeg ar gael yn rhannol drwy'r **Gymraeg**

Cwrs dysgu o bell

## MSc, Diploma, Tystysgrif

Mae'r cwrs hwn yn cyfuno gwybodaeth ymarferol ynglŷn â rhaglennu cyfrifiadurol â sgiliau cynhyrchu cyfryngau. Mae'n addas ar gyfer unigolion sy'n gweithio ar hyn o bryd, neu'n dymuno gweithio, yn y diwydiannau creadigol. Bydd yn rhoi ichi'r sgiliau damcaniaethol ac ymarferol y mae arnoch eu hangen i weithio gyda thechnoleg ddigidol a thechnoleg cyfryngau.

Mae hon yn radd ryngddisgyblaethol a gynhelir gan yr Adrannau Cyfrifiadureg ac Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu. Mae disgowntiau hael ar gael i fyfyrwyr sy'n gweithio mewn diwydiant perthnasol yn ardal Gorllewin Cymru a'r Cymoedd ac sy'n bodloni'r gofynion cymhwyso.

**Amser cyswllt**
Rydym ni wedi cynllunio ein hyfforddiant i fod mor hawdd â phosibl i'w ddilyn, yn enwedig i'r rhai sydd mewn cyflogaeth amser llawn. Mae pob modiwl a ddysgir yn cael ei ddysgu o bell dros 14 wythnos a gellir dewis modiwlau yn unol â'ch gofynion datblygu proffesiynol parhaus neu eich diddordeb eich hun neu eu cyfuno i gyfrannu at gymhwyster ôl-raddedig.

Disgwylir i fyfyriwr ôl-raddedig astudio am 200 awr wrth ddilyn modiwl 20 credyd. Dylech ddisgwyl treulio tua 10-14 awr yr wythnos ar ddarlithoedd, cyflwyniadau a phodlediadau ar-lein, a gweddill yr amser ar ddarllen ac aseiniadau. Pan fo modd, bydd yr hyfforddiant yn berthnasol i'ch swydd ddyddiol.

Cyflwynir y rhan fwyaf o'r hyfforddiant o bell ac ar-lein felly, cyn belled â bod gennych chi gysylltiad band llydan eithaf da, cewch astudio lle bynnag a phryd bynnag sydd orau i chi. Mae'r deunyddiau dysgu ar gyfer bob un o'r modiwlau 14 wythnos yn cynnig darlithoedd wedi eu recordio gan academyddion ac arbenigwyr y diwydiant, cyflwyniadau, podlediadau, prosiectau e-grŵp, darlleniadau dan arweiniad, gweithlyfrau rhyngweithiol a fforymau trafod, yn ogystal ag aseiniadau ac e-diwtorialau.

Bydd rhai modiwlau'n dilyn rhaglen ddysgu gyfunol o weithdai byr am 1-3 diwrnod, ar y cyd ag elfennau o ddysgu o bell.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn:

- Cyflwyniad i Gynhyrchu Cyfryngau/ Introduction to Media Production
- Rhaglennu ar gyfer Cyfryngau Digidol/ Programming for Digital Media
- Datblygu i'r We/Web Development
- Applied Graphics
- Diwylliant Digidol/Digital Cultures
- Big Data
- Sgiliau Cynhyrchu Cyfryngau Uwch/ Advanced Skills in Media Production
- Gender and Media Production
- Extended Reality
- Cysyniadau a Sgiliau Ymchwil/ Research Concepts and Skills.

**Cyflwyniad i Gynhyrchu Cyfryngau/ Introduction to Media Production**
Rhoddir hyfforddiant ar y sgiliau ymarferol sylfaenol sydd eu hangen yn sectorau cyn-gynhyrchu, cynhyrchu ac ôl-gynhyrchu'r diwydiant cyfryngau a'r diwydiannau creadigol.

**Rhaglennu ar gyfer Cyfryngau Digidol/ Programming for Digital Media**
Canolbwyntir ar waith rhaglenni cysylltiedig â'r cyfryngau digidol - goleuo a sain.

**Applied Graphics**
Rhoddir sylfaen ar gyfer gwaith prosesu delweddau a fideos ac animeiddio 3D.

**Gender and Media Production**
Datblygir eich dealltwriaeth o'r berthynas rhwng rhywedd a'r cyfryngau drwy edrych ar bynciau llosg megis sut y defnyddir y cyfryngau, cynrychiolaeth ac arferion a rheoleiddio'r diwydiant.

Dysgir y rhan fwyaf o'r modiwlau trwy gyfrwng y Gymraeg, y Saesneg neu'n ddwyieithog.

I gael rhagor o fanylion a'r wybodaeth ddiweddaraf am ein modiwlau, ewch i: **amp.aber.ac.uk**.

Cronfa Gymdeithasol Ewrop / European Social Fund

Ariennir y cwrs hwn yn rhannol gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop drwy Lywodraeth Cymru.

## Ffeithiau allweddol

**Math o radd:** MSc, Diploma, Tystysgrif

**Cod y cwrs:** G4P3D

**Hyd:** Ar gael tan mis Ebrill 2023 (Dysgu o bell)

**Gofynion mynediad:** Gradd Baglor (Anrhydedd) 2:2 mewn umnrhyw bwnc, neu gymhwyster cyfatebol. Caiff unigolion heb radd eu hystyried fesul un ar sail eu proffiad gwaith perthnasol.

Os ydych yn gweithio yn y Diwydiannau Creadigol yn ardal Gorllewin Cymru a'r Cymoedd gallech fod yn gymwys am fwrsariaeth. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i: **amp.aber.ac.uk**



# MPhil, PhD, DProf

Mae gennym gymuned fywiog o fyfyrwyr ymchwil PhD yn gweithio gyda ni, a'r rheiny wedi dod atom o bob rhan o'r Deyrnas Unedig, Ewrop a'r tu hwnt. Mae'r ystod o bynciau a methodolegau a ddefnyddir yn eithriadol o eang, gan gynnwys astudiaethau testunol, archifol, hanesyddol, empirig, athronyddol a rhai sy'n seiliedig ar arfer. Mae prosiectau ymchwil yn cynnwys gwaith yn y Gymraeg a'r Saesneg, ac ar draws holl rychwant theatr a drama, perfformio, senograffeg, y cyfryngau a chyfathrebu, a ffilm a theledu.

Rydym yn cynnig rhaglen flynyddol o seminarau ymchwil, gyda llif cyson o siaradwyr a pherfformwyr gwadd adnabyddus; cyfres o seminarau methodoleg, wedi'u cynllunio i atgyfnerthu sgiliau penodol a generig uwchraddedigion; a chynhadledd ymchwil flynyddol sy'n para tridiau ac yn gyfle i'r holl staff ac uwchraddedigion rannu syniadau.

Er ein bod yn meddu ar gryfderau penodol ym maes Ymchwil Theatr a Pherfformio, ac Ymchwil Theatr a Chyfryngau Cymru, rydym hefyd yn croesawu ymchwil mewn pynciau eraill, gan gynnwys:

- estheteg, gwleidyddiaeth a chysylltiad cymdeithasol
- theatr a ffilm arbrofol, amgen ac avant-garde
- sinema Prydain
- theatr fodern Prydain ac Iwerddon
- ffilm a theledu dogfennol
- theatr dogfennol a gair-am-air
- sensoriaeth ffilm, y wasg a darlledu, a pholisïau rheoleiddio
- enwogrwydd sgrin a pherfformiad
- ffilm a theledu arswyd, ffantasi a chwlt
- rhyng-gyfryngoldeb a theatr ôl-sinematig
- tirwedd mewn ffilm a pherffomio
- theatr, ffilm, teledu a chyfryngau ar-lein ieithoedd lleiafrifol
- sain a cherddoriaeth mewn ffilm
- theatr a sinema cenedlaethol a rhyng-genedlaethol
- hanesyddiaeth ac archifo perfformiad, ffilm, y cyfryngau a theledu
- ymarfer ac ymchwil yng nghyd-destun ffilm, teledu, y cyfryngau, perfformio a'r theatr
- perfformio safle-benodol
- estheteg, genre a dramâu teledu.

## MPhil
Cwrs blwyddyn yw'r MPhil (neu ddwy flynedd rhan-amser) lle bydd disgwyl i chi ysgrifennu traethawd hir oddeutu 50-60,000 o eiriau. Byddwch yn gweithio o dan gyfarwyddyd un neu ragor o oruchwylwyr ond ni fydd disgwyl ichi fynychu dosbarthiadau. Ar ôl cwblhau blwyddyn yn Aberystwyth, fe gewch hyd at ddwy flynedd i ysgrifennu a chyflwyno'ch gwaith ymchwil.

## PhD
Dyfernir PhD ar ôl cwblhau traethawd hir boddhaol oddeutu 80-100,000 o eiriau, gydag arholiad viva voce i ddilyn. Bydd hwn yn fyrrach na'r hyn a ddisgwylir ar gyfer PhD yn seiliedig ar ymarfer, a phennir yr union gydbwysedd rhwng y theori a'r ymarfer yn ôl natur y prosiect a ddewisir. Y cyfnod cofrestru arferol yw tair blynedd (amser llawn), a disgwylir y bydd y traethawd hir yn cael ei gyflwyno ymhen pedair blynedd o gofrestru. Byddwch yn treulio rhan o'r flwyddyn gyntaf yn meithrin sgiliau ymchwil, ac yn yr ail a'r drydedd flwyddyn byddwch yn ymchwilio amser llawn i'ch dewis bwnc.

## DProf
Mae'r ddoethuriaeth broffesiynol, neu DProf, yn fwy addas i'r rheiny sy'n dilyn gyrfa broffesiynol yn hytrach nag un academaidd, ac fe'i chynllunir i ganiatáu i unigolion proffesiynol cymwys astudio am ddoethuriaeth a pharhau i weithio. Dyfernir DProf i gydnabod bod unigolyn wedi cwblhau rhaglen o astudio cydnabyddedig a ddysgir yn llwyddiannus, ynghyd â darn o waith ymchwil uwch. Mae'r elfen o gydweithio a geir yn y prosiect ymchwil sy'n seiliedig ar waith yn gyfle gwych i sefydlu gwybodaeth newydd yn y gweithle ac i sicrhau bod eich ymchwil yn berthnasol i ddiwydiant.

I gael rhagor o wybodaeth, gweler ein tudalennau 'Sut i wneud cais' neu cysylltwch â ni.

# Ein hymchwil

Mae ymchwil mewn Theatr, Ffilm a Theledu yn gosod astudiaethau theatr, ffilm, perfformio a chyfryngau mewn cyd-destunau diwylliannol hanesyddol, daearyddol a gwleidyddol.

Mae tri Grŵp Ymchwil:

- Ymchwil Theatr a Pherfformio
- Ymchwil Ffilm a Theledu
- Ymchwil Cyfryngau a Theatr yng Nghymru

Yn ogystal, mae pedair thema ymchwil drawsddisgyblaethol i'w cael yn yr adran Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu: Hanes, Gwleidyddiaeth, Lle ac Estheteg.

Mae'r Adran yn manteisio ar rwydwaith eang o gysylltiadau a chyweithiau lleol a byd-eang er mwyn cynnal ymchwil i arwyddocâd theatr, perfformio, ffilm a chyfryngau'r sgrin mewn amgylchedd diwylliannol byd-eang yn rhanbarthol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.

Mae gan yr Adran ymrwymiad penodol i gefnogi ymchwil sy'n berthnasol i fywyd diwylliannol a chymdeithasol Cymru, a'i gosod o fewn fframwaith cyfeirio cenedlaethol a rhyngwladol.

## Grŵp Ymchwil Theatr a Pherfformio

Mae'r Adran yn cefnogi astudiaethau ysgolheigaidd, ymchwil yn y maes a gwaith ymholi sy'n seiliedig ar ymarfer mewn theatr a pherfformiad, ac mae'n croesawu dulliau rhyngddisgyblaethol. Mae sawl aelod o staff yn berfformwyr a rhoddir pwyslais ar y broses o lunio, darllen a dadansoddi perfformiad a'r theatr mewn cyd-destun lleol, rhanbarthol, cenedlaethol a thrawsgenedlaethol.

Mae'r themâu ymchwilio presennol yn cynnwys:

- theatr a pherfformio gyfoes
- hanes theatr a drama Gymraeg
- gosodiadau ar draws ffiniau celf/gwyddoniaeth
- rhyng-gyfryngoldeb a theatr ôl-sinematig
- perfformio a phensaernïaeth
- perfformio a diwylliant ffisegol
- anabledd a pherfformio
- perfformio a'r gymuned wledig
- theatr ôl-ddramatig
- estheteg berthynol
- senograffeg, perfformio a phethau bob-dydd
- theatr ac amser.

## Grŵp Ymchwil Ffilm a Theledu

Mae'r Adran yn cefnogi astudiaethau ysgolheigaidd ac ymchwil wedi'i arwain gan ymarfer ym meysydd ffilm, teledu a'r cyfryngau, yn ogystal ag i Ganolfan Hanes y Cyfryngau (gyda'r Adran Hanes a Hanes Cymru) a'i chyfnodolyn pwysig, *Media History*.

Mae'r Adran yn cynnal ymchwil ar draws ystod o bynciau yn ymwneud â ffilm, teledu a'r cyfryngau, gan ganolbwyntio'n benodol ar y meysydd canlynol:

- darlledu a hunaniaeth cenedlaethol
- diwylliant digidol
- offer ac ymarferion dysgu digidol
- ffilm ddogfen
- ffilm arbrofol
- ffilm avant garde Ffrangeg
- rhyng-gyfryngoldeb a theatr ôl-sinematig
- hanes y cyfryngau
- astudiaethau gwledig - creu ffilm.

## Grŵp Ymchwil Theatr a Chyfryngau Cymru

Mae gan yr Adran gyfrifoldeb arbennig dros ymchwilio i theatr, ffilm, y cyfryngau a pherfformio yng Nghymru – ac yn arbennig yn y Gymraeg – ac mae'n gwneud hynny trwy ofyn cwestiynau sy'n canolbwyntio ar brofiad y gymuned, adeiladu cenedligrwydd drwy ddiwylliant, ac ymchwilio artistig i hunaniaeth gymdeithasol.

Mae rhai o'r diddordebau ymchwil penodol yn cynnwys:

- theatr a pherfformio cyfoes yng Nghymru
- hanes y theatr yng Nghymru
- cyfryngau ieithoedd lleiafrifol
- y cyfryngau yng Nghymru
- y cyfryngau a hunaniaeth genedlaethol
- ffilmiau, darlledu a pholisi'r celfyddydau yng Nghymru.





*Prague Quadrennial:* Simon Banham (MA Ymarfer Theatr).

## Athrofa'r Gwyddorau

# Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig (IBERS)

## Graddau a ddysgir


| | |
|---|---|
| Biotechnoleg, MSc | t.56 |
| Gwyddor Anifeiliaid, MSc | t.57 |
| Gwyddor Anifeiliaid, MRes | t.58 |
| Gwyddor Ceffylau, MSc | t.59 |
| Gwyddor Ceffylau, MRes | t.60 |
| Gwyddor Da Byw, MSc | t.61 |
| Gwyddorau Biolegol, MRes | t.62 |
| Rheolaeth Amgylcheddol, MSc | t.63 |
| Rheoli Parasitiaid, MRes | t.64 |
| Ystadegaeth ar gyfer Bioleg Gyfrifiadol | t.65 |


## Dysgu o bell


| | |
|---|---|
| Amaethyddiaeth, MRes | t.66 |
| Arloesi Bwyd-Amaeth, MSc | t.67 |
| BioArloesedd, MRes | t.68 |
| BioArloesedd, MSc, Diploma, Tystysgrif | t.69 |
| Cynhyrchu Bwyd yn Gynaliadwy ac Effeithlon, MSc, Diploma, Tystysgrif | t.70 |
| Ymgynghoriaeth Fferm a Chyfnewid Gwybodaeth, MRes | t.71 |


## Graddau ymchwil


| | |
|---|---|
| MPhil, PhD, DAg | t.72 |






Mae Athrofa'r Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig (IBERS) o safon ryngwladol ac y mae ei hymchwil yn cyfrannu at ddatrys materion byd-eang fel atal afiechydon angheuol, diogelu cyflenwadau bwyd a thyfu cnydau mewn pridd sy'n dueddol o ddioddef sychder. Rydym hefyd yn datblygu mathau o danwyddau sy'n gynaliadwy ac yn gyfeillgar tuag at yr amgylchedd, ac yn astudio effeithiau newid yn yr hinsawdd ar ein hecosystem. Mae ein hymchwilwyr yn ddarlithwyr inni hefyd, ac mae hynny'n sicrhau eich bod yn cael eich dysgu gan rai o'r arbenigwyr pennaf yn eu meysydd.

# Biotechnoleg

## MSc

Bydd y radd MSc hon yn rhoi ichi'r sgiliau allweddol, gwybodaeth arbenigol a'r hyfforddiant sy'n hanfodol i yrfa mewn diwydiant neu wyddor biolegol academaidd.

Mae'r radd hon yn canolbwyntio ar ddau faes allweddol ym maes biotechnoleg: Biotechnoleg Ddiwydiannol (eplesiad) a Biotechnoleg Planhigion. Yn ogystal, cewch hyfforddiant ymarferol mewn technegau molecwlaidd a dadansoddol o'r radd flaenaf, a dysgu mwy am fiotechnoleg y môr, bwyd ac iechyd, a sut y gall defnyddio bioadnoddau a gwyddor biolegol mewn modd cynaliadwy er mwyn helpu i ateb anghenion y boblogaeth ddynol wrth iddi dyfu.

Bydd y radd hon yn meithrin eich sgiliau datrys problemau'n greadigol a meddwl yn strategol, a sut i droi syniadau'n fusnesau hyfyw a gwneud ceisiadau llwyddiannus am grantiau. Mae holl fodiwlau'r cwrs yn cael eu cyflwyno gan academyddion ac ymarferwyr proffesiynol sy'n flaenllaw yn eu maes.

Dyma'r cyfleoedd arbenigol sydd ar gael i fyfyrwyr Biotechnoleg yn Aberystwyth:

- cael eich dysgu gan academyddion a gweithwyr proffesiynol blaenllaw sydd ar flaen y gad yn eu meysydd
- cyfle i ddefnyddio'r adnoddau rhagorol sydd ar gael yn IBERS (Canolfan Bioburo Beacon a Chanolfan Ffenomeg Planhigion y Deyrnas Unedig)
- ymweliadau â chwmnïau biotechnoleg i weld o lygad y ffynnon sut y mae biotechnoleg yn cynorthwyo menter a masnacheiddio
- cyfle i gymysgu ag ymchwilwyr o fri rhyngwladol a fydd o gymorth i chi i feithrin cysylltiadau ar gyfer eich gyrfa yn y dyfodol.

### Cyflogadwyedd

Mae galw mawr yn genedlaethol a rhyngwladol am raddedigion medrus ym maes Biotechnoleg. Yn wir, mae Cyngor Ymchwil Biotechnoleg a'r Gwyddorau Biolegol (BBSRC) wedi gwneud bio-ynni a biotechnoleg yn flaenoriaeth strategol ar gyfer cyllid gwyddoniaeth. Byddwch yn ennill sgiliau galwedigaethol i'ch galluogi i symud ymlaen i waith proffesiynol yn y sector Biotechnoleg neu i ymchwil.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau craidd y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn:

- Bioconversion and Biorefining
- Biotechnology and Business
- Crop Biotechnology
- Current Topics in Biotechnology
- Frontiers in the Biosciences
- Research Methods in the Biosciences
- Dissertation.

**Bioconversion and Biorefining**
Yn ogystal â'ch cyflwyno i Fiotechnoleg Microbau, byddwch yn dysgu'n fanwl beth yw graddfa'r her wrth symud i ddyfodol carbon isel, yn ogystal ag astudio technolegau cyfredol a thechnolegau sy'n raddol ennill bri.

**Biotechnology and Busines**
Trwy drafod â chynrychiolwyr cwmnïau, entrepreneuriaid a gwyddonwyr, byddwch yn dysgu sut y bu i nifer o fusnesau biotechnoleg ganfod a sefydlu eu lle yn y farchnad a datblygu eu technolegau. Dangosir hefyd y problemau a wynebwyd ganddynt a'u dulliau o weithredu.

**Crop Biotechnology**
Cyflwyniad i'r egwyddorion gwyddonol sy'n sylfaen i ddatblygiad cnydau biotechnolegol.

**Current Topics in Biotechnology**
Byddwch yn astudio amrywiol agweddau ar fiotechnoleg anifeiliaid, biotechnoleg feddygol, biotechnoleg ddiwydiannol/eplesol, biotechnoleg seiliedig ar blanhigion a biotechnoleg y môr.

I gael rhagor o fanylion a'r wybodaeth ddiweddaraf am ein modiwlau, ewch i'n gwefan.

## Ffeithiau allweddol

**Math o radd:** MSc

**Cod y cwrs:** J701

**Hyd:** 1 flwyddyn (amser llawn) neu 2 flynedd (rhan-amser)

**Gofynion mynediad:** Gradd Baglor (Anrhydedd) 2:2 neu gyfatebol mewn maes pwnc perthnasol. Caiff unigolion heb radd eu hystyried fesul un ar sail eu profiad gwaith perthnasol.

**Amser cyswllt:** Hyd at 10 awr yr wythnos yn y ddau semester cyntaf, yna bydd y myfyriwr a'r tiwtor yn cytuno rhyngddynt ar gyfnodau'r amser cyswllt.



# Gwyddor Anifeiliaid

## MSc

Rhoddir pwyslais mawr ar astudio sy'n canolbwyntio ar y myfyriwr, a chewch eich annog, lle bo hynny'n briodol, i fynd ar drywydd y meysydd sydd o ddiddordeb penodol i chi. Bydd y radd yn rhoi ichi'r wybodaeth a'r sgiliau y byddwch eu hangen i ddilyn gyrfa lwyddiannus ym maes gwyddor anifeiliaid.

Drwy astudio ffisioleg anifeiliaid a'i chymhwyso i faeth, bridio a rheoli anifeiliaid, byddwch mewn sefyllfa ddelfrydol i sicrhau bod gofynion cynhyrchu a lles yn cael eu cydbwyso'n addas trwy ddatblygu a chyflwyno arferion rheoli arloesol a lledaenu gwybodaeth a chyngor i ymarferwyr.

Dyma rai o'r cyfleoedd arbenigol sydd ar gael i fyfyrwyr Gwyddor Anifeiliaid yn Aberystwyth:

- cyfle i gymysgu ag ymchwilwyr o fri rhyngwladol a fydd o gymorth i chi i feithrin cysylltiadau ar gyfer eich gyrfa yn y dyfodol
- cael eich dysgu gan staff a chanddynt enw da'n rhyngwladol am ddysgu a gwaith ymchwil ym maes gwyddor anifeiliaid
- addysgu sy'n gallu manteisio ar 1000 ha o dir ffermio, uned â 400 o wartheg godro, unedau defaid ar dir uchel a thir isel, a iard geffylau ar gyfer dysgu ac ymchwil
- ystod wych o labordai modern o safon fyd-eang.

### Cyflogadwyedd

Bydd y radd hon yn rhoi ichi'r wybodaeth a'r sgiliau y byddwch eu hangen i ddilyn gyrfa flaenllaw mewn ymchwil a datblygu anifeiliaid, maeth a lles, y byd academaidd, hyfforddiant a dysgu, mentrau cyhoeddus a mentrau masnachol preifat, gwaith ymgynghori, asiantaethau llywodraeth, a chyrff anllywodraethol ledled y byd. Mae nifer o'n graddedigion hefyd wedi mynd ymlaen i astudio gradd ddoethuriaeth mewn Meddygaeth Filfeddygol.

## Modiwlau

Dyma'r modiwau craidd y byddwch o bosibl yn eu hastudio ar y cwrs hwn:

- Animal Breeding and Genetics
- Infection and Immunity
- Research Methods in the Biosciences
- Dissertation.

**Animal Breeding and Genetics**
Astudio'r potensial am welliannau genetig i nodweddion economaidd a/neu berfformiad trwy ddefnyddio geneteg Fendelaidd a moleciwlaidd.

**Infection and Immunity**
Astudio swyddogaeth imiwnoleg, bacterioleg, firoleg, a pharasitoleg yng nghlefydau anifeiliaid ar lefel foleciwlaidd a chymhwysol.

**Research Methods in the Biosciences**
Modiwl sy'n eich paratoi am y Traethawd Hir.

**Dissertation**
Cyfle ichi gyflawni astudiaeth archwiliadol fanwl a sylweddol mewn maes o'ch dewis.

Byddwch hefyd yn dewis o blith casgliad o fodiwlau eraill, sydd ar hyn o bryd yn cynnwys:

- Equine Nutrition
- Livestock Nutrition
- Grassland Science
- Equine Reproductive Physiology and Breeding Technology
- Livestock Production Science
- Understanding Equine Action from Anatomy to Behaviour.

I gael rhagor o fanylion a'r wybodaeth ddiweddaraf am ein modiwlau, ewch i'n gwefan.

## Ffeithiau allweddol

**Math o radd:** MSc

**Cod y cwrs:** D310

**Hyd:** 1 flwyddyn (amser llawn) neu 2 flynedd (rhan-amser)

**Gofynion mynediad:** Gradd Baglor (Anrhydedd) 2:2 dda neu gyfatebol mewn maes pwnc perthnasol. Caiff unigolion heb radd eu hystyried fesul un ar sail eu profiad gwaith perthnasol.

**Amser cyswllt:** Hyd at 15 awr yr wythnos yn y ddau semester cyntaf, yna bydd y myfyriwr a'r tiwtor yn cytuno rhyngddynt ar gyfnodau'r amser cyswllt.

# Gwyddor Anifeiliaid

## MRes

Mae'r radd MRes yn wahanol i radd MSc Gwyddor Anifeiliaid gan ei bod yn rhoi llawer mwy o bwyslais ar ymchwil nag ar elfennau a addysgir. Drwy ddarparu safon uchel o hyfforddiant ar waith ymchwil, mae'r MRes yn ddelfrydol i'r rhai sy'n ystyried gwneud PhD mewn gwyddor ceffylau neu ym meysydd ehangach gwyddorau anifeiliaid, milfeddygol neu fiolegol, yn ogystal â gyrfaoedd mewn ymchwil a datblygu.

Byddwch yn gweithio o dan oruchwyliaeth ymchwilwyr gweithredol sy'n arbenigwyr yn eu maes. Byddwch yn datblygu prosiect ymchwil am un flwyddyn ym meysydd cynhyrchu, atgenhedlu, paraseitoleg, maeth, gwybyddiaeth ag ymddygiad. Cewch eich mentora ar ddylunio arbrofion ar sail damcaniaeth, ac fe gewch eich hyfforddi ar dechnegau dadansoddi, dadansoddi ystadegau a dehongli canlyniadau. Byddwch hefyd yn astudio meysydd eraill o wyddor anifeiliaid drwy astudio dau fodiwl a ddewiswch o'r opsiynau sydd ar gael.

Dyma rai o'r cyfleoedd arbenigol sydd ar gael i fyfyrwyr Gwyddor Anifeiliaid yn Aberystwyth:

- cyfle i gymysgu ag ymchwilwyr o fri rhyngwladol a fydd o gymorth i chi i feithrin cysylltiadau ar gyfer eich gyrfa yn y dyfodol
- cael eich dysgu gan staff a chanddynt enw da'n rhyngwladol am ddysgu a gwaith ymchwil ym maes gwyddor anifeiliaid
- addysgu sy'n gallu manteisio ar 1000 ha o dir ffermio, uned â 400 o wartheg godro, unedau defaid ar dir uchel a thir isel, a iard geffylau ar gyfer dysgu ac ymchwil
- ystod wych o labordai modern o safon fyd-eang.

**Cyflogadwyedd**

Bydd y radd hon yn rhoi ichi'r wybodaeth a'r sgiliau y byddwch eu hangen i ddilyn gyrfa flaenllaw mewn ymchwil a datblygu anifeliaid, maeth a lles, y byd academaidd, hyfforddiant, mentrau cyhoeddus a mentrau masnachol preifat, gwaith ymgynghori, asiantaethau llywodraeth, a chyrff anllywodraethol ledled y byd. Mae nifer o'n graddedigion hefyd wedi mynd ymlaen i astudio am ddoethuriaeth mewn Meddygaeth Filfeddygol.

## Modiwlau

Ar y cwrs yma, byddwch yn astudio'r modiwlau craidd canlynol:

- Research Methods in the Biosciences.

Byddwch hefyd yn dewis dau fodiwl arall o blith casgliad, sydd ar hyn o bryd yn cynnwys:

- Infection and Immunity
- Animal Breeding and Genetics
- Equine Nutrition
- Equine Reproductive Physiology and Breeding Technology
- Understanding Equine Action: From Anatomy to Behaviour
- Livestock Nutrition
- Livestock Production Science
- Grassland Science.

**Animal Breeding and Genetics**
Astudio'r potensial am welliannau genetig i nodweddion economaidd a/neu berfformiad trwy ddefnyddio geneteg Fendelaidd a moleciwlaidd.

**Infection and Immunity**
Astudio swyddogaeth imiwnoleg, bacterioleg, firoleg, a pharasitoleg yng nghlefydau anifeiliaid ar lefel foleciwlaidd a chymhwysol.

**Equine Nutrition**
Astudio egwyddorion maetheg yng nghyswllt bwydo ceffylau i gael y twf, y datblygiad a'r perfformiad gorau posibl.

**Equine Reproductive Physiology and Breeding Technology**
Ystyried sut y caiff ffisioleg atgynhyrchu ei gymhwyso i'r broses o reoli ceffylau ar gyfer bridio, a'r ffordd y caiff technegau bridio datblygedig eu defnyddio yn hyn o beth.

**Understanding Equine Action from Anatomy to Behaviour**
Meithrin dealltwriaeth am anatomeg, ffisioleg ac ymddygiad ceffylau er mwyn gwella lles ceffylau, yn enwedig felly ceffylau perfformio.

I gael rhagor o fanylion a'r wybodaeth ddiweddaraf am ein modiwlau, ewch i'n gwefan.

## Ffeithiau allweddol

**Math o radd:** MRes

**Cod y cwrs:** D311

**Hyd:** 1 flwyddyn (amser llawn) neu 2 flynedd (rhan-amser)

**Gofynion mynediad:** Gradd Baglor (Anrhydedd) 2:2 dda neu gyfatebol mewn maes pwnc perthnasol. Caiff unigolion heb radd eu hystyried fesul un ar sail eu profiad gwaith perthnasol.

**Amser cyswllt:** Hyd at 15 awr yr wythnos yn y ddau semester cyntaf, yna bydd y myfyriwr a'r tiwtor yn cytuno rhyngddynt ar gyfnodau'r amser cyswllt.



# Gwyddor Ceffylau

## MSc

Bydd y radd hirsefydlog hon sydd wedi ennill cydnabyddiaeth ryngwladol yn rhoi gwybodaeth drylwyr i chi am y pwnc ynghyd â sgiliau proffesiynol. Wedi ichi raddio, byddwch yn gallu dilyn gyrfa mewn amrywiaeth o swyddi yn y diwydiant ceffylau.

Mae pwyslais cryf yn cael ei roi ar astudiaeth sy'n canolbwyntio ar y myfyrwyr er mwyn hogi eich sgiliau meddwl yn wreiddiol, dadansoddi, dehongli a rhesymu; yn ogystal â'ch annog, lle bo'n briodol, i fynd ar drywydd eich meysydd diddordeb eich hunain. Mae gwyddor a ffisioleg ceffylau a rhoi gwybodaeth ar waith yn ymarferol yn themâu craidd drwy gydol y cwrs.

Dyma rai o'r cyfleoedd arbenigol sydd ar gael i fyfyrwyr Gwyddor Ceffylau yn Aberystwyth:

- cael eich dysgu gan y darparwr addysg uwch mwyaf hirsefydlog ym maes ceffylau yn y DU – sefydlwyd y radd MSc Gwyddor Ceffylau yn 1978
- cyfle i gymysgu ag ymchwilwyr o fri rhyngwladol a fydd o gymorth i chi i feithrin cysylltiadau ar gyfer eich gyrfa yn y dyfodol
- cyfle i fanteisio ar iard geffylau ddysgu sydd â'r holl offer angenrheidiol, a'r unig iard bwrpasol yn y DU y tu allan i'r colegau milfeddygol sydd â thrwydded lawn ar gyfer ymchwil ym maes ceffylau
- mynediad at ystod wych o labordai modern o safon fyd-eang.

**Cyflogadwyedd**

Ar ôl graddio byddwch mewn sefyllfa ddelfrydol i fynd ymlaen i yrfaoedd blaenllaw yn y diwydiant ceffylau neu broffesiynau cysylltiedig ym meysydd ymchwil ceffylau ac anifeiliaid, datblygu, y byd academaidd, hyfforddi, mentrau masnachol cyhoeddus a phreifat, gwaith ymgynghorol, a sefydliadau'r llywodraeth ym Mhrydain a ledled y byd. Hefyd, aeth nifer o'n graddedigion yn eu blaen i astudio cyrsiau PhD a Milfeddygaeth.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau craidd y byddwch o bosibl yn eu hastudio ar y cwrs hwn:

- Animal Breeding and Genetics
- Infection and Immunity
- Equine Nutrition
- Equine Reproductive Physiology and Breeding Technology
- Understanding Equine Action from Anatomy to Behaviour
- Research Methods in the Biosciences
- Dissertation.

**Animal Breeding and Genetics**
Astudio'r potensial am welliannau genetig i nodweddion economaidd a/neu berfformiad trwy ddefnyddio geneteg Fendelaidd a moleciwlaidd.

**Infection and Immunity**
Astudio swyddogaeth imiwnoleg, bacterioleg, firoleg, a pharasitoleg yng nghlefydau anifeiliaid ar lefel foleciwlaidd a chymhwysol.

**Equine Nutrition**
Astudio egwyddorion maetheg yng nghyswllt bwydo ceffylau i gael y twf, y datblygiad a'r perfformiad gorau posibl.

**Equine Reproductive Physiology and Breeding Technology**
Ystyried sut y caiff ffisioleg atgynhyrchu ei gymhwyso i'r broses o reoli ceffylau ar gyfer bridio, a'r ffordd y caiff technegau bridio datblygedig eu defnyddio yn hyn o beth.

**Understanding Equine Action from Anatomy to Behaviour**
Meithrin dealltwriaeth am anatomeg, ffisioleg ac ymddygiad ceffylau er mwyn gwella lles ceffylau, yn enwedig felly ceffylau perfformio.

**Research Methods in the Biosciences**
Paratoi ar gyfer eich Traethawd Hir.

I gael rhagor o fanylion a'r wybodaeth ddiweddaraf am ein modiwlau, ewch i'n gwefan.

## Ffeithiau allweddol

**Math o radd:** MSc

**Cod y cwrs:** D391

**Hyd:** 1 flwyddyn (amser llawn) neu 2 flynedd (rhan-amser)

**Gofynion mynediad:** Gradd Baglor (Anrhydedd) 2:2 neu gyfatebol mewn maes pwnc perthnasol. Caiff unigolion heb radd eu hystyried fesul un ar sail eu profiad gwaith perthnasol.

**Amser cyswllt:** Hyd at 15 awr yr wythnos yn y ddau semester cyntaf, yna bydd y myfyriwr a'r tiwtor yn cytuno rhyngddynt ar gyfnodau'r amser cyswllt.

# Gwyddor Ceffylau

## MRes

Mae'r radd MRes yn gyfle delfrydol i wneud gwaith ymchwil i faes penodol o wyddor ceffylau, tra byddwch chi hefyd yn astudio detholiad o elfennau a ddysgir ym meysydd atgenhedlu, anatomeg, imiwnoleg, maeth a geneteg ceffylau. Drwy ddarparu safon uchel o hyfforddiant ar waith ymchwil, mae'r MRes yn ddelfrydol i'r rhai sy'n ystyried gwneud PhD mewn gwyddor ceffylau neu ym meysydd ehangach gwyddorau anifeiliaid, milfeddygol neu fiolegol, yn ogystal â gyrfaoedd mewn ymchwil a datblygu.

Byddwch yn gweithio o dan oruchwyliaeth ymchwilwyr gweithredol sy'n arbenigwyr yn eu maes. Byddwch yn datblygu prosiect ymchwil am un flwyddyn ym meysydd cynhyrchu, atgenhedlu, parasitoleg, maeth, gwybyddiaeth, ymddygiad, anatomeg, a seicoleg ymarfer corff. Cewch eich mentora ar ddylunio arbrofion ar sail damcaniaeth, ac fe gewch eich hyfforddi ar dechnegau dadansoddi, dadansoddi ystadegau a dehongli canlyniadau. Byddwch hefyd yn astudio meysydd eraill o wyddor ceffylau drwy astudio dau fodiwl a ddewiswch o'r opsiynau sydd ar gael.

Dyma rai o'r cyfleoedd arbenigol sydd ar gael i fyfyrwyr Gwyddor Ceffylau yn Aberystwyth:

- cyfle i weithio gydag ymchwilwyr uchel eu parch yn rhyngwladol wrth i chi gael eich hyfforddi yn y technegau ymchwil diweddaraf, gan eich helpu i feithrin cysylltiadau i'ch gyrfa fel ymchwilydd yn y dyfodol
- cyfle i fanteisio ar labordai modern o'r radd flaenaf sy'n arwain y byd
- cyfle i fanteisio ar iard geffylau ddysgu sydd â'r holl offer angenrheidiol, a'r unig iard bwrpasol yn y DU y tu allan i'r colegau milfeddygol sydd â thrwydded lawn ar gyfer ymchwil ym maes ceffylau
- dysgu'r gyda'r darparwr addysg uwch hynaf ym Mhrydain ym maes ceffylau: sefydlwyd ein MSc Gwyddorau Ceffylau yn 1978.

**Cyflogadwyedd**

Wedi graddio, byddwch mewn sefyllfa ddelfrydol i ddilyn y gyrfaoedd pennaf yn y diwydiant ceffylau i wella iechyd, lles a pherfformiad ceffylau. Byddwch yn addas i weithio mewn proffesiynau cysylltiedig ag anifeiliaid a cheffylau: ymchwil, datblygu, gwaith academaidd, hyfforddiant, mentrau masnachol cyhoeddus a phreifat, gwaith ymgynghorol, cyrff llywodraethol yn y DU a ledled y byd. Mae llawer o'n graddedigion hefyd wedi mynd ymlaen i wneud PhD ac astudio Milfeddygaeth.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau craidd y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn:

- Research Methods in the Biosciences.

Byddwch hefyd yn dewis dau fodiwl arall o blith casgliad, sydd ar hyn o bryd yn cynnwys:

- Infection and Immunity
- Animal Breeding and Genetics
- Equine Nutrition
- Equine Reproductive Physiology and Breeding Technology
- Understanding Equine Action: From Anatomy to Behaviour.

**Animal Breeding and Genetics**
Astudio'r potensial am welliannau genetig i nodweddion economaidd a/neu berfformiad trwy ddefnyddio geneteg Fendelaidd a moleciwlaidd.

**Infection and Immunity**
Astudio swyddogaeth imiwnoleg, bacterioleg, firoleg, a pharasitoleg yng nghlefydau anifeiliaid ar lefel foleciwlaidd a chymhwysol.

**Equine Nutrition**
Astudio egwyddorion maetheg yng nghyswllt bwydo ceffylau i gael y twf, y datblygiad a'r perfformiad gorau posibl.

**Equine Reproductive Physiology and Breeding Technology**
Ystyried sut y caiff ffisioleg atgynhyrchu ei gymhwyso i'r broses o reoli ceffylau ar gyfer bridio, a'r ffordd y caiff technegau bridio datblygedig eu defnyddio yn hyn o beth.

**Understanding Equine Action from Anatomy to Behaviour**
Meithrin dealltwriaeth am anatomeg, ffisioleg ac ymddygiad ceffylau er mwyn gwella lles ceffylau, yn enwedig felly ceffylau perfformio.

I gael rhagor o fanylion a'r wybodaeth ddiweddaraf am ein modiwlau, ewch i'n gwefan.

## Ffeithiau allweddol

**Math o radd:** MRes

**Cod y cwrs:** D393

**Hyd:** 1 flwyddyn (amser llawn) neu 2 flynedd (rhan-amser)

**Gofynion mynediad:** Gradd Baglor (Anrhydedd) 2:2 neu gyfatebol mewn maes pwnc perthnasol. Caiff unigolion heb radd eu hystyried fesul un ar sail eu profiad gwaith perthnasol.

**Amser cyswllt:** Hyd at 15 awr yr wythnos yn y ddau semester cyntaf, yna bydd y myfyriwr a'r tiwtor yn cytuno rhyngddynt ar gyfnodau'r amser cyswllt.



# Gwyddor Da Byw

## MSc

Mae'r radd hon yn cynnig hyfforddiant proffesiynol, biolegol a gwyddonol fydd yn rhoi i chi'r wybodaeth a'r sgiliau fydd eu hangen arnoch i ddilyn gyrfa llewyrchus yn y diwydiannau da byw, mewn ymchwil gwyddonol, gwasanaethau ymgynghorol ac mewn addysg.

Mae diogelwch bwyd yn holl bwysig i lwyddiant a sefydlogrwydd unrhyw wlad a'i phoblogaeth. Mae diwallu galw cynyddol y byd am fwyd yn un o heriau pwysicaf yr unfed ganrif ar hugain. Mae Gwyddor Da Byw yn elfen hanfodol o'r ymdrech i gwrdd â'r her hon, a bydd yn parhau i fod felly. Nid dim ond swmp y bwyd sy'n bwysig, ond ei ansawdd hefyd, gyda phrynwyr yn parhau i fynnu cynnyrch o ansawdd uchel am bris fforddiadwy. Yr unig ffordd o fodloni'r gofynion hyn yw trwy ddatblygu a chyflwyno cysyniadau a syniadau arloesol, a hynny gan uwchraddedigion sydd â'r cymwysterau addas ac a fydd yn bwrw ymlaen â'r datblygiadau cyffrous hyn mewn gwyddor a chynhyrchu da byw.

Dyma rai o'r cyfleoedd arbenigol sydd ar gael i fyfyrwyr Gwyddor Da Byw yn Aberystwyth:

- cyfle i gymysgu ag ymchwilwyr o fri rhyngwladol a fydd o gymorth i chi i feithrin cysylltiadau ar gyfer eich gyrfa yn y dyfodol
- dysgu sy'n gallu manteisio ar 1000 ha o dir ffermio, uned â 400 o wartheg godro, unedau defaid a gwartheg eidion ar dir uchel a thir isel, a haid o ieir dodwy
- cynnal prosiectau ymchwil ochr yn ochr â staff sy'n ymchwilwyr gweithgar – roedd ymchwil da byw IBERS yn werth dros £20 miliwn dros y 5 mlynedd diwethaf
- ystod wych o labordai modern o safon fyd-eang.

**Cyflogadwyedd**

Bydd graddedigion y rhaglen hon yn ennill gwybodaeth fanwl a dealltwriaeth hanfodol o faterion cyfoes allweddol sy'n effeithio ar y Gwyddorau Da Byw. Byddwch yn meithrin sgiliau uwch ar gyfer datrys problemau, trin data, astudio, ymchwil a chyfathrebu. Mae ein graddedigion yn mynd ymlaen i yrfaoedd ym meysydd ymchwil wyddonol, argraffu gwyddonol, gwaith labordy, maetheg anifeiliaid, lles anifeiliaid, dysgu, bridio anifeiliaid a gwerthiant technegol. Hefyd, aeth graddedigion yn eu blaen i astudio cyrsiau PhD neu Filfeddygaeth.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn:

- Animal Breeding and Genetics
- Infection and Immunity
- Livestock Nutrition
- Grassland Science
- Livestock Production Science
- Research Methods in the Biosciences
- Dissertation.

**Animal Breeding and Genetics**
Astudio'r potensial am welliannau genetig i nodweddion economaidd a/neu berfformiad trwy ddefnyddio geneteg Fendelaidd a moleciwlaidd.

**Infection and Immunity**
Astudio swyddogaeth imiwnoleg, bacterioleg, firoleg, a pharasitoleg yng nghlefydau anifeiliaid ar lefel foleciwlaidd a chymhwysol.

**Livestock Nutrition**
Astudio egwyddorion maetheg yng nghyswllt bwydo da byw i gael y twf a'r datblygiad gorau posibl wrth gynhyrchu cig a chynnyrch llaeth.

**Grassland Science**
Astudio gwyddoniaeth cynhyrchu gwair a phorthiant wedi'i gymhwyso i'w ddefnydd fel porthiant da byw.

**Livestock Production Science**
Astudio sut i gymhwyso gwyddor da byw wrth gynhyrchu da byw mewn dull economaidd er mwyn sicrhau ansawdd a chyfanswm bwyd.

**Research Methods in the Biosciences**
Paratoi am eich Traethawd Hir.

**Dissertation**
Cyfle ichi gyflawni astudiaeth archwiliadol fanwl a sylweddol mewn maes o'ch dewis.

I gael rhagor o fanylion a'r wybodaeth ddiweddaraf am ein modiwlau, ewch i'n gwefan.

## Ffeithiau allweddol

**Math o radd:** MSc

**Cod y cwrs:** D320

**Hyd:** 1 flwyddyn (amser llawn) neu 2 flynedd (rhan-amser)

**Gofynion mynediad:** Gradd Baglor (Anrhydedd) 2:2 neu gyfatebol mewn maes pwnc perthnasol. Caiff unigolion heb radd eu hystyried fesul un ar sail eu profiad gwaith perthnasol.

**Amser cyswllt:** Hyd at 15 awr yr wythnos yn y ddau semester cyntaf, yna bydd y myfyriwr a'r tiwtor yn cytuno rhyngddynt ar gyfnodau'r amser cyswllt.

# Gwyddorau Biolegol

## MRes

Bydd y radd hon yn rhoi ichi'r cyfle i ddatblygu'r sgiliau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth feirniadol sy'n angenrheidiol i wneud gwaith ymchwil ym maes y gwyddorau biolegol.

Byddwch yn dysgu sut i wneud gwaith ymchwil rhagorol ac i werthfawrogi'r modd y gall ymchwil fynd i'r afael â'r heriau mawr ym maes bioleg yr ydym yn eu hwynebu fel cymdeithas.

Mae'r MRes Biowyddorau ar gyfer myfyrwyr sy'n dymuno gwneud hyfforddiant ymchwil mewn unrhyw faes yn y gwyddorau biolegol ac yn fodd iddynt gael sgiliau generig a phenodol trwy fodiwlau a ddysgir a hyfforddiant ymchwil dan oruchwyliaeth. Mae'r hyfforddiant ymchwil yn adeiladu ar alluoedd IBERS mewn gwyddoniaeth newydd sy'n bwysig yn rhyngwladol ym mhob maes o'r biowyddorau, gan gynnwys amaethyddiaeth, atgynhyrchu anifeiliaid, biocemeg, bioleg esblygol, bioleg y dŵr, bioleg y gell, bridio planhigion ac anifeiliaid, ecoleg, ffisioleg, geneteg, gwyddor chwaraeon, gwyddor yr amgylchedd, iechyd ac ymarfer corff, microbioleg, parasitoleg, swoleg ac ymddygiad.

Elfen graidd y cwrs hwn yw'r Traethawd Hir MRes, sy'n gyfle ichi arbenigo mewn pwnc sydd o ddiddordeb i chi. Byddwch yn arbrofi/casglu data ynghyd â gwneud gwaith ymchwil dros gyfnod estynedig, o dan gyfarwyddyd eich goruchwyliwr. Drwy hynny, mae'r MRes yn gam delfrydol i'r rheiny sy'n ystyried PhD ac/neu yrfa mewn ymchwil.

Dyma rai o'r cyfleoedd arbenigol sydd ar gael i fyfyrwyr y Gwyddorau Biolegol yn Aberystwyth:

- cyfle i drefnu a mynychu cynhadledd ymchwil
- cyfle i gymysgu ag ymchwilwyr o fri rhyngwladol a fydd o gymorth i chi i feithrin cysylltiadau ar gyfer eich gyrfa yn y dyfodol
- cyfle i ymgymryd â phrosiectau ymchwil dan oruchwyliaeth arweinwyr yn eu maes.

**Cyflogadwyedd**
Trwy gydol y cwrs hwn byddwch yn datblygu sgiliau cadarn ar gyfer casglu/dehongli data, gwaith maes a gwaith labordy. Byddwch hefyd yn dysgu i weithio'n effeithiol ac yn annibynnol gan wella eich sgiliau rheoli prosiect er mwyn cyflawni cyfuniad heriol o ymchwilio, dadansoddi, cyfathrebu a chyflwyno.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau craidd y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn:

- Frontiers in the Biosciences
- Research Methods in the Biosciences
- Dissertation.

**Frontiers in the Biosciences**
Golwg drwyadl ac ymarferol ar y ffordd y defnyddir y gwyddorau biolegol i ymdrin â heriau byd-eang.

**Research Methods in the Biosciences**
Modiwl a fydd yn eich paratoi am y Dissertation (Traethawd Hir).

Byddwch hefyd yn dewis o blith casgliad o fodiwlau eraill, sydd ar hyn o bryd yn cynnws:

- Infection and Immunity
- Current Topics in Biotechnology
- Field and Laboratory Techniques.

I gael rhagor o fanylion a'r wybodaeth ddiweddaraf am ein modiwlau, ewch i'n gwefan.

## Ffeithiau allweddol

**Math o radd:** MRes

**Cod y cwrs:** C190

**Hyd:** 1 flwyddyn (amser llawn) neu 2 flynedd (rhan-amser)

**Gofynion mynediad:** Gradd Baglor Anrhydedd 2:1 mewn maes pwnc perthnasol. Caiff unigolion heb radd eu hystyried fesul un ar sail eu profiad gwaith perthnasol.

**Amser cyswllt:** Hyd at 10 awr yr wythnos yn y ddau semester cyntaf, yna bydd y myfyriwr a'r tiwtor yn cytuno rhyngddynt ar gyfnodau'r amser cyswllt.



# Rheolaeth Amgylcheddol

## MSc

Mae'r radd MSc Rheolaeth Amgylcheddol yn bodloni anghenion unrhyw un sydd am gael gwaith proffesiynol ym maes yr amgylchedd yn y dyfodol, ac mae'n denu myfyrwyr o bedwar ban byd.

Bydd y radd hon yn rhoi ichi'r sgiliau galwedigaethol a phroffesiynol y byddwch eu hangen i fynd i'r afael â heriau amgylcheddol y dyfodol.

Ymhlith y pynciau dan sylw mae datblygiadau mewn materion amgylcheddol, sgiliau a dulliau ymchwil, archwilio amgylcheddol, rheoli prosiectau, cyfraith amgylcheddol ac asesiadau o'r effaith ar yr amgylchedd. Mae'r cwrs yn canolbwyntio i raddau helaeth ar 'ddysgu drwy wneud', a hynny drwy ymdrin â phroblemau a heriau go iawn.

Dyma rai o'r cyfleoedd arbenigol sydd ar gael i fyfyrwyr Rheolaeth Amgylcheddol yn Aberystwyth:

- lleoliad Aberystwyth mewn amgylchedd ffisegol awyr-agored uchel ei ansawdd, rhwng mynyddoedd Cambria a mynyddoedd Eryri, lle ceir amrywiol gynefinoedd o'r arfordir i'r ucheldir
- ymgysylltu â rhanddeiliaid i gynnal astudiaeth gyda chanlyniadau penodol a thargedau cyflawnadwy y cytunwyd arnynt
- gweithio gydag ymarferydd amgylcheddol proffesiynol
- cael eich dysgu gan ymchwilwyr, ymgynghorwyr a gweithwyr proffesiynol sy'n gweithredu ar draws amrywiaeth eang o bynciau amgylcheddol ac a gydnabyddir yn rhygwladol.

**Cyflogadwyedd**
Drwy gydol y cwrs hwn, byddwch yn datblygu sylfaen gadarn ym maes sgiliau allweddol rheolaeth amgylcheddol. Byddwch hefyd yn gwella'ch sgiliau gwyddonol, cyfathrebu, gweithio'n rhan o dîm, datrys problemau, trin data, astudio ac ymchwilio. Byddwch yn datblygu ymddygiad proffesiynol a fydd yn caniatáu ichi ragori mewn unrhyw swydd. Mae graddedigion diweddar wedi mynd ymlaen i gael gyrfaoedd yn ymgynghori ar yr amgylchedd, rheoleiddio a monitro ym maes yr amgylchedd, rheoli cadwraeth ac ymchwilio.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau craidd y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn:

- Environmental Auditing and Management Skills
- Environmental Management in Practice
- Introduction to Environmental Law and Environmental Impact Assessment
- Frontiers in the Biosciences
- Research Methods in
- the Biosciences
- Dissertation.

**Environmental Auditing and Management Skills**
Hyfforddiant mewn archwilio amgylcheddol a sgiliau proffesiynol er mwyn eich gwneud yn fwy cyflogadwy yn y sector amgylcheddol.

**Environmental Management in Practice**
Cyflwyniad i brosesau cyffredinol nodweddu problemau, dylunio prosiectau, gweithredu prosiectau ac adrodd ar brosiectau yn y sector amgylcheddol.

**Frontiers in the Biosciences**
Golwg drwyadl ac ymarferol ar y ffordd y defnyddir y Gwyddorau biolegol i ymdrin â heriau byd-eang.

I gael rhagor o fanylion a'r wybodaeth ddiweddaraf am ein modiwlau, ewch i'n gwefan.

## Ffeithiau allweddol

**Math o radd:** MSc

**Cod y cwrs:** C197

**Hyd:** 1 flwyddyn (amser llawn) neu 2 flynedd (rhan-amser)

**Gofynion mynediad:** Gradd Baglor (Anrhydedd) 2:2 neu gyfatebol mewn maes pwnc perthnasol. Caiff unigolion heb radd eu hystyried fesul un ar sail eu profiad gwaith perthnasol.

**Amser cyswllt:** Hyd at 10 awr yr wythnos yn y ddau semester cyntaf, yna bydd y myfyriwr a'r tiwtor yn cytuno rhyngddynt ar gyfnodau'r amser cyswllt.

# Rheoli Parasitiaid

## MRes

Parasitiaeth yw'r ffordd o fyw fwyaf llwyddiannus ar y blaned ac mae'n esgor ar glefydau heintus amrywiol a hynod ddinistriol sydd ag arwyddocâd amaethyddol, milfeddygol a biofeddygol. Felly, mae cael gwell dealltwriaeth o'r rhywogaethau o barasitiaid sy'n gyfrifol am yr amgylchiadau hyn, a dysgu am y dulliau o'u rheoli, yn dal i fod yn flaenoriaeth i wyddonwyr, gweithwyr iechyd proffesiynol a ffermwyr yn yr 21ain ganrif.

Mae'r cwrs yn canolbwyntio'n benodol ar barasitiaid a'r afiechydon maen nhw'n eu hachosi, a byddwch yn meithrin gwybodaeth arbenigol am ganfod, atal a rheoli pathogenau anifeiliaid a dynol protosoaidd yn ogystal â metasoaidd. Cewch hyfforddiant mewn arbenigeddau megis biocemeg, bioleg foleciwlaidd, trin a meithrin celloedd/organebau cyfan, biowybodeg, proteomeg, trawsgrifomeg, genomeg, genomeg swyddogaethol, darganfod cyffuriau, datblygu brechlynnau, darganfod biofarcwyr, geneteg/epigeneteg, epidemioleg, ecoleg a bioleg fectorau/rhyng-letywyr.

Dyma'r cyfleoedd arbenigol sydd ar gael i fyfyrwyr Rheoli Parasitiaid yn Aberystwyth:

- astudio amrywiaeth o barasitiaid sy'n bwysig yn fyd-eang
- elwa o addysgu a arweinir gan ymchwil, sy'n rhoi gwybodaeth am ddyfodol canfod, atal a difa parasitiaid milfeddygol a dynol
- cymhwyso eich gwybodaeth ym maes afiechydon anifeiliaid er mwyn deall achoseg, pathogenedd, triniaethau a ffyrdd o atal afiechydon
- datblygu sgiliau ymarferol a dadansoddol fydd yn berthnasol i'ch gyrfa ym maes parasitoleg yn y dyfodol.

**Cyflogadwyedd**
Bydd y cwrs MRes hwn yn rhoi ichi amrywiaeth o sgiliau galwedigaethol ac yn eich paratoi am waith proffesiynol neu astudiaethau PhD uwchraddedig pellach mewn Parasitoleg neu ddisgyblaethau cysylltiedig (er enghraifft, clefydau heintus, iechyd cyhoeddus, ac epidemioleg).

Byddwch yn datblygu sgiliau cadarn ar gyfer casglu a dehongli data, dadansoddi gwaith maes a gwaith labordy; gweithio mewn tîm, a dysgu i ysgrifennu ar gyfer cynulleidfaoedd yn amrywio o academyddion i'r cyhoedd ehangach. Byddwch yn gwella eich dull o feddwl yn feirniadol ac o ddatrys problemau, yn cyfarwyddo a chynnal rhaglen astudio y byddwch yn ei sefydlu eich hun, ac yn gloywi eich sgiliau rheoli prosiectau er mwyn darparu cyfuniad heriol o ymchwilio, dadansoddi, cyfathrebu a chyflwyno.

## Modiwlau

Dyma rai o'r modiwlau craidd y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn:

- Hot Topics in Parasite Control
- Infection and Immunity
- Research Methods in the Biosciences
- MRes Dissertation.

**Hot Topics in Parasite Control**
Rhoddir dealltwriaeth ddatblygedig o ddamcaniaethau a thechnegau cyfoes, a'r ymchwil biolegol sy'n sail iddynt, yng nghyswllt rheoli clefydau parasitig.

**Infection and Immunity**
Gwneir archwiliad manwl i imiwnoleg, bacterioleg, firoleg, a pharasitoleg anifeiliaid ar lefel foleciwlaidd a chymhwysol.

**Research Methods in the Biosciences**
Modiwl sy'n eich paratoi ar gyfer y Traethawd Hir.

I gael rhagor o fanylion a'r wybodaeth ddiweddaraf am ein modiwlau, ewch i'n gwefan.

## Ffeithiau allweddol

**Math o radd:** MRes

**Cod y cwrs:** C111

**Hyd:** 1 flwyddyn (amser llawn)

**Gofynion mynediad:** Gradd Baglor (Anrhydedd) 2:1 neu gyfatebol mewn maes pwnc perthnasol. Caiff unigolion heb radd eu hystyried fesul un ar sail eu profiad gwaith perthnasol.

**Amser cyswllt:** Hyd at 10 awr yr wythnos yn y ddau semester cyntaf, yna bydd y myfyriwr a'r tiwtor yn cytuno rhyngddynt ar gyfnodau'r amser cyswllt.



# Ystadegaeth ar gyfer Bioleg Gyfrifiadol

## MSc

Mae Bioleg Gyfrifiadol yn faes diddordeb sy'n strategol allweddol i ymchwil rhyngddisgyblaethol ac i gyflogwyr ym meysydd cynhyrchion fferyllol, amaethyddiaeth uwch ac iechyd y cyhoedd. Mae defnyddio Ystadegau a Dysgu Peiriant i godi gwybodaeth ddefnyddiol o setiau mawr o ddata yn ofyniad allweddol yn y meysydd hyn.

Mae'r cynllun yn cyflwyno sgiliau allweddol sy'n seiliedig ar arfer mewn ystadegau ar gyfer bioleg gyfrifiannol. Byddwch yn dysgu sut i werthuso cymhwysiad technegau ystadegol penodol i ymchwilio i broblemau mewn bioleg Gyfrifiadol yn feirniadol, ac yna dehongli ac adrodd ar ganlyniadau'r dadansoddiad yn effeithiol.

Mae'r cwrs MSc hwn yn cyfuno disgyblaethau mathemateg, cyfrifiadureg, a'r gwyddorau biolegol, ac yn addas ar gyfer graddedigion o unrhyw un o'r tair disgyblaeth hyn.

Wrth astudio am y radd hon, byddwch yn elwa o'r cyfoeth o arbenigedd a gwybodaeth a geir yn yr Adran Fathemateg, yr Adran Gyfrifiadureg, ac Athrofa'r Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig (IBERS).

**Cyflogadwyedd**
Mae'r gronfa o setiau mawr o ddata biolegol, sy'n tyfu'n gynyddol, yn arwain at gynnydd yn y galw am bobl sydd â'r arbenigedd i feddwl am broblemau biolegol gan ddefnyddio offer cyfrifiadurol ac ystadegol. Mae ystod eang o gyfleoedd gyrfaol ar gael mewn diwydiant ac yn y byd academaidd i raddedigion sydd â sgiliau rhifedd da, peth dealltwriaeth o'r fioleg sy'n sail iddynt, ac o ddulliau cyfrifiadurol gan gynnwys rhaglennu. Bydd y cwrs hwn yn datblygu'r sgiliau sy'n berthnasol i amaethyddiaeth uwch, peirianneg meddalwedd fferyllol a nanodechnoleg. Mae'r cyfleoedd academaidd yn cynnwys biowybodeg, cynllunio cyffuriau a gwyddor genomau. Mae graddedigion y radd hon yn gweithio mewn meysydd megis fferyllyddiaeth, amaethyddiaeth uwch, meddygaeth tra-chywir ac iechyd cyhoeddus.

## Modiwlau

Dyma rai o'r modiwlau craidd y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn:

- Frontiers in Bioscience
- Machine Learning for Intelligent Systems
- Programming for Scientists
- Statistical Concepts, Methods and Tools
- Statistical Techniques for Computational Scientists.

**Frontiers in the Biosciences**
Golwg drwyadl ac ymarferol ar y ffordd y defnyddir y Gwyddorau biolegol i ymdrin â heriau byd-eang.

**Machine Learning for Intelligent Systems**
Cyflwyniad i brif gysyniadau dysgu peiriant trwy gyfrwng trafodaethau seminar ynglŷn â phapurau gwyddonol.

**Programming for Scientists**
Trwy ddefnyddio iaith raglennu Python, bydd y modiwl yn dysgu elfennau sylfaenol rhaglennu ac yn dangos sut i drin a threfnu data perthnasol.

**Statistical Concepts, Methods and Tools**
Cewch sylfaen mewn ystadegaeth, gan gynnwys dylunio arbrofion, dosrannu tebygolrwydd arwahanol a pharhaus, modelu llinol a phrofi rhagdybiaethau.

I gael rhagor o fanylion a'r wybodaeth ddiweddaraf am ein modiwlau, ewch i'n gwefan.

## Ffeithiau allweddol

**Math o radd:** MSc

**Cod y cwrs:** G499

**Hyd:** 1 flwyddyn (amser llawn) neu 2 flynedd (rhan-amser)

**Gofynion mynediad:** Gradd Baglor (Anrhydedd) 2:2 neu gyfatebol mewn maes pwnc perthnasol. Caiff unigolion heb radd eu hystyried fesul un ar sail eu profiad gwaith perthnasol.

**Amser cyswllt:** Tua 10-14 awr yr wythnos yn y ddau semester cyntaf, yna bydd y myfyriwr a'r tiwtor yn cytuno rhyngddynt ar gyfnodau'r amser cyswllt.

# Amaethyddiaeth

Cwrs dysgu o bell

## MRes

Mae'r cynllun hwn yn rhoi cyfle i fyfyrwyr sydd eisiau gwneud hyfforddiant ymchwil mewn unrhyw faes amaethyddol ymwneud â sgiliau cyffredinol a phenodol drwy gyfrwng modiwlau a ddysgir a hyfforddiant ymchwil dan oruchwyliaeth, drwy ddysgu o bell.

Er bod pob modiwl yn ymdrin ag arbenigedd technegol gwahanol, mae pob un yn rhoi sylw i'r heriau sy'n wynebu systemau cynhyrchu sy'n seiliedig ar dir pori ac ar atebion posib i'r heriau hynny. Mae'r MRes yn gam delfrydol i'r rhai sy'n ystyried gwneud gradd DAg a/neu ddatblygu eu gyrfa o safbwynt ymchwil.

**Amser cyswllt**
Rydym wedi cynllunio ein hyfforddiant i fod mor hygyrch â phosib, yn enwedig i bobl sydd mewn cyflogaeth amser llawn. Mae pob modiwl a ddysgir yn rhedeg am 14 wythnos trwy ddysgu o bell a gellir eu hastudio at ddibenion datblygu proffesiynol parhaus neu o ran diddordeb, neu cewch eu cynnwys yn rhan o gymhwyster uwchraddedig.

Disgwylir i fyfyriwr ôl-raddedig nodweddiadol astudio am 200 awr ar gyfer modiwl 20 credyd. Dylech ddisgwyl treulio tua 2-3 awr yr wythnos ar ddarlithoedd ar-lein, cyflwyniadau a phodlediadau, a gweddill yr amser yn darllen testunau ac yn gweithio ar aseiniadau.

Byddwch yn cwblhau elfennau ymchwil ein cymwysterau yn eich gweithle gyda goruchwyliaeth academaidd reolaidd. Cynhelir yr hyfforddiant ar y we, sy'n golygu cyhyd â bod gennych gysylltiad band eang rhesymol (hynny yw, eich bod yn gallu ffrydio fideos ar YouTube er enghraifft), gallwch astudio ble a phryd bynnag sydd orau gennych chi. Mae'r deunydd dysgu yn cynnwys darlithoedd ar ffurf podlediadau, prosiectau e-grwpiau, darllen tywysedig, gweithlyfrau rhyngweithiol a fforymau trafod, ynghyd ag aseiniadau ac e-diwtorialau.

**Asesiadau**
Does dim arholiadau yn rhan o'r cwrs hwn. Asesir modiwlau a ddysgir drwy waith cwrs a thrafodaethau fforwm. Caiff ymchwil ei fonitro a'i asesu.

## Modiwlau

Ar y radd hon byddwch yn astudio Research Methods a Research Project ymhlith y modiwlau craidd.

Byddwch hefyd yn dewis o blith casgliad o fodiwlau eraill, sydd ar hyn o bryd yn cynnwys:

- Business Management for Rural Entrepreneurs
- Genetics and Genomics in Agriculture
- Grassland Systems
- Organic and Low Input Ruminant Production
- Plant Breeding
- Ruminant Gut Microbiology
- Ruminant Health and Welfare
- Ruminant Production
- Silage Science.

I gael rhagor o fanylion a'r wybodaeth ddiweddaraf am ein modiwlau, ewch i'n gwefan.

## Ffeithiau allweddol

**Math o radd:** MRes

**Cod y cwrs:** D410D

**Hyd:** Hyd at 5 mlynedd (Dysgu o bell). Hefyd ar gael fel gradd 3 blynedd Dysgu o bell.

**Gofynion mynediad:** Gradd Baglor (Anrhydedd) 2:2 neu gyfatebol mewn amaethyddiaeth neu'r gwyddorau biolegol, neu bwnc berthnasol. Caiff unigolion heb radd eu hystyried fesul un ar sail eu proffiad gwaith perthnasol.

Os ydych mewn gwaith amser llawn yn y diwydiant bwyd-amaeth yn y DU, efallai eich bod yn gymwys i dderbyn bwrsariaeth. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i: **ibersdl.org.uk**



# Arloesi Bwyd-Amaeth

Cwrs dysgu o bell

## MSc

Mae'r rhaglen Meistr hon yn canolbwyntio ar hwyluso'r llif o wybodaeth ar hyd y gadwyn gyflenwi mewn bwyd-amaeth. Mae wedi'i hanelu at ymgynghorwyr amaethyddol ac amgylcheddol, milfeddygon, darlithwyr addysg bellach a staff gwerthu technegol. Os ydych yn gweithio, neu'n awyddus i weithio, yn un o'r meysydd hyn, dyma'r cwrs delfrydol (yn seiliedig ar ddysgu o bell a gweithdai) ar gyfer datblygu'ch sgiliau ymgynghori, diweddaru'ch gwybodaeth dechnegol ac ennill cymhwyster uwchraddedig wrth i chi weithio.

Bydd y cynllun astudio hwn yn rhoi dealltwriaeth fanwl i chi am yr heriau sy'n wynebu'r sector bwyd-amaeth ac yn rhoi'r sgiliau technegol a chyfathrebu i chi fel y gallwch ysbarduno gwaith arloesol ac arwain wrth gyflwyno newidiadau. Bydd y modiwlau dewisol yn eich galluogi i graffu'n fanylach ar agweddau penodol o'r gadwyn gyflenwi a/neu i ehangu'ch sgiliau cyfathrebu. Byddwch hefyd yn datblygu sgiliau ymchwil a'u rhoi ar waith drwy gynnal prosiect ymchwil a seilir ar y gweithle. Er mwyn gallu cynnwys myfyrwyr sydd mewn cyflogaeth, darperir y cwrs drwy gymysgedd o weithdai a modiwlau Dysgu o bell.

**Amser cyswllt**
Mae'r holl fodiwlau a ddarperir gan IBERS yn cael eu cynnal drwy gyfrwng dysgu o bell ar-lein. Mae pob modiwl yn cynnwys darlithoedd wedi'u recordio gan academyddion ac arbenigwyr yn y diwydiant, yn ogystal â chyflwyniadau, podlediadau, projectau e-grŵp, darlleniadau tywysedig, gwerslyfrau rhyngweithiol a seiadau trafod, ac aseiniadau ac e-sesiynau tiwtora. Mae'r modiwlau a seilir ar weithdai yn cynnwys dau weithdy deuddydd ac un sesiwn derfynol undydd. Disgwylir i fyfyriwr ôl-raddedig astudio am 200 awr wrth ddilyn modiwl 20 credyd. Dylech ddisgwyl treulio 2-3 awr yr wythnos yn fras ar ddarlithoedd, cyflwyniadau a phodlediadau ar-lein, a gweddill yr amser ar ddarllen ac aseiniadau.

**Asesiadau**
Nid oes arholiadau yn y rhaglen hon. Asesir y modiwlau a ddysgir drwy waith cwrs (sef adroddiadau a thraethodau, ond hefyd adolygiadau o destunau perthnasol, astudiaethau achos, cynigion ymchwil a thasgau dadansoddi data), aseiniadau ar-lein, cyflwyniadau a seiadau trafod.
Fel rheol mae'r modiwlau a seilir ar weithdai yn cynnwys dylunio tasg ymarferol a'i rhoi ar waith yn rhan o'r asesiadau.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau craidd y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn:

- Facilitation for Organisation Leadership (modiwl gweithdy)
- Sustainable Supply Systems
- Research Methods
- Work-based Dissertation (60 credyd).

Byddwch hefyd yn dewis o blith casgliad o fodiwlau eraill, sydd ar hyn o bryd yn cynnwys:

- Leading Change (modiwl gweithdy)
- Coaching and Mentoring for Leaders (modiwl gweithdy)
- Business Management for Rural Entrepreneurs
- Genetics and Genomics in Agriculture
- Grassland Systems
- Organic and Low Input Ruminant Production
- Plant Breeding
- Ruminant Gut Microbiology
- Ruminant Health and Welfare
- Ruminant Production
- Silage Science
- Waste Resource Management
- Future of Packaging
- Controlled Environment Agriculture
- Life Cycle Assessment and Beyond
- Precision Livestock
- Meat Processing
- Behaviour Change
- Biorefining technologies.

Mae'r modiwlau isod ar gael i Ysgolorion Nuffield presennol neu gyn-Ysgolorion Nuffield yn unig:

- Prosiect Ysgoloriaeth Nuffield (Gwobrau Newydd)
- Prosiect Ysgoloriaeth Nuffield (ar ôl cwblhau).

I gael rhagor o fanylion a'r wybodaeth ddiweddaraf am ein modiwlau, ewch i'n gwefan.

## Ffeithiau allweddol

**Math o radd:** MSc, Diploma, Tystysgrif

**Cod y cwrs:** D67ND

**Hyd:** 3 blynedd fel rheol, ond hyd at 5 mlynedd

**Gofynion mynediad:** Gradd Baglor (Anrhydedd) 2:2 neu gyfatebol mewn pwnc perthnasol, neu o leiaf dwy flynedd o brofiad perthnasol.

**Gwybodaeth ychwanegol:** Dim ond ar gael i fyfyrwyr sy'n byw neu'n gweithio yng Nghymru ar hyn o bryd

# BioArloesedd

Cymraeg ar gael yn rhannol drwy'r **Gymraeg**

Cwrs dysgu o bell

## MRes

Mae'r cynllun hwn wedi'i anelu'n bennaf at y rhai sy'n gweithio gyda'r cadwyni cyflenwi bwyd-amaeth yng Nghymru, neu oddi mewn iddynt, ac mae'n rhoi mwy o bwyslais ar ymchwil yn hytrach nag ar yr elfennau a ddysgir trwy gwrs. Bydd myfyrwyr yn cymryd unrhyw 2 fodiwl dewisol ynghyd â'r modiwl Dulliau Ymchwil lle byddant yn datblygu eu cynnig ymchwil gydag arolygydd dynodedig. Prif elfen y cynllun yw'r traethawd hir (tua 20,000 gair) sy'n werth 120 credyd. Rhagwelwn y bydd y rhan fwyaf o fyfyrwyr rhan amser yn cymryd dwy flynedd i gwblhau eu traethawd hir MRes. Mae gostyngiadau hael ar gael i fyfyrwyr sy'n byw neu'n gweithio yng Nghymru.

Er bod pob modiwl yn ymdrin ag arbenigedd technegol gwahanol mae pob un yn canolbwyntio ar integreiddio ethos economi gylchol yn y sector bwyd-amaeth. Mae'r MRes yn gam delfrydol i'r rhai sy'n ystyried datblygu eu gyrfa o safbwynt ymchwil.

**Amser cyswllt**
Rydym wedi cynllunio ein hyfforddiant i fod mor hygyrch â phosib, yn enwedig i bobl sydd mewn cyflogaeth amser llawn. Mae pob modiwl a ddysgir yn rhedeg am 12-14 wythnos trwy ddysgu o bell a gellir eu hastudio at ddibenion datblygu proffesiynol parhaus neu o ran diddordeb, neu cewch eu cynnwys yn rhan o gymhwyster uwchraddedig.

Disgwylir i fyfyriwr ôl-raddedig nodweddiadol astudio am 200 awr ar gyfer modiwl 20 credyd. Dylech ddisgwyl treulio tua 2-3 awr yr wythnos ar ddarlithoedd ar-lein, cyflwyniadau a phodlediadau, a gweddill yr amser yn darllen testunau ac yn gweithio ar aseiniadau.

Byddwch yn cwblhau elfennau ymchwil ein cymwysterau yn eich gweithle gyda goruchwyliaeth academaidd reolaidd. Cynhelir yr hyfforddiant ar y we, sy'n golygu cyhyd â bod gennych fynediad at gysylltiad band eang rhesymol (hynny yw, eich bod yn gallu ffrydio fideos ar YouTube er enghraifft), gallwch astudio ble a phryd bynnag sydd orau gennych chi. Mae'r deunydd dysgu yn cynnwys darlithoedd ar ffurf podlediadau, prosiectau e-grwpiau, darllen tywysedig, gweithlyfrau rhyngweithiol a fforymau trafod, ynghyd ag aseiniadau ac e-diwtorialau.

**Asesiadau**
Does dim arholiadau yn rhan o'r rhaglen hon. Asesir modiwlau a ddysgir trwy waith cwrs a thrafodaethau fforwm. Caiff ymchwil ei fonitro a'i asesu.

## Modiwlau

Mae'r modiwlau craidd y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs yn cynnwys modiwl Dulliau Ymchwil a byddwch hefyd yn cwblhau Prosiect Ymchwil Seiliedig ar Waith.

Bydd modd i chi ddewis dau fodiwl dewisol o blith amrywiaeth o fodiwlau, sydd ar hyn o bryd yn cynnwys:

- Manwl Fagu Da Byw / Precision Livestock
- Dyfodol Pecynnu / Future of Packaging
- Rheoli Deunydd Gwastraff / Waste Resource Management
- Membrane Filtration Technologies (a ddarperir gan Brifysgol Abertawe)
- Asesiad Cylch Bywyd a Thu Hwnt / Life Cycle Assessment and Beyond
- Nwyddau Cyhoeddus / Public Goods
- Amaethyddiaeth mewn Amgylchedd a Reolir (CEA) / Controlled Environment Agriculture (CEA)
- Newid Ymddygiad / Behaviour Change
- Prosesu Cig / Meat Processing.

I gael rhagor o fanylion a'r wybodaeth ddiweddaraf, ewch i'n gwefan.

## Ffeithiau allweddol

**Math o radd:** MRes

**Cod y cwrs:** J791D

**Hyd:** Mae myfyrwyr yn cofrestru am 5 mlynedd (Dysgu o bell) ond mae'n bosib gorffen mewn 3 blynedd.

**Gofynion mynediad:** Gradd Baglor (Anrhydedd) 2:2, neu gyfatebol mewn amaethyddiaeth neu'r gwyddorau biolegol, neu bwnc perthnasol. Caiff unigolion heb radd eu hystyried fesul un ar sail eu profiad gwaith perthnasol.

**Gwybodaeth ychwanegol:** Dim ond ar gael i fyfyrwyr sy'n byw neu'n gweithio yng Nghymru ar hyn o bryd

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i: **bioinnovationwales.org.uk**



# BioArloesedd

Cymraeg ar gael yn rhannol drwy'r **Gymraeg**

Cwrs dysgu o bell

## MSc, Diploma, Tystysgrif, Cyrsiau byr

Mae'r cynllun hwn wedi'i anelu'n bennaf at y rhai sy'n gweithio gyda'r cadwyni cyflenwi bwyd-amaeth yng Nghymru, neu oddi mewn iddynt. Byddwch yn cymryd y modiwl Systemau Cyflenwi Cynaliadwy, unrhyw bedwar modiwl dewisol, a'r modiwl Research Methods lle byddwch yn datblygu eich cynnig ymchwil gyda goruchwyliwr dynodedig. Rhagwelwn y bydd y rhan fwyaf o fyfyrwyr rhan-amser yn cymryd un flwyddyn i gwblhau eu traethawd hir 60-credyd. Mae gostyngiadau hael ar gael i fyfyrwyr sy'n byw neu'n gweithio yng Nghymru.

Er bod pob modiwl yn ymdrin ag arbenigedd technegol gwahanol mae pob un yn canolbwyntio ar integreiddio ethos economi gylchol yn y sector bwyd-amaeth. Mae'r MSc hwn yn edrych ar y meddylfryd diweddaraf mewn perthynas â'r Economi Gylchol ac mae'n ddelfrydol ar gyfer unrhyw un sydd â diddordeb mewn integreiddio'r ethos hwn i arferion neu bolisi bwyd-amaeth.

**Amser cyswllt**
Rydym wedi cynllunio ein hyfforddiant i fod mor hygyrch â phosib, yn enwedig i bobl sydd mewn cyflogaeth amser llawn. Mae pob modiwl a ddysgir yn rhedeg am 14 wythnos trwy ddysgu o bell a gellir eu hastudio at ddibenion datblygu proffesiynol parhaus neu o ran diddordeb, neu cewch eu cynnwys yn rhan o gymhwyster uwchraddedig.

Disgwylir i fyfyriwr ôl-raddedig nodweddiadol astudio am 200 awr ar gyfer modiwl 20 credyd. Dylech ddisgwyl treulio tua 2-3 awr yr wythnos ar ddarlithoedd ar-lein, cyflwyniadau a phodlediadau, a gweddill yr amser yn darllen testunau ac yn gweithio ar aseiniadau.

Byddwch yn cwblhau elfennau ymchwil ein cymwysterau yn eich gweithle gyda goruchwyliaeth academaidd reolaidd. Cynhelir yr hyfforddiant ar y we, sy'n golygu cyhyd â bod gennych fynediad at gysylltiad band eang rhesymol (hynny yw, eich bod yn gallu ffrydio fideos ar YouTube er enghraifft) gallwch astudio ble a phryd bynnag sydd orau gennych chi. Mae'r deunydd dysgu yn cynnwys darlithoedd ar ffurf podlediadau, prosiectau e-grwpiau, darllen tywysedig, gweithlyfrau rhyngweithiol a fforymau trafod, ynghyd ag aseiniadau ac e-diwtorialau.

**Asesiadau**
Does dim arholiadau yn rhan o'r rhaglen hon. Asesir modiwlau a ddysgir trwy waith cwrs a thrafodaethau fforwm. Caiff ymchwil ei fonitro a'i asesu.

## Modiwlau

Mae'r modiwlau craidd y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs yn cynnwys Systemau Cyflenwi Cynaliadwy/Sustainable Supply Systems, Research Methods a phrosiect ymchwil yn seiliedig ar waith.

Hefyd, bydd modd i chi ddewis pedwar modiwl o blith casgliad o fodiwlau eraill, sydd ar hyn o bryd yn cynnwys:

- Manwl Fagu Da Byw / Precision Livestock
- Dyfodol Pecynnu / Future of Packaging
- Rheoli Deunydd Gwastraff / Waste Resource Management
- Membrane Filtration Technologies (a ddarperir gan Brifysgol Abertawe)
- Asesiad Cylch Bywyd a Thu Hwnt / Life Cycle Assessment and Beyond
- Nwyddau Cyhoeddus / Public Goods
- Amaethyddiaeth mewn Amgylchedd a Reolir (CEA) / Controlled Environment Agriculture (CEA)
- Newid Ymddygiad / Behaviour Change
- Prosesu Cig / Meat Processing.

Yn ogystal â hyn, gellir dewis hyd at ddau fodiwl o'r MSc Cynhyrchu Bwyd Cynaliadwy ac Effeithlon fel opsiynau yn lle'r dewisiadau uchod. NI FYDD y gostyngiad yn berthnasol i'r rhain.

I gael rhagor o fanylion a'r wybodaeth ddiweddaraf am ein modiwlau, ewch i'n gwefan.

## Ffeithiau allweddol

**Math o radd:** MSc, Diploma, Tystysgrif

**Cod y cwrs:** J790D

**Hyd:** Mae myfyrwyr yn cofrestru am 5 mlynedd (Dysgu o bell) ond gallant orffen mewn 3 blynedd

**Gofynion mynediad:** Gradd Baglor (Anrhydedd) 2:2 neu gyfatebol mewn amaethyddiaeth neu'r gwyddorau biolegol, neu bwnc perthnasol. Caiff unigolion heb radd eu hystyried fesul un ar sail eu profiad gwaith perthnasol.

**Gwybodaeth ychwanegol:** Dim ond ar gael i fyfyrwyr sy'n byw neu'n gweithio yng Nghymru ar hyn o bryd

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i: **bioinnovationwales.org.uk**

# Cynhyrchu Bwyd yn Gynaliadwy ac Effeithlon

Cwrs dysgu o bell

## MSc, Diploma, Tystysgrif

Mae'r cwrs gradd hwn yn canolbwyntio ar ffyrdd i gynyddu effeithiolrwydd a lleihau'r effaith amgylcheddol ar draws y sector cynhyrchu sy'n seiliedig ar borfeydd.

Mae'r rhaglen yn rhoi hyfforddiant ôl-raddedig hyblyg a hygyrch i unigolion sy'n gweithio yn y sector bwyd-amaeth. Mae'r hyfforddiant yn cynnwys modiwlau dysgu o bell a phrosiectau ymchwil sy'n seiliedig ar waith. Gellir astudio'r rhain at ddibenion datblygu proffesiynol parhaus neu fel unedau sy'n cynnig credydau y gellir eu casglu er mwyn ennill cymwysterau uwchraddedig.

**Amser cyswllt**
Rydym wedi cynllunio ein hyfforddiant i fod mor hygyrch â phosib, yn enwedig i bobl sydd mewn cyflogaeth amser llawn. Mae pob modiwl a ddysgir yn rhedeg am 14 wythnos trwy ddysgu o bell a gellir eu hastudio at ddibenion datblygu proffesiynol parhaus eich hunain, neu o ran diddordeb, neu cewch eu cynnwys yn rhan o gymhwyster uwchraddedig.

Disgwylir i fyfyriwr ôl-raddedig nodweddiadol astudio am 200 awr ar gyfer modiwl 20 credyd. Dylech ddisgwyl treulio tua 2-3 awr yr wythnos ar ddarlithoedd ar-lein, cyflwyniadau a phodlediadau, a gweddill yr amser yn darllen testunau ac yn gweithio ar aseiniadau.

Cynhelir yr hyfforddiant ar y we yn gyfan gwbl, sy'n golygu cyhyd â bod gennych gysylltiad band eang rhesymol (hynny yw, eich bod yn gallu ffrydio fideos ar YouTube er enghraifft), gallwch astudio ble a phryd bynnag sydd orau gennych chi. Mae'r deunydd dysgu yn cynnwys darlithoedd ar ffurf podlediadau, prosiectau e-grwpiau, darllen tywysedig, gweithlyfrau rhyngweithiol a fforymau trafod, ynghyd ag aseiniadau ac e-diwtorialau.

**Asesiadau**
Does dim arholiadau yn rhan o'r cwrs hwn. Asesir modiwlau a ddysgir drwy waith cwrs (adroddiadau a thraethodau yn benodol, ond hefyd adolygiadau llenyddol, astudiaethau achos, cynigion ymchwil a thasgau dadansoddi data), cyflwyniadau a thrafodaethau fforwm.

## Modiwlau

Ar y radd hon byddwch yn astudio modiwlau Research Methods a'r traethawd hir.

Byddwch hefyd yn dewis nifer o fodiwlau o blith casgliad, sydd ar hyn o bryd yn cynnwys:

- Business Management for Rural Entrepreneurs
- Genetics and Genomics in Agriculture
- Grassland Systems
- Organic and Low Input Ruminant Production
- Plant Breeding
- Ruminant Gut Microbiology
- Ruminant Health and Welfare
- Ruminant Production
- Silage Science.

Dim ond i gyn-fyfyrwyr neu fyfyrwyr presennol Nuffield Scholars y mae'r modiwlau ychwanegol canlynol ar gael:

- Nuffield Scholarship Project (New Awards)
- Nuffield Scholarship Project (Post-Completion).

I gael rhagor o fanylion a'r wybodaeth ddiweddaraf am ein modiwlau, ewch i'n gwefan.

## Ffeithiau allweddol

**Math o radd:** MSc, Diploma, Tystysgrif

**Cod y cwrs:** D409D

**Hyd:** Hyd at 5 mlynedd (Dysgu o bell). Hefyd ar gael fel gradd 3 blynedd Dysgu o bell (D409D3).

**Gofynion mynediad:** Gradd Baglor (Anrhydedd) 2:2 neu gyfatebol mewn amaethyddiaeth neu'r gwyddorau biolegol, neu bwnc perthnasol. Caiff unigolion heb radd eu hystyried fesul un ar sail eu profiad gwaith perthnasol.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i: **ibersdl.org.uk**



# Ymgynghoriaeth Fferm a Chyfnewid Gwybodaeth

Cwrs dysgu o bell

## Tystysgrif

Mae'r cwrs hwn wedi'i anelu at ymgynghorwyr amaethyddol ac amgylcheddol, milfeddygon, darlithwyr Addysg Bellach a staff gwerthu technegol. Os ydych yn gweithio yn un o'r meysydd hyn, neu os ydych yn dymuno gwneud, mae'r cwrs dysgu cyfunol a/neu ddysgu o bell hwn yn ffordd ddelfrydol i ddatblygu eich sgiliau cynghori, diweddaru eich gwybodaeth dechnegol ac ennill cymhwyster uwchraddedig wrth i chi weithio.

Er mwyn hwyluso pethau i fyfyrwyr sy'n gweithio, darperir y cwrs hwn drwy gyfuniad o ddysgu cyfunol a/neu ddysgu o bell. Bydd myfyrwyr yn dewis tri modiwl a ddysgir dros gyfnod o 1 i 2 flynedd. Bydd o leiaf un a hyd at ddau o'r modiwlau hyn yn canolbwyntio ar wella eu rhyngweithiadau gyda ffermwyr a grwpiau ffermio ar gyfer cyfnewid gwybodaeth yn effeithiol neu gynghori busnesau fferm. Bydd hyn yn cael ei ategu gan o leiaf un a hyd at ddau fodiwl technegol, gyda'r nod o ddiweddaru gwybodaeth dechnegol myfyrwyr.

Mae'r cwrs unigryw hwn yn cynnig cyfuniad amrywiol o opsiynau mewn sgiliau cyfathrebu, gwyddoniaeth a busnes. Er mwyn darparu'r ystod hwn o sgiliau, mae dwy adran ym Mhrifysgol Aberystwyth, sef IBERS ac Ysgol Fusnes Aberystwyth, wedi partneru â Menter a Busnes, cwmni o Gymru sy'n arbenigo mewn cyfnewid gwybodaeth amaethyddol, sy'n darparu sesiynau gweithdy ymarferol.

**Amser cyswllt**
Cyflwynir y modiwlau a ddarperir gan IBERS a Phrifysgol Bangor drwy ddysgu o bell ar-lein yn gyfan gwbl. Mae pob modiwl yn cynnwys darlithoedd wedi'u recordio gan academyddion ac arbenigwyr y diwydiant, cyflwyniadau, podlediadau, prosiectau e-grwpiau, darlleniadau tywysedig, gweithlyfrau rhyngweithiol a fforymau trafod, ynghyd ag aseiniadau ac e-diwtorialau.

Disgwylir i fyfyriwr uwchraddedig arferol astudio am 200 awr pan fyddant yn gwneud modiwl 20 credyd. Dylech ddisgwyl treulio oddeutu 2 i 3 awr yr wythnos ar ddarlithoedd, cyflwyniadau a phodlediadau ar-lein, a gweddill yr amser ar ddarlleniadau ac aseiniadau.

**Asesiadau**
Does dim arholiadau yn rhan o'r rhaglen hon. Asesir modiwlau a ddysgir drwy waith cwrs (adroddiadau a thraethodau yn benodol, ond hefyd adolygiadau llenyddol, astudiaethau achos, cynigion ymchwil a thasgau dadansoddi data), aseiniadau, cyflwyniadau a thrafodaethau fforwm ar-lein. Fel arfer, mae asesiadau'r modiwlau gweithdy yn cynnwys dylunio a chyflawni tasgau ymarferol.

## Modiwlau

Ar y radd hon byddwch yn dewis astudio nifer o fodiwlau eraill o blith casgliad, sydd ar hyn o bryd yn cynnwys:

- Coaching and Mentoring for Leaders
- Facilitation for Organisation Leadership
- Farm Business Management
- Genetics and Genomics in Agriculture
- Grassland Systems
- Home Grown Feeds
- Organic and Low Input Ruminant Production
- Plant Breeding
- Ruminant Gut Microbiology
- Ruminant Health and Welfare
- Ruminant Nutrition
- Ruminant Production
- Silage Science.

I gael rhagor o fanylion a'r wybodaeth ddiweddaraf am ein modiwlau, ewch i'n gwefan.

## Ffeithiau allweddol

**Math o radd:** Tystysgrif

**Cod y cwrs:** D408D

**Hyd:** 2 flynedd fel rheol, ond hyd at 5 mlynedd

**Gofynion mynediad:** Gradd Baglor (Anrhydedd) 2:2 neu gyfatebol mewn pwnc gwyddonol perthnasol, neu o leiaf dwy flynedd o brofiad perthnasol. Caiff unigolion heb radd eu hystyried fesul un ar sail eu profiad gwaith perthnasol.

# MPhil, PhD, DAg, DProf

Rydym yn cynnig graddau MPhil, DAg (Doethuriaeth Broffesiynol drwy Ddysgu o bell), PhD a DProf ac ynddynt caiff myfyrwyr eu harwain a'u hyfforddi yn yr ystod eang o sgiliau sydd eu hangen arnynt i ddod yn wyddonwyr ymchwilio yn yr 21ain ganrif.

Caiff myfyrwyr IBERS eu hintegreiddio mewn amgylchedd ymchwil amlddisgyblaethol sy'n cwmpasu ymchwil sylfaenol ac ymchwil sy'n gysylltiedig â masnach, a hynny yn y gwyddorau amaethyddol, gwledig, amgylcheddol a biolegol.

Mae IBERS yn ymgymryd â gwyddoniaeth sy'n bwysig yn rhyngwladol yn y meysydd canlynol:

- gwyddorau planhigion, anifeiliaid a microbau
- amaethyddiaeth
- bioleg celloedd a ffisioleg
- biocemeg
- genomeg
- biowybodeg
- parasitoleg
- bioleg dŵr croyw a dŵr môr
- ecoleg
- bridio/atgynhyrchu planhigion ac anifeiliaid
- prosesau esblygiadol.

## MPhil a PhD

Mae'r rhain yn canolbwyntio ar brosiectau ymchwil sydd yn astudiaethau manwl iawn mewn maes penodol sy'n cyd-daro â diddordebau ymchwil y Brifysgol. Mae'r gwaith a gynhyrchir yn waith gwreiddiol y gellir ei gyhoeddi, ac mae canlyniadau'r ymchwil yn cael eu cyflwyno mewn traethawd ymchwil a thrwy arholiad llafar. Rhaid i fyfyrwyr ymchwil amser llawn fod yn Aberystwyth am o leiaf 44 wythnos y flwyddyn.

## DAg

Rhaglen Ddoethuriaeth broffesiynol yw hon sy'n arwain at gymhwyster sydd, er yn cyfateb mewn statws a her i PhD, yn fwy addas i'r rhai sy'n dilyn gyrfaoedd proffesiynol yn hytrach na rhai academaidd. Mae ein rhaglen DAg yn cynnwys 3 modiwl a ddysgir o bell a 2 brosiect ymchwil seiliedig ar waith a gynorthwyir trwy rith gyfarfodydd arolygol byw. Er mai ar gwblhau darn aeddfed o ymchwil y mae'r prif bwyslais academaidd, mae'r llwybr cydweithrediadol sy'n cael ei ddarparu trwy brosiect seiliedig ar waith yn rhoi cyfle delfrydol i ymgorffori gwybodaeth newydd yn y gweithle a sicrhau bod yr ymchwil yn berthnasol i ddiwydiant.

## DProf

Mae'r DProf neu Ddoethuriaeth Broffesiynol mewn Bioarloesedd yn cynnig cymhwyster sy'n addas i'r rheiny sy'n dilyn gyrfa broffesiynol yn hytrach nag un academaidd, er ei fod yn cynnig yr un statws a'r un heriau â chymhwyster PhD. Mae'n cynnig llwybr gyrfaol ac hefyd yn gyfle i ddiwydiant chwarae rhan mewn ymchwil ystyrlon. Mae ein rhaglen DProf tair blynedd yn cynnwys tri modiwl a ddysgir trwy ddysgu o bell a dau brosiect ymchwil yn seiliedig ar waith a gynhelir gan gyfarfodydd goruchwylio wyneb yn wyneb ac ar-lein.

I gael rhagor o wybodaeth, gweler y tudalennau 'Sut i wneud cais' neu cysylltwch â ni.






Ein cwch ymchwil 10 metr, Taliesin.

# Ein hymchwil

Mae'r hyfforddiant ymchwil i uwchraddedigion, a'r prosiectau ymchwil mewn graddau Meistr a ddysgir drwy gwrs, yn cael eu cwblhau gyda chymorth arolygwyr sydd yn aelodau o un neu fwy o grwpiau ymchwil IBERS, sydd, gyda'i gilydd, yn ymdrin â phedair her allweddol i'r gymdeithas, sef amaethyddiaeth gynaliadwy, newid yn yr hinsawdd, iechyd anifeiliaid a phobl, a bioamrywiaeth.

Dyma'r grwpiau ymchwil:

## 1. Amaethyddiaeth gynaliadwy a bwyd iach

- **Amaethyddiaeth gynaliadwy ar lastiroedd** - deall yr effaith y mae cynnyrch da byw yn ei chael ar yr amgylchedd, datblygu codlysiau porthiant i ddarparu protein cynaliadwy, cadwraeth ffrwythlondeb y pridd a gwasanaethau ecosystemau.
- **Gwyddor ffenomig ac amaethyddiaeth mewn amgylchedd a reolir** - deall sut mae planhigion yn ymateb i'w hamgylchedd, mewn caeau neu mewn amgylcheddau a reolir.
- **Bridio planhigion at y dyfodol** - datblygu amrywiadau newydd o gnydau gan ddefnyddio technolegau bridio confensiynol a rhai newydd moleciwlaidd er mwyn gwella perfformiad a nodweddion ansawdd, i leihau effaith amaeth ar yr amgylchedd, a chyflymu'r cynnydd tuag at ymdrin ag elfennau sy'n peri straen anfiotig a biotig.
- **Deiet ac iechyd** - cysylltu bwydydd ag effeithiau deiet ac ymarfer corff ar iechyd a salwch, heneiddio a rheoli cyflyrau meddygol hirdymor.

## 2. Ymaddasu at newid yn yr hinsawdd a lliniaru ei effeithiau

- **Lleihau nwyon tŷ gwydr mewn amaethyddiaeth da byw** - helpu'r Deyrnas Gyfunol i daro ei tharged o gyrraedd sefyllfa sero-net o ran allyriannau nwyon tŷ gwydr erbyn 2050
- **Cnydau ar gyfer ynni a deunyddiau cynaliadwy** - datblygu ffynonellau cynaliadwy o fiomas ar gyfer ynni a deunyddiau cynaliadwy, a hynny wrth leihau allyriannau nwyon tŷ gwydr (bio-ynni gan ddal a storio carbon (BECCS)) a darparu buddiannau i ecosystemau a fydd yn cynnwys dal carbon a'i storio.
- **Adnoddau naturiol a'r economi gylchol** - sicrhau cyn lleied o wastraff â phosib drwy dechnolegau atgynhyrchiol, megis drwy bioburo (yng Nghanolfan Fioburo BEACON) ac adfachu cyfansoddion.
- **Effeithiau ar amgylchedd y môr ac atebion posib** - deall sut mae rhywogaethau yn ymateb i amgylcheddau wrth iddynt newid, a sut mae newidiadau o ran demograffeg, dosraniadau daearyddol, ac amrywiaeth genetig yn rhyngweithio â straeniau naturiol ac anthropogenig i effeithio ar gynaliadwyedd systemau ac adnoddau morol.

## 3. Iechyd anifeiliaid a dynol cydgysylltiedig

- **Parasitoleg a rheoli llyngyr** - astudio amryw afiechydon heintus a achosir gan feirysau, bacteria, protosoa, microsboridia a llyngyr; cydweithio â phartneriaid mewn gwledydd datblygedig, ac isel a chanolig eu hincwm, a hynny ar draws sefydliadau academaidd, llywodraethol a phreifat.
- **Twbercwlosis buchol: canfod, diogelu a rheoli** - deall bioleg haint Mycobacterium bovis er mwyn darparu sail i ddatblygu a defnyddio profion diagnostig a brechlynnau newydd, a rhoi cyngor a chefnogaeth arbenigol i'r llywodraethau a rhanddeiliaid allweddol eraill ynghylch dileu bTB.
- **Epidemioleg** - astudio dosraniad a phenderfynyddion digwyddiadau sy'n gysylltiedig ag iechyd mewn poblogaethau dynol ac anifeiliaid (yn enwedig anifeiliaid amaeth a gwyllt yng Nghymru) ar y graddfeydd macrosgopig a microsgopig drwy ymchwilio ar lefel y boblogaeth yn hytrach na'r unigolyn.
- **Un iechyd a milheintiau** - gweithio ar brosiectau yng Nghymru ac yn rhyngwladol i wella iechyd a lles drwy atal risg a lliniaru effeithiau argyfyngau wrth y rhyngwyneb rhwng pobl, anifeiliaid a'u hamryw amgylcheddau.

## 4. Bioamrywiaeth - ymchwilio a chadwraeth

- **Cadwraeth a rheolaeth ar adnoddau naturiol** - dyfnhau ein gwybodaeth am sut mae dulliau rheoli yn effeithio ar ddarpariaeth cyfalaf naturiol a gwasanaeth ecosystemau e.e. darparu dŵr yfed a lliniaru effeithiau llifogydd, dal carbon a'i storio yn y pridd, rheoli tirweddau a threftadaeth, a bioamrywiaeth.
- **Deall ac adfer ecosystemau a'u gwasanaethau** - astudio sut mae gweithgareddau pobl wedi niweidio adnoddau naturiol neu sut mae newid yn yr hinsawdd wedi effeithio arnynt. Datblygu strategaethau i'w hadfer, gan gynnwys bioadfer systemau sydd wedi'u llygru, rheoli'r tir er mwyn sicrhau ei fod yn cadw mwy o ddŵr, addasu cyfansoddiad cymunedau planhigion i wella eu gwytnwch yn wyneb hinsawdd eithafol, ac ymyrryd er mwyn atal rhywogaethau ymledol.
- **Ecoleg ac esblygu, poblogaethau i ecosystemau** - deall sut mae newidynnau newid yn yr hinsawdd (tymheredd, $CO_2$, asideiddio'r cefnforoedd ac ymbelydredd uwchfioled) yn effeithio ar ecosystemau, a datblygu strategaethau ar gyfer cadwraeth a rheolaeth ar rywogaethau, cynefinoedd ac ecosystemau.





Yr Ysgol

# Fusnes Aberystwyth

Fel myfyriwr yn Ysgol Fusnes Aberystwyth, bydd eich cwrs yn eich galluogi i archwilio ymchwil academaidd ynghyd ag ennill achrediad proffesiynol. Mae ein cyrsiau wedi'u hachredu gan sawl corff proffesiynol, gan gynnwys Cymdeithas y Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig. Rydym hefyd yn ganolfan Porth enwebedig ar gyfer y Sefydliad Marchnata Siartredig.

Yn Ysgol Fusnes Aberystwyth eich datblygiad proffesiynol yw ein blaenoriaeth ni. Mae'r rhaglenni a amlinellir yma wedi'u cynllunio i ddatblygu eich addysg dechnegol a gwella eich sgiliau a'ch cymwyseddau craidd a throsglwyddadwy. Trwy astudio gyda ni cewch elwa ar theorïau ac addysg sydd ar flaen y maes gyda phwyslais ar eu rhoi ar waith yn ymarferol. Mae dewis astudio yn Ysgol Fusnes Aberystwyth hefyd yn golygu y bydd modd i chi ymuno â'n rhwydwaith fyd-eang o gyn-fyfyrwyr.

Cewch eich dysgu mewn ysgol fusnes sy'n canolbwyntio ar ddarparu addysg ragorol, sydd wedi derbyn sawl gwobr uchel ei bri am ansawdd ei rhaglenni, ac sy'n enwog am ei hamgylchedd dysgu eithriadol, deheurwydd technegol ei staff academaidd a'u cynnyrch ymchwil o safon fyd-eang. Mae achrediadau gan CMI, CIM, ACCA, ymhlith nifer o gyrff eraill sy'n arwain y byd, yn atgyfnerthu rhagoriaeth broffesiynol ein rhaglenni.

Mae rhaglenni Meistr mewn Gweinyddu Busnes (MBA) yn derbyn myfyrwyr ym mis Medi a mis Ionawr.

## Graddau a ddysgir


| | |
|---|---|
| Meistr mewn Gweinyddiaeth Fusnes (MBA) | t.78 |
| Rhaglenni Meistr mewn Gweinyddiaeth Fusnes (MBA) Proffesiynol | t.79 |
| Cynlluniau Meistr Gweithredol | t.80 |
| Busnes Rhyngwladol a Marchnata MSc | t.81 |
| Cyllid, MSc | t.82 |
| Cyllid a Bancio Rhyngwladol, MSc | t.83 |
| Cyllid Rhyngwladol, MSc | t.84 |
| Rheolaeth a Chyllid, MSc | t.85 |
| Rheolaeth Busnes Ryngwladol, MSc | t.86 |


## Graddau ymchwil


| | |
|---|---|
| MPhil, PhD, DProf | t.87 |






# Meistr mewn Gweinyddiaeth Fusnes (MBA)

Mae'r Meistr mewn Gweinyddiaeth Fusnes (MBA) yn eich helpu i feithrin dealltwriaeth o sgiliau a chysyniadau rheoli uwch a sut i'w cymhwyso i sefyllfaoedd masnachol.

Byddwch yn astudio damcaniaethau cyfredol ac arferion gorau cydnabyddedig mewn meysydd fel arweinyddiaeth, gweithrediadau, cyllid, llywodraethu corfforaethol a chynaliadwyedd. Cewch eich dysgu trwy gwricwlwm cytbwys, gan gynnwys damcaniaeth, gweithdai, ac astudiaethau achos o'r maes rhyngwladol, gan gymryd rhan mewn timau a'u harwain i gynnig atebion cyfoes i faterion a chyfleoedd busnes sy'n datblygu.

I ddechrau, mae'r rhaglen yn canolbwyntio ar feithrin eich dealltwriaeth academaidd o'r fframweithiau, y modelau a'r cysyniadau a ddefnyddir mewn cyrff sefydledig a newydd, fel bod modd i chi gymhwyso'r wybodaeth hon i sicrhau rhagoriaeth wrth arwain a rheoli. Un o'r prif amcanion yw darparu hyfforddiant dadansoddol perthnasol ar gyfer datblygiadau cystadleuol yn y sectorau cyhoeddus a phreifat, a rhoi'r adnoddau proffesiynol i chi ar gyfer arwain a rheoli newid.

Dyma rai o'r cyfleoedd arbenigol sydd ar gael i fyfyrwyr MBA yn Aberystwyth:

- derbyn cyngor ymarferol a phenodol i'r diben gan weithwyr proffesiynol ac ymarferwyr sefydledig yn y diwydiant
- cael eich dysgu gan ymchwilwyr gweithgar, gan sicrhau eich bod yn dysgu am y damcaniaethau a'r wybodaeth ddiweddaraf yn y maes
- cymorth penodol i'ch helpu i drosglwyddo i gyflogaeth broffesiynol mewn modd cadarnhaol
- cyfle i wneud cais am gyfnod o brofiad gwaith
- bod yn rhan o rwydwaith eang o gyn-fyfyrwyr.

**Cyflogadwyedd**

Cynlluniwyd y rhaglen MBA i roi ichi gyfres o sgiliau trosglwyddadwy y gallwch eu cymhwyso i amrywiaeth o gyd-destunau gwaith. Wrth raddio, byddwch wedi profi eich gallu i ddadansoddi amgylcheddau, strwythuro a chyfathrebu'r syniadau damcaniaethol ac ymarferol diweddaraf, i siarad â chynulleidfaoedd o bob math, i glorianu a threfnu gwybodaeth, i weithio'n effeithiol gydag eraill ac i'w harwain, ac i gyflawni amcanion o fewn cyfnodau amser llym ac erbyn dyddiadau cau penodol. Mae'r llwybrau gyrfaol nodweddiadol yn cynnwys Uwch Ymgynghorydd Rheoli, Cyfarwyddwr/Is-lywydd Gwerthiannau, Cyfarwyddwr/Is-lywydd Adnoddau Dynol a Phrif Swyddog Technoleg ymhlith eraill. Hwylusir eich llwybr penodol chi gan y sgiliau a'r cymwyseddau a ddatblygir yn ystod y rhaglen MBA.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau craidd y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn:

- Business Economics
- Corporate Governance and Sustainability
- Financial Analysis and Decision Making
- Managerial Reports
- Marketing Management Strategy
- People and Organisations.

Ac un modiwl dewisol - un ai International Strategy and Operations neu Global Marketing.

**Business Economics**

Archwilio egwyddorion micro-economeg a macro-economeg, cysyniadau a dulliau dadansoddi, a phwysleisio swyddogaeth polisi a rheoliadau'r llywodraeth ar lefel micro-economeg a macro-economeg.

**Corporate Governance and Sustainability**

Cyflwyno cysyniadau, damcaniaethau, ymchwil ac arferion allweddol llywodraethu corfforaethol mewn cyd-destun sy'n datblygu'n fwyfwy byd-eang, gan roi pwyslais arbennig ar faterion moeseg busnes a chynaliadwyedd.

**Financial Analysis and Decision Making**

Datblygu gafael ymarferol ar gyfrifeg ariannol a rheolaethol, dadansoddi ariannol a gwneud penderfyniadau ariannol, perthnasol i rai sy'n gobeithio bod yn rheolwyr cyffredinol.

**Managerial Reports**

Cynorthwyo myfyrwyr i ddadansoddi'r hyn a ddysgwyd ar y cwrs a'i gymhwyso i sefyllfaoedd gwirioneddol trwy astudiaethau achos.

I gael rhagor o fanylion a'r wybodaeth ddiweddaraf am ein modiwlau, ewch i'n gwefan.

## Ffeithiau allweddol

**Math o radd:** MBA

**Cod y cwrs:** N1834

**Hyd:** 1 flwyddyn (amser llawn) neu 2-3 blynedd (rhan-amser)

**Gofynion mynediad:** Gradd Baglor (Anrhydedd) 2:2 neu gyfatebol mewn unrhyw bwnc. Caiff unigolion heb radd eu hystyried fesul un ar sail eu profiad gwaith perthnasol.

**Amser cyswllt:** Hyd at 12 awr yr wythnos yn y ddau semester cyntaf, yna pa bynnag hyd o amser a drefnir gyda'r tiwtoriaid dros gyfnod traethawd hir yr haf.



# Rhaglenni Meistr mewn Gweinyddiaeth Fusnes (MBA) Proffesiynol

Wedi'u cynllunio ar gyfer darpar reolwyr / arweinwyr busnes, bydd angen i chi fod wedi cael profiad gwaith blaenorol ar lefel briodol i elwa i'r eithaf ar eich profiad dysgu ar y rhaglenni MBA Proffesiynol. Mae pob un o'r rhaglenni MBA proffesiynol yn canolbwyntio ar ddisgyblaeth benodol, gan ganiatáu i chi arbenigo mewn maes penodol.

### **N1837** MBA Rheoli Cadwyn Gyflenwi Fyd-eang

Mae'r rhaglen hon yn canolbwyntio ar rwydweithiau a systemau cadwyn gyflenwi fyd-eang modern gan gynnwys logisteg, systemau logisteg gwyrdd, a systemau cadwyn gyflenwi fyd-eang. Byddwch hefyd yn dysgu am y tueddiadau diweddaraf ym meysydd dadansoddi ariannol, economeg busnes ac arwain pobl a sefydliadau. Ar ddiwedd eich astudiaethau byddwch yn cwblhau adroddiad sylweddol ar reoli cadwyn gyflenwi a fydd yn canolbwyntio ar ddarparu gwelliannau sy'n ychwanegu gwerth o fewn eich cwmni.

### **N1838** MBA Rheoli Peirianneg

Mae'r rhaglen hon yn canolbwyntio ar systemau peirianneg a rheoli systemau sy'n seiliedig ar beirianneg a thechnoleg. Byddwch yn ymgymryd â modiwlau ar ddadansoddi a rheoli peirianneg fforensig, systemau ansawdd, rheoli prosiectau a systemau cadwyn gyflenwi. Ar ddiwedd eich astudiaethau byddwch yn cwblhau adroddiad sylweddol ar reoli peirianneg a fydd yn canolbwyntio ar ddarparu gwelliannau sy'n ychwanegu gwerth o fewn eich cwmni.

### **N1839** MBA Rheoli Prosiectau

Mae'r rhaglen hon yn canolbwyntio ar arwain prosiectau a datblygu a chymhwyso adnoddau a thechnegau rheoli prosiect, gan gynnwys arwain timau, technegau a systemau rheoli prosiect, dadansoddi ariannol a monitro a rheoli prosiectau. Ar ddiwedd eich astudiaethau byddwch yn cwblhau adroddiad sylweddol ar reoli prosiectau a fydd yn canolbwyntio ar ddarparu gwelliannau sy'n ychwanegu gwerth o fewn eich cwmni.

### **N1840** MBA Marchnata Rhyngwladol

Mae'r rhaglen hon yn cynnig dirnadaethau a gwybodaeth am y datblygiadau diweddaraf ym maes marchnata rhyngwladol, gan gynnwys systemau ac arferion marchnata byd-eang, strategaethau marchnata yn ogystal â dadansoddi ariannol, cynaliadwyedd ac arweinyddiaeth busnes. Ar ddiwedd eich astudiaethau byddwch yn cwblhau adroddiad sylweddol ar farchnata rhyngwladol a fydd yn canolbwyntio ar ddarparu gwelliannau sy'n ychwanegu gwerth o fewn eich cwmni.

### **N1841** MBA Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol

Mae'r rhaglen hon yn darparu gwybodaeth am y tueddiadau diweddaraf ym meysydd economeg amgylcheddol, gwneud penderfyniadau amgylcheddol, cynaliadwyedd a rheolaeth amgylcheddol ac mae'n cyfuno hyn â gwaith yn ymwneud â chyllid busnes, arweinyddiaeth ac economeg busnes yn ogystal â llywodraethu corfforaethol a dadansoddi risg. Ar ddiwedd eich astudiaethau byddwch yn cwblhau adroddiad sylweddol ar Gyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol a fydd yn canolbwyntio ar ddarparu gwelliannau sy'n ychwanegu gwerth o fewn eich cwmni.

# Cynlluniau Meistr Gweithredol

**N1835** MBA Gweithredol Byd-eang (EMBA)

Wedi'i lunio ar gyfer arweinwyr busnes, bydd y cwrs hwn yn rhoi i chi'r sgiliau arwain a'r wybodaeth ddiweddaraf i gyflawni newid sylweddol a pharhaol yn eich sefydliad. Bydd yn denu ymgeiswyr o bob rhan o'r byd i ddysgu sut mae cyflawni arweinyddiaeth ar gyfer newid mewn gwahanol amgylchiadau gweithredu a diwylliannau. Byddwch yn ymgymryd â chyfres o fodiwlau ar ffurf gweithdai a fydd yn cynnwys marchnata byd-eang, arweinyddiaeth, cyllid busnes ac economeg, a strategaeth a gweithredoedd rhyngwladol. Byddwch yn cwblhau prosiect 'pen y mwdwl' ar arwain newid strategol, gan ganolbwyntio ar eich cwmni'ch hun ar ôl eich cyfnod astudio.

**N1836** Meistr Rheoli Gweithredol (EMMgt)

Rhaglen ar arwain newid a fydd yn creu effaith fawr ar gyfer arweinwyr busnes yw hon. Fe'i dyluniwyd i'r rhai sydd am gyflawni newid ar gyfer perfformiad uchel drwy ddysgu mewn modd sy'n canolbwyntio'n fwy penodol a chyflawni arweinyddiaeth ar gyfer newid yn eu cwmnïau. Byddwch yn cwblhau nifer o fodiwlau sylfaen gan gynnwys cyllid busnes, strategaeth ac arweinyddiaeth ac wedyn byddwch yn symud ymlaen i ddatblygu prosiect 'pen y mwdwl' sylweddol a strategol a fydd yn canolbwyntio ar gyflawni rheolaeth ar newid yn eich cwmni. Cewch arolygydd neu fentor ar gyfer eich rhaglen arwain newid. Yn fras, byddwch yn neilltuo tua dau draean o'ch amser ar eich prosiect 'pen y mwdwl' ac fe fydd angen dangos bod effaith eisoes i'w gweld o'r gwaith hwn.

## Dysgu o bell

Mae'r ddwy raglen Meistr Gweithredol hefyd ar gael trwy ddysgu o bell. Mae cynnwys y cwrs yr un fath ond caiff ei gyflwyno mewn ffordd wahanol. Gwnewch gais am yr MBA Gweithredol Byd-eang N1835D trwy ddysgu o bell (EMBA) neu'r cwrs Meistr Rheoli Gweithredol N1836D trwy ddysgu o bell (EMMgt).

I gael rhagor o fanylion a'r wybodaeth ddiweddaraf, ewch i'n gwefan a gweler ein llyfryn Cynlluniau Meistr Gweithredol.





# Busnes Rhyngwladol a Marchnata

## MSc

Bydd y cynllun gradd Busnes Rhyngwladol a Marchnata, sef ein rhaglen fwyaf poblogaidd, yn craffu ar fframwaith a chysyniadau rheoli busnes ac arwain ym myd busnes ynghyd â'r safbwyntiau technegol a chyfathrebu sy'n gysylltiedig â'r proffesiwn marchnata. Mae'r radd hon yn cynnig dealltwriaeth academaidd drylwyr o ddamcaniaethau a dulliau rheoli, gyda phwyslais cryf ar reoli a strategaeth farchnata. Wrth ddewis astudio'r radd Busnes Rhyngwladol a Marchnata, byddwch yn datblygu dealltwriaeth academaidd drwyadl o ddamcaniaethau a dulliau rheoli, ac fe fydd pwyslais cadarn ar feddwl yn strategol, gan gynnwys ystyried cyllid, gweithredu, marchnata a globaleiddio.

Mae llunio strategaeth a'i rhoi ar waith yn gofyn am bwerau dadansoddol sylweddol. Un ffocws o'r radd hon yw i'ch arfogi â'r sgiliau allweddol sydd eu hangen arnoch, megis cynnal ymchwil cynradd ac eilaidd i'r farchnad genedlaethol a rhyngwladol, adnabod a lleihau effaith y gwahaniaethau diwylliannol ar effeithiolrwydd busnes, rhoi strategaeth farchnata yn seiliedig ar ganlyniadau ar waith, a monitro'r fframweithiau mewnol ac allanol a ddefnyddir i gynnal twf yn y refeniw a'r proffidioldeb a ragwelir.

Bydd archwilio'r grymoedd sy'n siapio'r amgylchedd busnes rhyngwladol a'i effaith ar weithrediadau a rhagolygon strategol cwmnïau rhyngwladol - sy'n angenrheidiol i ffynnu o fewn ecosystemau busnes dynamig - yn ganolog i hyn. Mae'r rhaglen hefyd yn cynnwys strwythur sefydliadol yr economi ryngwladol ac yn archwilio sut caiff llifau masnach a chyllid eu cefnogi gan sefydliadau economaidd rhyngwladol. Drwy gydol y rhaglen, byddwch yn cymhwyso'ch dysg i astudiaethau achos cyfoes mewn busnes rhyngwladol a marchnata rhyngwladol.

**Cyflogadwyedd**

Trwy astudio'r cwrs gradd hwn byddwch yn datblygu eich dealltwriaeth o ymddygiad a strwythurau cyfundrefnol, a byddwch yn gallu ymchwilio i ddata busnes a chyllid, ei ddehongli a'i ddefnyddio. Bydd graddedigion y rhaglen hon mewn sefyllfa dda i fynd i yrfa mewn nifer o feysydd busnes, gan gynnwys dadansoddi busnes rhyngwladol, bancio buddsoddi corfforaethol, marchnata ryngwladol weithredol, cyfarwyddo cynnyrch a rhaglenni byd-eang, a chaffael rhyngwladol a'r gadwyn gyflenwi fyd-eang.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau craidd y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn:

- Financial Analysis and Decision Making
- Global Marketing
- International Business Environment
- International Commercial Law
- Strategy and Management Report
- Marketing Management Strategy
- People and Organisations.

**Financial Analysis and Decision Making**

Datblygu gafael ymarferol ar gyfrifeg ariannol a rheolaethol, dadansoddi ariannol a gwneud penderfyniadau ariannol, perthnasol i rai sy'n gobeithio bod yn rheolwyr cyffredinol.

**Global Marketing**

Rhoi dealltwriaeth drylwyr o ddamcaniaethau, cysyniadau a thechnegau marchnata rhyngwladol a byd-eang, yn cynnwys cymhellion ar gyfer ehangu rhyngwladol, dewis marchnad a chael mynediad iddi, rheoli cyfathrebu a chyswllt â chwsmeriaid mewn marchnadoedd rhyngwladol, a brandio rhyngwladol.

**Strategy and Management Report**

Cynorthwyo myfyrwyr i ddadansoddi'r hyn a ddysgwyd ar y cwrs a'i gymhwyso i sefyllfaoedd gwirioneddol trwy astudiaethau achos.

**Marketing Management Strategy**

Ymdrin â chanfod marchnadoedd, cael mynediad iddynt a'u datblygu, a chloriannu swyddogaeth marchnata mewn amgylcheddau sefydliadol cyfoes.

I gael rhagor o fanylion a'r wybodaeth ddiweddaraf am ein modiwlau, ewch i'n gwefan.

## Ffeithiau allweddol

**Math o radd:** MSc

**Cod y cwrs:** N128

**Hyd:** 1 flwyddyn (amser llawn) neu 2-3 blynedd (rhan-amser)

**Gofynion mynediad:** Gradd Baglor (Anrhydedd) 2:2 neu gyfatebol mewn unrhyw bwnc. Caiff unigolion heb radd eu hystyried fesul un ar sail eu profiad gwaith perthnasol.

**Amser cyswllt:** Hyd at 12 awr yr wythnos yn y ddau semester cyntaf, yna pa bynnag hyd o amser a drefnir gyda'r tiwtoriaid dros gyfnod traethawd hir yr haf.

# Cyllid

## MSc

Yn addas i ymgeiswyr sydd â chefndir blaenorol mewn mathemateg, cyllid, economeg, bancio, ystadegaeth neu econometreg, bydd y radd hon yn rhoi i chi sgiliau dadansoddi ac ymarferol ym meysydd cyllid corfforaethol, buddsoddi, marchnadoedd ariannol rhyngwladol, a sefydliadau ariannol. Mae'r diwydiant yn edrych yn barhaus am raddedigion uwch sy'n gymwys yn dechnolegol er mwyn datblygu a moderneiddio'u hamgylchedd busnes.

Yma yn Ysgol Fusnes Aberystwyth, cewch ddysgu am farchnadoedd ariannol sefydledig a rhai sy'n datblygu, y syniadau a'r ymchwil diweddaraf ar faterion cyfoes megis rheoli risg a safonau moesegol ym myd bancio, rheoleiddio ariannol rhyngwladol ym myd cyllid corfforaethol, rheoli'r portffolio modern a dulliau arloesol ym maes rhyng-gyfryngu. O ecwitïau, bondiau ac offerynnau incwm sefydlog eraill i flaendrafodion ac opsiynau, o uno cwmnïau a chaffaeliadau i opsiynau go iawn, bydd y rhaglenni hyn yn rhoi i chi'r sgiliau sylfaenol a'r wybodaeth sydd eu hangen arnoch i gael gyrfa broffesiynol gyffrous ym maes gwasanaethau ariannol neu reolaeth ariannol mewn amryw helaeth o sectorau eraill.

Dyma rai o'r cyfleoedd arbenigol sydd ar gael i fyfyrwyr Cyllid yn Aberystwyth:

- derbyn cyngor ymarferol a phenodol i'r diben gan weithwyr proffesiynol ac ymarferwyr sefydledig yn y diwydiant
- cael eich dysgu gan ymchwilwyr gweithgar, gan sicrhau eich bod yn dysgu am y damcaniaethau a'r wybodaeth ddiweddaraf yn y maes
- cymorth penodol i'ch helpu i drosglwyddo yn ôl i gyflogaeth broffesiynol mewn modd cadarnhaol
- bod yn rhan o rwydwaith eang o gyn-fyfyrwyr.

**Cyflogadwyedd**
Trwy astudio'r cwrs gradd hwn byddwch yn datblygu eich sgiliau datrys problemau, gwneud penderfyniadau, dadansoddi a meddwl yn greadigol, yn ogystal â sgiliau gweithio mewn tîm, rheoli amser a threfnu. Bydd graddedigion y rhaglen hon mewn sefyllfa dda i fynd i yrfa ym meysydd cyllid corfforaethol a chyllid mentergarwch arbenigol, bancio buddsoddi a bancio masnachol, rheoli cyfoeth preifat gwerth-net uchel ac amrywiaeth o swyddi eraill yn y proffesiwn Cyllid a Chyfrifeg.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau craidd y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn:

- Advanced Corporate Finance
- Banking and International Intermediation
- Financial Econometrics
- Financial Research Methods
- International Financial Markets and Investments
- Portfolio Analysis and Management.

**Advanced Corporate Finance**
Datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o'r dewisiadau cyllido sydd gan gwmnïau, a'u goblygiadau treth; yr adnoddau sydd ar gael i reoli risg ariannol; y dewis o ran strwythur cyfalaf cwmni; clorianny cost cyfalaf cwmni a pherthnasedd hyn i benderfyniadau buddsoddi; clorianny perfformiad ariannol; a'r ffactorau sy'n dylanwadu ar ddewis polisi difidend.

**Banking and International Intermediation**
Dadansoddi sut mae banciau a chyfryngwyr ariannol eraill yn gweithredu'n economaidd, gyda phwyslais arbennig ar ansefydlogrwydd sylfaenol banciau. Archwilir y farchnad gyfnewid arian tramor a damcaniaethau ynglŷn â phennu'r gyfradd gyfnewid. Mae'r modiwl yn ymchwilio i achosion argyfyngau ariannol rhyngwladol diweddar, ac yn astudio'r ymateb rheolaethol byd-eang.

**International Financial Markets and Investments**
Rhoi cefndir damcaniaethol ac empirig cadarn i fyfyrwyr ym maes buddsoddiadau a marchnadoedd ariannol.

I gael rhagor o fanylion a'r wybodaeth ddiweddaraf am ein modiwlau, ewch i'n gwefan.

## Ffeithiau allweddol

**Math o radd:** MSc

**Cod y cwrs:** N300

**Hyd:** 1 flwyddyn (amser llawn) neu 2-3 blynedd (rhan-amser)

**Gofynion mynediad:** Gradd Baglor (Anrhydedd) 2:2 neu gyfatebol mewn unrhyw bwnc. Caiff unigolion heb radd eu hystyried fesul un ar sail eu profiad gwaith perthnasol.

**Amser cyswllt:** Hyd at 12 awr yr wythnos yn y ddau semester cyntaf, yna pa bynnag hyd o amser a drefnir gyda'r tiwtoriaid dros gyfnod traethawd hir yr haf.



# Cyllid a Bancio Rhyngwladol

## MSc

Mae'r radd hon yn rhoi ichi'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer gyrfa lwyddiannus ym maes bancio, gyda phwyslais ar y busnes bancio rhyngwladol.

Byddwch yn datblygu dealltwriaeth fanwl o gyllid rhyngwladol, gyda'r banciau fel gwerthwyr cyllid ar raddfa fyd-eang. Byddwch yn astudio bancio a chyfryngu ariannol, marchnadoedd ariannol rhyngwladol a'r rhan y mae'r banciau'n ei chwarae yn y marchnadoedd hynny. Byddwch yn archwilio ac yn gwerthuso pwysigrwydd bancio canolog a fframweithiau rheoleiddio rhyngwladol megis Basel III, a'r rhan bwysig y maent yn ei chwarae o ran cynnal system ariannol ryngwladol gadarn. Trwy gydol y cwrs gradd, cewch gyfle i astudio a deall y cysyniad o reoli risg, yn enwedig o safbwynt rheoli portffolios o asedau risg banciau.

Bydd y wybodaeth y byddwch yn ei magu yn cael ei defnyddio o fewn fframwaith o lywodraethu corfforaethol a chynaliadwyedd, gan roi ichi'r sgiliau i werthfawrogi a gwerthuso'r rhan holl bwysig y mae llywodraethu moesegol yn ei chwarae yn llwyddiant sefydliadau busnes rhyngwladol megis banciau. Yn sail i'r sgiliau hyn fe'ch cyflwynir hefyd i ddamcaniaethau, cysyniadau a thystiolaeth empirig ariannol gadarn.

Dyma rai o'r cyfleoedd arbenigol sydd ar gael i fyfyrwyr Cyllid a Bancio Rhyngwladol yn Aberystwyth:

- derbyn cyngor ymarferol a phenodol i'r diben gan weithwyr proffesiynol ac ymarferwyr sefydledig yn y diwydiant
- cael eich dysgu gan ymchwilwyr gweithgar, gan sicrhau eich bod yn dysgu am y damcaniaethau a'r wybodaeth ddiweddaraf yn y maes
- cymorth penodol i'ch helpu i drosglwyddo yn ôl i gyflogaeth broffesiynol mewn modd cadarnhaol
- bod yn rhan o rwydwaith eang o gyn-fyfyrwyr.

**Cyflogadwyedd**
Ar y radd hon byddwch yn datblygu eich dealltwriaeth o ymddygiad a strwythur sefydliadol, a byddwch yn gallu ymchwilio, dehongli a defnyddio data busnes ac ariannol mewn prosesau gwneud penderfyniadau. Byddwch hefyd yn datblygu eich sgiliau datrys problemau, gwneud penderfyniadau, dadansoddi a meddwl yn greadigol, yn ogystal â sgiliau gweithio mewn tîm, rheoli amser a threfnu. Bydd y rhai sy'n cwblhau'r cwrs gradd hwn yn llwyddiannus mewn sefyllfa dda i symud ymlaen i yrfa ym maes bancio buddsoddi, cyllid corfforaethol, cynghori ar dreth, dadansoddi buddsoddiadau, masnachu ariannol a bancio corfforaethol a manwerthu.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau craidd y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn:

- International Financial Markets and Investments
- Advanced Corporate Finance
- Financial Research Methods
- Banking and Financial Intermediation
- Corporate Governance and Sustainability.

Ac un modiwl dewisol - un ai Portfolio Analysis and Management neu International Finance and Capital Markets.

**International Financial Markets and Investments**
Rhoi cefndir damcaniaethol ac empirig cadarn i fyfyrwyr ym maes buddsoddiadau a marchnadoedd ariannol.

**Advanced Corporate Finance**
Datblygu eich gwybodaeth am y dewisiadau cyllido sydd gan gwmnïau a'u goblygiadau treth, yn ogystal â'ch dealltwriaeth ohonynt.

**Banking and Financial Intermediation**
Dadansoddi sut mae banciau a chyfryngwyr ariannol eraill yn gweithredu'n economaidd, gyda phwyslais arbennig ar ansefydlogrwydd sylfaenol banciau.

**Corporate Governance and Sustainability**
Cyflwyno cysyniadau, damcaniaethau, ymchwil ac arferion allweddol llywodraethu corfforaethol mewn cyd-destun sy'n datblygu'n fwyfwy byd-eang, gan roi pwyslais arbennig ar faterion moeseg busnes a chynaliadwyedd.

I gael rhagor o fanylion a'r wybodaeth ddiweddaraf am ein modiwlau, ewch i'n gwefan.

## Ffeithiau allweddol

**Math o radd:** MSc

**Cod y cwrs:** N126

**Hyd:** 1 flwyddyn (amser llawn) neu 2-3 blynedd (rhan-amser)

**Gofynion mynediad:** Gradd Baglor (Anrhydedd) 2:2 neu gyfatebol mewn unrhyw bwnc. Caiff unigolion heb radd eu hystyried fesul un ar sail eu profiad gwaith perthnasol.

**Amser cyswllt:** Hyd at 12 awr yr wythnos yn y ddau semester cyntaf, yna pa bynnag hyd o amser a drefnir gyda'r tiwtoriaid dros gyfnod traethawd hir yr haf.

# Cyllid Rhyngwladol

## MSc

Mae'r radd hyn yn rhoi sgiliau dadansoddi ac ymarferol i chi ym meysydd cyllid corfforaethol, buddsoddi, marchnadoedd ariannol rhyngwladol, a sefydliadau ariannol.

Yn Ysgol Fusnes Aberystwyth, cewch ddysgu am y syniadau a'r ymchwil diweddaraf ar faterion cyfoes megis rheoli risg a safonau moesegol ym myd bancio, rheoleiddio ariannol rhyngwladol, a marchnadoedd ariannol sy'n datblygu.

O ecwitïau, bondiau ac eiddo, i flaendrafodion ac opsiynau, o uno cwmnïau a chaffaeliadau i fuddsoddi uniongyrchol o dramor, bydd y radd hon yn rhoi i chi'r sgiliau sylfaenol a'r wybodaeth sydd eu hangen arnoch i gael gyrfa broffesiynol gyffrous ym maes gwasanaethau ariannol neu reolaeth ariannol mewn amryw helaeth o sectorau eraill.

Dyma rai o'r cyfleoedd arbenigol sydd ar gael i fyfyrwyr Busnes Rhyngwladol yn Aberystwyth:

- derbyn cyngor ymarferol a phenodol i'r diben gan weithwyr proffesiynol ac ymarferwyr sefydledig yn y diwydiant
- cael eich dysgu gan ymchwilwyr gweithgar, gan sicrhau eich bod yn dysgu am y damcaniaethau a'r wybodaeth ddiweddaraf yn y maes
- cymorth penodol i'ch helpu i drosglwyddo i gyflogaeth broffesiynol mewn modd cadarnhaol
- bod yn rhan o rwydwaith eang o gyn-fyfyrwyr.

**Cyflogadwyedd**

Trwy astudio'r cwrs gradd hwn byddwch yn datblygu eich dealltwriaeth o ymddygiad a strwythurau cyfundrefnol, a byddwch yn gallu ymchwilio i ddata busnes a chyllid, ei ddehongli a'i ddefnyddio. Byddwch hefyd yn datblygu eich sgiliau datrys problemau, gwneud penderfyniadau, dadansoddi a meddwl yn greadigol, yn ogystal â sgiliau gweithio mewn tîm, rheoli amser a threfnu. Bydd y rhai sy'n cwblhau'r radd hon yn llwyddiannus mewn sefyllfa dda i symud ymlaen i yrfa ym maes strategaeth ariannol, gwaith actiwari, bancio corfforaethol, trethu, dadansoddi buddsoddiadau, masnachu ariannol a bancio manwerthu.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau craidd y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn:

- Advanced Corporate Finance
- Financial Analysis and Decision Making
- Financial Research Methods
- International Finance and Capital Markets
- International Financial Markets and Investments.

Ac un modiwl dewisol - un ai Banking and Financial intermediation neu Portfolio Analysis and Management.

**Advanced Corporate Finance**

Datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o'r dewisiadau cyllido sydd gan gwmnïau, a'u goblygiadau treth; yr adnoddau sydd ar gael i reoli risg ariannol; y dewis o ran strwythur cyfalaf cwmni; cloriannu cost cyfalaf cwmni a pherthnasedd hyn i benderfyniadau buddsoddi; cloriannu perfformiad ariannol; a'r ffactorau sy'n dylanwadu ar ddewis polisi difidend.

**Financial Analysis and Decision Making**

Datblygu gafael ymarferol ar gyfrifeg ariannol a rheolaethol, dadansoddi ariannol a gwneud penderfyniadau ariannol, perthnasol i rai sy'n gobeithio bod yn rheolwyr cyffredinol.

**International Financial Markets and Investments**

Rhoi cefndir damcaniaethol ac empirig cadarn i fyfyrwyr ym maes buddsoddiadau a marchnadoedd ariannol.

I gael rhagor o fanylion a'r wybodaeth ddiweddaraf am ein modiwlau, ewch i'n gwefan.

## Ffeithiau allweddol

**Math o radd:** MSc

**Cod y cwrs:** N308

**Hyd:** 1 flwyddyn (amser llawn) neu 2-3 blynedd (rhan-amser)

**Gofynion mynediad:** Gradd Baglor (Anrhydedd) 2:2 neu gyfatebol mewn unrhyw bwnc. Caiff unigolion heb radd eu hystyried fesul un ar sail eu profiad gwaith perthnasol.

**Amser cyswllt:** Hyd at 12 awr yr wythnos yn y ddau semester cyntaf, yna pa bynnag hyd o amser a drefnir gyda'r tiwtoriaid dros gyfnod traethawd hir yr haf.



# Rheolaeth a Chyllid

## MSc

Mae ein gradd Rheolaeth a Chyllid wedi'i chynllunio ar gyfer rhai sydd am fynd â dealltwriaeth gadarn o gyllid busnes ymlaen i yrfa mewn rheolaeth.

Os ydych chi'n awyddus i wneud y mwyaf o'ch gwybodaeth rifyddol a datblygu'ch dealltwriaeth o reoli ac arwain, mae'r cyllun gradd hwn yn berffaith i chi. Drwy archwilio dulliau rheoli, fframweithiau a modelau - yn ariannol ac yn gyffredinol - byddwch yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth ddamcaniaethol gadarn, ond gyda phwyslais ychwanegol ar gyflawni'n ymarferol sy'n cydfynd ag effeithiolrwydd ar lefel sefydlaid ac unigol.

Byddwch yn datblygu dealltwriaeth gadarn a chymhleth o bob agwedd ar gyllid busnes, a sylfaen gref ar gyfer gyrfa broffesiynol yn y dyfodol ym maes rheoli cyllid neu yn y sector cyllid.

Dyma rai o'r cyfleoedd arbenigol sydd ar gael i fyfyrwyr Rheolaeth a Chyllid yn Aberystwyth:

- derbyn cyngor ymarferol a phenodol i'r diben gan weithwyr proffesiynol ac ymarferwyr sefydledig yn y diwydiant
- cael eich dysgu gan ymchwilwyr gweithgar, gan sicrhau eich bod yn dysgu am y damcaniaethau a'r wybodaeth ddiweddaraf yn y maes
- cymorth penodol i'ch helpu i drosglwyddo yn ôl i gyflogaeth broffesiynol mewn modd cadarnhaol
- bod yn rhan o rwydwaith eang o gyn-fyfyrwyr.

**Cyflogadwyedd**

Trwy astudio'r cwrs gradd hwn byddwch yn datblygu eich dealltwriaeth o ymddygiad a strwythurau cyfundrefnol, a byddwch yn gallu ymchwilio i ddata busnes a chyllid, ei ddehongli a'i ddefnyddio. Byddwch hefyd yn datblygu eich sgiliau datrys problemau, gwneud penderfyniadau, dadansoddi a meddwl yn greadigol, yn ogystal â sgiliau gweithio mewn tîm, rheoli amser a threfnu. Bydd graddedigion y rhaglen hon mewn sefyllfa dda am yrfa yn gyfrifydd siartredig, cyfrifydd siartredig ardystiedig, cyfrifydd rheoli ardystiedig neu gyfrifydd cyllid cyhoeddus siartredig, dadansoddwr buddsoddiadau, dadansoddwr risg ariannol, neu waith actiwaraidd.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau craidd y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn:

- Advanced Corporate Finance
- Financial Analysis and Decision Making
- International Business Environment
- International Financial Markets and Investments
- International Strategy and Operations
- Managerial Reports
- People and Organisations.

**Advanced Corporate Finance**

Datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o'r dewisiadau cyllido sydd gan gwmnïau, a'u goblygiadau treth; yr adnoddau sydd ar gael i reoli risg ariannol; y dewis o ran strwythur cyfalaf cwmni; cloriannu cost cyfalaf cwmni a pherthnasedd hyn i benderfyniadau buddsoddi; cloriannu perfformiad ariannol; a'r ffactorau sy'n dylanwadu ar ddewis polisi difidend.

**Financial Analysis and Decision Making**

Datblygu gafael ymarferol ar gyfrifeg ariannol a rheolaethol, dadansoddi ariannol a gwneud penderfyniadau ariannol, perthnasol i rai sy'n gobeithio bod yn rheolwyr cyffredinol.

**International Business Environment**

Rhoi dealltwriaeth o'r grymoedd sy'n rhoi ffurf i'r amgylchfyd busnes rhyngwladol, a dangos sut mae hynny'n effeithio ar weithrediadau a safbwynt strategol cwmnïau rhyngwladol.

I gael rhagor o fanylion a'r wybodaeth ddiweddaraf am ein modiwlau, ewch i'n gwefan.

## Ffeithiau allweddol

**Math o radd:** MSc

**Cod y cwrs:** N208

**Hyd:** 1 flwyddyn (amser llawn) neu 2-3 blynedd (rhan-amser)

**Gofynion mynediad:** Gradd Baglor (Anrhydedd) 2:2 neu gyfatebol mewn unrhyw bwnc. Caiff unigolion heb radd eu hystyried fesul un ar sail eu profiad gwaith perthnasol.

**Amser cyswllt:** Hyd at 12 awr yr wythnos yn y ddau semester cyntaf, yna pa bynnag hyd o amser a drefnir gyda'r tiwtoriaid dros gyfnod traethawd hir yr haf.

# Rheolaeth Busnes Ryngwladol

## MSc

Mae’r radd hon yn darparu sylfaen gadarn mewn agweddau sylfaenol ar fusnes a rheoli a'u defnydd mewn cyd-destun rhyngwladol. Mae hyn yn cynnwys damcaniaethau cyfredol a’r arfer gorau cydnabyddedig ym meysydd dadansoddi a datblygu strategol, a'r offer, cysyniadau, fframweithiau ac arfer ym maes rheoli gweithredol.

Byddwch yn arbenigo mewn strategaeth ryngwladol, rheoli cyllid, strategaeth farchnata, a rheoli gweithrediadau gan gynnwys y gadwyn gyflenwi ryngwladol: agweddau cynyddol bwysig ar gyfleoedd busnes byd-eang. Byddwch hefyd yn astudio, yn drylwyr, fecanweithiau, materion a chysyniadau allweddol mewn cyfraith fasnachol drawswladol. Bydd y trydydd tymor yn canolbwyntio ar gymhwyso'r wybodaeth newydd hon wrth ymchwilio i strategaeth, ac ysgrifennu adroddiad ar reoli lle byddwch yn datgelu syniadau rheoli busnes newydd mewn maes yr ydych yn frwd yn ei gylch.

Er mwyn dod i ddeall Rheoli Busnes Ryngwladol yn effeithiol, byddwch hefyd yn astudio strwythur sefydliadol yr economi ryngwladol ac yn archwilio sut caiff llifau masnach a chyllid eu cefnogi gan sefydliadau economaidd rhyngwladol. Drwy gydol eich astudiaethau, byddwch yn cymhwyso'ch addysg i astudiaethau achos cyfoes ym maes busnes rhyngwladol. Bydd hyn yn cynnwys ymchwilio i sawl diwydiant, a chloriannu'r gwahaniaethau yn y ffordd y caiff y fframweithiau, y modelau a'r cynsyniadau hyn eu defnyddio, ynghyd â'u haddasrwydd.

**Cyflogadwyedd**
Trwy astudio’r cwrs gradd hwn byddwch yn datblygu eich dealltwriaeth o ymddygiad a strwythurau cyfundrefnol, a byddwch yn gallu ymchwilio i ddata busnes a chyllid, ei ddehongli a’i ddefnyddio. Bydd graddedigion y rhaglen hon mewn sefyllfa dda i fynd i yrfa mewn nifer o feysydd busnes, gan gynnwys dadansoddi busnes rhyngwladol, bancio buddsoddi corfforaethol, marchnata ryngwladol weithredol, cyfarwyddo cynnyrch a rhaglenni byd-eang, a chaffael rhyngwladol a'r gadwyn gyflenwi fyd-eang.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau craidd y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn:

- Financial Analysis and Decision Making
- International Business Environment
- International Commercial Law
- International Strategy and Operations
- Managerial Reports
- Marketing Management Strategy
- People and Organisations.

**Financial Analysis and Decision Making**
Datblygu gafael ymarferol ar gyfrifeg ariannol a rheolaethol, dadansoddi ariannol a gwneud penderfyniadau ariannol, perthnasol i rai sy'n gobeithio bod yn rheolwyr cyffredinol.

**Managerial Reports**
Cynorthwyo myfyrwyr i ddadansoddi’r hyn a ddysgwyd ar y cwrs a'i gymhwyso i sefyllfaoedd gwirioneddol trwy astudiaethau achos.

**Marketing Management Strategy**
Ymdrin â chanfod marchnadoedd, cael mynediad iddynt a'u datblygu, a chloriannu swyddogaeth marchnata mewn amgylcheddau sefydliadol cyfoes.

**International Business Environment**
Rhoi dealltwriaeth o'r grymoedd sy'n rhoi ffurf i'r amgylchfyd busnes rhyngwladol, a dangos sut mae hynny'n effeithio ar weithrediadau a safbwynt strategol cwmnïau rhyngwladol.

I gael rhagor o fanylion a’r wybodaeth ddiweddaraf am ein modiwlau, ewch i’n gwefan.

## Ffeithiau allweddol

**Math o radd:** MSc

**Cod y cwrs:** N190

**Hyd:** 1 flwyddyn (amser llawn) neu 2-3 blynedd (rhan-amser)

**Gofynion mynediad:** Gradd Baglor (Anrhydedd) 2:2 neu gyfatebol mewn unrhyw bwnc. Caiff unigolion heb radd eu hystyried fesul un ar sail eu profiad gwaith perthnasol.

**Amser cyswllt:** Hyd at 12 awr yr wythnos yn y ddau semester cyntaf, yna pa bynnag hyd o amser a drefnir gyda’r tiwtoriaid dros gyfnod traethawd hir yr haf.



# MPhil, PhD, DProf

Rydym yn cynnig graddau ymchwil PhD, MPhil a DProf sy'n rhoi i chi'r hyfforddiant i allu dod yn arbenigwyr byd-eang, a chymhwyso damcaniaethau ac egwyddorion academaidd trylwyr i ddatblygu datrysiadau i'r heriau a wynebir ar hyn o bryd gan arweinwyr busnes a llunwyr polisi.

Mae gan Ysgol Fusnes Aberystwyth raglen ymchwil ddoethurol fywiog sy’n tyfu, gyda thros 100 o fyfyrwyr ymchwil yn ymuno â ni o bedwar ban byd. Mae ein rhaglenni gradd ymchwil yn cynnwys PhD draddodiadol yn seiliedig ar ymchwil, ein rhaglen Ddoethuriaeth Broffesiynol (DProf) sy’n canolbwyntio mwy ar fusnes, a rhaglen Meistr mewn Athroniaeth (MPhil). Caiff myfyrwyr ymchwil eu cynnwys yn llawn yn amgylchedd ymchwil yr adran, gydag opsiynau i astudio pynciau ar draws ystod eang o ddisgyblaethau busnes, economeg a chyfrifyddu. Yn benodol, rydym ni’n annog ymgeiswyr y mae eu hymchwil yn cyd-fynd â chylch gorchwyl ein dwy ganolfan ymchwil: y Ganolfan Cymdeithasau Cyfrifol (CRiSis) a’r Ganolfan Menter Leol a Rhanbarthol (ClaRE).

## PhD

Rhaglen dair blynedd yw ein Doethur mewn Athroniaeth (PhD) sy’n cynnig llwyfan i chi gynnal ymchwil academaidd gwreiddiol sy’n gwneud cyfraniad newydd i’ch maes astudio penodol. Gallwch wneud darganfyddiadau newydd, profi theorïau newydd a gwthio ffiniau gwybodaeth a dealltwriaeth gyfredol. Rydym ni’n cynnig tair rhaglen PhD: Rheolaeth a Busnes (sydd hefyd yn cynnwys pynciau ar farchnata a rheoli twristiaeth); Economeg, a Chyfrifyddu (sydd hefyd yn cynnwys cyllid). Fel myfyriwr PhD, byddwch yn dod yn rhan o’n cymuned ymchwil fywiog. Yn ystod eich blwyddyn gyntaf, byddwch yn cwblhau ein rhaglen Hyfforddiant Ymchwil Gwyddorau Cymdeithasol fydd yn sicrhau’r sgiliau a’r wybodaeth i gwblhau eich PhD yn llwyddiannus. Caiff eich ymchwil ei lywio gan dîm goruchwylio, fydd yn eich helpu i fireinio eich cynnig ymchwil, ac yn eich arwain wrth gasglu a dadansoddi data. Ar ddiwedd eich astudiaethau, cewch arholiad viva voce (amddiffyn eich traethawd ar lafar).

## DProf

Rhaglen dair blynedd yw ein Doethuriaeth Broffesiynol (DProf) wedi’i hanelu at weithwyr busnes proffesiynol sy’n dymuno astudio am ddoethuriaeth yn ystod eu cyflogaeth. Yn aml mae myfyrwyr DProf yn seilio eu hymchwil ar faterion / heriau maen nhw’n eu hwynebu yn eu gwaith proffesiynol, ac felly’n defnyddio’r rhaglen DProf i edrych ar ddatrysiadau sy’n seiliedig ar ymchwil academaidd trylwyr. Er mai dim ond un rhaglen DProf rydym ni’n ei chynnig, mae’n cwmpasu pob pwnc busnes sy’n gysylltiedig â busnes. Rhaglen strwythuredig yw’r DProf, gyda’r flwyddyn gyntaf yn seiliedig ar gyfres o fodiwlau (a gyflwynir yn ystod cyfres o bedair ysgol astudio breswyl) fydd yn datblygu eich sgiliau ymchwil ac yn eich arwain wrth ddatblygu eich cynnig ymchwil. Ym mlwyddyn 2 a 3, byddwch yn cynnal eich ymchwil mewn cydweithrediad â’ch tîm goruchwylio. Yn debyg i PhD, byddwch wedyn yn amddiffyn eich traethawd mewn viva voce.

## MPhil

Mae Meistr mewn Athroniaeth (MPhil) yn fersiwn llai o PhD (ond yr un mor heriol!). Mae’n gymhwyster uwchraddedig uwch yn seiliedig ar ymchwil, lle byddwch yn ymchwilio ac yn ysgrifennu traethawd dros 2 flynedd. Yn debyg i PhD, cewch gyfle i ddilyn maes diddordeb dan arweiniad goruchwyliwr, a bydd angen i chi amddiffyn eich traethawd mewn arholiad viva voce; ond mae MPhil yn cynnwys dadansoddiad llai dwys na PhD. Rydym ni’n cynnig tair rhaglen MPhil: Rheolaeth a Busnes; Economeg a Chyfrifeg.

Rydym ni bob amser yn falch i dderbyn ceisiadau newydd i’n rhaglenni ymchwil ac yn croesawu cynigion ymchwil yn ymwneud ag unrhyw rai o’r disgyblaethau canlynol: Cyfrifeg, Busnes, Economeg, Cyllid, Rheolaeth, Marchnata a Rheoli Twristiaeth.

I gael rhagor o wybodaeth, gweler ein tudalennau 'Sut i wneud cais' neu cysylltwch â ni.





# Ein hymchwil

Mae Ysgol Fusnes Aberystwyth yn cael ei harwain gan ymchwil, gan adlewyrchu gwerthoedd Prifysgol Aberystwyth. Nod ein strategaeth ymchwil yw cynhyrchu ymchwil, cyhoeddiadau ac effaith o safon fyd-eang sy'n creu strategaethau arloesol a datrysiadau ymarferol sy'n ymdrin â materion cymdeithasol a busnes sy'n ymwneud â chynaliadwyedd a thwf economaidd cynaliadwy.

Mae llawer o'n gwaith yn rhyngddisgyblaethol, yn cynnwys cydweithio â phartneriaid yn y gwyddorau cymdeithasol a naturiol. Mae ein hymchwil wedi derbyn cyllid o amrywiaeth eang o ffynonellau gan gynnwys nifer o gynghorau ymchwil y DU, ynghyd â chyrff cyllido, llywodraethau a diwydiant yn y DU, yr UE ac yn rhyngwladol.

Elfen graidd o'n strategaeth ymchwil yw myfyrwyr ymchwil sy'n cyfrannu at fywiogrwydd ein hymchwil. Daw staff yr Ysgol o amrywiaeth eang o gefndiroedd disgyblaethol, a gallwn oruchwylio myfyrwyr ymchwil â diddordeb mewn: Cyfrifeg, Busnes, Economeg, Cyllid, Rheoliaeth, Marchnata a Rheoli Twristiaeth.

Er bod ein hymchwil yn tynnu ar amrywiaeth eang o safbwyntiau disgyblaethol ac yn cwmpasu sawl pwnc, rydym yn canoli llawer o'n hymchwil drwy ddwy ganolfan ymchwil:

## Y Ganolfan Cymdeithasau Cyfrifol (CRiSis)

Mae CriSis yn mabwysiadu dull amlddisgyblaethol ar gyfer archwilio sut mae cymdeithasau cyfrifol yn gallu ymdrin â heriau amgylcheddol. Yn benodol, gweledigaeth y Ganolfan yw 'casglu tystiolaeth a datblygu offerynnau sy'n gadael i bobl, sefydliadau a llywodraethau ymddwyn mewn ffordd sy'n gyfrifol yn gymdeithasol, amgylcheddol a moesegol er mwyn sicrhau dyfodol cynaliadwy ein planed a'i phobl'. Mae llawer o'n hymchwil yn canolbwyntio ar asesiadau gwasanaethau ecosystem a rhoi gwerth ar natur. Mae prosiectau'n cynnwys asesu buddiannau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol afonydd Cymru hyd at fforestydd trofannol. Drwy ein prosiectau, rydym wedi creu partneriaethau gyda chydweithwyr ar draws y Brifysgol ac yn allanol yn Ewrop, Asia, Affrica a'r Americas. Mae ein hymchwil hefyd wedi cael effaith sylweddol yn fyd-eang: er enghraifft, mae staff y ganolfan wedi cyfrannu sawl adroddiad IPBES sydd wedi bwydo'n uniongyrchol i'r Confensiwn ar Amrywiaeth Biolegol. Rydym yn croesawu cynigion ymchwil sy'n ymdrin â'r materion a'r pynciau a gaiff eu cwmpasu yng nganolfan CRiSis.

## Y Ganolfan Menter Leol a Rhanbarthol (CLaRE)

Canolfan ymchwil ryngddisgyblaethol yw CLaRE sy'n archwilio sut y gall polisïau lleol a rhanbarthol hyrwyddo menter i gyflawni economïau cynaliadwy yng Nghymru wledig a thu hwnt. Gyda ffocws ar strategaethau lleol a rhanbarthol, nod y Ganolfan yw darparu tystiolaeth, a dylanwadu ar bolisïau datblygu economaidd cynaliadwy. Mae hwyluso cyd-greu prosiectau ymchwil rhwng academyddion, busnes a llywodraeth yn ganolog yn yr ymateb hwn. Mae'r Ganolfan wedi ymgymryd â nifer o brosiectau ymchwil uchel eu proffil gyda chyllid yr UE, yn cynnwys: adroddiadau pwysig ar effeithiau cyflogaeth diwygiadau amaethyddol CAP; datblygu rhaglen i annog a chefnogi mentergarwch gan fenywod; astudiaeth o rwydweithiau dysgu cynaliadwy yn Iwerddon a Chymru; ac ymchwil i droseddu gwledig a'i effaith ar fusnesau ffermio. Rydym yn croesawu cynigion ymchwil sy'n mynd i'r afael â pholisïau lleol a rhanbarthol yn y DU ac yn rhyngwladol.

Celf a Chelfyddyd Gain


## Yr Ysgol

# Gelf

Yn yr Ysgol Gelf, a sefydlwyd ym 1917 ac sydd ag adeilad Edwardaidd rhestredig Gradd II* mawreddog yn gartref iddi, daw hanes ac ymarfer ynghyd. P'un a ydych yn dod yma i astudio celf gain neu hanes celf, bydd eich profiad yn cael ei gyfoethogi gan gasgliad celf rhyngwladol adnabyddus yr Ysgol a'r arddangosfeydd a gynhelir yn ein horielau cyhoeddus. Nid oes llawer o ysgolion celf a all gynnig y fath gysylltiad ymarferol a chynhwysfawr â'r byd celf.

Mae blas hanesyddol cyfoethog ac amrywiaeth ddiwylliannol y dref, ochr yn ochr â harddwch syfrdanol yr arfordir a chefn gwlad, a ysbrydolodd artistiaid megis J M W Turner a John Piper, yn dystiolaeth bellach bod Aberystwyth yn lle delfrydol i astudio celf a'i hanes.

## Graddau a ddysgir


| | |
|---|---|
| Celfyddyd Gain, MA | t.92 |
| Hanes Celf, MA | t.93 |


## Graddau ymchwil


| | |
|---|---|
| Celfyddyd Gain, PhD | t.94 |
| Hanes Celf, MPhil, PhD | t.95 |




# Celfyddyd Gain

## MA

Mae eich datblygiad personol fel artist yn allweddol i'r hyfforddiant Meistr yn Aberystwyth. Yn yr Ysgol Gelf, byddwch yn cael eich annog i arbrofi'n dechnegol ac yn gysyniadol, profi canfyddiadau a gwthio ffiniau wrth i chi gynhyrchu corff sylweddol o waith wrth baratoi am ddwy arddangosfa gyhoeddus yn ein horielau.

Mae'r cwrs Celfyddyd Gain wedi'i gynllunio i ddatblygu eich sgiliau yn y cyfrwng o'ch dewis. Mae'r cyfryngau a ddysgir yn yr Ysgol Gelf yn cynnwys paentio, gwneud printiau, darlunio, ffotograffiaeth, darlunio llyfrau, ffilm/fideo arbrofol, celf sain, gosodweithiau a pherfformiadau safle-benodol. Mae ein cynllun yn annog ailystyried sgiliau traddodiadol yng nghyd-destun arferion cyfoes a chysyniadol. I'r rhai sy'n dewis mynychu, cynhelir dosbarthiadau paentio a llunio ffigurau wythnosol ar bob lefel o astudiaeth. Mae gan fyfyrwyr fynediad 24 awr at ofodau gwaith pwrpasol, cyfleusterau cyfrifiadurol, stiwdios a gweithdai.

Mae'r cwrs yn eich galluogi i ddatblygu a chynnal rhaglen hunan-gymhellol sy'n arddangos dehongliad creadigol o bwnc o'ch dewis, ynghyd ag arbenigedd technegol a dealltwriaeth drylwyr o fframweithiau cysyniadol, damcaniaethol a hanesyddol priodol. Bydd eich ymarfer celf yn cael ei ddylanwadu gan ein modiwl Artworld, sydd wedi'i gynllunio i ddatblygu eich dealltwriaeth o'r byd celf cyfoes ac i'ch helpu i osod eich ymarfer o fewn cyd-destunau economaidd-gymdeithasol, gwleidyddol a sefydliadol.

Mae curaduron gwadd, artistiaid sy'n ymweld, a chyn-fyfyrwyr yn cyfoethogi ein hamgylchedd ymchwil a, drwy rannu eu profiad a'u harbenigedd, yn eich cyflwyno i ystod eang o bosibiliadau gyrfaol. Mae dyddiau ymweld ac agoriadau arddangosfeydd yn cynnig cyfleoedd gwirfoddoli a gwaith fel llysgenhadon am dâl. Mae digwyddiadau oriel yr Ysgol Gelf hefyd yn rhoi cyfle i chi ryngweithio gyda'r cyhoedd a gwneud cysylltiadau proffesiynol yn y byd celf.

**Cyflogadwyedd**
Mae mwyafrif ein myfyrwyr Celfyddyd Gain yn creu gyrfaoedd proffesiynol yn beintwyr, darlunwyr, ffotograffwyr, gwneuthurwyr printiau, cynllunwyr, curaduron, a gweinyddwyr. Mae eraill yn cael gwaith ym meysydd addysg, amgueddfeydd, rheoli orielau celf, gwarchod peintio îsl, cerameg a gweithiau ar bapur. Ymhlith eu cyflogwyr mae Cyngor y Celfyddydau, y Tate, Amgueddfa Fictoria ac Albert, ac Amgueddfa Ashmolean.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau craidd y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn:

- Artworld: Contemporary Practice in Context
- Vocational Practice
- Portfolio Development
- Exhibition 1: Consolidation
- Exhibition 2: Resolution.

**Artworld: Contemporary Practice in Context**
Cyflwyniad i ddulliau a damcaniaethau celf gyfoes yng nghyd-destun y traddodiad. Bydd seminarau thematig yn eich cynorthwyo i osod dulliau o gynhyrchu, curadu a dosbarthu celf gyfoes mewn cyd-destunau diwylliannol, gwleidyddol, ac economaidd-gymdeithasol yn ogystal â chyd-destun hanes celf.

**Portfolio Development**
Byddwch yn adfywio eich gwaith celf trwy osod trywydd ymholi penodol yn ogystal â mireinio neu ail-archwilio agweddau ar dechneg ac arddull wrth archwilio'r fframweithiau damcaniaethol a hanesyddol sy'n berthnasol i'ch gwaith.

**Exhibition 1: Consolidation**
Gan osod cyd-destun i'ch gwaith o fewn i fframweithiau damcaniaethol, hanesyddol a chyfoes byddwch yn magu ymwybyddiaeth ddyfnach am faterion yn gysylltiedig â'ch trywydd ymholi penodol chi wrth ichi baratoi ar gyfer eich arddangosfa gyhoeddus gyntaf gyda ni.

**Exhibition 2: Resolution**
Gan gymryd hyd yn oed mwy o gyfrifoldeb am gynnydd y prosiect sydd wedi'i sefydlu a'i gyfarwyddo gennych chi, byddwch yn cynhyrchu nifer llai o weithiau mewn cyfnod cyfyngedig i'w dangos yn gyhoeddus er mwyn cyfoethogi dimensiynau esthetig a chysyniadol eich gwaith.

I gael rhagor o fanylion a'r wybodaeth ddiweddaraf am ein modiwlau, ewch i'n gwefan.

## Ffeithiau allweddol

**Math o radd:** MA

**Cod y cwrs:** W191

**Hyd:** 1 flwyddyn (amser llawn) neu 2 flynedd (rhan-amser)

**Gofynion mynediad:** Gradd Baglor (Anrhydedd) 2:1 neu gyfatebol mewn maes pwnc perthnasol, a phortffolio boddhaol. Caiff unigolion heb radd eu hystyried fesul un ar sail eu profiad gwaith perthnasol.

**Amser cyswllt:** Tua 10-14 awr yr wythnos yn y ddau semester cyntaf, yna bydd y myfyriwr a'r tiwtor yn cytuno rhyngddynt ar gyfnodau'r amser cyswllt.



# Hanes Celf

## MA

Yma yn yr Ysgol Gelf, caiff celf ei chreu, ei thrafod, ei harddangos a'i phrofi. Nid yn unig y byddwch yn meithrin dealltwriaeth o hanes celf, ond byddwch yn astudio ochr yn ochr ag artistiaid sy'n ymarfer, curaduron a haneswyr cyhoeddedig. Fel myfyriwr Hanes Celf, bydd gennych fynediad hefyd at stiwdios, gweithdai print ac offer ffotograffiaeth a digidol.

Mae ein cynllun gradd Hanes Celf yn canolbwyntio ar feithrin sgiliau ac adeiladu gyrfa. I'r perwyl hwnnw, mae'n cyfuno ymchwil cymhwysol â hyfforddiant galwedigaethol. Bydd hefyd yn rhoi sgiliau ysgrifennu ac ymchwil hanfodol ichi, y byddwch yn cael eich cyflwyno iddynt fel rhan o'r modiwl craidd Artworld.

Drwy astudio'n annibynnol neu yn rhan o dîm, cewch eich annog i ddatblygu meddwl beirniadol a rhyngddisgyblaethol, cyfathrebu eich syniadau mewn trafodaethau seminar a chyflwyniadau, ynghyd â rhannu eich ymchwil yn gyhoeddus.

Mae'r Ysgol Gelf yn un o ddwy ysgol yn y Deyrnas Unedig sydd wedi cael statws amgueddfa achrededig gan y llywodraeth. Mae ein casgliad adnabyddus o gelf gain a gwrthrychau diwylliant materol yn cynnig cyfleoedd ar gyfer ymchwil gwreiddiol i'w drafod â thiwtor. Mae hyn nid yn unig yn eich galluogi i archwilio arteffactau'n agos atynt, astudio eu technegau a chanfod eu gorffennol, ond hefyd i gatalogio a churadu ein casgliadau o dan arweiniad ein gweithwyr amgueddfa proffesiynol.

Ni yw'r unig sefydliad yng Nghymru sy'n cynnig gradd mewn Hanes Celf.

**Cyflogadwyedd**
Mae astudio celf gain yn cynnig sawl llwybr ymarferol. Ynghyd â sefydlu eu hunain fel paentwyr, darlunwyr, ffotograffwyr, gwneuthurwyr print, dylunwyr a haneswyr celf proffesiynol, mae ein myfyrwyr yn dilyn gyrfaoedd ym maes addysg, cyhoeddi a hysbysebu, ac ym maes curadu, cadwraeth a gweinyddu celf. Ymhlith eu cyflogwyr mae Cyngor y Celfyddydau, Academi Frenhinol y Celfyddydau, Tate, Amgueddfa Fictoria ac Albert, Amgueddfa Ashmolean, a'r Ymddiriedolaeth Casgliadau Brenhinol. Mae ein graddedigion hefyd yn cofrestru ar raddau ymchwil (PhD) ym Mhrifysgol Aberystwyth neu'r tu hwnt.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau craidd y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn:

- Artworld: Contemporary Practice in Context
- Vocational Practice
- Research Project
- Dissertation.

**Artworld: Contemporary Practice in Context**
Cyflwyniad i ddulliau a damcaniaethau celf gyfoes yng nghyd-destun y traddodiad. Mae'n gosod cynhyrchu, curadu a dosbarthu celf gyfoes mewn cyd-destunau diwylliannol, gwleidyddol, ac economaidd-gymdeithasol yn ogystal â chyd-destun hanes celf.

**Vocational Practice**
Byddwch yn meithrin sgiliau megis addysgu, curadu, a dylunio i'r we, ac yn dysgu i'ch hyrwyddo eich hun er mwyn datblygu proffil proffesiynol a'ch sefydlu'ch hun yn ymchwilydd a hanesydd celf.

**Research Project**
Trwy drafod â'ch tiwtor byddwch yn ymgymryd ag ymchwil hanesyddol cymhwysol ar bwnc sy'n berthnasol i gasgliadau'r Ysgol a/neu arbenigedd ymchwil ein staff. Fel arfer bydd y prosiect i'w weld yn gyhoeddus, yn aml ar wefan neu mewn cronfa-ddata, arddangosfa a chatalog, pecyn astudio neu gwrs byr mewn addysg gelf.

**Dissertation**
Byddwch yn dangos ymchwil annibynnol trwy gynhyrchu astudiaeth estynedig ar bwnc penodol a ddewiswyd.

I gael rhagor o fanylion a'r wybodaeth ddiweddaraf am ein modiwlau, ewch i'n gwefan.

## Ffeithiau allweddol

**Math o radd:** MA

**Cod y cwrs:** V393

**Hyd:** 1 flwyddyn (amser llawn) neu 2 flynedd (rhan-amser)

**Gofynion mynediad:** Gradd Baglor (Anrhydedd) 2:1 mewn hanes celf, neu radd yn y celfyddydau neu ddyniaethau, neu gyfatebol. Caiff unigolion heb radd eu hystyried fesul un ar sail eu profiad gwaith perthnasol.

**Amser cyswllt:** Tua 10-14 awr yr wythnos yn y ddau semester cyntaf, yna bydd y myfyriwr a'r tiwtor yn cytuno rhyngddynt ar gyfnodau'r amser cyswllt.

# Graddau ymchwil

Gyda sefydliadau diwylliannol pwysig a safleoedd arddangos ond dafliad carreg i ffwrdd, mae'r Ysgol Gelf wrth galon gwaith creadigol arwyddocaol. Mae'r Llyfrgell Genedlaethol, sy'n llyfrgell adnau gyfreithiol ac yn oriel gelf gyfagos i'r campws, yn darparu adnoddau heb eu hail ar gyfer ymchwil yn y celfyddydau gweledol, ac mae ganddi gasgliadau celf sy'n rhyngwladol adnabyddus.

Fel myfyriwr ymchwil yn yr Ysgol Gelf, fe'ch anogir i ddatblygu sgiliau gyrfaol drwy ddod yn rhan weithgar o addysgu, traddodi papurau cynhadledd, cymryd rhan mewn gweithdai a symposia, cyhoeddi a churadu, ynghyd â chymryd rhan ymarferol mewn paratoi, gosod a a chyflwyno arddangosfeydd. Mae amgueddfa achrededig, orielau cyhoeddus a chasgliadau celf eang yr Ysgol o bwys rhyngwladol ac yn cynnig cyfoeth o gyfleoedd ymchwil cynradd. Mae digwyddiadau oriel, rolau gwirfoddoli ac interniaethau â thâl yr Ysgol Gelf yn cynnig cyfleoedd ychwanegol i chi adeiladu proffil gyrfa a sefydlu cysylltiadau proffesiynol yn y byd celf.

Mae gan fyfyrwyr doethuriaeth ddau oruchwylydd academaidd. Yn ogystal â hyfforddiant sgiliau ymchwil generig Prifysgol Aberystwyth, darperir hyfforddiant penodol i bwnc fel rhan o broses oruchwylio'r Ysgol, a gaiff ei gynnig ar ffurf seminarau a gweithdai, ynghyd â chyrsiau mewnol ac allanol. Rydym yn darparu hyfforddiant pwrpasol mewn Ysgrifennu Academaidd Effeithiol, Sgiliau Ymchwil mewn Celf Gain a Hanes Celf, ynghyd ag Ysgrifennu a Dadansoddi Hunan-fyfyriol ar gyfer myfyrwyr sy'n cyflawni elfen traethawd hir y PhD Celf Gain.

# Celfyddyd Gain

## PhD

Yma yn yr Ysgol Gelf, rydym yn cynnig PhD tair blynedd amser llawn (neu bum mlynedd rhan-amser) mewn Celfyddyd Gain. O ran manyldeb deallusol, gellir ei gymharu â PhD mewn Hanes Celf, ac mae'r cwrs wedi'i gynllunio ar gyfer myfyrwyr sydd am ddilyn astudiaeth barhaus o Gelf Gain drwy gynhyrchu ymchwil wreiddiol mewn maes penodol. Mae'r prosiect PhD yn cynnwys cynnyrch creadigol sylweddol (megis arddangosfa), a thraethawd hir 40,000 o eiriau sy'n dangos dealltwriaeth feirniadol, hanesyddol a damcaniaethol o fethodolegau a dulliau ymchwil priodol.

Mae'r astudiaeth yn cynnwys tiwtorialau unigol gyda goruchwylydd, a byddwch yn trafod cynllun gweithredu a rhaglen ymchwil annibynnol gyda nhw. Asesir PhD mewn Celf Gain drwy gonsensws gwybodus cyfoedion ar y prosiect, a chaiff ei gwmpas, ei ddyfnder a'i berthnasedd ei drafod mewn viva voce.

Mae meysydd goruchwylio ymchwil Celf Gain yn cynnwys:

- darlunio llyfrau
- darlunio
- arfer rhyngddisgyblaethol (fideo, sain, gosodwaith a pherfformiad safle-benodol)
- paentio
- ffotograffiaeth
- gwneud printiau.

I gael rhagor o wybodaeth, gweler y tudalennau 'Sut i wneud cais' neu cysylltwch â ni.



# Hanes Celf

## MPhil, PhD

Mae'r Ysgol Gelf yn cynnig MPhil blwyddyn amser llawn (dwy flynedd rhan-amser) neu PhD tair blynedd amser llawn (pum mlynedd rhan-amser) mewn Hanes Celf. Mae'r cyrsiau wedi'u anelu at fyfyrwyr sydd am gyflawni astudiaeth barhaus o Hanes Celf drwy gynhyrchu ymchwil wreiddiol mewn maes penodol. Cyflawnir yr MPhil gyda thraethawd hir 50,000 o eiriau, a'r PhD gyda thraethawd hir 100,000 o eiriau.


Mae'r astudiaeth yn cynnwys tiwtorialau unigol gyda goruchwylydd, a byddwch yn trafod cynllun gweithredu a rhaglen ymchwil annibynnol gyda nhw. Asesir PhD mewn Celf Gain drwy gonsensws gwybodus cyfoedion ar y prosiect, a chaiff ei gwmpas, ei ddyfnder a'i berthnasedd ei drafod mewn viva voce.

Mae meysydd goruchwylio ymchwil Hanes Celf yn cynnwys:

- celf Ewropeaidd a diwylliant gweledol ers 1700, yn enwedig Prydain a Ffrainc
- celf yng Nghymru
- hanes gwneud printiau, darlunio llyfrau neu ffotograffiaeth
- arferion curadu a chasglu
- effemera fel dogfennau o fywyd bob dydd
- naratif a naratifeg.

I gael rhagor o wybodaeth, gweler ein tudalennau 'Sut i wneud cais' neu cysylltwch â ni.







# Ein hymchwil

Mae ein staff dysgu yn artistiaid sy'n arddangos, yn ysgolheigion sy'n cyhoeddi, ac yn guraduron, ac mae eu gwaith yn cynnig amgylchedd dysgu ysgogol. Mae ymchwil staff yn llywio ein dysgu ac yn sicrhau bod y sgiliau rydych yn eu dysgu a'r wybodaeth rydym yn ei rhannu yn canolbwyntio ar arfer ac yn gyfredol.

Mae ein hymchwilwyr yn cydweithio yn aml ag amgueddfeydd, orielau a chymdeithasau proffesiynol i arddangos celf a chyhoeddi ymchwil ysgogol, pellgyrhaeddol a pherthnasol o arwyddocâd cenedlaethol a rhyngwladol.

Er enghraifft, mae ein hymchwil ar Hugh Blaker, yr artist-gasglwr o'r ugeinfed ganrif, a'r peintiadau a oedd yn ei feddiant ar un amser wedi arwain at gadarnhau portread gan Amadeo Modigliani y bu ansicrwydd yn ei gylch yn flaenorol, yn ogystal â thaflu goleuni newydd ar gynfas y canfu Amgueddfa y Louvre yn ddiweddar mai Sant Joseff y Saer ydoedd - sef campwaith gan y peintiwr Baróc o Ffrainc, Georges de La Tour - a chofnod o berchnogaeth fersiwn gynharach o'r Mona Lisa gan Leonardo da Vinci.

Mae rhan helaeth o'n hymchwil i hanes celf yn ymwneud ag ailasesu gyrfaoedd artistig ac adfer arferion traddodiadol, yn enwedig y rhai a gafodd eu gwthio i'r cyrion neu eu hesgeuluso. Mae ein staff wedi cyhoeddi ymchwil ar Gustave Caillebotte, peintiwr, casglwr a garddwr o Ffrainc yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, y ffotograffydd o Almaen yr ugeinfed ganrif, Erich Retzlaff, enwog ar un adeg am ei luniau o diroedd a phobl yr Almaen, ac Academyddion Brenhinol sy'n llai cyfarwydd erbyn hyn. Mae ein catalogau raisonné ar beintwyr-brintwyr megis Sydney Lee, Stanley Anderson a Charles Tuncliffe wedi ennill eu lle fel deunydd cyfeiriol safonol.

Nid yw ein hymchwil rhyngddisgyblaethol yn gyfyngedig i ddiwylliant gweledol a materol. Mae'n ymwneud â cherddoriaeth, y gair llafar, a sain hefyd. Trwy gyfrwng papurau cynhadledd a chyhoeddiadau, arddangosfeydd a pherfformiadau, gweithdai a chydweithrediadau, mae ein hymchwilwyr yn cyfrannu at feysydd sy'n datblygu fel awdionaratoleg ac awdioglyweledeg (hy artistiaid yn arbrofi â sŵn, cerddoriaeth a thestun). Mae ein hymchwil ar hanes ac arferion ffotograffiaeth yn ymdrin â phrosesau ffotograffig hanesyddol ac amgen fel sylfaen i arferion celfyddyd gain ac ymchwil hanes celf. Mae'n gysylltiedig ag astudio prosesau yn seiliedig ar lens yn ogystal â'r ffotograff fel dull o greu delwedd i archwilio syniadau ynghylch hunaniaeth a chof.

Mae ein hymchwil ar Gelfyddyd Gain wedi arwain at ffurfio rhwydwaith rhyngwladol o artistiaid, gweithdai print a phrifysgolion, i geisio codi proffil lithograffeg a denu artistiaid sy'n aelodau o'r rhwydwaith i Aberystwyth. Mae ein prosiect Gwneud Printiau Celf Gain Cydweithrediadol yn datblygu cysylltiadau ystyrlon rhwng ymarfer ac addysgu gwneud printiau, yn ogystal ag ymchwil ar y cyfryngau traddodiadol, digidol a rhyngddisgyblaethol. Mae ymarfer rhyngddisgyblaethol a chydweithredol wedi creu canlyniadau amlochrog - yn cynnwys lluniadau, ffotograffau, barddoniaeth, gwaith fideo a sain, cyhoeddiadau, perfformiadau a thrafodaethau panel - sy'n ennyn diddordeb cynulleidfaoedd amrywiol mewn trafodaethau cyfredol yn ymdrin â materion megis cadwraeth, rheoli tir yn gynaliadwy, gwarchod bywyd gwyllt a bioamrywiaeth, mewn ffyrdd newydd a chyffrous.

Gan mai ni yw'r unig sefydliad yng Nghymru sy'n cynnig graddau israddedig ac ymchwil mewn Hanes Celf, rydym hefyd yn ymwybodol o'n hymrwymiad arbennig i ddiwylliant weledol Cymru. Yn ogystal ag arddangosfeydd a monograffau sy'n canolbwyntio ar artistiaid o Gymru'r ugeinfed ganrif - George Chapman, John Elwyn, Nicholas Evans, Gwilym Prichard, Christpher Williams a Claudia Williams - mae ein hymchwil yn y maes hwn yn cynnwys arferion casglu George Powell o Nant-Eos ger Aberystwyth, y Cymro ecsentrig yn oes Fictoria a ymddiddorai mewn celf, a chelf byd natur ac astudiaethau fforensig o anifeiliaid gan Charles Tunnicliffe, yr artist enwog o Fôn a oedd yn aelod o'r Academi Fenhinol.

Mae casgliadau Arddangosfa ac Orielau'r Ysgol Gelf, sydd ag enw da'n rhyngwladol, yn adnodd sylweddol ac yn rhoi ffocws i brosiectau staff a myfyrwyr. Trwy gyhoeddiadau, arddangosfeydd, cynadleddau, cyfnodau hyfforddi, darlithoedd cyhoeddus, darllediadau a chronfeydd data ar-lein, mae ein staff yn cyrraedd nifer gynyddol ehangach o fuddiolwyr, yn cynnwys myfyrwyr ac academyddion, curaduron a chasglwyr, gwerthwyr ac arwerthwyr celf, cyhoeddwyr a darlledwyr, beirniaid celf, a'r cyhoedd yn gyffredinol.

## Yr Adran

# Gyfrifiadureg

Rydym yn un o'r adrannau cyfrifiadureg hynaf yn y DU ac rydym yn dal i fod ar flaen y gad ym maes ymchwil technolegol.

## Graddau a ddysgir


| | |
|---|---|
| Cyfrifiadureg, MSc | t.100 |
| Cyfrifiadureg Uwch, MSc | t.101 |
| Deallusrwydd Artiffisial, MSc | t.102 |
| Gwyddor Data, MSc | t.103 |
| Ystadegaeth ar gyfer Bioleg Gyfrifiadol, MSc | t.104 |


## Dysgu o bell


| | |
|---|---|
| Cynhyrchu Cyfryngau Uwch, MSc | t.105 |


## Graddau ymchwil


| | |
|---|---|
| MPhil, PhD, DProf | t.106 |




# Cyfrifiadureg

## MSc

Mae'r radd hon yn cynnig cyflwyniad dwys a phroffesiynol i gyfrifiadureg ar gyfer graddedigion medrus mewn disgyblaethau eraill, yn enwedig y dyniaethau, i'w galluogi i fynd ymlaen i'r diwydiant meddalwedd. Nid oes angen unrhyw brofiad blaenorol ym maes cyfrifiadureg.

Mae'r pynciau a gaiff eu hastudio ar y cwrs hwn yn cynnwys rhaglennu cyfrifiadurol, rheoli data a systemau deallusol. Mae pynciau prosiectau MSc diweddar yn cynnwys: dysgu peirianyddol ar gyfer y rhyngrwyd pethau, cymwysiadau realiti estynedig ar gyfer twristiaeth, dadansoddi a rheoli data allyriadau amaethyddol, canfod ymyrraeth â'r rhwydwaith, a rheoli'r gadwyn gyflenwi.

Byddwch yn cael cyflwyniad i raglennu er mwyn dysgu'r sgiliau sylfaenol y gallwch ehangu arnynt a'u cymhwyso yn y modiwlau uwch, gan gynnwys Peirianneg Meddalwedd Uwch a Phrosiect Datblygu Meddalwedd Ystwyth. Mae'r cwrs hwn hefyd yn cynnwys cyflwyniadau i feysydd Cyfrifiadureg pwysig eraill, megis Deallusrwydd Artiffisial a rheoli data.

**Cyflogadwyedd**
Mae ystod y gyrfaoedd y mae ein graddedigion yn mynd ymlaen iddynt yn helaeth ac yn parhau i ehangu. Mae graddedigion diweddar wedi cael swyddi gyda chwmnïau megis Google a MarkLogic, a banciau buddsoddi. Mae rhai wedi dod yn rheolwyr cynnyrch, ac mae eraill wedi sefydlu eu cwmnïau eu hunain.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn:

- Research Topics in Computing
- Agile Software Development Project
- Fundamentals of Intelligent Systems
- Programming for Scientists
- Modelling, Managing and Securing Data
- Applied Data Mining.

**Agile Software Development Project**
Rhoddir sylfaen gref i beirianneg meddalwedd ystwyth yng nghyd-destun systemau cyfrifiadurol sy'n storio a thrin data, a fydd yn eich paratoi i weithio yn y diwydiant meddalwedd.

**Modelling, Managing and Securing Data**
Astudio ystod o faterion yn ymwneud â pherfformiad a diogelwch yng nghyd-destun systemau cyfrifiadurol sy'n storio a thrin data. Bydd yn rhoi sylw i gyfrinachedd a phreifatrwydd data yn ogystal ag uniondeb data a gwarantu y gellir ei atgynhyrchu.

**Programming for Scientists**
Trwy ddefnyddio iaith raglennu Python dysgir elfennau sylfaenol rhaglennu a dangosir sut i drin a threfnu data perthnasol.

I gael rhagor o fanylion a'r wybodaeth ddiweddaraf am ein modiwlau, ewch i'n gwefan.

## Ffeithiau allweddol

**Math o radd:** MSc

**Cod y cwrs:** G480

**Hyd:** 1 flwyddyn (amser llawn) neu 2 flynedd (rhan-amser)

**Gofynion mynediad:** Gradd Baglor (Anrhydedd) 2:2 neu gyfatebol mewn unrhyw bwnc. Caiff unigolion heb radd eu hystyried fesul un ar sail eu profiad gwaith perthnasol.

**Amser cyswllt:** Tua 12 awr yr wythnos yn y ddau semester cyntaf, yna bydd y myfyriwr a'r tiwtor yn cytuno rhyngddynt ar gyfnodau'r amser cyswllt.



# Cyfrifiadureg Uwch

## MSc

Mae'r radd hon, sy'n rhoi pwyslais ar beirianneg meddalwedd proffesiynol, yn addas i fyfyrwyr sy'n bwriadu dilyn gyrfa yn y diwydiant meddalwedd, ac yn radd Meistr sy'n gymwys ar gyfer statws Peiriannydd Siartredig. Gall hefyd arwain at yrfa mewn ymchwil.

Ymhlith y pynciau y gallech eu hastudio ar y cwrs hwn mae peirianneg meddalwedd uwch, systemau gwybodaeth, dulliau ystadegol a rheoli data. Mae pynciau prosiectau MSc diweddar yn cynnwys: dysgu peirianyddol ar gyfer y rhyngrwyd pethau, cymwysiadau realiti estynedig ar gyfer twristiaeth, dadansoddi a rheoli data allyriadau amaethyddol, canfod ymyrraeth â'r rhwydwaith, a rheoli'r gadwyn gyflenwi.

Drwy astudio'r cwrs hwn cewch gyfleoedd i ddatblygu sgiliau technegol arbenigol ac i gael profiad ymarferol ym maes datblygu meddalwedd ystwyth a defnyddio ystod o dechnegau i gyflwyno'r ymchwil ddiweddaraf i gynulleidfaoedd amrywiol.

**Cyflogadwyedd**
Mae ystod y gyrfaoedd y mae ein graddedigion yn mynd ymlaen iddynt yn helaeth ac yn parhau i ehangu. Mae graddedigion diweddar wedi cael swyddi gyda chwmnïau megis Google a MarkLogic, a banciau buddsoddi. Mae rhai wedi dod yn rheolwyr cynnyrch, ac mae eraill wedi sefydlu eu cwmnïau eu hunain.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn:

- Research Topics in Computing
- Agile Software Development Project
- Fundamentals of Intelligent Systems
- Internet Technologies
- Individual Project
- Statistical Concepts, Methods and Tools.

**Advanced Software Engineering**
Canolbwyntio ar faterion cyfoes ym maes Peirianneg Meddalwedd gan roi pwyslais sylweddol ar drafodaethau myfyrwyr ac adolygiadau gan gymheiriaid.

**Agile Software Development Project**
Rhoddir sylfaen gref i beirianneg meddalwedd ystwyth yng nghyd-destun systemau cyfrifiadurol sy'n storio a thrin data, a fydd yn eich paratoi i weithio yn y diwydiant meddalwedd.

**Fundamentals of Intelligent Systems**
Cyflwyno syniadau allweddol Deallusrwydd Artiffisial a sicrhau bod pob myfyriwr ar yr un lefel yn fras cyn iddynt symud ymlaen i fodiwlau arbenigol.

**Statistical Concepts, Methods and Tools**
Rhoddir sylfaen mewn Ystadegaeth gan gynnwys dylunio arbrofion, dosrannu tebygolrwydd arwahanol a pharhaus, modelu llinol a phrofi rhagdybiaethau.

I gael rhagor o fanylion a'r wybodaeth ddiweddaraf am ein modiwlau, ewch i'n gwefan.

## Ffeithiau allweddol

**Math o radd:** MSc

**Cod y cwrs:** G493 (G498 gyda blwyddyn mewn diwydiant)

**Hyd:** 1 flwyddyn (amser llawn). Mae G498 yn 2 flynedd.

**Gofynion mynediad:** Gradd Baglor (Anrhydedd) 2:2 neu gyfatebol mewn unrhyw bwnc. Caiff unigolion heb radd eu hystyried fesul un ar sail eu profiad gwaith perthnasol.

**Amser cyswllt:** Tua 12 awr yr wythnos yn y ddau semester cyntaf, yna bydd y myfyriwr a'r tiwtor yn cytuno rhyngddynt ar gyfnodau'r amser cyswllt.

# Deallusrwydd Artiffisial

## MSc

Mae Deallusrwydd Artiffisial yn newid y ffordd rydym yn byw. Mae defnydd ohono'n treiddio i bob agwedd ar ein bywydau, o ofal cymdeithasol ac iechyd, i atal twyll a gemau cyfrifiadurol i gynorthwywyr digidol.

Mae'r pynciau y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn o bosib yn cynnwys dysgu peirianyddol a deallusrwydd cyfrifiadol, cloddio data cymwysedig, a chysyniadau, dulliau ac offerynnau ystadegol.

Drwy astudio'r cwrs hwn byddwch yn datblygu sgiliau technegol arbenigol ym meysydd systemau gwybodaeth, dysgu dwys, data mawr a deallusrwydd cyfrifiadol.

**Cyflogadwyedd**

Mae ystod y gyrfaoedd y mae ein graddedigion yn mynd ymlaen iddynt yn helaeth ac yn parhau i ehangu. Mae graddedigion diweddar wedi cael swyddi gyda chwmnïau megis Google a MarkLogic, a banciau buddsoddi. Mae rhai wedi dod yn rheolwyr cynnyrch, ac mae eraill wedi sefydlu eu cwmnïau eu hunain.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau craidd y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn:

- Fundamentals of Intelligent Systems
- Statistical Concepts, Methods and Tools
- Computational Intelligence
- Applied Data Mining
- Machine Learning for Intelligent Systems.

**Fundamentals of Intelligent Systems**

Cyflwyno syniadau allweddol Deallusrwydd Artiffisial a sicrhau bod pob myfyriwr ar yr un lefel yn fras cyn iddynt symud ymlaen i fodiwlau arbenigol.

**Statistical Concepts, Methods and Tools**

Rhoddir sylfaen mewn Ystadegaeth gan gynnwys dylunio arbrofion, dosrannu tebygolrwydd arwahanol a pharhaus, modelu llinol a phrofi rhagdybiaethau.

**Applied Data Mining**

Gwybodaeth ymarferol ynglŷn â chloddio data trwy ddefnyddio systemau rheoli data. Mae ymholi, chwilio, cloddio a dadansoddi cyfansymiau mawr o ddata yn gofyn am ddulliau trefniadol a thechnolegol sy'n mynd tu hwnt i ddulliau nodweddiadol wrth drin systemau cronfeydd data perthynol.

**Machine Learning for Intelligent Systems**

Dysgu prif gysyniadau dysgu peirianyddol trwy gyfrwng trafodaethau seminar ynglŷn â phapurau gwyddonol.

I gael rhagor o fanylion a'r wybodaeth ddiweddaraf am ein modiwlau, ewch i'n gwefan.

## Ffeithiau allweddol

**Math o radd:** MSc

**Cod y cwrs:** G790

**Hyd:** 1 flwyddyn (amser llawn)

**Gofynion mynediad:** Gradd Baglor (Anrhydedd) 2:2 neu gyfatebol mewn unrhyw bwnc. Caiff unigolion heb radd eu hystyried fesul un ar sail eu profiad gwaith perthnasol.

**Amser cyswllt:** Tua 12 awr yr wythnos yn y ddau semester cyntaf, yna bydd y myfyriwr a'r tiwtor yn cytuno rhyngddynt ar gyfnodau'r amser cyswllt.



# Gwyddor Data

## MSc

Mae Gwyddor Data yn arbenigedd sy'n tyfu'n gyflym, a gellir ei ddefnyddio mewn busnes, llywodraeth a gwyddoniaeth. Mae ei ddefnydd yn amrywio o ganfod patrymau prynu cwsmeriaid i ddilyn hynt ymlediad afiechyd, o fonitro peirianwaith drud i gofnodi a gwella iechyd unigolyn. Ceir galw aruthrol am raddedigion gyda sgiliau mewn 'Data Mawr'.

Mae modelu, rheoli a sicrhau data, dysgu peirianyddol, cloddio data cymwysedig, a chysyniadau, dulliau ac offerynnau ystadegol ymysg y testunau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

Mae Gwyddor Data yn arbennig o briodol fel ffocws ar gyfer gradd Meistr gyffredinol mewn Cyfrifiadureg, gan ddarparu cyfleoedd i raddedigion o ddisgyblaethau eraill gymhwyso eu gwybodaeth newydd am Gyfrifiadureg i'w maes hastudio gwreiddiol.

Trwy astudio'r cwrs byddwch yn datblygu sgiliau technegol arbenigol ym meysydd trin data, rheoli data, dadansoddi data a chloddio data, modelu perthynol, cryptograffeg, a diogelwch systemau. Byddwch hefyd yn datblygu arbenigedd pwnc-benodol, yn cynnwys ymwybyddiaeth o'r materion cyfreithiol, cymdeithasol, moesegol a phroffesiynol sy'n codi wrth drin data, a gwybodaeth am dechnegau ystadegol a dulliau ar gyfer trin setiau data mawr.

**Cyflogadwyedd**

Mewn amrywiaeth eang o sefyllfaoedd. o'r byd bancio i siopa, ac o gyrff llywodraethol i'r GIG, mae ein gweithgareddau bob dydd yn gadael ôl troed digidol ac mae'r byd gwaith yn cael ei drawsnewid. Mae galw mawr am Wyddonwyr Data – pobl sy'n meddu ar y sgiliau i ganfod ystyr mewn data ac sy'n gyfforddus yn gweithio ar draws disgyblaethau cyfrifiadureg, mathemateg ac ystadegaeth, ac sydd hefyd yn gallu dod â sawl ffrwd o ddata ynghyd i greu sawl synthesis newydd a chraff. Mae ein graddedigion yn mynd ymlaen i waith mewn cwmnïau megis Google a MarkLogic, a banciau buddsoddi. Mae rhai ohonynt bellach yn reolwyr cynnyrch, ac eraill wedi sefydlu eu cwmnïau eu hunain.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn:

- Modelling, Managing and Securing Data
- Programming for Scientists
- Statistical Concepts, Methods and Tools
- Applied Data Mining
- Machine Learning for Intelligent Systems
- Statistical Techniques for Computational Scientists.

**Modelling, Managing and Securing Data**

Astudio ystod o faterion yn ymwneud â pherfformiad a diogelwch yng nghyd-destun systemau cyfrifiadurol sy'n storio a thrin data. Bydd yn rhoi sylw i gyfrinachedd a phreifatrwydd data yn ogystal ag uniondeb data a gwarantu y gellir ei atgynhyrchu.

**Programming for Scientists**

Trwy ddefnyddio iaith raglennu Python dysgir elfennau sylfaenol rhaglennu a dangosir sut i drin a threfnu data perthnasol.

**Statistical Concepts, Methods and Tools**

Rhoddir sylfaen mewn Ystadegaeth, gan gynnwys dylunio arbrofion, dosrannu tebygolrwydd arwahanol a pharhaus, modelu llinol a phrofi rhagdybiaethau.

**Machine Learning for Intelligent Systems**

Cyflwyno prif gysyniadau dysgu peirianyddol. Byddwch yn dysgu sut i archwilio'n ymarferol y problemau a wynebir wrth gymhwyso dau ddull dysgu peirianyddol i set ddata addas.

I gael rhagor o fanylion a'r wybodaeth ddiweddaraf am ein modiwlau, ewch i'n gwefan.

## Ffeithiau allweddol

**Math o radd:** MSc

**Cod y cwrs:** G490

**Hyd:** 1 flwyddyn (amser llawn)

**Gofynion mynediad:** Gradd Baglor (Anrhydedd) 2:2 neu gyfatebol mewn unrhyw bwnc. Caiff unigolion heb radd eu hystyried fesul un ar sail eu profiad gwaith perthnasol.

**Amser cyswllt:** Tua 12 awr yr wythnos yn y ddau semester cyntaf, yna bydd y myfyriwr a'r tiwtor yn cytuno rhyngddynt ar gyfnodau'r amser cyswllt.

# Ystadegaeth ar gyfer Bioleg Gyfrifiadol

## MSc

Mae Bioleg Gyfrifiannol yn faes diddordeb sy'n strategol allweddol i ymchwil ryngddisgyblaethol ac i gyflogwyr ym meysydd cynhyrchion fferyllol, amaethyddiaeth uwch ac iechyd y cyhoedd. Mae defnyddio Ystadegau a Dysgu Peirianyddol i godi gwybodaeth ddefnyddiol o setiau mawr o ddata hefyd yn ofyniad allweddol yn y meysydd hyn.

Mae'r cynllun gradd hwn wedi'i gynllunio i gyflwyno sgiliau allweddol sy'n seiliedig ar arfer mewn ystadegau ar gyfer Bioleg Gyfrifiannol. Byddwch yn dysgu sut i werthuso cymhwysiad technegau ystadegol penodol i ymchwilio i broblemau mewn Bioleg Gyfrifiannol yn feirniadol, ac yna dehongli ac adrodd ar ganlyniadau'r dadansoddiad yn effeithiol.

Mae'r cwrs MSc hwn yn cyfuno disgyblaethau Mathemateg, Cyfrifiadureg, a'r Gwyddorau Biolegol, ac yn addas ar gyfer graddedigion o unrhyw un o'r tair disgyblaeth hyn. Drwy hynny, byddwch yn elwa o gyfoeth y cyfuniad o arbenigedd a gwybodaeth sydd ar gael yn y tair adran hyn: Mathemateg, Cyfrifiadureg, ac Athrofa'r Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig (IBERS).

**Cyflogadwyedd**

Mae'r gronfa o setiau mawr o ddata biolegol, sy'n tyfu'n gynyddol, yn arwain at gynnydd yn y galw am bobl sydd â'r arbenigedd i feddwl am broblemau biolegol gan ddefnyddio offer cyfrifiadurol ac ystadegol. Mae ystod eang o gyfleoedd gyrfaol ar gael mewn diwydiant ac yn y byd academaidd i raddedigion sydd â sgiliau rhifedd da, peth dealltwriaeth o'r fioleg sy'n sail iddynt, ac sy'n deall dulliau cyfrifiadurol gan gynnwys rhaglennu. Bydd y cwrs hwn yn datblygu'r sgiliau sy'n berthnasol i amaethyddiaeth uwch, peirianneg meddalwedd fferyllol a nanodechnoleg. Mae'r cyfleoedd academaidd yn cynnwys biowybodeg, cynllunio cyffuriau a gwyddor genomau. Mae graddedigion y radd hon yn gweithio mewn meysydd megis dadansoddi data ariannol, meddygaeth drachywir ac iechyd cyhoeddus..

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn:

- Frontiers in Bioscience
- Machine Learning for Intelligent Systems
- Programming for Scientists
- Statistical Concepts, Methods and Tools
- Statistical Techniques for Computational Scientists.

**Frontiers in Bioscience**

Dangos sut y mae pynciau a dulliau ymchwil mewn bioleg yn cael eu hintegreiddio, sut y defnyddir yr wybodaeth gan wahanol ymchwilwyr, ymarferwyr a defnyddwyr eraill, sut y maen nhw'n cyfathrebu, yn edrych ar bwnc penodol a dod i'w safbwynt eu hun amdano.

**Machine Learning for Intelligent Systems**

Dysgu prif gysyniadau dysgu peirianyddol trwy gyfrwng trafodaethau seminar ynglŷn â phapurau gwyddonol.

**Programming for Scientists**

Trwy ddefnyddio iaith raglennu Python dysgir elfennau sylfaenol rhaglennu a dangosir sut i drin a threfnu data perthnasol.

**Statistical Concepts, Methods and Tools**

Rhoddir sylfaen mewn Ystadegaeth, gan gynnwys dylunio arbrofion, dosrannu tebygolrwydd arwahanol a pharhaus, modelu llinol a phrofi rhagdybiaethau.

I gael rhagor o fanylion a'r wybodaeth ddiweddaraf am ein modiwlau, ewch i'n gwefan.

## Ffeithiau allweddol

**Math o radd:** MSc

**Cod y cwrs:** G499

**Hyd:** 1 flwyddyn (amser llawn)

**Gofynion mynediad:** Gradd Baglor (Anrhydedd) 2:2 neu gyfatebol mewn unrhyw bwnc. Caiff unigolion heb radd eu hystyried fesul un ar sail eu profiad gwaith perthnasol.

**Amser cyswllt:** Tua 10-14 awr yr wythnos yn y ddau semester cyntaf, yna bydd y myfyriwr a'r tiwtor yn cytuno rhyngddynt ar gyfnodau'r amser cyswllt.



# Cynhyrchu Cyfryngau Uwch

Cymraeg ar gael yn rhannol drwy'r **Gymraeg**

Cwrs dysgu o bell

## MSc, Diploma, Tystysgrif

Mae'r cwrs hwn yn cyfuno gwybodaeth ymarferol ynglŷn â rhaglennu cyfrifiadurol gyda sgiliau cynhyrchu cyfryngau. Mae'n addas ar gyfer unigolion sy'n gweithio ar hyn o bryd, neu'n dymuno gweithio, yn y diwydiannau creadigol. Bydd yn rhoi ichi'r sgiliau damcaniaethol ac ymarferol y mae arnoch eu hangen i weithio gyda thechnoleg ddigidol a thechnoleg cyfryngau.

Mae hon yn radd ryngddisgyblaethol a gynhelir gan yr Adrannau Cyfrifiadureg ac Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu. Mae gostyngiadau hael ar gael i fyfyrwyr sy'n gweithio mewn diwydiant perthnasol yn ardal Gorllewin Cymru a'r Cymoedd ac sy'n bodloni'r gofynion cymhwyso.

**Amser cyswllt**

Rydym ni wedi cynllunio ein hyfforddiant i fod mor hawdd â phosibl i'w ddilyn, yn enwedig i'r rhai sydd mewn cyflogaeth amser llawn. Mae pob modiwl a ddysgir yn cael ei ddysgu o bell dros 14 wythnos a gellir dewis modiwlau yn unol â'ch gofynion datblygu proffesiynol parhaus neu eich diddordeb eich hun neu eu cyfuno i gyfrannu tuag at gymhwyster ôl-raddedig.

Disgwylir i fyfyriwr ôl-raddedig astudio am 200 awr wrth ddilyn modiwl 20 credyd. Dylech ddisgwyl treulio rhwng 10-14 awr yr wythnos ar ddarlithoedd, cyflwyniadau a phodlediadau ar-lein, a gweddill yr amser ar ddarllen ac aseiniadau. Pan fo modd, bydd yr hyfforddiant yn berthnasol i'ch swydd ddyddiol.

Cyflwynir y rhan fwyaf o'r hyfforddiant o bell ac ar-lein felly, cyn belled â bod gennych chi gysylltiad band llydan eithaf da, cewch astudio lle bynnag a phryd bynnag sydd orau i chi. Mae'r deunyddiau dysgu ar gyfer bob un o'r modiwlau 14 wythnos yn cynnig darlithoedd wedi eu recordio gan academyddion ac arbenigwyr y diwydiant, cyflwyniadau, podlediadau, prosiectau e-grŵp, darlleniadau dan arweiniad, gweithlyfrau rhyngweithiol a fforymau trafod, yn ogystal ag aseiniadau ac e-diwtorialau.

Bydd rhai modiwlau'n dilyn rhaglen ddysgu gyfunol o weithdai byr am 1-3 diwrnod, ar y cyd ag elfennau o ddysgu o bell.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn:

- Cyflwyniad i Gynhyrchu Cyfryngau/ Introduction to Media Production
- Rhaglennu ar gyfer Cyfryngau Digidol/ Programming for Digital Media
- Datblygu i'r We/Web Development
- Applied Graphics
- Diwylliant Digidol/Digital Cultures
- Big Data
- Sgiliau Cynhyrchu Cyfryngau Uwch/ Advanced Skills in Media Production
- Gender and Media Production
- Extended Reality
- Cysyniadau a Sgiliau Ymchwil/ Research Concepts and Skills.

**Extended Reality (XR)**

Cyflwyniad i'r technolegau sylfaenol sy'n galluogi Realiti Estynedig (XR), gan ganolbwyntio ar y ffordd y maent yn cael eu defnyddio a datblygiadau'r dyfodol.

**Diwylliant Digidol/Digital Cultures**

Yn eich dysgu sut i fynd i'r afael â'r dirwedd ddigidol fel offeryn ymarferol ac fel man damcaniaethol lle gellir ffurfio hunaniaeth a brand. Cynhwysir democratiaeth seiber, gemau, hacio ac adrodd straeon yn ddigidol.

**Big Data**

Astudir sut i reoli ffeiliau cyfryngau o faint sylweddol, sicrhau bod y data yn cael ei gynnal yn iawn â'r berthynas rhyngddynt.

Dysgir y rhan fwyaf o'r modiwlau trwy gyfrwng y Gymraeg, y Saesneg neu'n ddwyieithog.

I gael rhagor o fanylion a'r wybodaeth ddiweddaraf am ein modiwlau, ewch i: **amp.aber.ac.uk**.

Ariennir y cwrs hwn yn rhannol gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop drwy Lywodraeth Cymru.

## Ffeithiau allweddol

**Math o radd:** MSc, Diploma, Tystysgrif

**Cod y cwrs:** G4P3D

**Hyd:** Ar gael tan mis Ebrill 2023 (Dysgu o bell)

**Gofynion mynediad:** Gradd Baglor (Anrhydedd) 2:2 neu gyfatebol mewn unrhyw bwnc. Caiff unigolion heb radd eu hystyried fesul un ar sail eu profiad gwaith perthnasol.

Os ydych yn gweithio yn y Diwydiannau Creadigol yn ardal Gorllewin Cymru a'r Cymoedd gallech fod yn gymwys am fwrsariaeth. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i: **amp.aber.ac.uk**

# MPhil, PhD, DProf

Ysgogir ymchwil yr Adran gan anghenion y diwydiant, busnesau a'r llywodraeth; rydym yn mynd ati i edrych am gyfleoedd ar gyfer trosglwyddo technoleg. Agwedd bwysig ar hyn yw bod rhaid i'n hymchwil gael ei adlewyrchu yn ein haddysgu.

Mae'r Adran yn cynnig graddau ymchwil PhD ac MPhil, ac mae'n cynnig goruchwyliaeth ym mhob maes o'n diddordebau ymchwil a'n harbenigedd academaidd, gan gynnwys:

- rhesymu uwch
- biowybodeg a gwybodeg iechyd
- biowybodeg a bioleg gyfrifiannol
- roboteg ddeallus.

Mae gennym arbenigedd a gaiff ei chydnabod yn eang hefyd mewn Peirianneg Meddalwedd a Thechnoleg Rhwydwaith. Mae cydweithredwyr diwydiannol yn cynnwys Ford, Ceir Jaguar, Unilever, Daimler Benz, Integral Solutions Ltd., Costain a Glaxo.

Yn ogystal â hyfforddiant sgiliau trosglwyddadwy craidd, byddwch yn cael hyfforddiant technegol a hyfforddiant ymchwil pellach gan yr Adran. Bydd yr Adran yn talu am eich cyrsiau hyfforddi arbenigol ac yn eich annog i gyflwyno papurau mewn cynadleddau. Efallai y cewch gyfleoedd hefyd i gyfrannu at addysgu – caiff hyfforddiant ei ddarparu – a bydd hyn yn eich gwneud yn fwy cyflogadwy.

## MPhil a PhD

Mae’r rhain yn canolbwyntio ar brosiectau ymchwil sydd yn astudiaethau manwl iawn mewn maes penodol sy’n cyd-daro â diddordebau ymchwil y Brifysgol. Mae’r gwaith a gynhyrchir yn waith gwreiddiol y gellir ei gyhoeddi, ac mae canlyniadau’r ymchwil yn cael eu cyflwyno mewn traethawd ymchwil a thrwy arholiad llafar.

Cwrs blwyddyn yw'r MPhil (neu ddwy flynedd rhan-amser) lle bydd disgwyl i chi ysgrifennu traethawd hir oddeutu 50-60,000 o eiriau. Dyfernir PhD ar ôl cwblhau traethawd hir boddhaol o hyd at 100,000 o eiriau, gydag arholiad viva voce i ddilyn. Y cyfnod cofrestru arferol yw tair blynedd (amser llawn), a disgwylir y bydd y traethawd ymchwil yn cael ei gyflwyno ymhen pedair blynedd o gofrestru.


## DProf

Mae'r ddoethuriaeth broffesiynol, neu DProf, yn fwy addas i'r rheiny sy'n dilyn gyrfa broffesiynol yn hytrach nag un academaidd, ac fe'i chynllunir i ganiatáu i unigolion proffesiynol cymwys astudio am ddoethuriaeth wrth barhau i weithio.

Dyfernir DProf i gydnabod bod unigolyn wedi cwblhau rhaglen o astudio cydnabyddedig a ddysgir yn llwyddiannus, ynghyd â darn o waith ymchwil uwch. Mae'r elfen o gydweithio a geir yn y prosiect ymchwil sy'n seiliedig ar waith yn gyfle gwych i sefydlu gwybodaeth newydd yn y gweithle ac i sicrhau bod eich ymchwil yn berthnasol i ddiwydiant.

I gael rhagor o wybodaeth, gweler ein tudalennau 'Sut i wneud cais' neu cysylltwch â ni.





Robot dynolffurf yw’r iCub, a ddatblygwyd gan y prosiect RobotCub. Mae ganddo synwyryddion gweledol, cynteddol, clywedol, cyffyrddiadol a propriodderbyniol, a throrym.

# Ein hymchwil

Rydym o'r farn fod cydweithredu mewn gwaith ymchwil yn hanfodol ac rydym yn cydweithredu â byd diwydiant, y llywodraeth a sefydliadau academaidd eraill yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.

Mae ymchwil yr Adran wedi'i drefnu yn bedwar grŵp, ac mae pob un ohonynt yn ymchwilio ac yn datblygu technegau a chymwysiadau systemau deallus. Ceir cydweithio sylweddol rhwng y grwpiau, gan roi llawer iawn o gydlyniad i ymchwil yr Adran. Mae gan yr Adran brosiectau cydweithredol rhyngwladol ym mhob un o'r pedwar grŵp ymchwil.

Caiff rhan helaeth o ymchwil yr Adran ei hysgogi gan anghenion defnyddwyr. Mae ein strategaeth ymchwil yn dangos ein bod yn sylweddoli pwysigrwydd gwaith o'r fath ac yn sylweddoli effaith bosibl ymchwil fel hyn i sicrhau mwy o fanteision uniongyrchol i'r cyhoedd.

Dyma'r grwpiau ymchwil yn yr Adran:

## Grŵp Rhesymu Uwch

Mae'r grŵp yn enwog am ei waith arloesol ar ddiagnosis awtomataidd a dadansoddi methiant, ac am ddyfeisio technegau bras resymu er mwyn ffurfio a symleiddio modelau gwybodaeth. Mae gan y grŵp ran flaenllaw yng nghymuned ryngwladol ymchwil deallusrwydd cyfrifiadurol, yn enwedig o ran dewis nodweddion, rhesymu rhyngosodol, dadansoddi a modelu data amhenodol, a phriodweddau damcaniaethol cyfrifiadau esblygol. Caiff y grŵp ei gefnogi gan yr EPSRC ac incwm sylweddol y drydedd genhadaeth, ac rydym wedi datblygu nifer o dechnegau newydd sydd wedi'u teilwra i fynd i'r afael â phroblemau heriol y byd sydd ohoni, er enghraifft dadansoddi troseddau difrifol, dadansoddi perfformiad academaidd, monitro a diagnosis ar systemau.

## Grŵp Biowybodeg a Gwybodeg Iechyd

Mae'r grŵp rhyngddisgyblaethol hwn yn cynnal ymchwil flaenllaw ym maes ffurfioli data biolegol, a dadansoddi data integreiddiol mewn bioleg systemau.

Mae'n gweithio ar y rhyngwyneb rhwng cymwysiadau cyfrifiadurol, biolegol a meddygol. Mae gennym ein labordy gwlyb ein hunain, mynediad at nifer o glystyrau cyfrifiadurol y Brifysgol a chysylltiadau agos â Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig (IBERS). Gyda chefnogaeth y BBSRC, RAEng/EPSRC a'r UE, rydym wedi datblygu dulliau, technegau ac offer yn y meysydd canlynol: awtomeiddio labordy, dadansoddi data biolegol ar raddfa fawr, ffurfioli data biolegol/cemegol, bioleg systemau, gwybodeg fiofeddygol, genomeg a ffarmacogenomeg.

## Grŵp Roboteg Ddeallus

Dyma un o'r grwpiau roboteg enwocaf yn y Deyrnas Unedig, ac mae'n rhan o gonsortia ymchwil cenedlaethol a rhyngwladol – o fodelau cyfrifiadurol newydd i deithiau gofod i'r blaned Mawrth. Mae'n canolbwyntio ar faterion meddalwedd a chaledwedd sy'n allweddol i amgylcheddau heb gyfyngiadau. Mae gan y grŵp enw da yn rhyngwladol, yn enwedig mewn perthynas â roboteg maes, gofod a gwybyddol, a hynny'n cynnwys: mapio awtonomaidd a cherbyd di-griw ar yr arwyneb, awtonomiaeth hirdymor a rheoli ynni, dylunio niwro-reolwyr ar gyfer robotiaid awtonomaidd, archwilio planedau a delwedd prosesu, roboteg esblygiadol a roboteg wybyddol, robot llywio gweledol, a phlatfformau robotig. Gyda chefnogaeth yr EPSRC, UE-FP7, TSB, STFC a chydweithio masnachol wedi'i ariannu, rydym wedi datblygu'r meysydd canlynol: canfod asiantau cemegol a ffrwydrol, rheoli pŵer ar gyfer systemau ynni hybrid, cydnabyddiaeth asedau awtomataidd wrth wneud sganiau laser o ffyrdd, roboteg ddatblygiadol wedi'i hysbrydoli gan gynnyrch bio, rhwydwaith symudol ad-hoc, llunio systemau rheoli ar gyfer robotiaid awtonomaidd.

## Grŵp Gweld, Graffeg a Delweddu

Mae'r grŵp yn cynnal ymchwil mewn dadansoddi delweddau a dealltwriaeth geometrig a thopolegol o wybodaeth weledol, a rhaglenni sy'n canolbwyntio ar ddadansoddi meddygol a seicoleg, dadansoddi data amgylcheddol a threftadaeth, gweld ar gyfer roboteg, dadansoddi wyneb a dadansoddi data 3D. Mae wrthi'n datblygu enw da yn rhyngwladol mewn lluniau cyfrifiadur, yn enwedig: modelu a chofrestru data 2D/3D, prosesu dynameg, dosbarthu a modelu gwead, modelu wyneb, a segmentu sy'n seiliedig ar wead a siâp. Rydym wedi datblygu dulliau newydd mewn cydweithrediad agos â'r defnyddwyr terfynol, gan gynnwys: dadansoddi delweddau meddygol, modelu planhigyn, gweld ar gyfer roboteg, modelu treftadaeth 3D, ac ymchwil sy'n gysylltiedig â chelf. Cefnogir yr ymchwil gan EPSRC, ESRC, AHRC, NISCHR, BBSRC, CCAUC, ac Elusen Canser y Prostad.





## Adran

# Y Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd

**Ers penodi ei hathro cyntaf yn y Gymraeg yn 1875, bu Adran y Gymraeg yn chwarae rhan flaenllaw yn nysg a bywyd diwylliannol y genedl, yn ogystal ag ym myd addysg, gwleidyddiaeth a newyddiaduraeth.**

**Mae'r Adran yn enwog yn rhyngwladol am ei hymchwil a'i dysgu, ac mae ganddi enw da hefyd fel lle cyfeillgar a chefnogol i'r uwchraddedigion o Gymru a'r tu hwnt sy'n dewis astudio ynddi.**

## Graddau a ddysgir

Astudiaethau Cyfieithu Proffesiynol, MA, Diploma, Tystysgrif — t.112
Cymraeg ac Astudiaethau Celtaidd — t.113

## Graddau ymchwil

MPhil, PhD, DProf — t.114





Saif Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn ymyl Campws Penglais. Mae'r Llyfrgell yn croesawu myfyrwyr sy'n dymuno dod i ddefnyddio ei hadnoddau.

# Astudiaethau Cyfieithu Proffesiynol

Cymraeg ar gael drwy'r Gymraeg 100%

## MA, Diploma, Tystysgrif

Mae'r cynllun hwn yn addas i unrhyw un sy'n dymuno datblygu gyrfa ym maes cyfieithu proffesiynol.

Trwy nawdd gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, arweinir a dysgir y cynllun uwchraddedig cenedlaethol hwn, yn bennaf, gan Brifysgol Aberystwyth. Mae'r cynllun hefyd yn cynnwys elfen gydweithredol, a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant sy'n darparu ac yn dysgu'r modiwlau cyfieithu ar y pryd ac isdeitlo opsiynol. Mae'n gynllun hyblyg iawn a gallwch ddewis un o dri llwybr: Tystysgrif (60 credyd), Diploma (120 credyd) neu MA (180 credyd).

Mae'r cynllun yn cyfuno modiwlau arbenigol â chyfleoedd yn y gweithle ochr yn ochr â chyfieithwyr proffesiynol yn y sector cyfieithu. Byddwch yn cael cyfle i astudio damcaniaethau a thechnegau cyfieithu, technoleg ac adnoddau cyfieithu, yn ogystal â swyddogaeth y cyfieithydd yn y gweithle. Mae'r cwrs yn canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau cyfieithu o'r radd uchaf, a rhoddir pwyslais cryf ar sesiynau ymarferol, ac ar weithdai.

Fe'ch cyflwynir i bob agwedd ar gyfieithu ac mae'r meysydd astudio'n cynnwys cyfieithu cyffredinol, cyfieithu deddfwriaethol ac arbenigol; technoleg cyfieithu; cyfieithu creadigol rhyngwladol; yn ogystal â chyfieithu ar y pryd, a ddarperir gan Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant. Cewch hefyd ddewis cwblhau prosiect ymchwil.

**Cyflogadwyedd**
Bydd yr MA Astudiaethau Cyfieithu Proffesiynol yn rhoi cyfle ichi ddatblygu'r sgiliau angenrheidiol ar gyfer datblygu gyrfa lwyddiannus ym maes cyfieithu ysgrifenedig a chyfieithu ar y pryd. Fel arbenigwyr iaith, bydd y cymhwyster hwn yn rhoi sylfaen gadarn iawn ichi fedru ymuno'n hyderus â'r diwydiant cyfieithu yng Nghymru, gan eich cynorthwyo i ymwneud yn llawn â'r agweddau ehangach hynny ar gyfieithu hefyd, megis isdeitlo.

Byddwch yn ymgeisydd cryf hefyd ar gyfer unrhyw swydd sy'n gofyn am sgiliau golygu a phrawfddarllen, ac o ganlyniad i'ch sgiliau iaith cadarn, byddwch yn gaffaeliad mawr i'r gweithlu dwyieithog yng Nghymru.

## Modiwlau

Ar y cwrs hwn, byddwch yn astudio'r modiwlau canlynol:

- Datblygu Sgiliau Cyfieithu
- Cyfarpar Cyfieithu
- Portffolio Cyfieithu 1 (Cyffredinol)
- Cyfieithu ar Waith
- Portffolio Cyfieithu 2 (Arbenigol)
- Cyflwyniad i Gyfieithu ar y Pryd.

Bydd myfyrwyr Diploma a'r MA yn dewis o blith y modiwlau canlynol:

- Meistroli Mynegiant yn y Gweithle Proffesiynol
- Prosiect Arbenigol
- Cyfieithu Creadigol Rhyngwladol
- Portffolio Cyfieithu 2
- Uwch Sgiliau Golygu
- Hanfodion Isdeitlo
- Cyfieithu ar y Pryd: arfer ac ymarfer
- Ymarfer Cyfieithu a Golygu (modiwl ar-lein)
- Polisi a Chynllunio Iaith yng Nghymru
- Dulliau Darllen.

Bydd myfyrwyr yr MA hefyd yn gwneud Prosiect Estynedig, 60 credyd.

I gael rhagor o fanylion a'r wybodaeth ddiweddaraf, ewch i'n gwefan.

## Ffeithiau allweddol

**Math o radd:** MA, Diploma, Tystysgrif

**Hyd:** 1 flwyddyn (amser llawn) neu 2 / 3 blynedd (rhan-amser) neu fodiwl wrth fodiwl. (Tystysgrif 1 flwyddyn rhan-amser; Diploma 1 flwyddyn amser llawn neu 2 flynedd rhan-amser).

**Cod y cwrs:** Q596

**Gofynion mynediad:** Gradd Baglor (Anrhydedd) 2:2 dda mewn maes pwnc perthnasol, neu gymhwyster cyfatebol. Caiff unigolion heb radd eu hystyried fesul un ar sail eu profiad gwaith perthnasol.

**Amser cyswllt:** Dysgir y cwrs ar ffurf cyfres o ddiwrnodau cyswllt dwys wedi eu gwasgaru ar hyd y flwyddyn. Manylion llawn yn y llawlyfr cwrs.



# Cymraeg ac Astudiaethau Celtaidd

## MA

Mae'r MA mewn Cymraeg ac Astudiaethau Celtaidd ym Mhrifysgol Aberystwyth yn gwrs unigryw sy'n caniatáu i fyfyrwyr archwilio'r ystod lawn o ieithoedd a llenyddiaethau Celtaidd o'r cyfnod cynharaf i'r cyfnod modern.

Mae Astudiaethau Celtaidd yn ddisgyblaeth hynod ddifyr, a gyda'r radd hon cewch gyfle i astudio'r ieithoedd Celtaidd unigol, eu llenyddiaeth a'u diwylliant, a hynny o dan arweiniad arbenigwyr. P'un a ydych yn ymddiddori mewn iaith, llenyddiaeth neu ddiwylliant, cewch ddewis o blith amrywiaeth eang o bynciau sy'n eich diddori. Bydd modiwlau cymharol yn eich paratoi i archwilio'n feirniadol wreiddiau'r pobloedd sy'n siarad ieithoedd Celtaidd ynghyd â hanesyddiaeth Astudiaethau Celtaidd. Yn y modiwl traethawd hir, byddwch yn gweithio o dan arweiniad arbenigwr i ddatblygu prosiect ymchwil mewn maes ymchwil penodol sydd o ddiddordeb i chi.

Does dim rhaid i chi fod yn rhugl yn y Gymraeg na'r Wyddeleg i astudio'r cwrs hwn. Mae'n ddigon hyblyg i fod yn addas ar gyfer rheiny sy'n hollol newydd i'r maes yn ogystal â'r rheiny sydd wedi astudio ieithoedd a llenyddiaethau Celtaidd ar lefel israddedig.

**Cyflogadwyedd**
Bydd pob un o elfennau'r MA Cymraeg ac Astudiaethau Celtaidd yn gwella'ch rhagolygon gyrfa. Gan ddatblygu gwybodaeth a phrofiad pwnc-benodol, un o gryfderau'r cwrs hwn yw'r pwyslais yr ydym yn ei roi ar ddatblygiad personol. Wrth ichi ddatblygu i fod yn arbenigwr ar iaith, bydd eich ymchwil a'ch gallu i fod yn feirniadol yn golygu y byddwch yn ymgeisydd cryf ar gyfer unrhyw swydd lle mae angen ymchwilio, dadansoddi, trafod, ehangu a dosbarthu syniadau a thestunau.

Mae cyflogwyr yn gwerthfawrogi sgiliau creadigol, ymchwilio, dadansoddi a thrafod, sef yr union sgiliau y byddwch yn eu datblygu ar y cwrs hwn. Bydd y sgiliau hyn yn rhoi dechrau da ichi yn y farchnad swyddi.

## Modiwlau

Ar y cwrs hwn, byddwch yn astudio'r modiwl canlynol:

- Dissertation.

Dyma'r modiwlau craidd y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn:

- Comparative Celtic Literature
- Comparative Celtic Philology
- Cyfieithu Creadigol Rhyngwladol
- Early Medieval Welsh Poetry
- Introduction to Scottish Gaelic Language and Literature
- Medieval Saga Literature of Ireland
- Old Irish for Beginners
- Reading Early Modern Gaelic Prose Texts
- The Mabinogion: Legendary and Arthurian Literature in Middle Welsh
- Welsh Language 1
- Welsh Language 2
- Women's Poetry in Ireland, Scotland and Wales 1400 - 1800
- Gerald of Wales
- Language Revitalisation in a Global Context
- Latin for Postgraduate Study
- Medieval and Post -Medieval Palaeography and Diplomatic
- Meistroli Mynegiant yn y Gweithle Proffesiynol
- Post-Medieval Palaeography and Diplomacy.

I gael rhagor o fanylion a'r wybodaeth ddiweddaraf, ewch i'n gwefan.

## Ffeithiau allweddol

**Math o radd:** MA

**Cod y cwrs:** Q506

**Hyd:** 1 flwyddyn (amser llawn) neu 2 flynedd (rhan-amser)

**Gofynion mynediad:** Gradd Baglor (Anrhydedd) 2:2 dda mewn maes pwnc perthnasol, neu gymhwyster cyfatebol. Caiff unigolion heb radd eu hystyried fesul un ar sail eu profiad gwaith perthnasol.

**Amser cyswllt:** Tua 10-14 awr yr wythnos yn y ddau semester cyntaf, yna bydd y myfyriwr a'r tiwtor yn cytuno rhyngddynt ar gyfnodau'r amser cyswllt.

# MPhil, PhD, DProf

Rydym yn annog ceisiadau am brosiectau MPhil, PhD a DProf, ac fe weithiwn gyda chi i ddatblygu eich cwestiynau ymchwil, o'r cais cychwynnol i'r traethawd ymchwil gorffenedig.

Cwrs blwyddyn yw'r MPhil (neu ddwy flynedd rhan-amser) lle bydd disgwyl i chi ysgrifennu traethawd hir oddeutu 50,000-60,000 o eiriau.

Dyfernir PhD ar ôl cwblhau traethawd hir boddhaol oddeutu 80-100,000 o eiriau, gydag arholiad viva voce i ddilyn. Y cyfnod cofrestru arferol yw tair blynedd (amser llawn), a disgwylir y bydd y traethawd hir yn cael ei gyflwyno ymhen pedair blynedd ar ôl cofrestru.

Cynllunir y Ddoethuriaeth Broffesiynol neu DProf i ganiatáu i unigolion proffesiynol cymwys astudio am ddoethuriaeth wrth barhau i weithio. Dyfernir DProf i gydnabod bod unigolyn wedi cwblhau rhaglen o astudio cydnabyddedig a ddysgir yn llwyddiannus, ynghyd ag astudiaeth bellach ac ymchwil. Gall yr ymchwil fod yn gysylltiedig â'ch gweithle, ac yn fuddiol iddo.

Ar gyfer y graddau hyn gellir dewis unrhyw bwnc mewn perthynas â'r Gymraeg a'i llenyddiaeth, neu iaith a llenyddiaeth y gwledydd Celtaidd eraill (hynafol, canoloesol a modern). Mae ymchwilwyr diweddar wedi golygu testunau o'r Oesoedd Canol a'r Cyfnod Modern Cynnar, ac wedi gweithio ar bynciau mor amrywiol ag enwau personol dynion yng Nghymru, Cernyw a Llydaw, 400–1400 OC; gwrywdod a llenyddiaeth Gymraeg yr Oesoedd Canol; gwisgoedd mewn llenyddiaeth c. 1100–c. 1600; canu cynnar Guto'r Glyn; llên gwerin Gwylliaid Cochion Mawddwy; barddoniaeth Lewis Morris; llenyddiaeth Reciwsantaidd; menywod a rhywedd ym maledi Llydaw; datblygu archifau digidol; arwyddocâd diwylliannol canu pop Cymraeg cyfoes; ffuglen wyddonol Gymraeg; a chyfraniad Myrddin ap Dafydd fel ffigwr diwylliannol.

Rydym yn goruchwylio prosiectau sy'n seiliedig ar ymarfer ac yn annog ceisiadau ar gyfer cymwysterau MPhil a PhD mewn cyfieithu ac ysgrifennu creadigol.

Cewch fanteisio ar yr amrediad eang o arbenigedd academaidd a ddarperir gan staff yr Adran yn y Gymraeg ac yn yr ieithoedd Celtaidd eraill.

Mae Prifysgol Aberystwyth yn rhan o Raglen Hyfforddi Doethurol De-Orllewin a Chymru, Cyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau (AHRC). Mae'r Consortiwm Ymchwil hwn yn cyllido ysgoloriaethau PhD yn y celfyddydau a'r dyniaethau ac yn rhoi cyfle am arolygaeth a hyfforddiant ar draws y prifysgolion sy'n rhan o'r consortiwm. Cysylltwch â ni i drafod posibiliadau neu ewch i wefan yr AHRC i gael rhagor o wybodaeth am ysgoloriaethau a'r drefn i wneud cais: **www.sww-ahdtp.ac.uk**.

I gael rhagor o wybodaeth gweler y tudalennau Sut i Ymgeisio, neu cysylltwch â ni.

Cymraeg ac Astudiaethau Celtaidd



# Ein hymchwil

Mae Adran y Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd yn rhoi lle blaenllaw i ymchwil ac mae ein harbenigedd yn rhychwantu pob cyfnod, a phob agwedd ar iaith a llenyddiaeth y Gymraeg a'r ieithoedd Celtaidd eraill.

Mae themâu ymchwil yr Adran yn cynnwys:

- ysgrifennu creadigol
- theori feirniadol, gan gynnwys astudiaethau rhywedd, eco-feirniadaeth, theori ymateb y darllenydd
- y cofiant a'r hunangofiant
- astudiaethau cyfieithu: theori ac ymarfer, gan gynnwys yr Oesoedd Canol
- ysgolheictod testunol a golygyddol
- astudiaethau beirniadol o farddoniaeth a ffuglen gyfoes
- diwylliant llenyddol poblogaidd yn y 19eg a'r 20fed ganrif: Carneddog a'i gyfoeswyr
- llenyddiaeth menywod: yr Oesoedd Canol, y cyfnod modern cynnar, a Chymru gyfoes
- hunaniaeth leol a chenedlaethol yn llenyddiaeth a diwylliant Cymraeg y cyfnod modern cynnar a'r cyfnod diweddar
- theori archipelagaidd a hanesyddiaeth 'y pedair cenedl'
- llenyddiaeth y tirlun a'r amgylchedd yng Nghymru gyfoes ac yn y cyfnod modern cynnar
- barddoniaeth Gymraeg gynnar a chanoloesol: astudiaethau testunol a thematig
- y Mabinogion
- Dafydd ap Gwilym
- llawysgrifau Cymraeg a diwylliant llenyddol Cymru
- llenyddiaeth gymharol: Gwyddeleg a Chymraeg
- Pictish
- Gwyddeleg y cyfnodau clasurol a modern cynnar: iaith a llenyddiaeth.

Mae Aberystwyth yn gartref i nifer o sefydliadau arwyddocaol eraill ym mywyd diwylliannol Cymru, sef Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru; Cyngor Llyfrau Cymru; Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru; Geiriadur Prifysgol Cymru; y *New Welsh Review* a chylchgrawn *Planet*; a stiwdios darlledu, gan gynnwys y BBC.



Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear




Yr Adran

# Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear

Mae ein Hadran Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear yn un o’r rhai mwyaf, a mwyaf profiadol o’i bath yn y DU. Yma, bydd ymchwilwyr sy'n arweinwyr byd yn eu maes yn eich dysgu.

## Graddau a ddysgir

Daearyddiaeth Ddynol ar Waith, MA t.118
Newid, Effaith ac Addasu Amgylcheddol, MSc t.119
Synhwyro o Bell a Systemau Gwybodaeth Daearyddol (SGD), MSc t.120

## Graddau ymchwil

MPhil, PhD, DProf t.121

# Daearyddiaeth Ddynol ar Waith

## MA

Bydd y radd hon yn cynnig hyfforddiant ymchwil trylwyr mewn agweddau damcaniaethol ac ymarferol ar ddaearyddiaeth ddynol. Mae'r radd wedi'i chynllunio fel porth penodol i ymchwil yn y gwyddorau cymdeithasol, a byddwch yn asesu'n feirniadol y modd y mae daearyddiaeth wedi ymdrin â themâu allweddol gan gynnwys gofod, lle, amser, graddfa, symudedd a phŵer, yn ogystal â darparu hyfforddiant manwl ar y dulliau a'r fframweithiau moesegol sydd wrth wraidd ymchwil i ddaearyddiaeth ddynol.

Byddwch yn datblygu ymwybyddiaeth o'r dadleuon polisi ym maes daearyddiaeth ddynol, y safbwyntiau moesegol, moesol a chyfreithiol ar y pwnc, a'r dulliau damcaniaethol o ymdrin â daearyddiaeth ddynol - yn ymarferol, athronyddol, epistemolegol a damcaniaethol. Byddwch hefyd yn datblygu sgiliau ymchwil trwy astudio modiwlau sy'n cynnig hyfforddiant yn y sgiliau hyn, ac yna byddwch yn rhoi'r gwaith dysgu hwn ar brawf yn eich prosiect ymchwil ymarferol eich hun.

Dyma rai o'r cyfleoedd arbenigol sydd ar gael i fyfyrwyr Daearyddiaeth Ddynol ar Waith yn Aberystwyth:

- astudio ar gwrs sydd wedi ei gymeradwyo gan yr ESRC i fod yn gymwys ar gyfer nawdd PhD gan gynghorau ymchwil
- cymryd rhan yn yr "Ysgol Ddamcaniaethau" breswyl ddeuddydd gydag ysgolheigion blaenllaw
- ystod o addysgu o ansawdd uchel dan arweiniad ymchwil ar bynciau sy'n torri tir newydd.

**Cyflogadwyedd**
Ar ôl dilyn y cwrs hwn byddwch mewn sefyllfa dda i fynd am yrfa sy'n cyfrannu i bolisi a llywodraethu, tiriogaeth, tirwedd, cynaliadwyedd, cynllunio ymchwil a thrin data. Mae ein graddedigion wedi dilyn llwybrau gyrfa amrywiol iawn, gan gynnwys ymgynghori mewn ymchwil gymdeithasol, datblygu polisi, gwaith eiriolaeth, rheoli adnoddau naturiol a diwylliannol, rheoleiddio sector cyhoeddus, cynllunio, datblygu cyrff anllywodraethol, gwaith sector treftadaeth, a gyrfaoedd academaidd trwy ymchwil doethurol.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau craidd y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn:

- Human Geography Theory and Method
- Key Concepts and Debates in Human Geography
- Principles of Research Design
- Qualitative Data Collection and Analysis
- Quantitative Data Collection and Analysis.

**Key Concepts and Debates in Human Geography**
Hanes daearyddiaeth yn gryno; gofod, lle ac amser; natur a chymdeithas; daearyddiaeth ddyneiddiol; materoli daearyddiaeth ddynol, neu ddaearyddiaeth ôl-ddyneiddiol. Byddwch hefyd yn astudio symudoledd a daearyddiaeth ddynol; effaith ac emosiwn; perfformiad a lle; daearyddiaeth gydweithrediadol; a daearyddiaeth foesegol a moesol.

**Principles of Research Design**
Cyflwyniad i egwyddorion sylfaenol cynllun a strategaeth ymchwil, er mwyn dangos eich bod yn gallu ffurfio a dadansoddi cwestiynau ymchwil, ffurfio damcaniaethau y gellir eu profi, ac asesu goblygiadau canlyniadau eich ymchwil. Byddwch yn ymgyfarwyddo â materion allweddol athroniaeth gwyddor gymdeithasol a hanes, er enghraifft achosiaeth ac aml-achosiaeth; dulliau o esbonio a deall; natur gwybodaeth hanesyddol; samplu, camgymeriadau samplu a chyffredinolrwydd; a swyddogaethau beirniadol gwyddor gymdeithasol.

**Human Geography: Theory and Method**
Yn cynnig hyfforddiant methodolegol er mwyn deall a defnyddio damcaniaethau a methodolegau ymchwil priodol ym maes daearyddiaeth ddynol.

I gael rhagor o fanylion a'r wybodaeth ddiweddaraf am ein modiwlau, ewch i'n gwefan.

## Ffeithiau allweddol

**Math o radd:** MA

**Cod y cwrs:** L791

**Hyd:** 1 flwyddyn (amser llawn) neu 2 flynedd (rhan-amser)

**Gofynion mynediad:** Gradd Baglor (Anrhydedd) 2:2 dda neu gyfatebol mewn maes pwnc perthnasol. Caiff unigolion heb radd eu hystyried fesul un ar sail eu profiad gwaith perthnasol.

**Amser cyswllt:** Tua 8-10 awr yr wythnos yn y ddau semester cyntaf, yna bydd y myfyriwr a'r tiwtor yn cytuno rhyngddynt ar gyfnodau'r amser cyswllt.



# Newid, Effaith ac Addasu Amgylcheddol

## MSc

Bydd y radd hon yn datblygu eich gwybodaeth am yr heriau a ddaw i gymdeithas yn sgîl newidiadau yn yr hinsawdd a'r amgylchedd. Mae'n rhaglen amlddisgyblaethol, sy'n tynnu ar arbenigedd o'r radd flaenaf yn y gwyddorau naturiol a chymdeithasol.

Byddwch yn datblygu cyfres eang o sgiliau sy'n angenrheidiol i ymchwilio i bynciau sy'n ymwneud â newid amgylcheddol ac i werthuso'r peryglon i gymdeithas. Byddwch yn astudio ystod amrywiol o themâu gan gynnwys diffeithdiro, cynaliadwyedd amaethyddol, llunio polisi ar gyfer newid amgylcheddol, cylch carbon daearol, dadansoddi data, cyfathrebu gwyddonol, peryglon llifogydd a newid amgylcheddol Cwaternaidd.

Dyma rai o'r cyfleoedd arbenigol sydd ar gael i fyfyrwyr Environmental Change, Impact and Adaptation yn Aberystwyth:

- astudio'r canfyddiadau diweddaraf ynglŷn â newidiadau amgylcheddol a'n hymdrechion i gynllunio am newid yn y dyfodol a rheoli'r newid hwnnw, mewn adran sy'n derbyn cyllid gan sefydliadau megis y Cenhedloedd Unedig, Sefydliad Iechyd y Byd [WHO], a'r Cyngor Ymchwil Ewropeaidd
- cael hyfforddiant uwch ar bynciau amgylcheddol gan un o'r prif adrannau ymchwil yn y Deyrnas Unedig
- elwa o amgylchedd ffisegol awyr agored safonol Aberystwyth a'r gymuned aml-genedlaethol sydd yma.

**Cyflogadwyedd**
Bydd graddedigion y rhaglen hon yn gyfranwyr hynod gymwys yn unrhyw waith sy'n ymwneud ag effeithiau pobl ar ecosystemau tirol a rheolaeth yr ecosystemau; asesu peryglon amgylcheddol a dadansoddi polisi; a gwaith lleddfu effeithiau trychineb. Mae ein graddedigion wedi mynd ymlaen i ddilyn amrywiaeth eang o lwybrau gyrfa, e.e. yn dechnegwyr maes, daearegwyr, ymgynghorwyr amgylcheddol, hyrwyddwyr polisi yn y sector ynni, ac mewn swyddogaethau cynllunio ar draws nifer o sectorau marchnad. Cawsant waith gyda sefydliadau megis y Swyddfa Dywydd, yr Asiantaeth Ofod Ewropeaidd, y Gwasanaeth Sifil, ac mewn parciau cenedlaethol, llywodraeth leol a chanolog, addysg, ac ymchwilio ochr yn ochr â sefydliadau/mentrau amlwg.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau craidd y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn:

- Advanced Research Skills: Science, Communication and Data Analysis
- Environmental Change: A Palaeo Perspective
- Global Climate Change: Debates and Impacts
- Investigating Environmental Change: Fieldwork
- Managing Environmental Change in Practice
- Risk Management and Resilience in a Changing Environment.

**Environmental Change: A Palaeo Perspective**
Astudio pwysigrwydd deall newidiadau amgylcheddol naturiol er mwyn gallu rhoi cyd-destun i newidiadau amgylcheddol y presennol a'r dyfodol. Ystyrir y cyfnodau Anthroposen, Cwaternaidd, a Holosen, yn ogystal â defnyddio enghreifftiau o'r cyfnod rhewlifol diwethaf a'r cyfnod hwyr-rewlifol.

**Global Climate Change: Debates and Impacts**
Cyflwyniad i adroddiad ar y newid yn yr hinsawdd gan yr IPCC (y Panel Rhynglywodraethol ar y Newid yn yr Hinsawdd) yn dangos y gwahanol ffyrdd y mae canfyddiadau adroddiad synthesis yr IPCC wedi eu portreadu yn y cyfryngau gan amryw o grwpiau, gan gynnwys sefydliadau sy'n amau bod yr hinsawdd yn newid. Byddwch hefyd yn astudio cyfres o astudiaethau achos ymchwil dan arweiniad staff.

**Risk Management and Resilience in a Changing Environment**
Yn archwilio'r modd y mae dirnadaeth o gydnerthedd ac ymddygiad wedi datblygu i fod yn arfau polisi, ac yn ystyried eu potensial a'u cyfyngiadau o ran rheoli newid amgylcheddol-gymdeithasol.

I gael rhagor o fanylion a'r wybodaeth ddiweddaraf am ein modiwlau, ewch i'n gwefan.

## Ffeithiau allweddol

**Math o radd:** MSc

**Cod y cwrs:** F998

**Hyd:** 1 flwyddyn (amser llawn) neu 2 flynedd (rhan-amser)

**Gofynion mynediad:** Gradd Baglor (Anrhydedd) 2:2 dda neu gyfatebol mewn maes pwnc perthnasol. Caiff unigolion heb radd eu hystyried fesul un ar sail eu profiad gwaith perthnasol.

**Amser cyswllt:** Tua 10-14 awr yr wythnos yn y ddau semester cyntaf, yna bydd y myfyriwr a'r tiwtor yn cytuno rhyngddynt ar gyfnodau'r amser cyswllt.

# Synhwyro o Bell a Systemau Gwybodaeth Daearyddol (SGD)

## MSc

Cynlluniwyd y cwrs Meistr hwn i arfogi myfyrwyr â'r sgiliau diweddaraf ar gyfer prosesu a dadansoddi data daearyddol.

Elfen allweddol o'r cwrs yw dysgu sgiliau rhaglennu craidd i chi (e.e. Python, R a Google Earth Engine) er mwyn i chi allu cynnal prosesau uchelgeisiol sydd ar flaen y maes. Rydym yn canolbwyntio ar ddefnyddio meddalwedd sydd ar gael yn ddigyfyngiad, gan gynnwys meddalwedd yr ydym yn ei hysgrifennu ac yn ei chynnal ein hunain (a ddefnyddir gan NASA ac Asiantaeth Gofod Japan ymhlith eraill) i brosesu amrywiaeth eang o ffynonellau data, gan gynnwys delweddau lloeren optegol a radar, delweddau drôn a data LiDAR. Gan adeiladu ar ein hymchwil o safon fyd-eang, byddwch yn dysgu'r sgiliau hyn trwy eu cymhwyso i feysydd megis mapio risg clefydau, biomas coedwigoedd a charbon, newid gorchudd tir ac ystod o heriau amgylcheddol eraill.

Dyma rai o'r cyfleoedd arbenigol sydd ar gael i fyfyrwyr Synhwyro o Bell a SGD yn Aberystwyth:

- dysgu technegau a chysyniadau arloesol ar gyfer synhwyro o bell a SGD trwy eu cymhwyso i astudiaethau achos gwirioneddol
- cyfle i gyfrannu i brosiectau cyfredol yn y grŵp ymchwil blaenllaw 'Deinameg Arsylwi ar y Ddaear ac Ecosystemau', gan gynnwys mesur cyflenwadau carbon fforestydd yn fyd-eang, mapio mangrofau'r ddaear, darparu gwybodaeth ofodol ar gyfer y frwydr yn erbyn malaria
- cael defnyddio labordai cyfrifiadurol pwrpasol ar gyfer gwaith ymchwil SGD a synhwyro o bell sy'n cynnwys y llwyfannau meddalwedd diweddaraf
- rhoi eich sgiliau ar waith trwy gydweithio'n uniongyrchol â phartneriaid o gwmnïau a phartneriaid academaidd i ddatrys problemau gwirioneddol.

**Cyflogadwyedd**
Cafodd graddedigion y cwrs hwn lwyddiant mawr yn sicrhau swyddi mewn sefydliadau diwydiannol ac academaidd amlwg iawn. Mae ein cyn-fyfyrwyr wedi cael gwaith mewn cyrff llywodraethol ym Mhrydain a thramor, mewn mentrau preifat a sefydliadau ymchwil arweiniol. Trwy astudio'r cwrs, byddwch yn gyfrannwr hynod gymwys yn unrhyw waith yn gysylltiedig â'r newid yn yr hinsawdd, effeithiau pobl ar ecosystemau tirol, rhewlifeg, hydroleg, coedwigaeth, newid arfordirol, gwyddor cylched carbon, bioamrywiaeth, a gwaith ymgynghori.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau craidd y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn:

- Fundamentals of Remote Sensing and GIS
- Advanced Research Skills: Science, Communication and Data Analysis
- Advanced Skills in Geographical Information Systems
- Advanced Skills in Remote Sensing
- Applied Geospatial Skills in Industry
- Remote Sensing Issues.

**Advanced Skills in Geographical Information Systems**
Cyfle i ymdrin â chadwyni uwch brosesu a dadansoddi data ar gyfer nifer o gymwysiadau.

**Advanced Skills in Remote Sensing**
Rhoddir dealltwriaeth ddatblygedig o systemau a chyfryngau synhwyro o bell, gan gynnwys prosesu, dadansoddi a dosbarthu data.

**Applied Geospatial Skills in Industry**
Mewn grwpiau, bydd myfyrwyr yn cynhyrchu a chyflawni cynllun prosiect i sefydliad allanol, ac ar y diwedd yn cynhyrchu adroddiad a chyflwyniad am y prosiect.

**Remote Sensing Issues**
Yn amlygu materion cyfoes o ran synhwyro o bell, yn benodol felly ym maes gwyddor y gofod, bioleg, daearyddiaeth a chyfrifiadureg.

I gael rhagor o fanylion a'r wybodaeth ddiweddaraf am ein modiwlau, ewch i'n gwefan.

## Ffeithiau allweddol

**Math o radd:** MSc

**Cod y cwrs:** F994

**Hyd:** 1 flwyddyn (amser llawn) neu 2 flynedd (rhan-amser)

**Gofynion mynediad:** Gradd Baglor (Anrhydedd) 2:2 dda neu gyfatebol mewn maes pwnc perthnasol. Caiff unigolion heb radd eu hystyried fesul un ar sail eu profiad gwaith perthnasol.

**Amser cyswllt:** Tua 10-14 awr yr wythnos yn y ddau semester cyntaf, yna bydd y myfyriwr a'r tiwtor yn cytuno rhyngddynt ar gyfnodau'r amser cyswllt.



# MPhil, PhD, DProf

Rydym yn cynnig graddau MPhil, PhD a DProf mewn ystod eang o bynciau sy'n berthnasol i'n harbenigeddau ymchwil ni.

Mae gennym gymuned ymchwil fawr sy'n ymchwilio i rai o'r heriau mwyaf y mae'r byd yn eu hwynebu.

Mae ein prif arbenigeddau ymchwil yn cynnwys:

- prosesau a chynhyrchion rhewlifol
- newid amgylcheddol cwaternaidd
- prosesau arwyneb y ddaear
- cylchredau carbon pridd a newid yn yr hinsawdd
- arsylwi ar y Ddaear a deinameg ecosystemau
- geocemeg a biogeocemeg
- daearyddiaeth hanesyddol a diwylliannol
- daearyddiaethau gwleidyddol newydd.

Mae ein dalithwyr yn ymchwilwyr sy'n arwain y byd yn eu meysydd, a byddwch yn cael addysg sy'n seiliedig ar y damcniaethau a'r technegau arloesol ym meysydd daearyddiaeth a'r gwyddorau daear ac amgylcheddol. Ar draws y pynciau hyn, byddwch yn defnyddio ein cyfleusterau gwych, gan gynnwys y labordai ac offer, cyfarpar gwaith maes a meddalwedd diweddaraf.

Cyrsiau blwyddyn yw'r graddau MPhil amser llawn fel arfer, a chyrsiau tair blynedd yw'r rhai PhD. Gellir astudio'n rhan-amser hefyd. Mae ariannu trwy ysgoloriaeth ar gael gan Brifysgol Aberystwyth yn ogystal â ffynonellau allanol. Prif ffocws eich gradd ymchwil fydd traethawd hir manwl a'ch cyhoeddiadau ymchwil. Byddwch yn cael eich goruchwylio'n fanwl gan arbenigwyr yn yr Adran ar gynllunio, llunio ac ysgrifennu'r traethawd.

Mae'r ddoethuriaeth broffesiynol, neu DProf, yn fwy addas i'r rheiny sy'n dilyn gyrfa broffesiynol yn hytrach nag un academaidd, ac fe'i chynllunir i ganiatáu i unigolion proffesiynol cymwys astudio am ddoethuriaeth wrth barhau i weithio. Dyfernir DProf i gydnabod bod unigolyn wedi cwblhau rhaglen o astudio cydnabyddedig a ddysgir yn llwyddiannus, ynghyd â darn o waith ymchwil uwch. Mae'r elfen o gydweithio a geir yn y prosiect ymchwil sy'n seiliedig ar waith yn gyfle gwych i sefydlu gwybodaeth newydd yn y gweithle ac i sicrhau bod eich ymchwil yn berthnasol i ddiwydiant.

I gael rhagor o wybodaeth am destunau posibl a'n goruchwylwyr, ewch i'n gwefan neu cysylltwch â ni.





Mae Rhewlif Glasser wedi'i enwi ar ôl yr Athro Neil Glasser, o'r Adran Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear ym Mhrifysgol Aberystwyth. Yn mesur oddeutu 1500 metr o hyd a 500 metr o led, mae Rhewlif Glasser wedi'i leoli ar Ynys James Ross ac yn llifo tua'r gorllewin o gromen iâ fawr ar Lachman Crags. Credyd llun Dr Bethan Davies.



# Ein hymchwil

Mae prif ganolfannau a grwpiau ymchwil ein hadran yn cwmpasu ystod eang o feysydd ymchwil, ac rydym hefyd yn rhan o sawl clwstwr ymchwil rhyngddisgyblaethol.

## Y Ganolfan Rhewlifeg

Mae'r ymchwil a wneir yn amrywio o fodelu rhewlifol rhifyddol, drwy rewlifeg proses a hydroleg rhewlifau i ddaeareg a geomorffoleg a biogeocemeg rhewlifol. Rydym yn canolbwyntio ar archwilio: ymatebion rhewlifau i newid hinsoddol a newid mewn cydbwysedd màs; rhyngweithiadau rhwng rhewlifau a'r amgylchedd morol; egwyddorion cyfnewid màs, egni a chemegol rhwng yr atmosffer, y cryosffer a'r hydrosffer; cylchredau biogeocemegol; amrywiadau mewn mathau o iâ sydd wedi'u dosbarthu'n ofodol; nodweddion dyddodion tanrewlifol; y berthynas rhwng geomorffoleg gyfrewlifol a phrosesau rhewlifol; prosesau cludo a nodweddion malurion mewn rhewlifau ac ymddygiad blaenorol rhewlif ar sail geomorffoleg rewlifol.

## Grŵp Ymchwil Daearyddiaeth Hanesyddol a Diwylliannol

Aberystwyth yw un o ganolfannau mwyaf blaenllaw'r byd am ymchwil ym maes daearyddiaeth ddiwylliannol a hanesyddol, sy'n ymchwilio ystod o themâu, ardaloedd daearyddol, a chyfnodau amser, gyda ffocws arbennig ar yr ugeinfed ganrif. Mae hyn yn cynnwys prosiectau ar faterion symudedd, cof, treftadaeth, cenedlaetholdeb, materoliaeth, daearyddiaethau plant, rhywedd, a hunaniaeth, yn ogystal ag ymchwil gysyniadol arloesol ar newidiadau yn y ddealltwriaeth o ofod, lle, tirwedd a'r amgylchedd.

## Grŵp Ymchwil Arsylwi ar y Ddaear a Deinameg Ecosystemau

Y prif ffocws yw defnyddio ac integreiddio data synhwyro o bell o'r tir, yr awyr a'r gofod er mwyn cael gwell dealltwriaeth o effeithiau newid yn yr hinsawdd a achosir yn anthropogenig ar ecosystemau ac amgylcheddau. Mae ein hymchwil yn cynnwys: deinameg llystyfiant carbon mewn safanau coediog; nodweddu mangrofau mewn ymateb i newid amgylcheddol; dosbarthu cynefinoedd; synhwyro peryglon naturiol o bell; a mapio cynefin dyfrol fector malaria. Mae gennym arbenigedd mewn ystod amrywiol o ddata a synhwyrwyd o bell gan gynnwys radar awyr/gofod, amlsbectrol, optegol hypersbectrol ac isgoch thermol yn ogystal â synwyryddion LiDAR.

## Grŵp Ymchwil Daearyddiaethau Gwleidyddol Newydd

Cydnabyddir y grŵp yn rhyngwladol, ac mae'n ymwneud ag egluro, yn ddamcaniaethol ac yn empirig, ddaearyddiaethau gwleidyddol newydd sy'n troi o gwmpas daearyddiaethau llywodraethu, democratiaeth a dinasyddiaeth; gwleidyddiaeth bro, rhanbarth a thiriogaeth; llywodraethu a gwleidyddiaeth amgylcheddol; daearyddiaethau gwleidyddol rheoleiddio economaidd a chymdeithasol; gwleidyddiaeth symudedd a mudo byd-eang; a symudiadau cymdeithasol a gwleidyddiaeth dewisiadau eraill.

## Grŵp Ymchwil i Newid Amgylcheddol Cwaternaidd

Nod y grŵp yw nodweddu a dehongli cofnod cymhleth newidiadau amgylcheddol yn ystod y ddwy filiwn o flynyddoedd diwethaf. Mae cryfderau ymchwil yn cynnwys geocronoleg Gwaternaidd (yn enwedig dyddio ymoleuedd); newidiadau anthropogenig a hinsoddol trwy ddadansoddi paill, diatom a geocemeg gwaddodion llynnoedd; astudiaethau geomorffolegol ar newid yn yr hinsawdd ac effaith y ddynoliaeth yn enwedig ym masn Môr y Canoldir; asesu graddfeydd prosesau arfordirol; teffrogronoleg; peryglon llosgfynyddoedd yn y cynfyd; llosgfynyddoedd a phroblemau llygru'r aer mewn cyfnodau hanesyddol; archaeoleg amgylcheddol a tharddiad pobl.

## Grŵp Ymchwil Prosesau Arwyneb y Ddaear

Nod ein hymchwil yw hybu dealltwriaeth o brosesau, patrymau, amseriad, cyfraddau ac ysgogwyr deinameg arwyneb y tir. Mae ein hymchwil yn cwmpasu gwahanol amgylcheddau ac ystod eang o raddfeydd amser a gofod, gydag ymchwiliadau'n amrywio o effeithiau newid yn yr hinsawdd ar ymddygiad afonydd dros sawl mileniwm i ddylanwad prosesau microbaidd ar y gylchred garbon mewn pridd yn ystod digwyddiadau unigol o ddŵr glaw ffo. Mae'r grŵp yn arbennig o gryf ym maes prosesau arwyneb y tir, yn enwedig o safbwynt afonydd, priddoedd a'r gylchred garbon; ymatebion arwyneb y tir i newidiadau amgylcheddol; ac ansawdd dŵr afonydd ac arfordirol.

## Canolfan Rhyngddisgyblaethol i Fioleg-micro yr Amgylchedd (iCEM)

Nod iCEM yw ymchwilio i bresenoldeb a gweithgarwch micro-organebau a phrosesau bio-geocemegol cysylltiedig, a'r ffordd y maent yn rhyngweithio â defnyddiau'r ddaear (dyfroedd, creigiau a phriddoedd) mewn amgylchfyd eithafol (oer, poeth, gwasgedd uchel, crynodiad metel uchel). Rydym yn defnyddio'r ddealltwriaeth hon mewn datrysiadau geopeirianneg i broblemau sy'n ymwneud â'r amgylchedd, ynni, iechyd ac adnoddau â rhanddeiliaid allweddol. Ymhlith themâu'r ymchwil mae biofwneiddiad cymwysol ar gyfer storio carbon, geo-ficrobioleg rhewlifoedd a biocemeg, darganfod gwrthfiotigau a bioadfer metalau a radioniwclidau.

Yr Adran

# Ffiseg

Mae Ffiseg a Seryddiaeth yn cael eu dysgu yn Aberystwyth ers i'r Brifysgol gael ei sefydlu yn 1872. Ein nod yw cynnig addysg o'r ansawdd uchaf mewn amgylchedd cyfeillgar a chefnogol a gwneud gwaith ymchwil cydweithredol a chystadleuol ar lefel ryngwladol mewn Ffiseg y Gofod, Ffiseg Deunyddiau a Ffiseg Gwantwm. Gan weithio'n agos â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, mae'r adran hefyd yn chwarae rhan flaenllaw o ran y ddarpariaeth ffiseg drwy gyfrwng y Gymraeg yn y sector addysg uwch.

## Graddau a ddysgir

Peirianneg Sbectrwm Radio t.126

## Graddau ymchwil

MPhil, PhD t.127





# Peirianneg Sbectrwm Radio

## MSc

Mae'r sbectrwm radio, sydd yn rhan o'r sbectrwm electromagnetig ehangach, yn amrywio o'r Amledd Isel Iawn (VLF) i amleddau optegol a'r tu hwnt. Dyma'r isadeiledd meddal sy'n galluogi cyswllt diwifr rhwng lleoedd, pobl ac offer, er enghraifft drwy ffonau poced, systemau llywio, systemau synhwyro a radio. Mae pob un o'r systemau hyn yn rhan annatod o'r isadeiledd cenedlaethol a diogelwch cenedlaethol. Disgwylir y bydd twf helaeth yn y maes hwn drwy ddatblygu rhaglenni system-radio newydd i gefnogi'r hyn y mae pobl yn dechrau ei alw'n bedwerydd chwyldro diwydiannol.

Bydd y cwrs gradd Meistr blwyddyn amser llawn hwn yn ehangu'ch gwybodaeth ddamcaniaethol ac yn datblygu'ch sgiliau technegol, ymarferol a dadansoddol i fanteisio ar botensial technolegau'r sbectrwm radio sy'n hanfodol i gynnal economi fodern.

Byddwch yn cydweithio ag ymchwilwyr a pheirianwyr y sbectrwm radio er mwyn cael hyfforddiant ar waith arloesi, ymchwil a datblygu a seilir ar y sbectrwm. Cewch gyfle i astudio amrywiaeth o bynciau arbenigol megis radar, synwyryddion ac offer gan ddefnyddio ymagweddau damcaniaethol yn ogystal â gwaith ymarferol a fydd yn cael eu harwain gan ymchwil. Bydd prosiect ymchwil, a fydd â chyswllt cryf â gofynion y diwydiant a phynciau ymchwil cyfredol, yn rhoi modd i chi ddatblygu sgiliau ehangach mewn ymchwil, cyfathrebu a chyflogadwyedd er mwyn rhoi hwb i chi i'ch helpu i fynd ymlaen i'r diwydiant neu i ymchwil academaidd bellach.

**Cyflogadwyedd**

Ar ôl cwblhau'r cwrs hwn fe fyddwch wedi cael gwybodaeth a dealltwriaeth uwch am y sbectrwm radio ac am electromagnetedd a sut y'i defnyddir wrth ledaenu a synhwyro tonnau radio. Byddwch yn gallu ymdrin â phroblemau cymhleth ym maes radio a'r defnydd a wneir ohoni, gyda chymorth pecynnau cyfrifiadurol, ac fe fyddwch wedi meithrin sgiliau ychwanegol mewn dadansoddi beirniadol a dehongli data, yn ogystal â sut mae cyfleu'ch canfyddiadau ar lafar ac mewn adroddiadau ysgrifenedig.

Yn raddedigion y radd Meistr hon, byddwch mewn sefyllfa dda i symud ymlaen i weithio fel peirianwyr, technegwyr, ymgynghorwyr, ymchwilwyr, a rheolwyr.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau craidd y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn:

- Advanced Wireless Networks - 5G and Beyond
- Electromagnetic Theory and Microwave Devices
- Antennas and Wave Propagation
- Professional and Research Skills
- MSc Project.

**Advanced Wireless Networks - 5G and Beyond**

Yn darparu sylfaen i egwyddorion elfennol rhwydweithiau sbectrwm diwifr a chyfathrebu. Rhoddir cymorth i roi'r ddamcaniaeth ar waith drwy gyfres o ymarferion ymarferol a damcaniaethol mewn gweithdai.

**Electromagnetic Theory and Microwave Devices**

Yn rhoi cyflwyniad i ddamcaniaeth electromagnetig a sut y'i defnyddir mewn cyfarpar microdon. Byddwch yn meithrin dealltwriaeth fanwl am gylchredau microdon, damcaniaeth llinellau trawsyrru, mathau o linellau trawsyrru ac addasu rhwystriant y rhwydweithiau amleddau radio.

**Antennas and Wave Propagation**

Yn canolbwyntio ar ddatblygu dealltwriaeth ddamcaniaethol am antenau, lledaenu tonnau amleddau-radio a defnyddio egwyddorion electromagneteg i ddatblygu cyfarpar radio. Rhoddir cymorth i roi'r ddamcaniaeth ar waith drwy gyfres o ymarferion ymarferol a damcaniaethol, yn unigol ac mewn grwpiau mewn gweithdai.

I gael rhagor o fanylion a'r wybodaeth ddiweddaraf am ein modiwlau, ewch i'n gwefan.

## Ffeithiau allweddol

**Math o radd:** MSc

**Cod y cwrs:** F935

**Hyd:** 1 flwyddyn amser llawn

**Gofynion mynediad:** Gradd Baglor (Anrhydedd) 2:2 dda neu gyfatebol. Caiff unigolion heb radd eu hystyried fesul un ar sail eu profiad gwaith perthnasol.

**Amser cyswllt:** Tua 10-14 awr yr wythnos yn y ddau semester cyntaf, yna bydd y myfyriwr a'r tiwtor yn cytuno rhyngddynt ar gyfnodau'r amser cyswllt.



# MPhil, PhD

Rydym yn cynnig graddau ymchwil PhD a MPhil mewn amrywiaeth o feysydd ymchwil Ffiseg. Mae'r meysydd yn cynnwys:

### Ffiseg Cysawd yr Haul:

- datblygu offerynnau dadansoddi data ar gyfer ffiseg yr haul, ffiseg gwynt yr haul, a ffiseg y blaned a'r lleuad
- ymchwilio, drwy fodelu ac arsyllu, i fecanweithiau gwresogi anhysbys yr atmosffer heulol
- ymlediad deunydd heulol i'r gofod, a thywydd y gofod
- arsylwadau diffygion llwyr ar yr haul
- rhestrau llinellau moleciwlaidd a'u potensial ar gyfer diagnosteg seryddol
- datblygu offeryniaeth ar gyfer arsylwadau solar ac ymchwiliadau planedol.

### Ffiseg Deunyddiau a Ffiseg Gwantwm:

- deunyddiau swyddogaethol sy'n deillio o ddiemwntau a graffin
- deunyddiau uwchfoleciwlar, optoelectroneg, nanoffotoneg 'feddal' a lled-ddargludyddion dimensiwn isel
- systemau cwantwm agored a phrosesau mesur dilyniannol
- rhwydweithiau adborth cwantwm.

Mae ein hadnoddau, sydd o safon fyd-eang, yn cynnwys offer Uwchgyfrifiadura pwerus ac offer sbectrosgopig a delweddu.

Rydym yn cynnig ysgoloriaethau bob blwyddyn a chyllid ar gyfer ffioedd a thaliadau. Mae'r cyllid sydd ar gael yn cynnwys ysgoloriaethau'r Cyngor Ymchwil, ysgoloriaethau partneriaethau diwydiannol, ysgoloriaethau rhyngwladol, ysgoloriaethau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol (cyfrwng Cymraeg) ac ysgoloriaethau Prifysgol Aberystwyth. Rydym hefyd yn cynnig tair ysgoloriaeth bob blwyddyn i uwchraddedigion o du allan i'r Undeb Ewropeaidd er mwyn talu am y gwahaniaeth rhwng ffioedd tramor a ffioedd y Deyrnas Unedig/yr Undeb Ewropeaidd.

**Sylwch:** Mae dyddiadau cau rhai o'r ysgoloriaethau a'r ffynonellau cyllid yn cyrraedd yn weddol gynnar yn y flwyddyn (ee diwedd Ionawr), ac mae rhai o'r ceisiadau am gyllid yn gofyn am gynigion sy'n cynnwys elfen a ysgrifennir gan aelodau o'r staff. Cysylltwch â ni yn uniongyrchol i gael cyngor. Y cyswllt ar gyfer astudiaethau ôl-raddedig yw Huw Morgan (**hmorgan@aber.ac.uk**).

I gael rhagor o fanylion ewch i'n gwefan, neu cysylltwch â ni.






# Ein hymchwil

Caiff prosiectau ymchwil eu cynnig mewn ymgynghoriad â'r grwpiau ymchwil canlynol:

## Ffiseg Deunyddiau a Ffiseg Gwantwm

Ein harbenigedd o ran ymchwil yw mesur a darogan nodweddion deunyddiau ar lefel atomau, gan ddefnyddio cyfuniadau unigryw o ddulliau arbrofol a damcaniaethol, gan gynnwys offer arbenigol a ddatblygwyd yn yr Adran, a chreu cyswllt â rhaglenni macrosgopig ym maes technoleg ffotoneg, radio a chwantwm. Mae hyn wedi galluogi prosiectau rhyngddisgyblaethol mewn sectorau megis ffotoneg (opalau polymer), iechyd (smentiau deintyddol), y gofod (graddnodi camerâu), ynni (dargludyddion tryloyw) a thechnoleg ddigidol (rheolaeth gwantwm).

Rydym wedi ariannu partneriaethau ymchwil mewn sawl maes allweddol gan gynnwys ymchwil ffotofoltaidd solar, ffotoneg, technoleg sbectrwm radio, a gwybodaeth/rheolaeth gwantwm. Rydym yn croesawu ymholiadau anffurfiol gan unrhyw ddarpar ymgeiswyr doethuriaethol sydd â diddordeb yn y meysydd hyn.

## Ffiseg Cysawd yr Haul

Mae'r grŵp yn astudio'r ynni a'r sylweddau sy'n dod o'r Haul ac yn llifo trwy ein heliosffer, yn rhyngweithio gydag awyrgylch ac arwynebau'r planedau, ac yn pweru llawer o'r prosesau sy'n llunio ein byd ac yn diffinio'r amgylchedd planedol yr ydym yn byw ynddo. Mae Grŵp Ffiseg Cysawd yr Haul yn Aberystwyth yn astudio'r cysawd sengl yma gan gynnwys datblygiad nodweddion ffrwydrol ar yr Haul, esblygiad a strwythur deunydd yng ngwynt yr haul ac effaith y llif ar amgylcheddau'r planedau mewnol. Mae'r grŵp yn rhan o sawl taith i'r gofod sydd ar waith ar hyn o bryd neu sydd ar y gweill, ac mae ganddo raglen i ddatblygu systemau optegol newydd a chydrannau robotaidd i archwilio'r gofod.

Mae ein harbenigedd ym maes modelu cyfrifiannol, prosesu data a datblygu offer yn cael ei gydnabod mewn prosiectau ar y cyd a theithiau ar lefel ryngwladol, gan gynnwys ExoMars, JUICE, BepiColombo, PUNCH, a phrosiect i ddatblygu'r gallu gweithredol i ddarogan tywydd yn y gofod ar ran Swyddfa Dywydd y DU.

## Yr Adran

# Gwleidyddiaeth Ryngwladol

### Graddau a ddysgir

Cysylltiadau Rhyngwladol, MA t.132
Gwleidyddiaeth Ryngwladol (Gradd Ddeuol gyda American University), MA t.133
Rhyfel, Strategaeth a Chudd-wybodaeth, MA t.134

### Graddau ymchwil

MPhil, PhD, DProf t.135

Fel yr Adran Wleidyddiaeth Ryngwladol gyntaf yn y byd, rydym yn canolbwyntio ar fagu dealltwriaeth drwyadl ac amrywiol o rai o'r heriau byd-eang mwyaf sylweddol y mae gwladwriaethau, cymunedau, pobloedd a'r blaned yn eu hwynebu. A ninnau bellach yn byw trwy gyfnod ansefydlog o safbwynt gwleidyddol ac ideolegol, trawsnewid cymdeithasol ac economaidd, a ffurfiau ar wrthdaro a thrais sy'n fwyfwy cymhleth, mae gan bob un ohonom ran i'w chwarae wrth feddwl sut i fynd i'r afael â'r heriau byd-eang tyngedfennol hyn.

Yn fyfyriwr yn ein Hadran ni, byddwch yn dod yn aelod o gymuned fywiog. Fe gewch gyfle i weithio mewn amgylchedd dynamig gydag ymchwilwyr sy'n arwain yn y maes, er mwyn dod i ddeall y newidiadau sy'n digwydd ym myd gwleidyddiaeth ryngwladol. Mae addysgu ac ymchwil yr Adran yn dal yn driw i'w hegwyddorion sylfaenol, sef ymdrechu dros ddiogelwch, heddwch a chyfiawnder mwy cadarn mewn byd o anhrefn.





# Cysylltiadau Rhyngwladol

## MA

Byd ansefydlog yw'r hyn sy'n wynebu myfyrwyr cysylltiadau rhyngwladol yn y 21ain ganrif. Mae strwythurau grym ac awdurdod yn cael eu hail-lunio'n sylweddol neu hyd yn oed eu rhwygo i lawr yn llwyr wrth i batrymau newydd o gysylltiadau byd-eang a ffurfiau newydd o hunaniaeth wleidyddol ddod i'r amlwg. Trwy gyfrwng y broses hon, mae tirlun gwleidyddiaeth gyfoes y byd yn newid yn gyflym, mewn ffyrdd trawiadol ac annisgwyl yn aml.

Ar yr un pryd, mae datblygiadau dramatig mewn gwyddoniaeth a thechnoleg, yn ogystal â datblygiadau pellgyrhaeddol mewn trefniadaeth economaidd a chymdeithasol, yn gofyn am ddirnadaeth newydd o'r hyn yw gwleidyddiaeth ac ymhle mae'n digwydd. Fel y mae'r argyfwng hinsawdd yn dangos yn glir, mae'r heriau a wynebir ar hyn o bryd gan gysylltiadau rhyngwladol yn ddigynsail. Ond, mae newid dwys hefyd yn gwahodd elfen gref o ailddychmygu natur ein gwleidyddiaeth, ein perthynas â'n gilydd, a'n bodolaeth yn y byd.

Bydd y rhaglen MA Cysylltiadau Rhyngwladol yn rhoi myfyrwyr mewn sefyllfa i ddeall cymhlethdod yr ennyd gythryblus hon yng ngwleidyddiaeth y byd ac i feddwl trwy'r ystyron, yn ddamcaniaethol ac ymarferol. Os mai mewn cysylltiadau rhyngwladol neu ddisgyblaeth arall y mae eich cefndir, bydd yr ystod o fodiwlau ac arbenigedd academaidd a ddarperir gan ein rhaglen MA yn eich annog i ehangu eich gorwelion ac archwilio'r amryfal bosibiliadau gwahanol ar gyfer darlunio gwleidyddiaeth ryngwladol heddiw.

**Llwybrau**
Mae MA Gwleidyddiaeth Ryngwladol ar gael fel gradd llwybr hyfforddiant ymchwil neu arbenigol. Mae myfyrwyr sy'n astudio'r llwybr Arbenigol yn dilyn astudiaeth uwch yn benodol i bwnc, drwy fodiwl craidd a nifer o fodiwlau opsiynol, ynghyd â thraethawd hir. Mae'r rhai sydd ar lwybr Hyfforddiant Ymchwil yn dewis cyfres o fodiwlau hyfforddiant ymchwil yn lle rhai o'r modiwlau dewisol.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i'n gwefan neu cysylltwch â ni.

## Modiwlau

Ar y cwrs yma, byddwch yn astudio'r modiwl craidd International Politics, ynghyd â'r Dissertation.

**International Politics: Theories and Concepts**
Archwilio cysyniadau 'clasurol' mewn Cysylltiadau Rhyngwladol, megis yr anghytuno ynghylch ystyron anarchiaeth, sofraniaeth, pŵer a diogelwch, yn ogystal â swyddogaeth trefedigaethedd, yr amgylchedd, a rhywedd. Rhoddir sylw i anghysondeb a gwahaniaethau ystyr a dadogir i gysyniadau craidd, y canlyniadau gwleidyddol, moesegol, ymarferol a methodolegol sy'n deillio o'r cysyniadau a ddefnyddiwyd, a swyddogaeth dyfeisgarwch cysyniadol wrth astudio materion ar bynciau deinamig ac amrywiol.

Byddwch hefyd yn dewis o blith casgliad o fodiwlau, sydd ar hyn o bryd yn cynnwys:

- Global Challenges and the Future of International Relations Theory
- Post-Western International Relations
- Indigenous Politics: Challenging the Global Order?
- Middle Powers and the Liberal Order
- Fear, Cooperation and Trust in World Politics
- The International Politics of Conflict Knowledge
- The EU in Crisis? Integration and Fragmentation.

I gael rhagor o fanylion a'r wybodaeth ddiweddaraf am ein modiwlau, ewch i'n gwefan.

## Ffeithiau allweddol

**Math o radd:** MA

**Cod y cwrs:** L287S (llwybr arbenigol), L287R (llwybr hyfforddiant ymchwil).

**Hyd:** 1 flwyddyn (amser llawn)

**Gofynion mynediad:** Gradd Baglor (Anrhydedd) 2:2 dda, yn ddelfrydol mewn maes pwnc perthnasol, neu gymhwyster cyfatebol. Caiff unigolion heb radd eu hystyried fesul un ar sail eu profiad gwaith perthnasol.

**Amser cyswllt:** O leiaf 6 awr yr wythnos, yn cynnwys un seminar dwy awr o hyd fesul modiwl.



# Gwleidyddiaeth Ryngwladol

## (Gradd Ddeuol gyda'r American University)

## MA

Mae'r radd MA ddwy flynedd newydd a chyffrous hon mewn Gwleidyddiaeth Ryngwladol yn eich galluogi i astudio gydag ysgolheigion amlwg mewn dwy adran a chanddynt enw da am ansawdd eu dysgu a'u hymchwil, sef Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol Prifysgol Aberystwyth a'r Ysgol Gwasanaeth Rhyngwladol yn yr American University, Washington, D.C.

Yn ystod y flwyddyn gyntaf, byddwch yn astudio yn Aberystwyth. Byddwch nid yn unig yn astudio cysyniadau sy'n sail i astudio Cysylltiadau Rhyngwladol (megis sofraniaeth, anarchiaeth, a diogelwch) ond hefyd yn cwestiynu'r cysyniadau hynny mewn modd trwyadl ac aml-haenog, a hynny o safbwyntiau sy'n tarfu ar y ddealltwriaeth gonfensiynol o gysylltiadau rhyngwladol a sut maent yn gweithredu.

Yn ystod yr ail flwyddyn yn Washington D.C., bydd y modiwlau dewisol y byddwch yn eu hastudio yn fwy seiliedig ar bolisi, a chânt eu cyfuno â modiwlau craidd mewn methodoleg Gwyddor Gymdeithasol ac Economeg. Cewch gyfle i gysylltu eich astudiaethau â phrofiad ymarferol â'r gymuned bolisi, ac mae Ysgol Gwasanaeth Rhyngwladol yr American University mewn sefyllfa unigryw i'ch galluogi i wneud hynny. Cewch gyfle hefyd i ymgeisio am interniaethau gyda chyrff llywodraethol neu anllywodraethol yn Washington D.C. dan y Cynllun Hyfforddiant Ymarferol Dewisol wedi ichi gwblhau eich gradd.

**Llwybrau**
Mae'r MA Gwleidyddiaeth Ryngwladol (Gradd Ddeuol gyda'r American University) ar gael fel llwybr gradd Arbenigol. Bydd myfyrwyr sy'n astudio am y radd hon hefyd yn manteisio yn sgil cyfuno astudiaethau uwch mewn pynciau penodol yn Aberystwyth â modiwlau craidd mewn methodoleg ymchwil yn y Gwyddorau Cymdeithasol ac Economeg, yn ogystal â modiwlau dewisol o'r maes y maent wedi dewis arbenigo ynddo, a'r rheini'n cael eu hastudio yn yr American University.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i'n gwefan neu cysylltwch â ni.

## Modiwlau

Ymhlith y modiwlau craidd y byddwch o bosibl yn eu hastudio yn Aberystwyth mae International Politics ynghyd â'r Papur Ymchwil, sy'n rhoi cyfle ichi baratoi darn manwl o ymchwil trwy gyfrwng proses ac iddi strwythur ac arweiniad.

**International Politics: Theories and Concepts**
Astudir cysyniadau 'clasurol' mewn Cysylltiadau Rhyngwladol, megis yr anghytuno ynghylch ystyron anarchiaeth, sofraniaeth, pŵer a diogelwch, ond mae hefyd yn ymdrin â swyddogaeth trefedigaethedd, yr amgylchedd a rhywedd.

Byddwch hefyd yn dewis o blith ystod o fodiwlau, sydd ar hyn o bryd yn cynnwys:

- Global Challenges and the Future of International Relations Theory
- Post-Western International Relations
- Indigenous Politics: Challenging the Global Order?
- Feminist Approaches to Security
- Middle Powers and the Liberal Order
- Fear, Cooperation and Trust in World Politics
- The EU in Crisis? Integration and Fragmentation.

Ymhlith y modiwlau craidd y byddwch o bosibl yn eu hastudio yn Washington, D.C. mae Social Science Research Methodology ac Economics. Byddwch yn ymgymryd â phrosiect ymchwil ar raddfa fawr (naill ai'r Practicum in International Affairs neu'r Substantial Research Paper).

Byddwch yn dewis eich modiwlau eraill o un maes arbenigol sy'n cynnwys:

- Energy and Environment
- International Development
- Social Enterprise
- US Foreign Policy.

I gael rhagor o fanylion a'r wybodaeth ddiweddaraf am ein modiwlau, ewch i'n gwefan.

## Ffeithiau allweddol

**Math o radd:** MA

**Cod y cwrs:** L286A

**Hyd:** 2 flynedd (amser llawn)

**Gofynion mynediad:** Gradd Baglor (Anrhydedd) 2:1 dda, yn ddelfrydol mewn maes pwnc perthnasol, neu gymhwyster cyfatebol. Caiff unigolion heb radd eu hystyried fesul un ar sail eu profiad gwaith perthnasol.

**Amser cyswllt:** O leiaf 6 awr yr wythnos, yn cynnwys un seminar dwy awr o hyd fesul modiwl, yn Aberystwyth.

**Ffioedd Dysgu** Nid oedd y ffioedd ar gyfer American University ar gael ar adeg cyhoeddi'r prosbectws hwn. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i'n gwefan.

# Rhyfel, Strategaeth a Chudd-wybodaeth

## MA

Bydd y radd hon yn rhoi ichi'r sgiliau a'r wybodaeth gysyniadol ac empirig angenrheidiol i ddeall, trafod a beirniadu ffenomena rhyng-gysylltiedig Rhyfel, Strategaeth a Chudd-wybodaeth.

Mae rhyfel wedi bod wrth wraidd profiad pobl ers dechrau cymunedau gwleidyddol, ac mae'n dal i fod yn nodwedd barhaus ar y system ryngwladol ac ar lawer o wladwriaethau a chymdeithasau. Trwy gydol y cwrs hwn, byddwch yn ymwneud â meysydd amrywiol y gwyddorau cymdeithasol a'r dyniaethau er mwyn deall ffenomenon rhyfel a'r ymdrech dragwyddol ond anghaffaeladwy am ddiogelwch sy'n un o nodweddion cysylltiadau rhyngwladol. Wrth ichi archwilio meysydd megis hanes milwrol, diogelwch, cudd-wybodaeth, astudiaethau strategol a chysylltiadau rhyngwladol, byddwch yn datblygu'r wybodaeth a'r offer dadansoddi angenrheidiol i ddeall cysyniadau rhyfel a rhyfela, yr amrywiol strategaethau a ddefnyddir i ryfela a'r offer cudd-wybodaeth a ddefnyddir i lywio'r strategaethau hynny.

O Sun Tzu i 'Shock 'n' Awe', mae'r radd hon yn datblygu eich dealltwriaeth gysyniadol ac empirig o'r defnydd o rym mewn cysylltiadau rhyngwladol. Yn yr 21ain ganrif, â'r gobeithion cychwynnol wedi'r Rhyfel Oer am 'Drefn Fyd-eang Newydd' bellach yn pylu, mae'r ofnau ynghylch rhyfeloedd mawr ar lefel ranbarthol a hyd yn oed ar lefel fyd-eang yn cynyddu. Mae'r radd hon yn archwilio'r materion strategol pwysicaf sy'n wynebu'r byd heddiw, ac yn dadansoddi natur esblygol rhyfel a gwrthdaro, o'r gystadleuaeth draddodiadol rhwng y pwerau mawrion i fathau modern ar ryfela hybrid. Mae'r drwgdeimlad o'r newydd rhwng Rwsia a'r Gorllewin, y cynnydd o ran tensiynau yn y Dwyrain Canol a De Asia, ymwthgarwch milwrol cynyddol China, a gwrthdaro treisgar parhaus o fewn gwladwriaethau lledled y byd yn dangos yr angen o hyd am ddealltwriaeth drwyadl a beirniadol o ddynameg rhyfel, strategaeth a chudd-wybodaeth.

**Llwybrau**
Mae'r MA Rhyfel, Strategaeth a Chudd-wybodaeth ar gael fel llwybr gradd Arbenigol neu un Hyfforddiant Ymchwil. Bydd y myfyrwyr sy'n astudio'r llwybr Arbenigol yn dilyn astudiaethau uwch mewn pynciau penodol, a hynny trwy gyfrwng modiwl craidd a nifer o fodiwlau dewisol ynghyd â thraethawd estynedig. Bydd y rheini sydd ar y llwybr Hyfforddiant Ymchwil yn dilyn cyfres o fodiwlau hyfforddiant ymchwil yn hytrach na rhai o'r modiwlau dewisol.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i'n gwefan neu cysylltwch â ni.

## Modiwlau

Ar y cwrs yma, byddwch yn astudio'r modiwl craidd Warfare in the Twenty-First Century ynghyd â'r Dissertation.

**Warfare in the Twenty-First Century**
Yn archwilio esblygiad rhyfela modern yn yr 21ain ganrif. Mae'n dadansoddi amrywiol agweddau ar ryfel a rhyfela yn eu ffurf fodern a hynny ar dir a môr, yn yr awyr a'r gofod, yn ogystal â'r seiberofod. Byddwch yn magu dealltwriaeth dda o'r tueddiadau strategol diweddaraf mewn meysydd megis: gwrthdaro rhwng ac o fewn gwladwriaethau, rhyfela anghymesur a hybrid, twf arfogaeth niwclear, esblygiad y 'Rhyfel yn erbyn Terfysgaeth' a'r gystadleuaeth rhwng y pwerau mawrion.

Yna byddwch yn dewis o blith casgliad o fodiwlau, sydd ar hyn o bryd yn cynnwys:

- Thoughts of War
- Intelligence, Security and International Relations
- British Counterinsurgency in the 20th Century
- Critical Security Studies: Emerging Issues
- Critical Security Studies: Contemporary Theories
- Russia at War since 1812
- War and Peace in the Middle East.

I gael rhagor o fanylion a'r wybodaeth ddiweddaraf am ein modiwlau, ewch i'n gwefan.

## Ffeithiau allweddol

**Math o radd:** MA

**Cod y cwrs:** L252S (llwybr arbenigol), L252R (llwybr hyfforddiant ymchwil).

**Hyd:** 1 flwyddyn (amser llawn)

**Gofynion mynediad:** Gradd Baglor (Anrhydedd) 2:2 dda, yn ddelfrydol mewn maes pwnc perthnasol, neu gymhwyster cyfatebol. Caiff unigolion heb radd eu hystyried fesul un ar sail eu profiad gwaith perthnasol.

**Amser cyswllt:** O leiaf 6 awr yr wythnos, yn cynnwys un seminar dwy awr o hyd fesul modiwl.



# MPhil, PhD, DProf

Mae'r Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol yn gwneud gwaith rhagorol yn hyfforddi myfyrwyr Doethuriaeth.

Mae myfyrwyr sy'n cynnal ymchwil PhD yn rhan hanfodol o ddiwylliant ymchwil clodfawr yr Adran. Mae llwyddiannau sylweddol graddedigion PhD Aberystwyth i'w gweld yn nifer sylweddol y traethodau ymchwil sydd wedi ennill gwobrau, gwaith cyhoeddedig o ansawdd uchel a llwyddiant nodedig yn y farchnad swyddi, gan gynnwys yn y maes academaidd, adrannau llywodraethol, sefydliadau anllywodraethol a sefydliadau rhyngwladol.

Mae myfyrwyr PhD yn cynllunio ac yn cyflawni darn sylweddol o ymchwil o'u cynllun eu hunain, ac yn gwneud cyfraniad gwreiddiol at wybodaeth yn y ddisgyblaeth o'u dewis. Byddwch yn cael eich goruchwylio gan arbenigwyr pwnc yn yr Adran, a fydd yn eich cynghori'n ofalus drwy gydol y broses gynllunio, ymchwilio ac ysgrifennu. Bydd myfyrwyr nad ydynt eisoes wedi cwblhau rhaglen gydnabyddedig mewn dulliau ymchwil fel rhan o'u gradd Meistr, yn cyflawni pecyn cydnabyddedig ESRC o fodiwlau hyfforddiant ymchwil yn y gwyddorau cymdeithasol yn ystod blwyddyn gyntaf eu PhD.

Mae ein meysydd arbenigedd goruchwylio yn cynnwys:

- International relations theory and political theory
- War, strategy, security, and intelligence
- Democracy, devolution and territorial politics
- Migration and global development
- Conflict and post conflict reconciliation
- International Political Economy
- Global health and the environment
- International and military history
- The politics of the UK and its regions
- Regional politics: Europe, Russia, Middle East, Latin America, and the USA.

Mae'r Adran hefyd yn cynnig gradd MPhil, sef gradd Meistr yn seiliedig ar ymchwil, gyda thraethawd hir 60,000 o eiriau. Cwblheir yr MPhil mewn blwyddyn os yn amser llawn, neu mewn dwy flynedd yn rhan-amser

## Goruchwylio a chynnydd

Mae ein myfyrwyr PhD ac MPhil yn mwynhau'r oruchwyliaeth orau yn y maes. Dynodir dau oruchwyliwr i bob myfyriwr, a chynhelir cyfarfodydd goruchwylio bob tair wythnos yn ystod y tymor. Mae'r system hon yn annog cydberthnasau gwaith agos iawn, sy'n arwain at gyfradd cwblhau cryf iawn.

## DProf

Mae'r ddoethuriaeth broffesiynol, neu DProf, yn fwy addas i'r rheiny sy'n dilyn gyrfa broffesiynol yn hytrach nag un academaidd, ac fe'i chynllunir i ganiatáu i unigolion proffesiynol cymwys astudio am ddoethuriaeth wrth barhau i weithio. Dyfernir DProf i gydnabod bod unigolyn wedi cwblhau rhaglen o astudio cydnabyddedig a ddysgir yn llwyddiannus, ynghyd â darn o waith ymchwil uwch. Mae'r elfen o gydweithio a geir yn y prosiect ymchwil sy'n seiliedig ar waith yn gyfle gwych i sefydlu gwybodaeth newydd yn y gweithle ac i sicrhau bod eich ymchwil yn berthnasol i ddiwydiant.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i'n gwefan neu cysylltwch â ni.

# Ein hymchwil

Yma yn Aberystwyth, byddwch chi wrth wraidd y diweddaraf o ran trafod, ymchwilio a phrofi syniadau newydd ym maes cysylltiadau rhyngwladol.

Mae'r adran yn ganolfan flaenllaw ar gyfer ymchwil arloesol i wleidyddiaeth ryngwladol a gwleidyddiaeth. Rydym yn adnabyddus am ein gweithgareddau ymchwil, ac mae ein staff a'n myfyrwyr uwchraddedig yn cynnal ymchwil ar rai o'r heriau byd-eang anoddaf a phwysicaf sy'n wynebu cymunedau heddiw. Ers bron i 20 mlynedd, mae hi wedi bod yn adran ymchwil flaenllaw yn y Deyrnas Unedig ac yn fyd-eang. Mae'r Adran yn adnabyddus ledled y byd fel man lle datblygir dealltwriaethau newydd a chyffrous o heriau cenedlaethol, rhyngwladol a byd-eang.

O ddadansoddi ymyriadau dyngarol i ddyfodol diogelwch yr UE, o astudio ffurfiau newydd o niwed byd-eang i ddychmygu gwleidyddiaeth blanedol newydd, o astudio hanes milwrol i astudio heriau diweddaraf cynnydd niwclear a chasglu gwybodaeth, o ddadansoddi rhan Prydain mewn byd sy'n newid i ddeall rhan Cymru yn y byd - mae arbenigedd ymchwil yr Adran yn arwain y byd, ac wedi bod yn flaenllaw wrth ddatblygu ffyrdd newydd o feddwl ac arferion polisi newydd.

I grynhoi, mae'r Adran yn cynnig amgylchedd bywiog i astudio ac i archwilio syniadau newydd. Bob blwyddyn, rydym yn cynnal dwsinau o sgyrsiau gan arbenigwyr a ffurfwyr barn sy'n arwain y byd, y mae myfyrwyr, staff, a thrigolion lleol yn eu mynychu'n rheolaidd. Rydym hefyd yn cynnal nifer o grwpiau a chanolfannau ymchwil cyffrous, megis y Ganolfan Wybodaeth Gwleidyddiaeth Ryngwladol, Sefydliad Coffa David Davies, y Ganolfan Astudiaethau Cudd-wybodaeth a Diogelwch Rhyngwladol, a'r Ganolfan Heriau Planedol a Gwleidyddiaeth. Eu nod yw caniatáu ar gyfer arbenigedd, trafodaeth a dadansoddi yng nghyd-destun cymuned ymchwil gyfeillgar a thrylwyr.





## Yr Adran

# Hanes a Hanes Cymru

## Graddau a ddysgir


| | |
|---|---|
| Hanes a Threftadaeth, MA | t.140 |
| Hanes Cymru, MA | t.141 |
| Hanes Modern, MA | t.142 |
| Prydain ac Ewrop yr Oesoedd Canol, MA | t.143 |


## Graddau ymchwil


| | |
|---|---|
| MPhil, PhD | t.144 |


Mae Hanes yn cael ei ddysgu fel pwnc yn Aberystwyth ers sefydlu'r Brifysgol yn 1872, sy'n golygu mai'r Adran Hanes a Hanes Cymru yw'r adran hanes hynaf yng Nghymru ac un o'r rhai cyntaf ym Mhrydain. Yr Adran yw un o brif ganolfannau dysgu ac ymchwil hanes Cymru o'r Oesoedd Canol hyd heddiw.

Rydym yn ymfalchïo yn amrywiaeth a dyfnder ein harbenigedd ymchwil, o'r Oesoedd Canol i'r cyfnodau modern a chyfoes.





# Hanes a Threftadaeth

ar gael yn rhannol drwy'r **Gymraeg**

## MA

Datblygwyd y radd Meistr hon i'r rhai hynny a chanddynt ddiddordeb mewn astudiaeth academaidd o hanes, a'r rhai hynny a chanddynt ddiddordeb mewn gyrfa yn y diwydiant treftadaeth.

Mae'r cwrs hwn yn cynnig y cyfle ichi archwilio cysyniadau a dadleuon allweddol ym maes astudiaethau treftadaeth, i ddysgu sgiliau busnes ym maes treftadaeth, ac i ennill credydau academaidd drwy wneud lleoliad gwaith neu interniaeth mewn sefydliad treftadaeth blaenllaw, gan gynnwys Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru, a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, a fydd yn ffordd o ddatblygu eich profiad ymarferol yn y maes hwn.

Ymhlith y cyfleoedd arbenigol sydd ar gael i fyfyrwyr Hanes a Threftadaeth yn Aberystwyth mae:

- cyfle i gymryd lleoliad gwaith mewn sefydliad treftadaeth amlwg
- cyfleoedd i fanteisio ar ein cysylltiadau cryf â Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru - dau sefydliad treftadaeth pwysig cyfagos
- cael eich dysgu gan ddarlithwyr sy'n weithgar ym maes ymchwil ac a gydnabyddir yn arbenigwyr blaenllaw yn eu priod feysydd.

**Cyflogadwyedd**
Mae gan ein graddedigion yrfaoedd cynhwysfawr ac amrywiol mewn amgueddfeydd ac archifau, maes gweinyddu treftadaeth, twristiaeth, gweinyddiaeth gyhoeddus, y gwasanaeth sifil, llywodraeth leol, dysgu, newyddiaduraeth, darlledu a chyhoeddi.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau craidd y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn:

- Concepts and Sources in Heritage Studies
- Research Methods and Professional Skills in History
- Working with History.

Byddwch hefyd yn dewis o blith casgliad o fodiwlau eraill, sydd ar hyn o bryd yn cynnwys:

- Landownerships and Society in Wales
- The British Atlantic World in the Long Eighteenth Century
- Post-Medieval Palaeography and Diplomatic
- Rare Books and Special collections
- Information and Society
- Science, Place and Victorian Culture
- Class and Community in Wales, 1850-1939
- Sources for Postgraduate Research in the Modern Humanities and Social Sciences.

I gael rhagor o fanylion a'r wybodaeth ddiweddaraf am ein modiwlau, ewch i'n gwefan.

## Ffeithiau allweddol

**Math o radd:** MA

**Cod y cwrs:** V192W

**Hyd:** 1 flwyddyn (amser llawn) neu 2 flynedd (rhan-amser)

**Gofynion mynediad:** Gradd Baglor (Anrhydedd) 2:2 dda neu gyfatebol mewn maes pwnc perthnasol. Caiff unigolion heb radd eu hystyried fesul un ar sail eu profiad gwaith perthnasol.

**Amser cyswllt:** Tua 6 awr yr wythnos yn y ddau semester cyntaf, yna bydd y myfyriwr a'r tiwtor yn cytuno rhyngddynt ar gyfnodau'r amser cyswllt.



# Hanes Cymru

ar gael yn rhannol drwy'r **Gymraeg**

## MA

Ar y radd hon, cewch gyfle i astudio hanes Cymru o amryw o wahanol safbwyntiau thematig a chronolegol, i ddatblygu eich sgiliau ymchwilio i hanes Cymru, gan gynnwys gwersi Cymraeg, ac i weithio ar eich prosiect ymchwil eich hun ar unrhyw agwedd ar hanes Cymru, o dan oruchwyliaeth arbenigwr yn y maes.

Mae'r cwrs hwn yn manteisio ar arbenigedd heb ei ail ein tîm o haneswyr Cymru yn yr Adran er mwyn cynnig cynllun gradd sy'n addas i'r rheiny sydd wedi astudio hanes Cymru yn y gorffennol neu'r rheiny y mae'r maes hwn yn newydd iddynt.

Dyma rai o'r cyfleoedd arbenigol sydd ar gael i fyfyrwyr Hanes Cymru yn Aberystwyth:

- cyfle i gymryd lleoliad gwaith mewn sefydliad treftadaeth amlwg
- agosrwydd Llyfrgell Genedlaethol Cymru - un o bum llyfrgell hawlfraint y Deyrnas Unedig, ger y campws
- cyfle i fanteisio ar ein cysylltiadau cryf â Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru, sydd wedi'i leoli yn Aberystwyth
- cael eich dysgu gan ddarlithwyr sy'n weithgar ym maes ymchwil ac yn arbenigwyr blaenllaw yn eu priod feysydd.

**Cyflogadwyedd**
Mae gan ein graddedigion yrfaoedd cynhwysfawr ac amrywiol mewn amgueddfeydd, gweinyddu ym maes treftadaeth, twristiaeth, gweinyddiaeth gyhoeddus, y gwasanaeth sifil, llywodraeth leol, dysgu, newyddiaduraeth, darlledu a chyhoeddi.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau craidd y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn:

- The Making of Modern Wales
- Research Methods and Professional Skills in History.

Byddwch hefyd yn dewis o blith casgliad o fodiwlau eraill, sydd ar hyn o bryd yn cynnwys:

- Class and Community in Wales 1850-1939
- Gerald of Wales
- Landownership and Society in Wales
- The British Atlantic World in the Long Eighteenth Century
- Information and Society
- Post-Medieval Palaeography and Diplomatic
- Science, Place and Victorian Culture
- The Second World War in History and Popular Memory
- Working with History
- Sources for Postgraduate Research in the Modern Humanities and Social Sciences.

I gael rhagor o fanylion a'r wybodaeth ddiweddaraf am ein modiwlau, ewch i'n gwefan.

## Ffeithiau allweddol

**Math o radd:** MA

**Cod y cwrs:** V194

**Hyd:** 1 flwyddyn (amser llawn) neu 2 flynedd (rhan-amser)

**Gofynion mynediad:** Gradd Baglor (Anrhydedd) 2:2 dda neu gyfatebol mewn maes pwnc perthnasol. Caiff unigolion heb radd eu hystyried fesul un ar sail eu profiad gwaith perthnasol.

**Amser cyswllt:** Tua 6 awr yr wythnos yn y ddau semester cyntaf, yna bydd y myfyriwr a'r tiwtor yn cytuno rhyngddynt ar gyfnodau'r amser cyswllt.

# Hanes Modern

Cymraeg ar gael yn rhannol drwy'r **Gymraeg**

## MA

Mae'r radd hon yn gyfle i chi astudio hanes modern Prydain a chyfandir Ewrop, America a/neu hanes y byd o ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg hyd heddiw gyda thîm o arbenigwyr blaenllaw yn eu meysydd.

Bydd y cwrs hwn yn mynd ar drywydd nifer o safbwyntiau, gan gynnwys hanes gwleidyddol, diplomyddol, cymdeithasol, diwylliant a'r cyfryngau. Cewch hefyd eich trwytho mewn sgiliau a dulliau ymchwil ym maes hanes modern, ac fe gewch y cyfle i ddatblygu a gwella'ch gwybodaeth am iaith Ewropeaidd yn ogystal.

Dyma rai o'r cyfleoedd arbenigol sydd ar gael i fyfyrwyr Hanes Modern yn Aberystwyth:

- cyfle i gymryd lleoliad gwaith mewn sefydliad treftadaeth amlwg
- cyflwyniad i amrywiaeth o ffynonellau hanes modern ac adnoddau archifol a chyfarwyddyd ynglŷn â'u defnyddio
- hyfforddiant mewn iaith Ewropeaidd
- agosrwydd Llyfrgell Genedlaethol Cymru - un o bum llyfrgell hawlfraint y Deyrnas Unedig, ger y campws.

**Cyflogadwyedd**

Mae gan ein graddedigion yrfaoedd cynhwysfawr ac amrywiol yn archifwyr, cyhoeddwyr, mewn gwleidyddiaeth leol a chenedlaethol, twristiaeth, maes gweinyddu treftadaeth, gweinyddiaeth gyhoeddus, eiddo tirol, y Gyfraith, y gwasanaeth sifil, newyddiaduraeth, darlledu, y lluoedd arfog, addysg, rheoli, cyfrifeg, mentergarwch, neu yn y byd academaidd.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau craidd y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn:

- Key Themes in Modern History
- Research Methods and Professional Skills in History.

Byddwch hefyd yn dewis o blith casgliad o fodiwlau eraill, sydd ar hyn o bryd yn cynnwys:

- Sources for Postgraduate Research in the Modern Humanities and Social Sciences
- The British Atlantic World in the Long Eighteenth Century
- Science, Place and Victorian Culture
- Borders and Borderlands in Modern Asia
- Representations of the Holocaust, 1945-2020
- The Second World War in History and Popular Memory
- Landownership and Society in Wales
- Class and Community in Wales 1850-1939
- Working with History.

I gael rhagor o fanylion a'r wybodaeth ddiweddaraf am ein modiwlau, ewch i'n gwefan.

## Ffeithiau allweddol

**Math o radd:** MA

**Cod y cwrs:** V140

**Hyd:** 1 flwyddyn (amser llawn) neu 2 flynedd (rhan-amser)

**Gofynion mynediad:** Gradd Baglor (Anrhydedd) 2:2 dda neu gyfatebol mewn maes pwnc perthnasol. Caiff unigolion heb radd eu hystyried fesul un ar sail eu profiad gwaith perthnasol.

**Amser cyswllt:** Tua 10 awr yr wythnos yn y ddau semester cyntaf, yna bydd y myfyriwr a'r tiwtor yn cytuno rhyngddynt ar gyfnodau'r amser cyswllt.





# Prydain ac Ewrop yr Oesoedd Canol

Cymraeg ar gael yn rhannol drwy'r **Gymraeg**

## MA

Mae'r cynllun Meistr hwn yn tynnu ar gryfderau'r Adran ym maes hanes Prydain ac Ewrop o gyfnod y Goresgyniad Normanaidd hyd at y Diwygiad. Mae'n gyfle i chi i astudio Prydain yn yr oesoedd canol yn ei chyd-destun Ewropeaidd ehangach ac o amryw o safbwyntiau thematig gan gynnwys hanes gwleidyddol, diwylliannol, economaidd, cymdeithasol a chrefyddol. Mae rhaglen o hyfforddiant dwys mewn Lladin a phalaeograffeg yn rhan annatod o'r cynllun.

Ymhlith y cyfleoedd arbenigol sydd ar gael i fyfyrwyr Hanes Prydain ac Ewrop yn yr Oesoedd Canol yn Aberystwyth ceir:

- y cyfle i gymryd lleoliad gwaith mewn sefydliad treftadaeth blaenllaw
- agosrwydd Llyfrgell Genedlaethol Cymru - un o bum llyfrgell hawlfraint y Deyrnas Unedig, ger y campws
- cyfle i fanteisio ar ein cysylltiadau cryf â Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru, sydd wedi'i leoli yn Aberystwyth
- cael eich dysgu gan ddarlithwyr sy'n weithgar ym maes ymchwil ac yn arbenigwyr blaenllaw yn eu priod feysydd.

**Cyflogadwyedd**

Mae gan ein graddedigion yrfaoedd cynhwysfawr ac amrywiol mewn amgueddfeydd, maes gweinyddu treftadaeth, twristiaeth, gweinyddiaeth gyhoeddus, y gwasanaeth sifil, llywodraeth leol, athrawon ysgol, newyddiaduraeth, darlledu a chyhoeddi.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau craidd y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn:

- England in Context in the Long Thirteen Century
- Latin for Postgraduate Study
- Medieval and Post-Medieval Palaeography and Diplomatic
- Research Methods and Professional Skills in History
- Texts that Made the Middle Ages: Advanced Latin Reading for Postgraduate Students.

Byddwch hefyd yn dewis o blith casgliad o fodiwlau eraill, sydd ar hyn o bryd yn cynnwys:

- Gerald of Wales
- History and Identity in the Age of the Magna Carta: the World of Matthew Paris
- Working with History
- The Baltic Crusades, 1147-1290.

I gael rhagor o fanylion a'r wybodaeth ddiweddaraf am ein modiwlau, ewch i'n gwefan.

## Ffeithiau allweddol

**Math o radd:** MA

**Cod y cwrs:** V192X

**Hyd:** 1 flwyddyn (amser llawn) neu 2 flynedd (rhan-amser)

**Gofynion mynediad:** Gradd Baglor (Anrhydedd) 2:2 dda neu gyfatebol mewn maes pwnc perthnasol. Caiff unigolion heb radd eu hystyried fesul un ar sail eu profiad gwaith perthnasol.

**Amser cyswllt:** Tua 6 awr yr wythnos yn y ddau semester cyntaf, yna bydd y myfyriwr a'r tiwtor yn cytuno rhyngddynt ar gyfnodau'r amser cyswllt.

# MPhil, PhD

Rydym yn cynnig graddau MPhil a PhD, a'r rheiny'n rhoi modd i chi wneud ymchwil hanesyddol ar lefel uwch o dan oruchwyliaeth arbenigol aelod o'n staff academaidd.

Rydym yn cynnig goruchwyliaeth ymchwil yn holl feysydd ein harbenigedd ymchwil, ac rydym wedi cefnogi myfyrwyr o ystod eang o gefndiroedd academaidd ac anacademaidd i gwblhau eu graddau ymchwil yn llwyddiannus. Caiff y goruchwylio unigol ei ategu gan hyfforddiant ymchwil gan yr Adran a'r Brifysgol, ac anogir ein holl uwchraddedigion ymchwil i gymryd rhan yn niwylliant ymchwil ehangach yr Adran.

## MPhil a PhD

Mae'r rhain yn canolbwyntio ar brosiectau ymchwil sydd yn astudiaethau manwl iawn mewn maes penodol sy'n cyd-daro â diddordebau ymchwil y Brifysgol. Mae'r gwaith a gynhyrchir yn waith gwreiddiol y gellir ei gyhoeddi, ac mae canlyniadau'r ymchwil yn cael eu cyflwyno mewn traethawd ymchwil a thrwy arholiad llafar.

Cwrs blwyddyn yw'r MPhil (neu ddwy flynedd rhan-amser) lle bydd disgwyl i chi ysgrifennu traethawd hir hyd at 60,000 o eiriau.

Dyfernir PhD ar ôl cwblhau traethawd hir boddhaol hyd at 100,000 o eiriau, gydag arholiad viva voce i ddilyn. Y cyfnod cofrestru arferol yw tair blynedd (amser llawn), a disgwylir y bydd y traethawd hir yn cael ei gyflwyno ymhen pedair blynedd o gofrestru.

I gael rhagor o wybodaeth, gweler y tudalennau 'Sut i wneud cais' neu cysylltwch â ni.







# Ein hymchwil

Mae gwaith ymchwil yr Adran yn canolbwyntio'n bennaf ar bedwar cyfnod cronolegol – Oesoedd Canol, Modern Cynnar, Prydain ac Ewrop Fodern, a Chymru Fodern – a thri maes thematig: Hanesyddiaeth, Hanes Technolegol, Gwyddonol a Meddygol, a Hanes y Cyfryngau.

At hyn, mae'r adran yn cynnal ei chryfderau traddodiadol mewn hanes crefyddol, gwleidyddol, diwylliannol, cymdeithasol ac economaidd, yn eu hystyron ehangaf.

O ran yr agenda ymchwil, nod yr Adran yw:

- cynhyrchu a lledaenu ymchwil newydd;
- trosglwyddo gwybodaeth a sgiliau ymchwil i'r holl raddedigion;
- cefnogi a chwilio am gyfleoedd i ddatblygu gweithgareddau cydweithredol, o fewn i'r Adran a chyda phartneriaid mewn prifysgolion yn y DU a thu hwnt.

Mae aelodau'r adran yn dod at ei gilydd i weithio mewn canolfannau:

- Canolfan Hanes y Cyfryngau
- Canolfan Hanes Cymdeithasol a Diwylliannol Cymru
- Canolfan Ymchwil Hanesyddiaeth a Diwylliant Hanesyddol.

Mae'r Adran yn gartref i nifer o ganolfannau ymchwil:

## Canolfan Hanes y Cyfryngau

Mae'r Ganolfan ryngddisgyblaethol hon yn fenter ar y cyd rhwng yr Adran hon a'r Adran Theatr, Ffilm a Theledu, a'i bwriad yw hybu astudio'r cyfryngau mewn cyd-destun hanesyddol yn benodol, a hybu dysgu ac ymchwil ym maes hanes y cyfryngau. Ei bwriad hefyd yw hyrwyddo a phoblogeiddio'r defnydd o'r cyfryngau a ffynonellau sy'n gysylltiedig â'r cyfryngau, fel arfau ymchwil allweddol ar gyfer amrywiaeth eang o astudiaethau hanesyddol, ac mae'n cydweithio'n agos â'r Llyfrgell Genedlaethol a'r archifau sgrin a sain.

Caiff ein harbenigedd ymchwil ei gydnabod yn rhyngwladol, ac mae'r cyfnodolyn *Media History* wedi'i leoli ar hyn o bryd yn y Brifysgol.

## Canolfan Hanes Cymdeithasol a Diwylliannol Cymru

Bwriad y Ganolfan hon yw hybu astudiaeth o hanes Cymru ym mhob cyfnod; cefnogi prosiectau ymchwil unigol a chydweithredol; ac ysgogi dadansoddi beirniadol ar ddatblygiad hanesyddiaeth Cymru. Mae hefyd yn cynnal seminarau ymchwil ac yn trefnu ysgolion undydd a chynadleddau ar themâu allweddol yn hanes modern Cymru. Mae arbenigedd ymchwil y Ganolfan yn rhychwantu'r Oesoedd Canol, y cyfnod modern cynnar a'r cyfnod modern diweddar, ac yn thematig mae'n cynnwys: yr eglwys ganoloesol a'r werin ganoloesol; rhywedd a chrefydd yn y cyfnod modern cynnar; datblygiadau trefol modern ac iechyd y cyhoedd; y cyfryngau, cerddoriaeth a diwylliant poblogaidd; cenhadon ac imperialaeth; a lleiafrifoedd ethnig a hunaniaeth genedlaethol. Dyma'r unig gasgliad o arbenigedd yn hanes Cymru ym Mhrydain.

## Canolfan Ymchwil Hanesyddiaeth a Diwylliannau Hanesyddol

Nod y Ganolfan yw hyrwyddo ymchwil i'r gorffennol a thueddiadau cyfredol mewn cynrychiolaethau hanesyddiaethol a chynrychiolaethau eraill o'r gorffennol. Mae hefyd yn ymchwilio i'r berthynas rhwng ymwneud haneswyr academaidd a haneswyr amatur â'r gorffennol ac yn hyrwyddo dysgu ac ymchwil ym meysydd hanesyddiaeth a diwylliannau hanesyddol. Mae gan y Ganolfan gysylltiadau rhyngwladol yn Ne Korea, yr Almaen, Norwy, Japan a'r Unol Daleithiau; ac mae wedi derbyn cyllid ymchwil gan yr Academi Brydeinig, yr AHRC, a Llyfrgell Huntington (Califfornia). Mae haneswyr sy'n gysylltiedig â'r Ganolfan hefyd ar hyn o bryd yn dechrau ar ddilyniant i werslyfr hanesyddiaeth llwyddiannus yr Adran *Making History* (goln P Lambert a P Schofield, 2004).

Yr Adran

# Ieithoedd Modern

## Graddau ymchwil

MPhil, PhD t.148

Yma yn Aberystwyth, rydym yn cynnig cyfleoedd amrywiol i wneud ymchwil yn nhair prif iaith Ewrop – sef Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg. Mae arbenigedd y staff dysgu yn cynnwys amrywiaeth o feysydd ym mhob iaith, yn amrywio o ddrama i sinema, yn ogystal ag iaith ffilolegol ac astudiaethau llenyddol.



# MPhil, PhD

Rydym yn cynnig graddau MPhil a PhD mewn ystod eang o bynciau. Mae ymgeiswyr yn aml yn treulio rhan sylweddol o'u cyfnod ymchwil yn gweithio mewn llyfrgelloedd ac/neu archifau dramor, ar yr un pryd â pharhau i gael eu goruchwylio o Aberystwyth.

Prif ffocws eich gradd ymchwil fydd traethawd hir manwl, ac fe gewch oruchwyliaeth rheolaidd gan arbenigwyr yn yr Adran o ran ei gynllunio, ei lunio a'i ysgrifennu.

Mae'r MPhil yn cymryd blwyddyn o ymchwil llawn amser fel arfer (dwy flynedd rhan-amser) ac mae myfyrwyr yn cwblhau ac yn cyflwyno traethawd ymchwil hyd at 60,000 o eiriau yn dilyn hynny.

Mae'r PhD yn cymryd tair blynedd o ymchwil amser llawn fel arfer (pum mlynedd rhan-amser) ac mae myfyrwyr yn cwblhau ac yn cyflwyno traethawd ymchwil 80-100,000 o eiriau yn dilyn hynny.

Mae'r meysydd ymchwil yn cynnwys:

- **Ffrangeg:** ieithyddiaeth hanesyddol; llenyddiaeth a syniadau modern cynnar; llenyddiaeth fodern; sinema; Eingl-Normaneg; ieithyddiaeth Romáwns; hanes teithio a llenyddiaeth teithio; syniadau Ffrengig yn yr 20fed a'r 21ain Ganrif, yn enwedig dirfodaeth a ffeministiaeth; bywgraffiadau, hunangofiannau ac ysgrifennu byw; a dulliau darllen damcaniaethol.
- **Almaeneg:** rhyddiaith Almaeneg yn yr 20fed a'r 21ain Ganrif; hunangofiannau ac ysgrifennu byw; ysgrifennu gan fenywod; llenyddiaeth Almaenig-Iddewig; hanes a diwylliant; cyfieithu a thestunau'r Holocost; ffoaduriaid Almaenig yn dianc rhag Sosialaeth Genedlaethol a'r Kindertransport yn arbennig; theatr a chyfieithu ôl-ddramataidd; Gramadeg Almaeneg a gor-bryder ieithyddol; trasig newydd mewn theatr a pherfformiadau Ewropeaidd.
- **Sbaeneg:** cymharu arddull nofelau Sbaeneg o'r 19eg ganrif; llenyddiaeth drefedigaethol gymharol Gogledd Affrica; cosmopolitaniaeth; geowleidyddiaeth; tirlun; gwyddoniaeth yn llenyddiaeth a ffilm America Ladin; rhywedd, hunaniaeth a chenedl; gwaddol diwylliannol gwrthdaro'r Falklands/Malvinas; avant-garde; barddoniaeth Sbaenaidd yr 20fed Ganrif; arferion diwylliannol menywod; a gor-bryder ieithoedd tramor a dysgu ieithoedd.

Dyma rai o bynciau ymchwil ein huwchraddedigion:

- Cyfieithu Amitiez, amours, amourettes René Le Pays: trosi llyfrau taith i iaith eu lleoliad
- Dwy o lenorion yr Almaen o ddechrau'r 20fed ganrif, Ina Seidel a Vicki Baum
- Cyfieithu tystiolaeth glyweledol yr Holocost
- Pwyllgor Ffoaduriaid Rhanbarthol yn gwarchod ffoaduriaid rhag Sosialaeth Genedlaethol
- Hunangofiannau a ffuglen y Kindertransport
- Dadansoddiad cymharol o ail genhedlaeth y Kindertransport yn UDA a'r Deyrnas Unedig.

I gael rhagor o fanylion a'r wybodaeth ddiweddaraf, ewch i'n gwefan neu cysylltwch â ni.





# Ein hymchwil

Caiff ymchwil ieithyddiaeth a llên ein staff ei gyhoeddi'n rheolaidd mewn erthyglau a llyfrau, a hynny'n aml yng ngwledydd yr ieithoedd hynny. Mae'r staff yn trefnu cynadleddau yn aml, yn Aberystwyth a'r tu hwnt, ac yn traddodi papurau yn y Deyrnas Unedig a thramor yn arbennig. Mae gan yr Adran gysylltiadau cryf gydag adrannau a grwpiau ymchwil eraill mewn prifysgolion ledled Ewrop hefyd.

Mae prif brosiectau ymchwil presennol yr Adran yn cynnwys:

**Kindertransport 1938/39 i'r Deyrnas Unedig: Triniaethau Beirniadol**
Mae Andrea Hammel wedi ymchwilio i'r Kindertransport ers 2000, ac wedi cyhoeddi'n eang ar y pwnc. Mae'r prosiect hwn yn dadansoddi'r agwedd ddathliadol tuag at y Kindertransport yn y disgwrs cyhoeddus, ac yn ceisio chwalu mythau drwy ddarparu tystiolaeth gyfoes ar fanylion yr ymgyrch hon, sydd heb eu harchwilio ddigon eto, a ganiataodd i oddeutu 10,000 o ffoaduriaid a oedd yn blant heb gwmni ddod i Brydain heb fisa rhwng mis Rhagfyr 1938 a mis Medi 1939. Mae'r astudiaeth yn archwilio effeithiau'r ffordd benodol hon o ganfod lloches, a'r canlyniadau trawmatig i'r rhieni biolegol, plant y Kindertransporteion a'r rhieni maeth. Mae'n archwilio materion hunaniaeth a pherthyn hefyd, mewn perthynas â chysylltiadau crefyddol ac ailgartrefu yng ngwledydd amrywiol Prydain drwy archwilio deunydd archifol, testunau cof a chyfweliadau hanes llafar. Mae Andrea Hammel wedi cyfrannu at sawl rhaglen radio, arddangosfa, a digwyddiad cyhoeddus yn yr Almaen a gwledydd Prydain ar y pwnc.

**Awduron alltud y tridegau a'r pedwardegau: Cydnabod eu cyfraniad at Foderniaeth(au)**
Nod y prosiect hwn yw integreiddio nofelau gan awduron Almaeneg a oedd yn ffoaduriaid, yn yr astudiaeth o foderniaethau a maes llenyddiaeth Saesneg. Roedd llawer o awduron alltud yn llwyddiannus ym Mhrydain yn y tridegau a'r pedwardegau, ond nid ydynt wedi cael sylw digonol ers hynny gan ysgolheigion llenyddol. Mae'r prosiect hwn yn ceisio ail-ddatgelu'r rhan hon o hanes llenyddol.

**Cyfieithu Bywydau'r Holocost**
Cefnogwyd y prosiect hwn gan Gyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau, ac mae eisoes wedi arwain at gyfrol sy'n torri tir newydd, wedi'i chyd-olygu gan Andrea Hammel. Mae'n edrych ar safbwynt cyfieithiadau a chyfieithwyr mewn perthynas â thystiolaeth o'r Holocost, boed yn ysgrifenedig neu ar lafar. Mae'n rhan o'r troad diwylliannol mewn Astudiaethau Cyfieithu, ac mae'n archwilio safbwynt cyfieithwyr, cyd-destun a dewisiadau cyfieithu, a'u rhyngberthynas â chynulleidfaoedd llenyddol a lleoliadau addysgol.

**Monkey Raisins, Monkey Nuts – Prosiect Gramadeg Almaeneg**
Mae llawer o'r gor-bryder ieithoedd tramor sy'n gysylltiedig ag Almaeneg yn ymwneud â'r ffaith yr ystyrir bod Gramadeg Almaeneg yn 'anodd' iawn. Nod y prosiect hwn yw dylunio a chyflwyno teclynnau syml a chynorthwywyr cof i ddysgu gramadeg Almaeneg ar gyfer siaradwyr Saesneg brodorol. Mae cam cyntaf y prosiect yn cynnwys dylunio deunyddiau astudio syml ac ysgogol, podlediadau ac adnoddau ar-lein (**www.easygermangrammar.org**). Mae cyfrif Twitter i gyd-fynd – **@monkeyraisins** – sy'n cynnig cynorthwywyr cof a chyngor hawdd ei ddefnyddio i ddilynwyr ar gyfer gramadeg Almaeneg. Bydd y cam olaf yn arwain at adnodd cynhwysfawr a chod agored, sef llyfr Easy German Grammar. Bydd cyfres o weithdai cyhoeddus ar ddiwedd y prosiect, a byddant yn darparu profiad uniongyrchol gydag Easy German Grammar i fyfyrwyr ac athrawon Ieithoedd Tramor Modern.

**Trasig Newydd mewn Theatr a Pherfformiadau Cyfoes Ewropeaidd**
Mae'r prosiect hwn yn ymchwilio i nodweddion sy'n diffinio ffurf newydd a chyfoes ar estheteg drasig mewn theatr a pherfformiadau. Roedd y cam cyntaf yn cynnwys amlinellu enghreifftiau presennol o'r trasig newydd, a diffinio nifer o'i drosiadau mwyaf cyffredin. Bydd yr ail gam yn arwain at astudiaeth lawn, yn cynnwys ystod o enghreifftiau cyfoes. Bydd cyfres o weithdai a chynadleddau yn arwain at sefydlu rhwydwaith trasig newydd. Bydd gwefan gyhoeddus yn y pen draw, fydd yn gwahodd y cyhoedd i gyfrannu tuag at y prosiect drwy awgrymu enghreifftiau cyfoes pellach.

**Prosiect Geiriadur Eingl-Normaneg**
Mae'r prosiect hwn wedi'i gynnal yn yr adran mewn cyfnodau ers 2003. Roedd ei waith yn adolygu'r Geiriadur Eingl-Normaneg, mewn camau.

Mae Eingl-Normaneg, ffurf ar Ffrangeg a ddefnyddiwyd ym Mhrydain yn y Canol Oesoedd o 1066 tan ganol y bymthegfed ganrif, yn elfen fawr o Saesneg. Mae'n hanfodol i haneswyr Saesneg; fel tafodiaith bwysig o Ffrangeg ganoloesol (yr ysgrifennwyd y testunau llenyddol Ffrangeg cynharaf ynddi), mae'n ffurfio





elfen allweddol mewn unrhyw gofnod o hanes geirfa Ffrangeg. Yn iaith un o rymoedd mawr Ewrop yn y Canol Oesoedd, Eingl-Normaneg oedd y cyfrwng ar gyfer amrywiaeth eang o ddogfennau hanesyddol, gweinyddol a chyfreithiol. Y Geiriadur Eingl-Normaneg (1977-1992) yw'r unig ganllaw i'r eirfa anodd hon. Nod y prosiect yn y pen draw yw adolygu'r A-Z yn llawn, a fydd yn creu adnodd ar-lein fydd dair neu bedair gwaith maint yr argraffiad cyntaf.

Mae'r prosiect yn gweithio ar orffen yr adolygiad ar hyn o bryd, a'i roi ar gael ar-lein gyda dewisiadau chwilio manwl, gan ganiatáu i'r defnyddiwr fynd at yr un deunydd o safbwyntiau hollol wahanol, ac mae nawr yn bosib chwilio drwy gyfieithiad Saesneg modern, ffynhonnell destun, maes semantig, dyddiad ac ati.

**Seminar a Gŵyl Sinema Gyfoes Ciwba**
Nod y prosiect hwn yw cael dealltwriaeth well o'r cysylltiad rhwng ffilm a chymdeithas Ciwba ar ôl 1990. Mae llawer o astudiaethau wedi'u cynnal sy'n datblygu dealltwriaeth ffilm a chymdeithas Ciwba cyn 1990. Mae'r astudiaethau hyn yn datblygu'r cysylltiad rhwng datblygiad ymwybyddiaeth chwyldroadol ar draws celfyddydau Ciwba, a'r ymgais i ddarparu mynegiant o'r ymwybyddiaeth drwy gyfrwng ffilm. Fodd bynnag, ar ôl 1990, pan ddioddefodd Ciwba yr argyfwng gwaethaf yn ei hanes chwyldroadol o ganlyniad i gwymp comiwnyddiaeth Ewropeaidd, newidiodd llawer o'r gyfeiriadaeth ideolegol, ac felly datblygwyd mynegiant newydd o'r newid hwnnw yn sinema Ciwba er mwyn dod i delerau â'r newidiadau economaidd a chymdeithasol enfawr a ddigwyddodd. Diben yr ymchwiliad hwn oedd archwilio mynegiant o'r newidiadau hyn, i bennu i ba raddau mae'r wladwriaeth yn integreiddio mynegiant ffilmaidd o'r fath i'r ideoleg gymdeithasol mewn proses sy'n esblygu'n barhaus.

Galluogodd y seminarau hyn i ysgolheigion o Brydain, Unol Daleithiau America a Chiwba ddod â'u syniadau ynghyd ar fyd ffilm cyfoes Ciwba, a'i gysylltiad â chymdeithas Ciwba, er mwyn datblygu dealltwriaeth fwy cyflawn, nid yn unig o sinema Gyfoes Ciwba o reidrwydd, ond hefyd o sut mae cymdeithas Ciwba wedi datblygu ei hallbwn diwylliannol ar adegau o argyfwng difrifol.

**Gender. Nation. Text.**
Roedd y prosiect hwn yn archwilio enghreifftiau amrywiol o rywedd sy'n gynhenid i ideolegau cenedlaethol, defnydd o rywedd wrth adeiladu a datblygu cenedl-wladwriaethau, a rôl disgyrsiau gwleidyddol, llenyddol a sinematograffaidd mewn trafodaethau diwylliannol sy'n diffinio ffiniau cenedlaethol a rhyngwladol mewn cymdeithasau ôl-drefedigaethol, yn Ewrop ac America Ladin yn bennaf. Deilliodd o gywaith rhwng Prifysgol Genedlaethol Iwerddon, Galway (NUIG), a Phrifysgol Limerick, o dan nawdd Rhwydwaith Ymchwil Rhywedd ARC. Un cynnyrch o'r cywaith parhaus hwn oedd y gyfrol Gender. Nation. Text. Exploring Constructs of Identity (2017) a gyd-olygwyd gan Dr Lorraine Kelly (NUIG), Dr Tina-Karen Pusse (NUIG) a Dr Jennifer Wood (Prifysgol Aberystwyth). Mae cyhoeddiadau pellach a ddatblygwyd o'r prosiect hwn yn edrych ar yr hyn yw hiraeth a pherthyn mewn perthynas â'r Cymru ar wasgar yn Ariannin a dealltwriaeth o hunaniaeth.

**Naratif a Thrais mewn Llenyddiaeth Ffrangeg Fodern**
Mae'r prosiect ymchwil hwn yn ymchwilio i'r berthynas rhwng naratif a thrais o amrywiaeth o safbwyntiau. Mae'n ystyried cynrychiolaeth o drais, ei berthynas â strwythur naratif, ac ymatebion darllenwyr i drais a ysgrifennir mewn testunau naratif. Mae'r prosiect wedi bod wrth galon mentrau ymchwil rhyngddisgyblaethol ehangach hefyd, gyda chefnogaeth yr Academi Brydeinig. Gyda'i gilydd, mae ymchwilwyr i lenyddiaeth Saesneg, seicoleg gymdeithasol, astudiaethau ôl-drefedigaethol, astudiaethau rhywedd, astudiaethau beirniadol a chyfreithiol, a hanes llyfrau, gyda'i gilydd wedi archwilio sut mae naratifau trais yn siapio perthnasau rhyngbersonol, dychymyg diwylliannol a geowleidyddiaeth.



Yr Adran

# Fathemateg

## Graddau a ddysgir

Gwyddor Data, MSc t.154
Ystadegaeth ar gyfer Bioleg Gyfrifiadol, MSc t.155

## Graddau ymchwil

MPhil, PhD t.158

Mae gan Aberystwyth draddodiad hir o ragoriaeth dysgu ac ymchwil mewn mathemateg a ffiseg. Ein nod yw darparu addysg o'r safon uchaf mewn awyrgylch cyfeillgar a chefnogol ac i gynnal ymchwil sy'n rhyngwladol gystadleuol ac sy'n torri ar draws y disgyblaethau traddodiadol. Mae creadigrwydd a brwdfrydedd ein staff wedi ennill enw da yn rhyngwladol ac yn denu cyllid sylweddol gan y llywodraeth a diwydiant.

# Gwyddor Data

## MSc

Mae Gwyddor Data yn arbenigedd sy'n tyfu'n gyflym, a gellir ei ddefnyddio mewn busnes, llywodraeth a gwyddoniaeth. Mae ei ddefnydd yn amrywio o ganfod patrymau prynu cwsmeriaid i ddilyn hynt ymlediad afiechyd, o fonitro peirianwaith drud i gofnodi a gwella iechyd unigolyn. Ceir galw aruthrol am raddedigion gyda sgiliau mewn 'Data Mawr'.

Mae Gwyddor Data yn arbennig o briodol fel ffocws ar gyfer gradd Meistr gyffredinol mewn Cyfrifiadureg, gan ddarparu cyfleoedd i raddedigion o ddisgyblaethau eraill gymhwyso eu gwybodaeth newydd am Gyfrifiadureg i'w maes astudio gwreiddiol.

Dyma rai o'r cyfleoedd arbenigol sydd ar gael i fyfyrwyr Gwyddor Data yn Aberystwyth:

- astudio mewn adrannau sydd â chysylltiadau â nifer o gwmnïau mawr ac sy'n canolbwyntio'n gryf ar ymchwil
- elwa o'r cyfoeth o arbenigedd a gwybodaeth a geir yn yr adrannau Mathemateg a Chyfrifiadureg
- cefnogaeth gyda chynllunio ar gyfer eich gyrfa trwy gydol y cwrs.

**Cyflogadwyedd**

Mewn ystod eang o sefyllfaoedd, o fancio i siopa, ac o gyrff llywodraethol i'r GIG, mae ein gweithgareddau bob dydd yn gadael olion digidol ac mae'r byd gwaith yn cael ei drawsnewid. Mae galw mawr am Wyddonwyr Data - unigolion sydd â'r gallu i ganfod ystyr mewn data ac sy'n gyfforddus wrth weithio ar draws disgyblaethau cyfrifiadureg, mathemateg ac ystadegau, ac sy'n gallu cyfannu llawer o ffrydiau data i greu synthesisau treiddgar. Mae ein graddedigion Gwyddor Data wedi mynd ymlaen i weithio i gwmnïau megis Google a MarkLogic, yn reolwyr cynnyrch i fanciau buddsoddi, ac eraill wedi sefydlu eu cwmnïau eu hunain.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau craidd y byddwch o bosibl yn eu hastudio ar y cwrs hwn:

- Modelling, Managing and Securing Data
- Programming for Scientists
- Statistical Concepts, Methods and Tools
- Applied Data Mining
- Machine Learning for Intelligent Systems
- Statistical Techniques for Computational Scientists.

**Modelling, Managing and Securing Data**

Astudir ystod o faterion yn ymwneud â'r gallu i drin data a diogelu data yng nghyd-destun systemau cyfrifiadurol. Bydd yn rhoi sylw i gyfrinachedd a phreifatrwydd data yn ogystal ag uniondeb data a sut i warantu bod modd ei atgynhyrchu.

**Programming for Scientists**

Dysgir elfennau sylfaenol rhaglennu a dangosir sut i drin a threfnu data.

**Applied Data Mining**

Dysgir sut i ymholi, chwilio, cloddio a dadansoddi cyfansymiau mawr o ddata, sy'n gofyn am ddulliau trefniadol a thechnolegol y tu hwnt i ddulliau nodweddiadol wrth drin systemau cronfeydd data perthynol.

**Machine Learning for Intelligent Systems**

Bydd y modiwl hwn yn eich cyflwyno i brif gysyniadau dysgu peirianyddol. Byddwch yn astudio sut i archwilio'r problemau sy'n gysylltiedig â chymhwyso dau ddull o ddysgu peiriant i set ddata addas.

I gael rhagor o fanylion a'r wybodaeth ddiweddaraf am ein modiwlau, ewch i'n gwefan.

## Ffeithiau allweddol

**Math o radd:** MSc

**Cod y cwrs:** G490

**Hyd:** 1 flwyddyn (amser llawn)

**Gofynion mynediad:** Gradd Baglor (Anrhydedd) 2:2 neu gyfatebol mewn unrhyw bwnc. Caiff unigolion heb radd eu hystyried fesul un ar sail eu proffiad gwaith perthnasol.

**Amser cyswllt:** Tua 10 awr yr wythnos yn y ddau semester cyntaf, yna bydd y myfyriwr a'r tiwtor yn cytuno rhyngddynt ar gyfnodau'r amser cyswllt.



# Ystadegaeth ar gyfer Bioleg Gyfrifiadol

## MSc

Mae Bioleg Gyfrifiadol yn faes diddordeb sy'n strategol allweddol i ymchwil ryngddisgyblaethol ac i gyflogwyr ym meysydd cynhyrchion fferyllol, amaethyddiaeth uwch ac iechyd y cyhoedd. Mae defnyddio ystadegau a dysgu peirianyddol i godi gwybodaeth ddefnyddiol o setiau mawr o ddata biolegol hefyd yn ofyniad allweddol yn y meysydd hyn.

Mae'r cynllun wedi'i gynllunio i gyflwyno sgiliau allweddol sy'n seiliedig ar arfer mewn ystadegau ar gyfer bioleg gyfrifiadol. Byddwch yn dysgu sut i werthuso cymhwysiad technegau ystadegol penodol i ymchwilio i broblemau mewn bioleg gyfrifiadol yn feirniadol, ac yna dehongli ac adrodd ar ganlyniadau'r dadansoddiad yn effeithiol.

Mae'r cwrs MSc hwn yn cyfuno disgyblaethau Mathemateg, Cyfrifiadureg, a'r Gwyddorau Biolegol, ac yn addas ar gyfer graddedigion o unrhyw un o'r tair disgyblaeth hyn.

Dyma rai o'r cyfleoedd arbenigol sydd ar gael i fyfyrwyr Ystadegaeth ar gyfer Bioleg Gyfrifianol yn Aberystwyth:

- astudio mewn adrannau sydd â chysylltiadau â nifer o gwmnïau mawr ac sy'n canolbwyntio'n gryf ar ymchwil
- cefnogaeth gyda chynllunio ar gyfer eich gyrfa trwy gydol y cwrs
- elwa o'r cyfoeth o arbenigedd a gwybodaeth sydd ar gael yn yr Adran Fathemateg, yr Adran Gyfrifiadureg, ac Athrofa'r Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig (IBERS).

**Cyflogadwyedd**

Mae'r nifer cynyddol o setiau mawr o ddata biolegol yn arwain at fwy o alw am bobl sydd â'r arbenigedd i feddwl am broblemau biolegol gan ddefnyddio offer cyfrifiadurol ac ystadegol. Mae gan raddedigion sydd â sgiliau rhifedd, peth dealltwriaeth o'r fioleg sylfaenol, ac sy'n gallu deall dulliau cyfrifiadurol, gan gynnwys rhaglennu, gyfleoedd gyrfa eang - mewn diwydiant ac yn y byd academaidd. Bydd y cwrs hwn yn datblygu'r sgiliau sy'n berthnasol i amaethyddiaeth uwch, peirianneg meddalwedd fferyllol, a nanodechnoleg. Bydd cyfleoedd academaidd yn cynnwys biowybodeg, dirparaeth cyffuriau a'r gwyddorau genom. Mae graddedigion y radd hon yn gweithio ym meysydd dadansoddi data ariannol a meddygaeth drachywir, i enwi rhai.

## Modiwlau

Ar y cwrs yma, byddwch yn astudio'r modiwlau canlynol:

- Frontiers in Bioscience
- Machine Learning for Intelligent Systems
- Programming for Scientists
- Statistical Concepts, Methods and Tools
- Statistical Techniques for Computational Scientists.

**Frontiers in the Biosciences**

Dangosir sut y mae pynciau a dulliau ymchwil mewn bioleg yn cael eu hintegreiddio, sut y defnyddir yr wybodaeth gan wahanol ymchwilwyr, ymarferwyr a defnyddwyr eraill, sut y maen nhw'n cyfathrebu, yn edrych ar bwnc penodol a dod i'w safbwynt eu hunain amdano.

**Machine Learning for Intelligent Systems**

Cyflwyniad i brif egwyddorion Dysgu Peirianyddol. Fe ddysgwch sut i wneud archwiliad ymarferol o'r materion sy'n codi wrth gymhwyso dau ddull dysgu peirianyddol ar gyfer set data addas.

**Statistical Concepts, Methods and Tools**

Rhoddir sylfaen mewn Ystadegaeth, gan gynnwys llunio arbrofion, dosrannu tebygolrwydd arwahanol a pharhaus, modelu llinol a phrofi rhagdybiaethau.

I gael rhagor o fanylion a'r wybodaeth ddiweddaraf am ein modiwlau, ewch i'n gwefan.

## Ffeithiau allweddol

**Math o radd:** MSc

**Cod y cwrs:** G499

**Hyd:** 1 flwyddyn (amser llawn)

**Gofynion mynediad:** Gradd Baglor (Anrhydedd) 2:2 neu gyfatebol mewn unrhyw bwnc. Caiff unigolion heb radd eu hystyried fesul un ar sail eu proffiad gwaith perthnasol.

**Amser cyswllt:** Tua 10-14 awr yr wythnos yn y ddau semester cyntaf, yna bydd y myfyriwr a'r tiwtor yn cytuno rhyngddynt ar gyfnodau'r amser cyswllt.



# MPhil, PhD

Rydym yn cynnig graddau PhD ac MPhil drwy ymchwil mewn ystod eang o bynciau ymchwil ym meysydd Ffiseg a Mathemateg. Mae ein gwaith ymchwil yn cwmpasu meysydd mor amrywiol â gwybodaeth gwantwm, theori rheoli cwantwm, algebrâu gweithredyddion, dadansoddi siâp ystadegol, a modelu mathemategol a dadansoddi rhifiadol ar ddeinameg strwythurau dellt, deunyddiau fisgo-plastig a hylifau cymhleth.

Rydym yn cynnig ysgoloriaethau bob blwyddyn, ac mae arian ar gael ar gyfer ffioedd a chyflogau. Rydym hefyd yn cynnig tair ysgoloriaeth bob blwyddyn i uwchraddedigion o'r tu allan i'r Undeb Ewropeaidd (UE) er mwyn talu am y gwahaniaeth rhwng ffioedd tramor a ffioedd y Deyrnas Unedig/UE.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i'n gwefan neu cysylltwch â ni.



# Ein hymchwil

Caiff prosiectau ymchwil eu cynnig mewn ymgynghoriad â'r grwpiau ymchwil canlynol:

**Modelu Mathemategol ar Strwythurau, Solidau a Hylifau**
Mae diddordebau'r grŵp yn cynnwys problemau amrywiol mewn mecaneg solet a hylif, rheoleg a meteoroleg. Mae enghreifftiau yn cynnwys datblygu modelau biomecanyddol ar gyfer cymal y pen-glin er mwyn cynorthwyo cael diagnosis o osteoarthritis mewn ffordd sy'n amharu cyn lleied â phosibl ar y corff, gwell algorithmau rhifiadol ar gyfer efelychu proses torasgwrn hydrolig, pennu geometreg orau perimedr gan leihau strwythurau cellog, defnyddio'r cysyniad o drosglwyddo'r màs gorau posibl er mwyn rhoi gwybodaeth am gywirdeb darogan tywydd, a rhagweld llif hylifau nad ydynt yn Newtonaidd.

**Strwythurau a Rheolaeth Gwantwm**
Mae'r grŵp yn gweithio ym maes disgrifiadau algebraidd o systemau cwantwm wrth iddynt ryngweithio â'u hamgylchedd, ac yn enwedig ym maes newydd peirianneg rheolaeth gwantwm. Mae hwn yn faes hynod o ryngddisgyblaethol sy'n ymgorffori syniadau o ddamcaniaeth gwybodaeth gwantwm, dadansoddi stocastig anghymudol, ffiseg fathemategol ar gyfer systemau cwantwm agored, a damcaniaeth reoli fodern. Mae mathemategwyr yn y grŵp yn gweithio'n agos gyda'r staff ffiseg. o'r ochr fathemategol, mae gan y grŵp arbenigedd mewn dadansoddi swyddogaethol, algebrâu C*- ac algebrâu Lie, tebygoliaeth glasurol a chwantwm, a damcaniaeth gweithredwyr y mae'n eu cymhwyso i fodelau cwantwm ymarferol.

**Ystadegau**
Mae diddordebau'r grŵp yn cynnwys tri maes allweddol. Mae'r grŵp yn defnyddio ystadegau gofodol a modelau llinol cyffredinol i fodelu data lleoli mamolion morol; caiff gwahanol agweddau ar fodelu dosbarthiad rhywogaethau eu hymchwilio; ac mae gan y grŵp ddiddordeb hefyd mewn dadansoddi setiau data biolegol dimensiwn uchel sy'n deillio o gymwysiadau biolegol modern megis metagenomeg (mewn bacteria yn benodol).



## Yr Adran

# Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol



Myfyrwyr yn mwynhau awyrgylch llawn ysbrydoliaeth plasty Gregynog, rhwng dau weithdy ar Encil Ysgrifennu flynyddol yr Adran.

**Mae bri rhyngwladol i Aberystwyth fel 'prifddinas diwylliant' Cymru. Mae ein cyrsiau Llenyddiaeth Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol yn cyfuno traddodiad ac arloesi, ehangder a dyfnder.**

## Graddau a ddysgir

Astudiaethau Llenyddol, MA t.160

Ysgrifennu Creadigol, MA t.161

## Graddau ymchwil

PhD t.162

# Astudiaethau Llenyddol

## MA

Mae'r radd hon yn cynnig rhaglen ysgogol i'ch ysbrydoli wrth astudio llenyddiaeth Saesneg, ac ar yr un pryd yn rhoi cyfleoedd i ddatblygu arbenigedd mewn un o nifer o feysydd arbenigol.

Bydd ystod o fodiwlau dewisol sy'n cael eu harwain gan ymchwil yn cynnig golwg hynod o ddiddorol ar lenyddiaeth cyfnodau penodol, diwylliannau cenedlaethol a grwpiau cymdeithasol. Rydym yn cynnig dewis gwych o ddeunydd i'n myfyrwyr o'r cyfnod canoloesol cynnar hyd heddiw. Cewch ddarganfod amryw helaeth o ddulliau o astudio llenyddiaeth a hanes diwylliannol, gan gyfuno meddwl beirniadol ac ysgolheictod uwch.

Drwy astudio'r datblygiadau diweddaraf mewn methodoleg ymchwil byddwch yn meithrin y sgiliau angenrheidiol i ysgrifennu eich traethawd hir, sef darn estynedig o ymchwil ysgolheigaidd yn eich maes arbenigol. Gan gydweithio'n agos â'ch goruchwyliwr academaidd byddwch yn datblygu nid yn unig wybodaeth fanwl am eich maes astudio ond hefyd lu o sgiliau trosglwyddadwy y gallwch eu defnyddio mewn amryw o gyd-destunau gwaith neu academaidd eraill.

Dyma rai o'r cyfleoedd arbenigol sydd ar gael i fyfyrwyr Astudiaethau Llenyddol yn Aberystwyth:

- cyfle i ddysgu yng nghwmni ymchwilwyr sydd wedi ennill bri rhyngwladol am eu cyfraniadau at ddysg ac am ddatblygu'r ddisgyblaeth
- traddodiad cryf o ddysgu arbenigol ym meysydd llên menywod, daearyddiaeth lenyddol, llenyddiaeth i blant, llenyddiaeth Saesneg Cymru, llên LGBT+, llenyddiaeth ôl-drefedigaethol, drama'r Dadeni ac Astudiaethau Llenyddiaeth Ramantaidd
- hyblygrwydd i gyfuno'ch astudiaethau llenyddol ag ymarfer creadigol mewn meysydd sy'n cyd-fynd yn union â'r prif feysydd rydych yn canolbwyntio arnynt
- cyfleoedd i weithio gyda sefydliadau llenyddol a diwylliannol o bwys megis *New Welsh Review* – cylchgrawn llenyddol pennaf Cymru – a Chanolfan y Celfyddydau, Aberystwyth
- hawl i ddefnyddio Llyfrgell Genedlaethol Cymru, un o bum llyfrgell hawlfraint y Deyrnas Unedig
- cyfle i gyfrannu at ein blodeugerdd flynyddol fel aelod o'r tîm golygyddol sy'n paratoi'r flodeugerdd i gael ei chyhoeddi, neu fe allwch gyfrannu eich deunydd creadigol eich hun.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau craidd y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn:

- Research Skills.

Byddwch hefyd yn dewis o blith casgliad o fodiwlau eraill, sydd ar hyn o bryd yn cynnwys:

- Medieval Dreams and Marvels
- Romantic Radical Cultures
- Women, Fiction and Female Community, 1660-1792
- Writing Fiction: Methods and Techniques
- Writing Ireland, Writing Wales
- Writing Poetry: Rhymes and Reasons
- Postmodern Genres
- Post-war American Fiction
- Understanding Creativity
- Writing Fiction: Wider Explorations
- Writing and Publication.

I gael rhagor o fanylion a'r wybodaeth ddiweddaraf am ein modiwlau, ewch i'n gwefan.

## Ffeithiau allweddol

**Math o radd:** MA

**Cod y cwrs:** Q392

**Hyd:** 1 flwyddyn (amser llawn) neu 2 flynedd (rhan-amser)

**Gofynion mynediad:** Gradd Baglor (Anrhydedd) 2:2 dda neu gyfatebol mewn unrhyw bwnc, a phortffolio ysgrifenedig boddhaol. Caiff unigolion heb radd eu hystyried fesul un ar sail eu profiad gwaith perthnasol.

**Amser cyswllt:** Tua 10-14 awr yr wythnos yn y ddau semester cyntaf, yna bydd y myfyriwr a'r tiwtor yn cytuno rhyngddynt ar gyfnodau'r amser cyswllt.



# Ysgrifennu Creadigol

## MA

Bydd y cynllun hwn yn eich helpu i ddatblygu eich gweledigaeth greadigol a'ch gallu i ysgrifennu trwy gyfrwng rhaglen gytbwys o ddarllen, dadansoddi a gweithdai ysgrifennu.

Bydd ein darlithwyr yn eich cyflwyno i waith amrywiaeth o awduron a beirdd cyfoes, er mwyn ysgogi eich dull creadigol chi eich hun a'i ddatblygu i ffurf fwy aeddfed. Byddwch hefyd yn cyfrannu at drafodaethau am dechneg ac yn archwilio materion ehangach sy'n ymwneud ag ysgrifennu, a gwahanol fathau o gyhoeddi.

Mae elfen feirniadol gref yn rhan allweddol o'r cynllun, gan eich annog i fyfyrio ar eich arfer creadigol eich hun, yn ogystal ag arfer pobl eraill. Byddwch hefyd yn archwilio'r berthynas rhwng ymchwil ac ysgrifennu creadigol, a materion fel rôl yr asiant llenyddol a'r golygydd, a chynhyrchu a marchnata gwaith llenyddol. Yn olaf, byddwch yn crynhoi portffolio o waith ysgrifenedig, fydd yn adlewyrchu'r profiad o ymgysylltu parhaus, tymor hir gyda phrosiect ysgrifennu mawr.

Dyma rai o'r cyfleoedd arbenigol sydd ar gael i fyfyrwyr Ysgrifennu Creadigol yn Aberystwyth:

- cyfleoedd i ddysgu ochr yn ochr â thîm o awduron adnabyddus arobryn sy'n gweithio ar draws ystod eang y meysydd creadigol
- hyblygrwydd i gyfuno'ch ysgrifennu creadigol ag astudiaethau llenyddol mewn meysydd sy'n cyd-fynd yn union â'r prif feysydd rydych yn canolbwyntio arnynt
- cyfleoedd i fanteisio ar draddodiad cryf o ddysgu arbenigol ym meysydd barddoniaeth gyfoes, ffuglen trosedd, ysgrifennu bywgraffiadol, ffuglen hanesyddol, ffuglen wyddonol, ac ysgrifennu i'r llwyfan, y sgrin a'r radio
- cyfleoedd i weithio gyda sefydliadau llenyddol a diwylliannol o bwys megis New Welsh Review - cylchgrawn llenyddol pennaf Cymru - a Chanolfan y Celfyddydau, Aberystwyth
- mynediad digyfyngiad i Lyfrgell Genedlaethol Cymru - un o ddim ond pum llyfrgell hawlfraint y Deyrnas Unedig
- cyfle i gyfrannu'ch deunydd creadigol eich hun at ein blodeugerdd flynyddol, ac i weithio fel aelod o'r tîm golygyddol sy'n paratoi'r flodeugerdd i gael ei chyhoeddi.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau craidd y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn:

- Research Skills
- The Writing Portfolio
- Writing and Publication.

Byddwch hefyd yn dewis o blith casgliad o fodiwlau eraill, sydd ar hyn o bryd yn cynnwys:

- Medieval Dreams and Marvels
- Romantic Radical Cultures
- Women, Fiction and Female Community, 1660-1792
- Writing Fiction: Methods and Techniques
- Writing Ireland, Writing Wales
- Writing Poetry: Rhymes and Reasons
- Postmodern Genres
- Post-war American Fiction
- Understanding Creativity.

**The Writing Portfolio**

Yn datblygu arferion ysgrifennu cynaliadwy sy'n annog cynllunio, myfyrio, adolygu a chwblhau deunydd.

**Writing and Publication**

Bydd yn gwella'ch ymwybyddiaeth o fecanweithiau'r diwydiant cyhoeddi - y cyfleoedd y mae'r proffesiwn yn eu cynnig, a'r cyfyngiadau, gwaith yr asiant a'r golygydd yn y broses gyhoeddi a chyfrifoldebau'r awdur, yn enwedig o ran paratoi a chyflwyno deunydd.

I gael rhagor o fanylion a'r wybodaeth ddiweddaraf am ein modiwlau, ewch i'n gwefan.

## Ffeithiau allweddol

**Math o radd:** MA

**Cod y cwrs:** Q394

**Hyd:** 1 flwyddyn (amser llawn) neu 2 flynedd (rhan-amser)

**Gofynion mynediad:** Gradd Baglor (Anrhydedd) 2:2 dda neu gyfatebol mewn unrhyw bwnc, a phortffolio ysgrifenedig boddhaol. Caiff unigolion heb radd eu hystyried fesul un ar sail eu profiad gwaith perthnasol.

**Amser cyswllt:** Tua 10-14 awr yr wythnos yn y ddau semester cyntaf, yna bydd y myfyriwr a'r tiwtor yn cytuno rhyngddynt ar gyfnodau'r amser cyswllt.

# PhD

Rydym yn hapus i dderbyn ceisiadau am brosiectau ymchwil yn canolbwyntio ar astudiaethau llenyddol neu ysgrifennu creadigol. Mae'r Adran yn croesawu ymholiadau a cheisiadau gan fyfyrwyr sy'n dymuno dilyn PhD mewn unrhyw un o'r meysydd y mae aelodau'r staff yn arbenigo ynddynt.

Mae cryfderau ymchwil yr Adran yn cynnwys:

- llenyddiaeth ganoloesol
- llenyddiaeth yr adferiad a'r ddeunawfed ganrif
- llenyddiaeth ramantaidd
- llenyddiaeth Fictoraidd
- llenyddiaeth America y 19eg a 20fed ganrif
- moderniaeth
- ôl-foderniaeth
- barddoniaeth a ffuglen gyfoes
- ysgrifennu gan fenywod
- llenyddiaeth plant
- llenyddiaeth Saesneg o Gymru
- llenyddiaeth Iwerddon
- daearyddiaeth lenyddol
- llenyddiaeth Gothig a storïau ysbrydion
- llenyddiaeth drefedigaethol (yn enwedig llenyddiaeth Affrica)
- llenyddiaeth genhedlig America
- damcaniaethau llên (yn benodol ecofeirniadaeth, astudiaethau rhywedd, llên hoyw, Marcsaeth, hanesiaeth newydd, seicdreiddio, ôl-strwythuriaeth, ôl-drefedigaethedd).

Dyfernir PhD ar ôl cwblhau traethawd hir boddhaol oddeutu 80-100,000 o eiriau, gydag arholiad viva voce i ddilyn. Y cyfnod cofrestru arferol yw tair blynedd (amser llawn), a disgwylir y bydd y traethawd hir yn cael ei gyflwyno ymhen pedair blynedd ar ôl cofrestru.

Rhoddir dau arolygydd i bob myfyriwr ymchwil, a bydd yr arolygwyr hyn yn cynnig cefnogaeth a chyngor ar bob cam o'r prosiect ymchwil. Bydd y prif arolygydd yn gweithio'n agos iawn gyda'r myfyriwr, a bydd yn arbenigwr yn y maes ymchwil a ddewiswyd.

Yn ymgeisydd amser llawn am ddoethuriaeth, bydd disgwyl ichi gymryd modiwlau sgiliau ymchwil a datblygiad proffesiynol yn ystod eich blwyddyn gyntaf, a chynigir hefyd fwy o gyfleodd hyfforddiant ym mlynyddoedd dilynol eich cofrestriad. Dan arweiniad eich arolygwyr, disgwylir ichi ddatblygu sgiliau aeddfed wrth drin prosiect estynedig sy'n gwneud cyfraniad gwreiddiol i'r dewis faes astudio ac yn dangos agwedd drylwyr tuag at ysgolheictod.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i'n gwefan neu cysylltwch â ni.




# Ein hymchwil

Mae ein staff yn cyhoeddi mewn amryw helaeth o feysydd astudiaethau llenyddol ac ysgrifennu creadigol, ac maent ar flaen y gad yn eu disgyblaethau a'u hymarfer. Mae dysgu a goruchwylio yn yr Adran dan ddylanwad trwm ymchwil, ac mae cyfres lewyrchus o seminarau ymchwil yn rhoi cyfle i fyfyrwyr glywed staff, siaradwyr gwadd a myfyrwyr ymchwil yn trafod eu gwaith yn anffurfiol, neu i gyflwyno papurau yn seiliedig ar waith sydd ar y gweill.

Mae'r Adran yn gweinyddu'r *New Welsh Review* – cylchgrawn llenyddol enwocaf Cymru, sy'n cynnig cyfle am leoliadau gwaith a mentrau ac interniaethau mewn dewis helaeth o waith cyhoeddi, golygu a gweinyddu. Mae ein myfyrwyr hefyd yn cael cyfleoedd i gyhoeddi eu gwaith creadigol eu hunain ac i greu cynnwys i lwyfannau ar-lein y *New Welsh Review*. Mae aelodau o staff hefyd yn weithgar fel golygyddion yr *International Journal of Welsh Writing in English*. Dyma'r cyfnodolyn amlycaf yn y maes, ac mae gweithio ochr yn ochr â'r tîm golygyddol yn gyfle gwerthfawr ac unigryw i'n myfyrwyr i gael blas ar fyd cyhoeddi academaidd.

Mae sawl canolfan ymchwil yn yr Adran ac mae ganddi gysylltiadau agos â chlystyrau ymchwil amlddisgyblaethol sy'n dod â rhwydweithiau o academyddion ynghyd o brifysgolion ledled y DU a thu hwnt:

**ContemPo**
Mae'r ganolfan ymchwil gydweithredol ryngwladol hon yn dwyn ynghyd Adrannau Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol prifysgolion Aberystwyth, Bangor a Brighton i archwilio barddas a barddoniaeth gyfoes. Ei bwriad yw meithrin gwybodaeth am arferion barddonol cyfoes, am y rhyngwynebu rhwng y gair a'r gweledol, ac archwilio'r gwahaniaethau rhwng defnyddio ffurfiau traddodiadol ac arbrofol. Mae ContemPo yn cynnal gweithgareddau beirniadol a chreadigol trwy gyfrwng cyfres reolaidd o seminarau a digwyddiadau barddoniaeth gyfoes drwy gyswllt fideo. Mae'r prosiect 'Devolved Voices' ar farddoniaeth Saesneg yng Nghymru ers 1997, sy'n cael ei redeg o'r Adran a'i gefnogi gan grant prosiect tair blynedd gan Ymddiriedolaeth Leverhulme (2012 hyd 2015), yn gysylltiedig â ContemPo.

**Canolfan David Jones**
Lansiwyd y Ganolfan ym mis Medi 2012, ac mae'n ganolbwynt rhyngwladol ar gyfer ymchwil ac ymarfer ym maes "gair a delwedd" ac am ymchwil i foderniaeth yng Nghymru a thu hwnt. Mae'n adlewyrchu synergeddau ymchwil cryf yr Adran ac mae'n trefnu cynhadledd flynyddol a gynhelir yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Ym mis Ebrill 2017, cynhaliodd y Ganolfan ddigwyddiad i lansio bywgraffiad nodedig David Jones gan yr Athro Thomas Dilworth, y mae ei waith yn rhoi sylw i foderniaeth Gymreig, sy'n faes sydd wedi'i esgeuluso, ac yn rhoi sylw hefyd i'r potensial aruthrol ar gyfer ymchwil yn archifau Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

**Sefydliad Astudiaethau Canoloesol a Modern Cynnar**
Mae'r Sefydliad yn rhan o'r bartneriaeth ymchwil a menter rhwng prifysgolion Aberystwyth a Bangor, ac mae'n sefydliad ymchwil gydweithredol amlddisgyblaeth o safon fyd-eang. Mae'r Sefydliad yn canolbwyntio ar astudio'r cyfnod rhwng 500 a 1800 ac ar newid y modd y gwneir gwaith ymchwil yn y celfyddydau a'r dyniaethau.

O'i gartref yng Nghymru, mae'r Sefydliad yn creu cyswllt ag ysgolheigion ledled y byd, gan ddefnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf i gefnogi ffyrdd newydd o gydweithredu. Serch hynny, mae'r Sefydliad yn cydnabod yr angen i ymchwilwyr gwrdd wyneb-yn-wyneb ac mae ganddo raglen o gynadleddau, gweithdai a chyd-drafodaethau sy'n denu ysgolheigion o bedwar ban byd.



## Yr Adran

# Seicoleg

Yma cewch eich dysgu gan ymchwilwyr gweithgar, mewn Adran yn cael eu hachredu gan Gymdeithas Seicoleg Prydain. Mae'r achrediad yn nod ansawdd a gydnabyddir yn eang gan gyflogwyr yn y maes proffesiynol ac sy'n rhoi'r cyfle i'n graddedigion i gael aelodaeth siartredig o'r Gymdeithas a/neu aelodaeth fel myfyriwr graddedig

Mae ein harbenigedd ymchwil mewn meysydd sy'n amrywio o iechyd gwledig, seicoleg ymarfer corff ac iechyd, seicoleg ddatblygiadol, iechyd y meddwl, seicoleg esblygiadol, canfyddiad, seicoleg gymdeithasol a beirniadol, i seicoleg cerddoriaeth, iaith a dwyieithrwydd, seicoleg fiolegol a rhywedd, ymhlith eraill.

## Graddau a ddysgir

Newid i Ymddygiad t.166

## Graddau ymchwil

MPhil, PhD, DProf t.167

# Newid i Ymddygiad

## MSc

Er mwyn gallu sicrhau newid cadarnhaol er budd cymdeithas a'r amgylchedd, yn gyntaf mae'n rhaid deall pam fod pobl yn ymddwyn fel y maen nhw, yn unigol ac fel grwpiau a sefydliadau. O ystyried yr heriau cenedlaethol a byd-eang a wynebir ar hyn o bryd ym meysydd gwleidyddiaeth, yr amgylchedd, iechyd, addysg a sectorau eraill, ni fu hyn erioed yn bwysicach.

Yn gyntaf cewch eich cyflwyno i seicoleg ymddygiad dynol a mecanweithiau newid ymddygiad o nifer o safbwyntiau seicolegol (yn cynnwys canghennau seicoleg esblygol, wybyddol, gymdeithasol, fiolegol a datblygiadol) cyn ichi fynd ar drywydd y pynciau sy'n eich diddori. Bydd eich modiwlau dewisol a'r traethawd hir yn adlewyrchu eich disgyblaeth arbenigol (dewiswch o blith Daearyddiaeth, Seicoleg, Busnes neu Gysylltiadau Rhyngwladol).

Byddwch yn cynllunio datrysiadau arloesol, ar sail tystiolaeth, fydd yn wynebu heriau newid ymddygiad a geir mewn cyd-destunau proffesiynol a byd real, a dysgu sut i gyfleu'r syniadau hyn i gynulleidfaoedd o arbenigwyr a rhai nad ydynt yn arbenigwyr.

Dyma'r cyfleoedd arbenigol sydd ar gael i fyfyrwyr Newid Ymddygiad yn Aberystwyth:

- sylfaen seicolegol gref mewn newid ymddygiad yn ogystal â sylfaen gymdeithasegol gynhwysfawr
- hyfforddiant mewn dulliau ymchwil meintiol ac ansoddol
- opsiynau niferus ar gyfer asesiadau a thraethodau yn seiliedig ar heriau ymddygiadol a osodir gan brofiadau rhanddeiliaid
- gwaith trawsddisgyblaethol fydd yn hwyluso croes-beillio safbwyntiau unigol o ddisgyblaethau gwahanol y myfyrwyr
- darlithwyr gwadd o bartneriaid cydweithio allanol fel Iechyd Cyhoeddus Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, Dŵr Cymru, busnesau lleol a Llywodraeth Cymru.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau craidd y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn:

- The Psychology of Behaviour Change
- Transdisciplinary Dialogue
- Research with People
- Risk, Resilience and Behaviour in a Changing Environment.

**The Psychology of Behaviour Change**
Bydd yn sicrhau y cewch ddealltwriaeth drylwyr o sylfeini seicolegol ymddygiad a thechnegau newid.

**Transdisciplinary Dialogue**
Daw â myfyrwyr o gefndiroedd disgyblaethol amrywiol at ei gilydd i rannu cyfres o dasgau datrys problemau; sefydlir pwysigrwydd dialog trawsddisgyblaethol ar gyfer cyd-greu datrysiadau uchel eu heffaith mewn systemau cymhleth yn ddamcaniaethol ac ar sail profiad.

**Research with People**
Bydd yn sicrhau sylfaen drylwyr o egwyddorion ymchwil i newid ymddygiad. Telir sylw arbennig i natur drawsddisgyblaethol newid ymddygiad a'r sgiliau sydd eu hangen i lwyddo mewn lleoliadau ymchwil cymhleth.

**Risk, Resilience and Behaviour in a Changing Environment**
Mae'n archwilio twf gwydnwch a dealltwriaeth ymddygiadol fel offerynnau polisi ac yn ystyried eu potensial a'u cyfyngiadau ar gyfer rheoli newid amgylcheddol-gymdeithasol.

I gael rhagor o fanylion a'r wybodaeth ddiweddaraf, ewch i'n gwefan.

## Ffeithiau allweddol

**Math o radd:** MSc

**Cod y cwrs:** C801

**Hyd:** 1 flwyddyn (amser llawn) neu 2 flynedd (rhan-amser)

**Gofynion mynediad:** Gradd Baglor (Anrhydedd) 2:1 dda neu gyfatebol, a phortffolio boddhaol. Caiff unigolion heb radd eu hystyried fesul un ar sail eu profiad gwaith perthnasol.

**Amser cyswllt:** Tua 10-14 awr yr wythnos yn y ddau semester cyntaf, yna bydd y myfyriwr a'r tiwtor yn cytuno rhyngddynt ar gyfnodau'r amser cyswllt.



# MPhil, PhD, DProf

Cewch astudio ar gyfer gradd MPhil, PhD neu DProf yn yr Adran ac fe gewch ddatblygu arbenigedd mewn maes seicoleg sy'n berthnasol i'r math o yrfa sydd o ddiddordeb i chi.

## MPhil a PhD

Mae'r rhain yn canolbwyntio ar brosiectau ymchwil sydd yn astudiaethau manwl iawn mewn maes penodol sy'n cyd-daro â diddordebau ymchwil y Brifysgol. Mae'r gwaith a gynhyrchir yn waith gwreiddiol a gellir ei gyhoeddi, ac mae canlyniadau'r ymchwil yn cael eu cyflwyno mewn traethawd ymchwil a thrwy arholiad llafar.

Cwrs blwyddyn yw'r MPhil (neu ddwy flynedd rhan-amser) lle bydd disgwyl i chi ysgrifennu traethawd hir hyd at 60,000 o eiriau (yn dibynnu ar y pwnc a natur y prosiect). Byddwch yn gweithio o dan gyfarwyddyd un neu ragor o oruchwylwyr ond ni fydd disgwyl ichi fynychu dosbarthiadau. Dyfernir PhD ar ôl cwblhau traethawd hir boddhaol hyd at 80-100,000 o eiriau (yn dibynnu ar y pwnc a natur y prosiect), gydag arholiad viva voce i ddilyn. Y cyfnod cofrestru arferol yw tair blynedd (amser llawn), a disgwylir y bydd y traethawd hir yn cael ei gyflwyno ymhen pedair blynedd o gofrestru.

## DProf

Mae'r ddoethuriaeth broffesiynol, neu DProf, yn fwy addas i'r rheiny sy'n dilyn gyrfa broffesiynol yn hytrach nag un academaidd, ac fe'i chynllunir i ganiatáu i unigolion proffesiynol cymwys astudio am ddoethuriaeth tra'n dal i weithio. Dyfernir DProf i gydnabod bod unigolyn wedi cwblhau rhaglen o astudio cydnabyddedig a ddysgir yn llwyddiannus, ynghyd â darn o waith ymchwil uwch. Mae'r elfen o gydweithio a geir yn y prosiect ymchwil sy'n seiliedig ar waith yn gyfle gwych i sefydlu gwybodaeth newydd yn y gweithle ac i sicrhau bod eich ymchwil yn berthnasol i ddiwydiant.

Yn uwchraddedgion seicoleg byddwch yn gallu gweithio ym maes ymchwil neu yn y byd academaidd, neu mewn meysydd ymarferol megis iechyd meddwl, amddiffyn plant, hybu iechyd, dylunio cynnyrch neu seicoleg trefniadaeth, yn dibynnu ar yr elfennau y byddwch wedi eu hastudio.

Yma yn yr Adran Seicoleg, rydym yn cynnwys adnoddau dysgu ac ymchwil o'r radd flaenaf, sy'n cynnwys llwybrwr llygad, ystafell diffyg synhwyraidd, labordy mesuriadau biolegol, ystafell ymchwil ansoddol, ystafelloedd trawsgrifio, cuddyglau ymchwil arbrofol, cyfleusterau golygu fideo o safon uchel, cyfleusterau EEG, ac ystafell gyfrifiaduron benodol.

Mae ein huwchraddedigion wedi'u lleoli yng Nghanolfan Uwchraddedigion yr Adran, lle ceir cyfrifiaduron ac adnoddau storio penodol. Bydd disgwyl i chi adolygu eich anghenion hyfforddi gyda goruchwylwyr yn rheolaidd, a gallai hynny gynnwys hyfforddiant mewn dulliau, ymchwil glinigol, a/neu fynychu cynadleddau.

Yn ddiweddar cwblhawyd y prosiectau MPhil a PhD canlynol gan ein myfyrwyr ôl-raddedig:

- deall beth sy'n ysgogi pobol sydd â chlefyd rhwystrol cronig ar yr ysgyfaint i hunan-reoli eu cyflwr a'u hansawdd bywyd: o safbwynt theori hunanbenderfyniad
- y swyddogaeth y mae statws proffesiynol yn ei chwarae wrth gyfryngu profiadau menywod o Nigeria sy'n gweithio i'r GIG: Dull rhyngddisgyblaethol
- cydweithredu ar geisiadau estynedig mewn ymgynghoriadau telefeddygol a therapi iaith a lleferedd, a sut mae'r ceisiadau hynny'n cael eu bodloni.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i'n gwefan neu cysylltwch â ni.

# Ein hymchwil

Mae gan yr Adran gymuned ymchwil fywiog, ac mae'r gwaith ar hyn o bryd yn amrywio o waith yn y gymuned mewn iechyd cyhoeddus i asesu risg ym maes cyfiawnder ieuenctid. Mae ymchwilwyr yn yr Adran wedi cyflawni ar werth dros £1m o brosiectau wedi'u cyllido â grantiau. Ymhlith y rhai sy'n darparu cyllid mae'r Academi Brydeinig, y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, y Swyddfa Gartref, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, Cyngor Ymchwil Gwyddorau Cymdeithasol a Dyniaethau Canada a'r Comisiwn Ewropeaidd. Mae gan yr Adran gysylltiadau ymchwil hen a newydd â sefydliadau'n amrywio o'r GIG, Swyddfa Cydraddoldeb y Llywodraeth, a Heddlu Dyfed-Powys, i gwmnïau masnachol fel Coca Cola, a Technogym.

Mae pob aelod o'r Adran wrthi'n ymchwilio ar draws croes-doriad eang o ddiddordebau mewn meysydd damcaniaethol a chymwysedig gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau ymchwil. Mae gan yr Adran gryfderau penodol ym maes cymhwyso seicoleg i iechyd a meddygaeth; seicoleg gymdeithasol a beirniadol; seicoleg droseddol a fforensig; a pherfformiad dynol. Mae ganddi ddiwylliant o waith arloesol a chydweithredol sy'n meithrin ymchwil rhyngddisgyblaethol.

Mae diddordebau ymchwil y staff yn perthyn i dair prif glwstwr ymchwil:

## Iaith a dysgu

Mae'r clwstwr iaith yn astudio iaith, niwroieithyddiaeth gwybyddol, cymwysiadau iaith, materion yn gysylltiedig â datblygu iaith a dysgu iaith. Mae eu hymchwil hefyd yn edrych ar y gwahaniaethu rhwng ieithoedd ac effaith seicolegol bod yn ddwyieithog.

## Iechyd a lles

Mae'r clwstwr ymchwil hwn yn canolbwyntio ar nifer o agweddau'n gysylltiedig ag iechyd a lles. Mae ymchwilwyr y clwstwr yn nodi ffactorau a thechnegau sy'n gwella, yn hyrwyddo neu'n diogelu iechyd meddwl mewn poblogaethau clinigol ac anghlinigol; maent yn astudio'r ddeinameg rhwng rhanddeiliaid iechyd; ac yn astudio effaith polisïau iechyd ar y ffordd y mae pobl yn gwneud synnwyr o'u hiechyd a'r posibiliadau a ddaw yn sgil technolegau digidol. Mae'r grŵp hefyd yn gysylltiedig â'r Ganolfan Iechyd Gwledig.

## Seicoleg Esblygol a fforensig

Clwstwr yw hwn sy'n canolbwyntio ar faterion cymdeithasol a seicolegol cyfoes trwy fframweithiau seicometrig ac esblygol. Mae eu gwaith yn canolbwyntio ar nifer o faterion pwysig, gan gynnwys ymddygiad troseddol, ysmygu, gor-gasglu, a hiwmor.

Mae gwaith y Ganolfan Seicoleg Feirniadol (CC-Psy) yn canolbwyntio ar seicoleg mewn cymdeithas. Mae ganddynt ddiddordeb yn y ffordd y mae syniadau am yr hyn yw bod yn unigolyn da neu byw bywyd da yn cylchredeg ac yn creu sail i'r ffordd mae pobl yn dod i'w deall eu hunain a'u hymddygiad. Mae Seicoleg Feirniadol hefyd yn canolbwyntio ar y ffordd mae seicoleg yn cael ei defnyddio gan y llywodraeth a chan sefydliadau iechyd ac addysg, a goblygiadau hynny wrth i bobl dderbyn y syniadau i wneud synnwyr ohonynt eu hunain.

Mae gan yr Adran gysylltiad â Chanolfan Rhagoriaeth mewn Ymchwil Iechyd Gwledig y Brifysgol, sy'n cyfuno pedair adran - Seicoleg, Cyfrifiadureg, Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear, ac Athrofa'r Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig (IBERS). Gan weithio ar y cyd â Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, Grŵp Cydweithredol Gofal Iechyd y Canolbarth, yn ogystal â rhanddeiliaid eraill, mae'r Ganolfan yn adeiladu ar yr arbenigedd cyfredol ym Mhrifysgol Aberystwyth er mwyn ystyried sut mae ymagwedd ryngddisgyblaethol yn gallu ein cefnogi i ddeall a darparu gofal iechyd o safon uchel i ddiwallu anghenion cymunedau gwledig.





Adran

# Y Gyfraith a Throseddeg

Sefydlwyd Adran y Gyfraith a Throseddeg ym 1901, ac mae ganddi brofiad hir, parchus a chynyddol amrywiol ym maes addysg a gwaith academaidd. Mae'r Adran yn ymroddedig i bolisi o arloesedd a datblygiad mewn addysgu ac ymchwil, a'i nod yw cynyddu dewis yn ei darpariaeth addysg gan sicrhau y caiff addysgu ei lywio gan ysgolheictod cyfredol ar y lefel uchaf. Yn Aberystwyth, mae modd i chi ddewis hefyd rhwng astudio ar y campws neu o bell ar gyfer pob un o'n rhaglenni LLM.

Mae ein staff yn ymchwilwyr gweithgar, ac mae llawer ohonynt yn cymryd rhan mewn trafodaethau a gwaith llunio polisi cenedlaethol a rhyngwladol. Mae hyn yn cynnwys gweithio gyda'r Undeb Ewropeaidd, y Cenhedloedd Unedig, llywodraethau cenedlaethol a chorfforaethau.

## Graddau a ddysgir a Dysgu o bell


| | |
|---|---|
| Cyfiawnder Ieuenctid, MSc | t.172 |
| Cyfraith Fasnachol Ryngwladol, LLM | t.173 |
| Hawliau Dynol a Chyfraith Ddyngarol, LLM | t.174 |
| Troseddeg a Chyfiawnder Troseddol, MA, MSc | t.175 |
| Y Gyfraith, LLM | t.176 |


## Graddau ymchwil


| | |
|---|---|
| LLM, MPhil, PhD, DProf | t.177 |






# Cyfiawnder Ieuenctid

## MSc

Mae MSc Cyfiawnder Ieuenctid yn cynnig cyfle unigryw i astudio'r system cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru a Lloegr. Byddwch yn dilyn safbwynt pendant a beirniadol wrth astudio materion sy'n berthnasol i Gymru a Lloegr ac yn cael cymorth i ddod yn ymchwilydd ac ysgrifennwr annibynnol ym maes cyfiawnder ieuenctid.

Wrth ystyried yr ymchwil beirniadol presennol sy'n dod i'r amlwg ym maes cyfiawnder ieuenctid, byddwch yn datblygu dealltwriaeth soffistigedig o'r polisïau a'r deddfwriaethau presennol a'u datblygiad hanesyddol. Byddwch yn edrych ar y sefyllfa bresennol a'r newidiadau sy'n datblygu'n gyflym i gysyniadau ynglŷn â 'phlant' a'r ffordd y maent yn cael eu trin o fewn a thu hwnt i systemau presennol. Byddwch hefyd yn cael cyfle i gymryd rhan mewn dadansoddiad cymharol o'r dulliau a ddefnyddir mewn awdurdodaethau eraill er mwyn rhoi beirniadaeth bellach o'r darlun presennol a'r darlun sy'n datblygu yng Nghymru ac yn Lloegr, a gwerthuso effaith ymchwil ar ymarfer ac ar bolisïau.

Dyma rai o'r profiadau sydd ar gael i fyfyrwyr Cyfiawnder Ieuenctid yn Aberystwyth:

- ystod eang o fodiwlau ar bynciau'r gyfraith a throseddeg
- cael eich dysgu gan ddarlithwyr brwdfrydig, nifer ohonynt yn enwog ym maes eu harbenigedd.

**Cyflogadwyedd**
Bydd y rhai sy'n graddio yn y cynllun hwn yn gadael gyda'r wybodaeth a'r gallu proffesiynol i ymarfer, ystyried, adolygu a datblygu ar arbenigedd a barn ddisgyblaethol yn annibynnol. Byddwch hefyd yn datblygu arferion gwaith moesegol, sgiliau dadansoddi beirniadol, sgiliau ymchwil a sgiliau cyflwyno a fydd yn eich galluogi i rannu eich arbenigedd troseddegol dan amgylchiadau academaidd a phroffesiynol.

Mae cyfleoedd gyrfa i raddedigion yn cynnwys:

- adrannau yn y llywodraeth ac asiantaethau cyfiawnder troseddol
- sefydliadau gwirfoddol/sefydliadau anllywodraethol ym maes troseddu a chyfiawnder
- sefydliadau rhyngwladol megis y Cenhedloedd Unedig
- gwaith ymchwil ac academaidd.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau craidd y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn:

- Critical Youth Justice
- International Comparative Youth Justice
- Principles of Research Design
- Qualitative Data Collection and Analysis.

Byddwch hefyd yn dewis o blith casgliad o fodiwlau eraill, sydd ar hyn o bryd yn cynnwys:

- Arts, Antiques and Heritage Crime Around the World
- Criminological Theory and Perspectives
- International Criminal Law
- International Environmental Law
- Understanding and Investigating Serious Crime
- International Perspectives of Green Criminology
- Law and Gender
- Migration and Asylum Law
- Miscarriages of Justice
- Philosophy and Sociology of Human Rights Protection.

I gael rhagor o fanylion a'r wybodaeth ddiweddaraf am ein modiwlau, ewch i'n gwefan.

## Ffeithiau allweddol

**Math o radd:** MSc

**Cod y cwrs:** M985

**Hyd:** 1 flwyddyn (amser llawn) neu 2 flynedd (rhan-amser)

**Gofynion mynediad:** Gradd Baglor (Anrhydedd) 2:2 dda neu gyfatebol mewn maes pwnc perthnasol.

**Amser cyswllt:** Tua 10-14 awr yr wythnos yn y ddau semester cyntaf, yna bydd y myfyriwr a'r tiwtor yn cytuno rhyngddynt ar gyfnodau'r amser cyswllt.



# Cyfraith Fasnachol Ryngwladol

## LLM

Mae'r radd hon yn cynnig gradd academaidd gadarn a phroffesiynol, a fydd yn gosod sylfaen gadarn yn y farchnad fyd-eang bresennol.

Erbyn i chi gwblhau'r cwrs hwn, byddwch yn meddu ar wybodaeth broffesiynol am gyfraith fusnes ryngwladol a fydd yn adlewyrchu'r amgylchedd newidiol a realiti'r economi fyd-eang bresennol. Ar y cwrs hwn, rydym yn darparu'r sgiliau a'r wybodaeth fyddai eu hangen arnoch mewn unrhyw yrfa lefel uchel mewn amgylchedd cyfreithiol, p'un a ydyw mewn cwmni cyfreithiol rhyngwladol, sefydliad llywodraethol neu gwmni preifat.

Dyma rai o'r cyfleoedd sydd ar gael i fyfyrwyr Cyfraith Fasnachol Ryngwladol yn Aberystwyth:

- astudio cyfuniad o gyfraith fasnachol a chyfraith TG
- pwyslais ar sawl agwedd reoleiddiol ar weithgarwch masnachol byd-eang
- archwilio'r gorgyffwrdd rhwng cyfraith fasnachol a hawliau dynol.

**Cyflogadwyedd**
Trwy gyfuno agweddau damcaniaethol ac ymarferol, mae cynnwys y cwrs hwn yn cwmpasu meysydd twf y dyfodol yn ogystal â phynciau a sgiliau sy'n draddodiadol bwysig. Mae'r cwrs hefyd yn anelu i roi gwybodaeth ynglŷn â rheolau cyfreithiol sy'n berthnasol i faes busnes gan roi pwyslais ar oblygiadau ymarferol y rheolau a'r cyd-destun economaidd a gwleidyddol y deilliodd y rheolau ohonynt.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau craidd y byddwch o bosibl yn eu hastudio ar y cwrs hwn:

- Legal Studies
- Dissertation.

Byddwch hefyd yn dewis o blith casgliad o fodiwlau eraill, sydd ar hyn o bryd yn cynnwys:

- Aspects of Commercial Contracting
- International Commercial Law
- International Criminal Law
- International Environmental Law
- International Human Rights Law
- International Humanitarian Law
- International Trade Law
- Law and Gender
- Migration and Asylum Law
- Negotiated Study Module
- Philosophy and Sociology of Human Rights Protection.

I gael rhagor o fanylion a'r wybodaeth ddiweddaraf am ein modiwlau, ewch i'n gwefan.

## Ffeithiau allweddol

**Math o radd:** LLM

**Cod y cwrs:** M190, M190D (Dysgu o bell)

**Hyd:** 1 flwyddyn (amser llawn) neu 2 flynedd (rhan-amser) neu 2-5 mlynedd (dysgu o bell)

**Gofynion mynediad:** Gradd Baglor (Anrhydedd) 2:2 yn y Gyfraith neu gyfatebol, neu radd Baglor (Anrhydedd) 2:2 dda yn un o'r gwyddorau cymdeithasol perthnasol neu gyfatebol.

**Amser cyswllt:** Tua 10-14 awr yr wythnos yn y ddau semester cyntaf, yna bydd y myfyriwr a'r tiwtor yn cytuno rhyngddynt ar gyfnodau'r amser cyswllt.

# Hawliau Dynol a Chyfraith Ddyngarol

## LLM

Mae'r radd hon yn cynnig cyfle i ymgysylltu â dwy ddisgyblaeth unigryw sy'n cyd-fynd â'i gilydd sef cyfraith hawliau dynol a chyfraith ddyngarol, ac i astudio maes o'r gyfraith sydd ag arwyddocâd cyfoes heddiw a pherthnasedd ymarferol.

Drwy astudio'r cwrs hwn, byddwch yn ymdrin â phynciau traddodiadol ynghyd â materion newydd sy'n dod i'r amlwg, megis rheoleiddio cymdeithas ryngwladol a mecanweithiau cyfreithiol hawliau dynol yn ystod gwrthdaro arfog sy'n rhyngwladol neu nad yw'n rhyngwladol. Bydd eich astudiaeth yn adlewyrchu elfennau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol y pwnc cymhleth hwn.

Mae'r cwrs hwn yn cydbwyso'r academaidd gyda'r ymarferol a'r brys – er enghraifft, cyfuno manylion deddfwriaeth hawliau dynol sy'n angenrheidiol gynhwysfawr mewn gwrthdaro, gyda realiti cras y bygythiadau i hawliau dynol a'r gwrthdaro a'r tensiynau yn y system diogelu hawliau dynol.

Dyma rai o'r profiadau sydd ar gael i fyfyrwyr Hawliau Dynol a Chyfraith Ddyngarol yn Aberystwyth:

- arbenigedd cryf mewn hawliau dynol
- ystod eang o fodiwlau ar bynciau hawliau dynol a chyfraith ddyngarol
- cymysgedd o astudio ymarferol a damcaniaethol.

**Cyflogadwyedd**

Bydd y cwrs hwn yn un arbennig o ddeniadol i rai sy'n ystyried gyrfa mewn adrannau llywodraeth, melinau trafod, mudiadau rhyngwladol, eirioli dyngarol a hawliau dynol, sefydliadau busnes, cwmnïau cyfreithiol rhyngwladol, a phob math o gyrff anllywodraethol.

## Modiwlau

Ar y cwrs yma, byddwch yn astudio'r modiwlau canlynol:

- Legal Studies
- Dissertation.

Byddwch hefyd yn dewis o blith casgliad o fodiwlau eraill, sydd ar hyn o bryd yn cynnwys:

- Aspects of Commercial Contracting
- International Commercial Law
- International Criminal Law
- International Environmental Law
- International Human Rights Law
- International Humanitarian Law
- International Trade Law
- Law and Gender
- Migration and Asylum Law
- Negotiated Study Module
- Philosophy and Sociology of Human Rights Protection.

I gael rhagor o fanylion a'r wybodaeth ddiweddaraf am y modiwlau, ewch i'n gwefan.

## Ffeithiau allweddol

**Math o radd:** LLM

**Cod y cwrs:** M198, M198D (Dysgu o bell)

**Hyd:** 1 flwyddyn (amser llawn) neu 2 flynedd (rhan-amser) neu 2-5 mlynedd (dysgu o bell)

**Gofynion mynediad:** Gradd Baglor (Anrhydedd) 2:2 yn y Gyfraith neu gyfatebol, neu radd Baglor (Anrhydedd) 2:2 dda yn un o'r gwyddorau cymdeithasol perthnasol. neu gyfatebol.

**Amser cyswllt:** Tua 10-14 awr yr wythnos yn y ddau semester cyntaf, yna bydd y myfyriwr a'r tiwtor yn cytuno rhyngddynt ar gyfnodau'r amser cyswllt.



# Troseddeg a Chyfiawnder Troseddol

## MA, MSc

Mae Prifysgol Aberystwyth yn cynnig dwy radd Troseddeg a Chyfiawnder Troseddol ar lefel Meistr – MA ac MSc. Bydd y ddau lwybr yn rhoi ichi sgiliau cynllunio ymchwil sylfaenol a dealltwriaeth feirniadol o sylfeini damcaniaethol ymchwil a sut y'i defnyddir ym meysydd Troseddeg a'r Gyfraith.

Mae MA Troseddeg a Chyfiawnder Troseddol yn edrych ar droseddeg a meysydd pynciau cysylltiedig o safbwynt llenyddol. Bydd hyn yn rhoi dealltwriaeth drylwyr i chi o ystod eang o feysydd cyfoes cysylltiedig â throseddeg, gan gynnwys polisïau ac arferion cyfiawnder troseddol. Byddwch yn datblygu dealltwriaeth feirniadol o ddamcaniaethau pwysicaf ymddygiad troseddol, yn asesu eu perthnasedd yn y cyfnod hwn a dadansoddi eu goblygiadau ar gyfer rheoli troseddau. Mae'r MA yn arbennig o addas i fyfyrwyr nad oes ganddynt gefndir yn y gwyddorau cymdeithasol, ond bydd hefyd yn gyfle i raddedigion troseddeg neu fyfyrwyr o ddisgyblaethau cysylltiedig gyfoethogi a datblygu eu haddysg yn y maes.

Mae MSc Troseddeg a Chyfiawnder Troseddol yn rhoi cyfle i chi ddatblygu dealltwriaeth ddadansoddol uwch o ddamcaniaeth droseddegol a phrosesau a chanlyniadau cyfiawnder troseddol. Mae'n hybu ac yn cynyddu ymwybyddiaeth feirniadol o ddulliau ymchwil y gwyddorau cymdeithasol a'r sgiliau a ddefnyddir i wneud gwaith ymchwil ar droseddu, anhrefn a mynd yn groes i'r normau cymdeithasol yn y byd go iawn. Mae'r MSc yn rhaglen gyffrous a heriol sy'n golygu dysgu dwys mewn grwpiau bychan. Caiff grwpiau eu goruchwylio gan arbenigwyr yn y pwnc a'r maes. Mae'r rhaglen yn addas i raddedigion troseddeg neu i fyfyrwyr o ddisgyblaeth gysylltiedig.

**Cyflogadwyedd**

Bydd y rhai sy'n graddio yn y cynllun hwn yn gadael gyda'r wybodaeth a'r gallu proffesiynol i ymarfer, ystyried, adolygu a datblygu ar arbenigedd a barn ddisgyblaethol yn annibynnol. Byddwch hefyd yn datblygu arferion gwaith moesegol, sgiliau dadansoddi beirniadol, sgiliau ymchwil a sgiliau cyflwyno a fydd yn eich galluogi i rannu eich arbenigedd troseddegol dan amgylchiadau academaidd a phroffesiynol. Mae cyfleoedd gyrfa i raddedigion yn cynnwys (ymhlith gyrfaoedd eraill) adrannau yn y llywodraeth ac asiantaethau cyfiawnder troseddol, sefydliadau gwirfoddol/ sefydliadau anllywodraethol ym maes troseddu a chyfiawnder, sefydliadau rhyngwladol megis y Cenhedloedd Unedig a gwaith ymchwil ac academaidd.

## Modiwlau

Bydd myfyrwyr ar y cwrs MA a'r cwrs MSc yn astudio Principles of Research Design fel modiwl craidd ynghyd ag eraill (yn dibynnu ar y llwybr a ddewisir).

Byddwch hefyd yn dewis o blith casgliad o fodiwlau eraill, sydd ar hyn o bryd yn cynnwys (yn dibynnu ar y llwybr a ddewisir):

- Arts, Antiques and Heritage Crime Around the World
- Criminological Theory and Perspectives
- Critical Youth Justice
- International Comparative Youth Justice
- International Criminal Law
- International Environmental Law
- International Perspectives of Green Criminology
- Law and Gender
- Migration and Asylum Law
- Miscarriages of Justice
- Philosophy and Sociology of Human Rights Protection
- Understanding and Investigating Serious Crime.

I gael rhagor o fanylion a'r wybodaeth ddiweddaraf am ein modiwlau, ewch i'n gwefan.

## Ffeithiau allweddol

**Math o radd:** MA, MSc

**Cod y cwrs:** M984 (MA), M983 (MSc)

**Hyd:** 1 flwyddyn (amser llawn) neu 2 flynedd (rhan-amser)

**Gofynion mynediad:** Gradd Baglor (Anrhydedd) 2:2 dda neu gyfatebol mewn maes pwnc perthnasol.

**Amser cyswllt:** Tua 10-14 awr yr wythnos yn y ddau semester cyntaf, yna bydd y myfyriwr a'r tiwtor yn cytuno rhyngddynt ar gyfnodau'r amser cyswllt.

# Y Gyfraith

## LLM

Ar ôl graddio gyda'r radd hon, byddwch yn meddu ar lefel drawiadol o arbenigedd yn y datblygiadau diweddaraf mewn ystod o arbenigeddau cyfraith.

Bydd y cwrs hwn yn eich galluogi i deilwra eich astudiaeth o'r gyfraith yn llwyr i weddu i'ch anghenion a'ch diddordebau, a chyfarwyddo eich astudiaeth eich hun gydag ystod eang o opsiynau, gan ddewis meysydd o'r gyfraith megis yr amgylchedd, hawliau dynol, busnes rhyngwladol, masnachu a thechnoleg.

Byddwch yn cael sylfaen drylwyr ar arfer a damcaniaeth y gyfraith, i'ch paratoi ar gyfer galwadau heriol gweithleoedd y gyfraith heddiw. Cydbwysir astudiaeth o ddamcaniaeth gyfreithiol gydag ymchwil i ystod o astudiaethau achos diddorol i daflu goleuni ar eich astudiaethau, a'ch cysylltu â phrofiadau go iawn o achosion cyfreithiol.

Dyma rai o'r profiadau sydd ar gael i fyfyrwyr y Gyfraith yn Aberystwyth:

- ystod eang o bynciau ym maes cyfraith fasnachol a TG, cyfraith amgylcheddol a hawliau dynol a chyfraith ddyngarol
- pwyslais rhyngwladol cryf
- darlithwyr brwd, llawer ohonynt yn adnabyddus yn eu meysydd arbenigol.

**Cyflogadwyedd**
Bydd y cwrs hwn yn ddeniadol i rai sydd eisiau gwella eu rhagolygon gyrfa ac a fydd yn chwilio am waith yn y sector cyhoeddus, gan gynnwys sefydliadau llywodraethol trawswladol, rhanbarthol, rhyngwladol a chyrff anllywodraethol, yn ogystal â'r sectorau preifat, yn enwedig cwmnïau masnachol neu dechnolegol.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau craidd y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn:

- Legal Studies
- Dissertation.

Byddwch hefyd yn dewis o blith casgliad o fodiwlau eraill, sydd ar hyn o bryd yn cynnwys:

- Aspects of Commercial Contracting
- International Commercial Law
- International Criminal Law
- International Environmental Law
- International Human Rights Law
- International Humanitarian Law
- International Trade Law
- Law and Gender
- Migration and Asylum Law
- Negotiated Study Module
- Philosophy and Sociology of Human Rights Protection.

I gael rhagor o fanylion a'r wybodaeth ddiweddaraf am ein modiwlau, ewch i'n gwefan.

## Ffeithiau allweddol

**Math o radd:** LLM

**Cod y cwrs:** M172, M172D (Dysgu o bell)

**Hyd:** 1 flwyddyn (amser llawn) neu 2 flynedd (rhan-amser) neu 2-5 mlynedd (dysgu o bell)

**Gofynion mynediad:** Gradd Baglor (Anrhydedd) 2:2 yn y Gyfraith neu gyfatebol, neu radd Baglor (Anrhydedd) 2:2 dda yn un o'r gwyddorau cymdeithasol perthnasol, neu gyfatebol.

**Amser cyswllt:** Tua 10-14 awr yr wythnos yn y ddau semester cyntaf, yna bydd y myfyriwr a'r tiwtor yn cytuno rhyngddynt ar gyfnodau'r amser cyswllt.





# MPhil, LLM drwy Ymchwil

Cyrsiau blwyddyn yw'r MPhil a'r LLM, lle bydd disgwyl i chi ysgrifennu traethawd hir oddeutu 50,000-60,000 o eiriau.

Byddwch yn gweithio o dan gyfarwyddyd un goruchwylydd neu fwy, ond nid oes gofyn i chi fynychu dosbarthiadau. Ar ôl y flwyddyn yn Aberystwyth, bydd gennych hyd at ddwy flynedd i gofnodi'ch ymchwil. Mae astudio rhan-amser yn bosibl hefyd.

Mae astudio am Radd Meistr Ymchwil yn cynnig llawer o'r atyniadau sy'n denu pobl i astudio am PhD. Dylai traethawd hir gradd Meistr ddarparu trosolwg a chrynodeb manwl o unrhyw faes yn y gyfraith, ond nid ei fwriad yw darparu dadansoddiad manwl yn yr un ffordd â PhD. Prif fantais y radd Meistr Ymchwil, felly, yw ei bod yn eich galluogi i gwblhau darn o ymchwil a chael cymhwyster amdano mewn cyfnod cymharol fyr.

# PhD

Dyfernir PhD ar ôl cwblhau traethawd hir boddhaol oddeutu 80-100,000 o eiriau, gydag arholiad viva voce i ddilyn. Y cyfnod cofrestru arferol yw tair blynedd (amser llawn), a disgwylir y bydd y traethawd hir yn cael ei gyflwyno ymhen pedair blynedd o gofrestru.

Treulir rhan o'r flwyddyn gyntaf yn cyflawni hyfforddiant ymchwil, gan adael yr ail a'r drydedd flwyddyn ar gyfer ymchwil amser llawn i'r pwnc o'ch dewis. Mae PhD yn eich galluogi i arbenigo yn y pwnc o'ch dewis, ac i archwilio cymhlethdodau'ch pwnc, boed hynny yn y gyfraith neu droseddeg, yn ei gyd-destun. Er mwyn bodloni'r arholwyr, mae'n rhaid i chi ddangos gwreiddioldeb meddwl ynghyd â dadansoddiad manwl.

Ystyrir PhD fel cam sylweddol mewn gyrfaoedd academaidd neu yrfaoedd sy'n ymwneud â'r byd academaidd. Mae'n dangos eich bod yn gallu cyflawni ymchwil manwl a chyflwyno canlyniadau'r ymchwil hwnnw mewn ffordd ddealladwy.

# DProf

Mae'r ddoethuriaeth broffesiynol, neu DProf, yn fwy addas i'r rheiny sy'n dilyn gyrfa broffesiynol yn hytrach nag un academaidd, ac fe'i chynllunir i ganiatáu i unigolion proffesiynol cymwys astudio am ddoethuriaeth wrth barhau i weithio.

Dyfernir DProf i gydnabod bod unigolyn wedi cwblhau rhaglen o astudio cydnabyddedig a ddysgir yn llwyddiannus, ynghyd â darn o waith ymchwil uwch. Mae'r elfen o gydweithio a geir yn y prosiect ymchwil sy'n seiliedig ar waith yn gyfle gwych i sefydlu gwybodaeth newydd yn y gweithle ac i sicrhau bod eich ymchwil yn berthnasol i'ch sector.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i'n gwefan neu cysylltwch â ni.

# Ein hymchwil

Mae Adran y Gyfraith a Throseddeg yn ymroi ac yn ymgysylltu â gweithgaredd ymchwil o safon ryngwladol yn nifer o feysydd y gyfraith a throseddeg, gan gynnwys:

- cyfraith wrth-wahaniaethol
- cyfraith gyfansoddiadol gymharol
- damcaniaeth gyfansoddiadol
- llywodraethu corfforaethol
- datganoli a hawliau dynol
- e-fasnach
- gwerthuso mesurau rheoli a lleihau troseddau
- camweinyddu cyfiawnder
- trosedd treftadaeth
- dioddefwyr ac erledigaeth
- plismona
- seicoleg ac ymchwiliad troseddol
- materion teuluol a rhywedd
- rheoli polisi cyfiawnder troseddol a throsedd
- amddiffyn hawliau dynol
- cyfraith trosedd ryngwladol
- cyfraith hawliau dynol ryngwladol
- rhyngweithio damcaniaeth ac ymarfer mewn troseddeg
- agweddau TG ar gontractio, datrys anghydfodau, troseddau a rheoliadau
- agweddau meddygol ar gyfraith trosedd
- masnachu pobl
- amddiffyn eiddo diwylliannol a threftadaeth
- amddiffyn pobl fregus
- amddiffyn ffoaduriaid
- troseddau gwledig
- triniaeth troseddwyr
- hunanladdiad â chymorth
- hunanamddiffyn
- trosedd cyllyll.



Mae staff yr Adran yn rhan weithgar o gynghori polisi ar lefel y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol, ac maent wedi cynghori sawl sefydliad cenedlaethol a rhyngwladol ac adrannau llywodraethol ar agweddau ar gyfraith a pholisi. Mae'r rhain yn cynnwys Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Grŵp Arbenigwyr Cyngor Ewrop ar Weithredu yn Erbyn Masnachu Pobl, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, Llywodraeth y Deyrnas Unedig, yr Undeb Ewropeaidd, Sefydliad Mudo Rhyngwladol, yn ogystal â'r Sefydliad Diogelwch a Chydweithredu yn Ewrop.

Ers 2015, dyfarnwyd £1.7m i'r Ganolfan Oed, Rhywedd a Chyfiawnder Cymdeithasol yn Adran y Gyfraith a Throseddeg i gynnal cyfres o brosiectau ymchwil yn edrych ar bobl hŷn, trais a cham-drin yn y cartref, a mecanweithiau cyfiawnder. Y gwaith ymchwil hwn yw'r cyntaf o'i fath yn rhyngwladol i ymchwilio i 'brofiadau hanesyddol' dioddefwyr hŷn wrth iddynt geisio cyfiawnder a derbyn cymorth. Gan ddefnyddio dulliau ymchwilio arloesol, mae'r tîm wedi datgelu gwahaniaethau systemig ar sail oed a brofir gan bobl hŷn.

Mae'r Adran yn falch o'i hystod amrywiol o arbenigedd ymchwil, ac mae themâu penodol yn cynnwys ymchwil yn ymwneud â phobl ymylol oherwydd eu bod yn ifanc neu'n hen, hawliau dynol, a chyfraith gyfansoddiadol, datganoli a cyfansoddiad esblygol y Deyrnas Unedig.

Mae arbenigedd ein staff yn cynnwys aelodaeth ar Grŵp Arbenigwyr Cyngor Ewrop ar Weithredu yn erbyn Masnachu Pobl, aelodaeth ar fwrdd ymchwil heddlu Dyfed Powys, a Grŵp Arwain Atal Caethwasiaeth Cymru, rhoi tystiolaeth i Gomisiwn Silk ar Ddatganoli yng Nghymru, a dyfyniadau yn nyfarniadau'r Llysoedd Troseddol Rhyngwladol, i enwi dim ond rhai.

## Prosiect Cyswllt Cyfreithiol Cyn-filwyr

Sefydlwyd y prosiect Cyswllt Cyfreithiol Cyn-filwyr yn 2015 i fynd i'r afael â'r diffyg cyngor cyfreithiol yng Nghymru. Mae'r prosiect yn gwahodd cyfreithwyr a myfyrwyr y gyfraith i helpu cyn-filwyr a'u teuluoedd i dderbyn cyngor cyfreithiol am ddim.

Mae'r gwasanaeth yn cynorthwyo cyn-filwyr a'u teuluoedd i ailymuno â chymdeithas drwy ddarparu gwasanaeth cyfeirio cynhwysfawr ar gyfer cyngor cyfreithiol a gwasanaethau cynghori ehangach nad ydynt yn rhai cyfreithiol. Caiff y prosiect ei redeg ledled y wlad ar-lein, drwy'r ffôn, Skype ac wyneb yn wyneb.



# Sut i wneud cais

Dylid gwneud cais ar-lein i gael astudio un o'n cyrsiau uwchraddedig:

**www.aber.ac.uk/cy/postgrad/apply**

I gael rhagor o gyngor am wneud cais cysylltwch â'r Swyddfa Derbyn Graddedigion (**derbyn-uwchraddedig@aber.ac.uk** neu 01970 622270).

## Gwneud cais am gwrs a ddysgir

Dylid gwneud cais am gyrsiau Meistr a ddysgir trwy ein Porth Derbyn Graddedigion ar-lein. Gallwch roi eich manylion personol i ni, dewis eich cwrs/cyrsiau a llwytho dogfennau i ategu eich cais.

## Gwneud cais am gwrs gradd ymchwil

Dylid gwneud cais am gyrsiau ymchwil hefyd trwy ein Porth Derbyn Graddedigion ar-lein. Os ydych yn gwneud cais am radd ymchwil (MPhil/PhD/DProf/LLM drwy Ymchwil) dylech wirio diddordebau ymchwil yr adran berthnasol i ganfod a allwn gynnig y cyfarwyddyd arbenigol yn eich maes dewisedig.

Bydd yn rhaid i'r rhan fwyaf o ymgeiswyr (heblaw Mathemateg a Ffiseg) baratoi cynnig ymchwil (1,000 i 1,500 o eiriau) yn amlinellu'r prosiect ymchwil rydych eisiau ei astudio. Bydd angen i chi gyflwyno cais cyflawn gyda'r holl ddogfennau ategol gan gynnwys y cynnig ymchwil, a nodi sut yr ydych yn bwriadu ariannu eich gradd ymchwil.

## Gwneud cais am gwrs TAR

Dylech wneud cais am eich rhaglen TAR ar-lein **trwy borth hyfforddiant athrawon UCAS: www.ucas.com/postgraduate/teacher-training/ucas-teacher-training-apply-and-track**

Ar eu gwefan cewch wybodaeth ddefnyddiol ar y broses ymgeisio a sut byddwch chi'n gallu dilyn hynt eich cais.

## Pryd i wneud cais

Dylech ymgeisio mor fuan â phosibl cyn dechrau eich gradd. Fel rheol dylai ymgeiswyr ar gyfer graddau ymchwil wneud cais cyn diwedd mis Ionawr i gael eu hystyried am le wedi'i noddi. Dylai ymgeiswyr sy'n bwriadu dod â'u teuluoedd wneud cais cyn diwedd mis Chwefror. Y dyddiadau cau ar gyfer gwneud cais i Ddysgu o Bell yw dau fis cyn dyddiad dechrau'r cwrs.

## Dogfennau Ategol

Yn ogystal â'r wybodaeth sy'n ofynnol yn eich cais, bydd yn rhaid i chi atodi copïau o'r dogfennau canlynol at eich cais:

- tystysgrifau a thrawsgrifiadau prifysgol o unrhyw astudiaethau blaenorol perthnasol
- datganiad personol yn ymwneud â'r cwrs rydych yn gwneud cais amdano
- geirdaon
- Curriculum Vitae (arbennig o bwysig os hoffech gael eich hystyried ar sail proﬁad gwaith blaenorol)
- portffolio o waith artistig ac enghreifftiau o waith ysgrifenedig diweddar (ymgeiswyr i'r Ysgol Gelf yn unig)
- enghraifft o waith ysgrifenedig diweddar (ymgeiswyr am gyrsiau'r Adran Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol yn unig)
- cynnig ymchwil llawn (ymgeiswyr am gyrsiau MPhil/PhD/DProf/Dag/LLM trwy Ymchwil yn unig) (1.000 – 1,500 gair).

*Gallwch gyflwyno cais cyn i chi gael eich canlyniadau.

Mae croeso i chi wneud cais am astudiaethau uwchraddedig ym Mhrifysgol Aberystwyth cyn cwblhau eich astudiaethau cyfredol, neu os ydych eisoes wedi cwblhau eich cymhwyster/cymwysterau, cyn i chi dderbyn tystysgrifau/trawsgrifiadau terfynol eich gradd. Gallwch gyflwyno cais cyn derbyn geirda.

Os gwnewch hyn, ac os bydd y brifysgol yn penderfynu cynnig lle i chi astudio gyda ni, bydd cyflwyno dogfennau atodol, neu dystiolaeth berthnasol o gwblhau'n llwyddiannus ac ennill eich cymhwyster, a/neu dystiolaeth o'ch rhuglder iaith Saesneg ar y lefel angenrheidiol yn amodau mynediad ar eich dewis gwrs. Bydd yn rhaid ichi gyflwyno dogfennau/tystiolaeth perthnasol i gyflawni amod academaidd eich cynnig cyn cwblhau'r drefn dderbyn.





## Geirda

Ar gyfer ceisiadau i **gyrsiau a ddysgir**, anfonwch un geirda gyda'ch cais. Dylech ddarparu geirda academaidd, hynny yw, gan athrawon neu ddarlithwyr yn eich prifysgol bresennol/flaenorol ond mewn rhai achosion lle bydd gan ymgeiswyr yrfa sefydledig, gallai'r rhain fod yn eirda'n seiliedig ar waith. Ni chaiff ymgeiswyr am gyrsiau Meistr a ddysgir eu derbyn i'r Brifysgol heb ddarparu geirda boddhaol.

Ar gyfer ceisiadau i **raglenni ymchwil** (PhD, MPhil, DProf, DAg neu LLM drwy Ymchwil) dylid darparu dau eirda gyda'ch cais. Dylech chi ddarparu geirdaon academaidd, gan athrawon neu ddarlithwyr yn eich prifysgol bresennol/fwyaf diweddar. Os nad ydych chi'n darparu geirda boddhaol gyda'ch cais ni chaiff fynd ymhellach.

Dylai'r geirda fod yn benodol i'r cwrs yr ydych yn gwneud cais amdano.

Rydym yn derbyn geirda wedi'i selio mewn amlen, fersiwn wedi'i sganio ar bapur swyddogol, neu wedi'i anfon ar e-bost yn syth oddi wrth y canolwr (ar eu cyfrif swyddogol prifysgol neu waith) at **derbyn-uwchraddedig@aber.ac.uk**. Gallwch atodi geirda wedi'i sganio i'ch cais ar-lein. Cadwch gopi o'r ddogfen wreiddiol.

## Ar ôl i chi ymgeisio

Ar ôl i'ch cais gael ei greu, bydd yn cael ei anfon i'r adran(nau) academaidd priodol i'w ystyried. Gallwch fel arfer ddisgwyl penderfyniad o fewn dwy wythnos ar gyfer cyrsiau a ddysgir trwy gwrs, a chwe wythnos ar gyfer rhaglenni ymchwil neu raglenni PhD.

Ar ôl yr amser hwn byddwch yn derbyn llythyr cynnig yn nodi os ydych wedi bod yn llwyddiannus ac yn cael cynnig lle; wedi'ch gwahodd i gyfweliad, neu nad oedd modd i ni gynnig lle i chi. Bydd y llythyr cynnig yn cynnwys yr amodau y mae'n rhaid i chi eu bodloni cyn y gallwch gofrestru, cost y cwrs, a dyddiad dechrau eich cwrs.


Sylwch y bydd yn rhaid i ymgeiswyr ar gyfer rhaglenni ymchwil uwchraddedig gael eu cyfweld, naill ai'n bersonol neu drwy Skype cyn y gellir cynnig lle iddynt. Mae'n rhaid i chi ymateb i'ch cynnig o fewn chwe wythnos neu erbyn y dyddiad ymateb a nodwyd yn y cynnig. Peidiwch â phoeni os nad ydych yn gallu bodloni'r amodau yn eich cynnig erbyn y dyddiad hwn - ar hyn o bryd, y cyfan yr ydym am wybod yw a ydych yn bwriadu cymryd eich lle.

Gallwch wneud cais i ohirio eich lle tan ddyddiad arall (un neu ddwy flynedd yn dibynnu ar yr adran) os nad ydych yn gallu cymryd eich lle oherwydd rhesymau personol neu os nad ydych yn gallu bodloni amodau eich cynnig erbyn y dyddiad cofrestru.

## Costau ychwanegol a chyfyngiadau ar astudio y tu allan i Aberystwyth

Sylwch os gwelwch yn dda bod yna gostau ychwanegol ar gyfer rhai cyrsiau nad ydynt wedi eu cynnwys yn eich ffioedd dysgu. Er enghraifft, bydd myfyrwyr sy'n dewis gwneud gwaith maes sylweddol i ffwrdd o Aberystwyth yn gyfrifol am dalu'r costau hyn eu hunain.

Fodd bynnag, i rai myfyrwyr, mae'n bosibl y gall y cyfyngiadau a osodir gan unrhyw ysgoloriaeth neu fenthyciad (ee Benthyciad Uniongyrchol Ffederal yr UDA) neu Fisa Haen4 eich atal rhag gwneud unrhyw waith astudio y tu allan i Aberystwyth.



# Cyllid a ffioedd

**Pa un ai eich bod yn bwriadu cyllido eich astudiaethau uwchraddedig eich hun, neu'n cael cymorth ariannol gan gorff cyllido, mae'n bwysig eich bod yn deall eich sefyllfa ariannol, beth yw ein ffioedd a pha gymorth sydd ar gael i chi.**

Dylech ystyried gwneud cais am ysgoloriaethau a grantiau flwyddyn o flaen llaw, ac fel rheol mae'n rhaid cyflwyno ceisiadau am gyllid ymchwil erbyn dechrau'r gwanwyn. Mae'r portffolio llawn o gyllid sydd ar gael i chi i'w weld ar ein gwefan (**www.aber.ac.uk/cy/postgrad/fees-finance/**), a gall ein Cyfrifiannell Cyllid ac Ysgoloriaeth ar-lein eich helpu i weld faint yn union o gyllid y gallech fod yn gymwys i'w gael (**www.aber.ac.uk/cy/postgrad/fees-finance/calculator/**).

## Ein ffioedd

Caiff eich ffioedd dysgu eu pennu yn ôl cyfuniad o ffactorau megis pa gwrs yr ydych yn bwriadu ei astudio, ac ymhle yr ydych yn byw.

## Ffioedd Dysgu 2022/23

| Rhaglenni Meistr a Addysgir | Myfyrwyr 'Cartref' (DU) | |
|---|---|---|
| **Pwnc** | **Amser llawn** | **Rhan-amser** |
| Y Celfyddydau a'r Gwyddorau Cymdeithasol | £7,650 | £3,825 |
| Meistr mewn Gweinyddiaeth Fusnes (MBA) | £13,250 | £6,625 |
| Y Gwyddorau | £8,700 | £4,350 |

| Cyrsiau TAR | Myfyrwyr 'Cartref' (DU) | |
|---|---|---|
| **Pwnc** | **Amser llawn** | **Rhan-amser** |
| Cyrsiau TAR (Hyfforddi Athrawon) | £9,000 | ddim yn berthnasol |

| Rhaglenni Ymchwil | Myfyrwyr 'Cartref' (DU) | |
|---|---|---|
| **Pwnc** | **Amser llawn** | **Rhan-amser** |
| Y Celfyddydau a'r Gwyddorau Cymdeithasol (MPhil, LLM drwy Ymchwil, PhD) | £4,407* | £2,203.50* |
| Y Gwyddorau (MPhil, PhD) | £4,407* | £2,203.50* |

* Yn cael ei adolygu ar hyn o bryd.



## Ffioedd Dysgu o bell

Sylwch bod cynnydd blynyddol yn y ffioedd Dysgu o bell.
Efallai y bydd Ffi Gofrestru untro yn berthnasol.

| Pwnc | Amcangyfrif yn seiliedig ar gwblhau'r cwrs dros 3 blynedd |
|---|---|
| Cynhyrchu Cyfryngau Uwch - Meistr (cwrs amlddisgyblaethol rhwng yr adrannau Cyfrifiadureg; Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu) | £1,155* (cael cymhorthdal gan ESF) |
| Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig - MSc/MRes | £6,300 (MSc)<br>£6,150 (MRes) |
| Astudiaethau Gwybodaeth - Meistr | £8,805 |
| Y Gyfraith - Meistr | £9,450 |

*Mae ffioedd cwrs Meistr Uwch-gynhyrchu Cyfryn yn cael cymhorthdal gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) trwy Lywodraeth Cymru tan 2023. Rhaid i ymgeiswyr ar gyfer y cwrs hwn fodloni meini prawf cymhwysedd ESF. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â **ccu-amp@aber.ac.uk**

| Pwnc | Amcangyfrif yn seiliedig ar gwblhau'r cwrs dros 5 mlynedd |
|---|---|
| Bioleg, Gwyddorau Amgylcheddol a Gwledig DAg | £10,050 |

## Costau ychwanegol

**Gall eich cwrs gynnwys teithiau maes, gweithgareddau neu gostau cysylltiedig eraill nad ydynt wedi'u cynnwys yn eich ffioedd dysgu.**

Felly dylech nodi bod angen ichi ariannu'r gweithgareddau hyn eich hun. Isod ceir manylion y cyrsiau sydd â thaliadau ychwanegol. Mae'r rhestr hon yn gywir wrth fynd i'r wasg. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'ch adran neu ewch i'n gwefan.

### Astudiaethau Gwybodaeth

| Cwrs | Cod y cwrs | Gweithgaredd | Amcan o'r gost |
|---|---|---|---|
| MA Gwybodaeth Ddigidol a Rheolaeth Cyfryngau | P124 | Ymweld â sefydliadau archif a llyfrgelloedd yn Llundain. Y myfyriwr sy'n gyfrifol am y trefniadau teithio a llety. | c. £600 |
| MA Rheoli Archifau a Chofnodion | P192 | | |
| MA Astudiaethau Gwybodaeth a Llyfrgellyddiaeth | P194 | | |

### Cyfrifiadureg

| Cwrs | Cod y cwrs | Gweithgaredd | Amcan o'r gost |
|---|---|---|---|
| MSc Cyfrifiadureg Uwch (gyda blwyddyn integredig mewn diwydiant) | G498 | Ffioedd dysgu am y flwyddyn mewn diwydiant. | £1,800 |

### Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig

| Cwrs | Cod y cwrs | Gweithgaredd | Amcan o'r gost |
|---|---|---|---|
| Prosiectau ymchwil perthnasol mewn amaethyddiaeth neu wyddor biolegol | | Mewn rhai achosion, gallai fod angen codi ffioedd ychwanegol am ymchwil sy'n ymwneud ag anifeiliaid mawr neu nifer fawr o ymweithredyddion. Bydd ymgeiswyr yn cael gwybod am gostau o'r fath pan fydd y cynnig yn cael ei roi. | Hyd at uchafswm o £7,500 am bob blwyddyn |

# Llety

## Eich cartref nesaf



Aelodaeth Blatinwm o'r Ganolfan Chwaraeon yn rhad ac am ddim.

Sicrwydd llety.*



**Rydym yn cynnig amrywiaeth o fathau o lety a lleoliadau fel y gallwch ddod o hyd i'r lle sy'n addas ar eich cyfer chi, gyda'r mwyafrif o breswylfeydd o fewn taith gerdded fer i'r campws.**

Mae pob llety yn gymuned ag iddi ei nodweddion penodol ei hun, ac yn cynnig amgylchedd diogel lle gallwch gymdeithasu, astudio ac ymlacio. Pan fyddwch yn byw yn ein llety does dim angen pryderu am gostau cyfnewidiol gan fod y ffioedd neuadd yn cynnwys cyfleustodau, cysylltiad rhyngrwyd gan gynnwys wifi, a lefel uchel o yswiriant eiddo personol.

Rydym yn cynnig amrywiaeth eang o lety hunanarlwyo neu rannol-arlwyol gyda naill ai ystafelloedd en-suite, neu fflatiau gydag adnoddau a rennir ynghyd â'n stiwdios hunan-gynhwysol, ac mae'r prisiau'n amrywio rhwng tua £85 a £170 yr wythnos*. Mae gennym lety arlwyo penodol i siaradwyr neu ddysgwyr Cymraeg sy'n dymuno byw mewn cymuned Gymraeg ei hiaith.

Cyn gynted ag y byddwch yn cyrraedd, bydd y Tîm Bywyd Campws yn eich croesawu i'ch cartref newydd a chymuned y campws.

### Gwneud cais am lety

Ar ôl i chi fodloni amodau eich cynnig academaidd, byddwn yn anfon gwahoddiad atoch i wneud cais am lety trwy e-bost a'r post. Rydym yn eich cynghori i gwblhau'r cais cyn gynted â phosibl, oherwydd mae'r llety'n cael ei rannu ar sail 'y cyntaf i'r felin'.

**Sylwch:** Gallai'r opsiynau llety a restrir newid yn y dyfodol. Ceir rhagor o fanylion a'r wybodaeth ddiweddaraf yn **www.aber.ac.uk/llety**.

### Allwedd

- Llety arlwyol
- Cawod en-suite
- Golchdy
- Llety Cymraeg penodedig
- Mannau cymdeithasu ac astudio
- Wi-Fi
- Parcio

*I fod yn gymwys, rhaid i'ch cais ddod i law erbyn 1af o Fedi yn y flwyddyn mynediad a rhaid i chi ymateb i'r cynnig llety erbyn y dyddiad a nodwyd yn y cynnig. Noder y caiff lle mewn llety sy'n eiddo i'r Brifysgol neu a reolir ganddi ei warantu, ond nid y math penodol o ystafell neu leoliad. Yn ogystal, mae'r opsiynau llety a'r ffioedd a restrir yn gymwys i'r flwyddyn academaidd 2021/22, ond gallai rhain newid yn y dyfodol, wrth i ni barhau i wella'r ystâd. Ewch i'n gwefan i weld y wybodaeth ddiweddaraf: **www.aber.ac.uk/llety**.



# Arlwyo
## (Cyfrwng Cymraeg)

## Pantycelyn

- wedi ei hadnewyddu'n ddiweddar
- ystafelloedd sengl, en-suite
- llety arlwyo yn benodol ar gyfer siaradwyr a dysgwyr Cymraeg gyda ffreutur, lolfa, gofod astudio a mannau cymdeithasol
- £170.78 yr wythnos (33 wythnos)
- o fewn pellter cerdded i'r campws a'r dref.









# Hunanarlwyo



## Rosser G

- ystafelloedd sengl, en-suite, mewn fflatiau i hyd at 10 myfyriwr
- rhannu adnoddau cymunedol
- defnydd o'r Lolfa @ Rosser
- ar Gampws Penglais
- £130.04 yr wythnos (50 wythnos)*



Y Lolfa @ Rosser.



# Hunanarlwyo





## Fferm Penglais

- fflatiau penodedig i fyfyrwyr Cymraeg eu hiaith
- ystafelloedd en-suite sengl (gyda gwely dwbl), mewn fflatiau i 6-8 myfyriwr sy'n rhannu cegin/ardal fyw
- stiwdios sengl hunangynhwysol hefyd ar gael
- siop a chaffi ar y safle, ynghyd â mannau cymdeithasu ac astudio
- 5 munud ar droed o Gampws Penglais
- £142.50 yr wythnos (40 wythnos)* - ystafell en-suite
- £149.88 yr wythnos (40 wythnos)*- stiwdio



## Cwrt Mawr

- ystafelloedd sengl, mewn fflatiau i 6-10 myfyriwr
- rhannu adnoddau cymunedol, ystafell ymolchi a chegin
- defnydd o'r Lolfa @ Rosser
- ar Gampws Penglais
- £85.40-£95.41 yr wythnos (39 wythnos)*









## Pentre Jane Morgan

- ystafelloedd sengl, mewn tai i 5 neu 6 myfyriwr
- rhannu adnoddau cymunedol
- defnydd o'r Lolfa @ PJM
- 5 munud ar droed o Gampws Penglais
- £107.30 yr wythnos (39 wythnos)*

Bywyd ar y campws



# Bywyd ar y campws

**Bydd popeth sydd ei angen arnoch o fewn cyrraedd hwylus ar gampws Prifysgol Aberystwyth, ac mae'r gwasanaethau a'r cyfleusterau pwysicaf wedi'u lleoli yng nghanol y campws. Mae'r campws hefyd o fewn pellter cerdded o dref a phromenâd enwog Aberystwyth.**

**Ar y campws ceir llety myfyrwyr, bwytai a chaffis, Undeb y Myfyrwyr a chyfleusterau dysgu ac astudio, gan gynnwys dwy lyfrgell. Yn ogystal â hyn, mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru (sy'n llyfrgell hawlfraint) y drws nesaf i'r campws.**







Adeilad Athrofa'r Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig (IBERS) ar Gampws Penglais yw cartref yr adran, ac mae yno hefyd gaffi. Drws nesaf iddo mae adeilad Edward Llwyd, lleoliad y prif labordai a'r ystafelloedd dysgu.



Yr adeilad Gwleidyddiaeth Ryngwladol - cartref ein Hadrannau Hanes a Hanes Cymru, a Gwleidyddiaeth Ryngwladol.




Adeilad yr Ysgol Gelf, sydd wedi'i leoli yn y dref, dafliad carreg o Gampws Penglais.




Adeilad Parry-Williams yw cartref Adran y Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd, ac Adran Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu'r Brifysgol.






Yr adeilad hwn, P5, yw lleoliad yr Adrannau Astudiaethau Gwybodaeth, Seicoleg, a'r Ysgol Addysg.



Mae Adeilad y Gwyddorau Ffisegol yn gartref i'n Hadrannau Mathemateg a Ffiseg, yn ogystal â Llyfrgell y Gwyddorau Ffisegol.



Adeilad Hugh Owen - cartref yr Ysgol Fusnes, a'r Adrannau Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol, y Gyfraith a Throseddeg, ac Ieithoedd Modern, yn ogystal â phrif lyfrgell y Brifysgol.





Adeilad Llandinam - cartref yr Adrannau Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear, a Chyfrifiadureg.

# Mannau astudio



Ystafell astudio a ddarllen,
Llyfrgell Hugh Owen.







**Ceir nifer o fannau astudio ledled ein campws, gan gynnwys dwy lyfrgell. Mae gennym hefyd sawl lolfa i fyfyrwyr lle ceir peiriannau byrbrydau, cyfrifiaduron, a lle ar gyfer astudio mewn grŵp neu'n unigol, yn ogystal â mannau eistedd anffurfiol. Mae'r cwbl yn creu ardaloedd astudio cyfforddus.**

## Llyfrgell Hugh Owen

Wedi ei leoli ar gampws Penglais, yn ystod y tymor, mae Llyfrgell Hugh Owen ar agor 24/7. Cwblhawyd prosiect adnewyddu sylweddol yn Llyfrgell Hugh Owen yn ddiweddar er mwyn sicrhau bod gennych leoedd cyfoes a dynamig i astudio a darllen ynddynt.

## Llyfrgell y Gwyddorau Ffisegol

Mae'r llyfrgell hon ar bedwerydd llawr Adeilad y Gwyddorau Ffisegol, ac mae'n cynnwys deunyddiau ar gyfer astudio mathemateg, ffiseg a chyfrifiadureg.

## Canolfan Uwchraddedigion

Wedi ei leoli yn adeilad Llandinam, mae'r cyfleuster safon uchel hwn yn cynnig mannau astudio tawel i uwchraddedigion (rhai cynllun-agored a chiwbicls), cyfrifiaduron, loceri at ddefnydd personol, ystafell seminar gyda chyfleusterau sgriniau arddangos, a lolfa a chegin gymdeithasol.

## Gwasanaethau TG

Yn Llyfrgell Hugh Owen gallwch ofyn am gyngor technoleg gwybodaeth wrth y ddesg gwasanaethau i gwsmeriaid, sydd ar agor 24 awr y dydd. Mae'r staff wedi cael eu hyfforddi i'ch cynorthwyo gyda phroblemau meddalwedd neu galedwedd, neu gallwch fanteisio ar y cynllun benthyca gliniadur. Ceir hefyd fynediad 24/7 i gyfrifiaduron, argraffwyr lliw cyflym a sganwyr yn Llyfrgell Hugh Owen.

**Ceir gwasanaeth wifi am ddim ledled y campws ac yn y neuaddau preswyl hynny a reolir gan y Brifysgol.**

## E-ddysgu

Trwy ddefnyddio ein hamgylchedd dysgu rhithwir, gallwch weld deunydd eich cyrsiau ar unrhyw adeg ac yn unrhyw le. Ledled y campws mae gynnym tua 800 o gyfrifiaduron ar gael i'w defnyddio mewn llyfrgelloedd ac ystafelloedd cyfrifiaduron, rhai ohonynt ar agor 24 awr y dydd.



Y Ganolfan Uwchraddedigion

# UMCA

# Undeb Myfyrwyr Cymraeg Aberystwyth

**Os hoffech fyw ac/neu astudio yn Gymraeg yma yn Aberystwyth, chewch chi ddim profiad cyflawn o'r gymuned glos sydd yma heb ymuno ag UMCA neu'r Geltaidd, neu'r ddau!**

**UMCA yw'r undeb gyntaf o'i bath yng Nghymru, ac mae ganddi brofiad helaeth o ymgyrchu dros fuddiannau myfyrwyr Cymraeg y Brifysgol a gwarchod eu hawliau. Erbyn heddiw, mae'n fudiad dylanwadol iawn sydd â llais a chynrychiolaeth ar rai o brif bwyllgorau'r Brifysgol.**

## Gweithgareddau

Mae UMCA yn cefnogi nifer o gymdeithasau Cymraeg eraill poblogaidd megis y Geltaidd (prif gymdeithas chwaraeon Gymraeg Prifysgol Aberystwyth), Plaid Cymru Ifanc, Yr Heriwr ac Aelwyd Pantycelyn i'r rheiny ohonoch sy'n mwynhau canu, llefaru, dawnsio neu glocsio.

Trefnir nifer o weithgareddau gan UMCA ar y cyd â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol ac mae Llywydd a Swyddog Amgen Pwyllgor Gwaith UMCA yn cydweithio'n agos â'r Coleg er mwyn sicrhau bod gennym amryw o weithgareddau sydd at ddant pawb.

## UMCA a'r Gymraeg

Nid yn unig ar gyfer siaradwyr Cymraeg y mae UMCA. Cynigia UMCA hefyd wersi Cymraeg am ddim i fyfyrwyr ac wrth ymuno ag UMCA gallwch ddysgu am iaith a diwylliant Cymru.

## Llais y myfyrwyr

Etholir Llywydd UMCA gan gorff cyfan Myfyrwyr y Brifysgol yn etholiadau blynyddol yr Undeb, ac mae'n swydd sabothol amser llawn. Mae gan y Llywydd bwyllgor gwaith gweithgar iawn y tu cefn iddo/iddi ynghyd â Bwrdd Ymgynghorol i graffu ar weithgaredd UMCA.

## Cefnogaeth

Mae UMCA yn cynorthwyo myfyrwyr i wneud yn fawr o'u hamser yn Aberystwyth ac yn cynnig cymorth gydag unrhyw broblem sy'n poeni'r aelodau. Mae UMCA yn ychwanegu at brofiad myfyrwyr o fyw trwy gyfrwng y Gymraeg yn Aberystwyth.

## Llwyddiannau Eisteddfodol

Bob blwyddyn mae myfyrwyr o Aberystwyth yn amlwg ar lwyfan eisteddfodau, yn enwedig Eisteddfod yr Urdd. Mae ein myfyrwyr yn aml yn dod i'r brig naill ai fel unigolion neu fel grwpiau mewn meysydd fel llenyddiaeth, canu, dawnsio a pherfformio.

## Wythnos y Glas

Pan gyrhaeddwch y Brifysgol ym mis Medi, cewch brofi Wythnos y Glas - wythnos gyfan o hwyl a chymdeithasu a drefnir gan UMCA. Bydd myfyrwyr yr ail a'r drydedd flwyddyn yn aml yn cael eu 'paru' â myfyrwyr blwyddyn gyntaf ar rai o'r gweithgareddau, sy'n golygu y byddwch yn dod i adnabod trawsdoriad eang o fyfyrwyr erbyn diwedd yr wythnos gyntaf!






Côr Aelwyd Pantycelyn.




Tîm pêl-droed bechgyn y Geltaidd.





Tîm rygbi merched y Geltaidd.




# Undeb y Myfyrwyr





**Rydyn ni am i fyfyrwyr Aber garu bywyd myfyriwr a bod yn barod am unrhyw beth. Wedi'i harwain gan fyfyrwyr ac â chymorth gan dîm o staff, mae UMAber yn gweithio i sicrhau bod myfyrwyr Aber yn cael profiad myfyriwr anhygoel, yn hapus, iach ac a'r grym i newid pethau, gyda ffrindiau oes a dyfodol disglair.**


Rydym yn ymroddedig i:


- baratoi myfyrwyr ar gyfer eu hantur nesaf
- rhoi'r gair olaf i fyfyrwyr bob amser
- helpu myfyrwyr i fod mor hapus ac iach â phosibl
- tyfu ynghyd â'r myfyrwyr fel teulu Aber.

Caiff yr addewidion hyn eu cyflawni trwy roi i fyfyrwyr amrywiaeth o fanteision a chyfleoedd, gan gynnwys:

- cyfle i gwrdd â phobl newydd, gwneud ffrindiau ac adeiladu cymunedau
- 100 o glybiau chwaraeon a chymdeithasau – Cymdeithas Myfyrwyr Uwchraddedig a chymdeithasau academaidd yn eu plith – a'r cyfle i ddechrau eich grŵp eich hun
- cefnogaeth, hyfforddiant a gwaith – gyda thros 300 o Gynrychiolwyr Academaidd yn cael effaith gadarnhaol ar fyfyrwyr ar lefel cwrs
- cyngor cyfrinachol, diduedd a chyfeillgar yn rhad ac am ddim
- llais cynrychioladol i holl fyfyrwyr Prifysgol Aberystwyth
- cyfleoedd i ymgyrchu ar faterion sydd o bwys i chi
- mannau astudio, a lleoedd i gyfarfod a chymdeithasu.

Mae tîm yr Undeb hefyd yn cynnig cymorth a chynrychiolaeth annibynnol, boed hynny'n ymwneud â materion academaidd, lles neu arian, i fyfyrwyr sydd angen cymorth ychwanegol yn y Brifysgol.












# Cyfleusterau chwaraeon

**Wedi ei leoli ar Gampws Penglais, mae'r Ganolfan Chwaraeon yn cynnig pob math o gyfarpar ac adnoddau i hyrwyddo'ch iechyd a'ch lles. O'r pethau sylfaenol, gan gynnwys campfa, melinau troedio, a phwll nofio, i'r pethau ychwanegol, sy'n cynnwys ystafell codi pwysau i ferched yn unig, a sawna.**

Os nad oes awydd arnoch ymarfer corff ar eich pen eich hun gallech ymuno ag un o'r dewis helaeth o ddosbarthiadau a gynhelir yma. Mae'r rhain yn cynnwys HIIT, Ioga, Pilates, Cylchred a llawer mwy.

Un o fanteision bod yn breswyliwr mewn llety a reolir gan y Brifysgol yw y byddwch yn derbyn Aelodaeth Blatinwm o'r Ganolfan yn rhan o'r ffioedd rhentu. Mae hyn yn rhoi mynediad am ddim i'r gampfa, yr holl ddosbarthiadau ffitrwydd, y pwll nofio a'r sonariwm.













# Chwaraeon a chymdeithasau

**Undeb y Myfyrwyr yw cartref Tîm Aber, gyda chlybiau chwaraeon cystadleuol, a rhai nad ydynt yn gystadleuol, i bobl o bob gallu, a thros 100 o glybiau a chymdeithasau. Dylai pawb allu canfod diddordeb newydd sy'n apelio, neu ddatblygu diddordeb sydd ganddynt eisoes. Ac os nad oes clwb neu gymdeithas ar gyfer eich diddordeb chi, ewch ati i sefydlu un!**

### Cerddoriaeth

- Abercoustic
- Cantorion Madrigalau Elisabethaidd
- Cymdeithas Kpop
- Roc Soc

### Codi arian/ymgyrchu

- Aber Marrow
- Aber WWF
- Cymdeithas Oxfam
- Marie Curie
- Student Minds Aberystwyth
- Tickled Pink

### Cymuned

- Aber Pride
- Aberystwyth LINKS St John - Cymru Wales
- Co-op Bwyd Organig
- GradSoc (Cymdeithas y Graddedigion)
- SSAGO (Y Sgowtiaid a'r Geidiaid)
- VegSoc

### Chwaraeon

- Aber Archers (saethyddiaeth)
- Aber Snow
- AberCycling
- Airsoft
- Badminton
- Beicio Mynydd
- Canŵio a Chaiacio
- Cic-focsio
- Cleddyfa
- Clwb Aikido
- Clwb Athletau a Rhedeg yr Harriers
- Clwb Cerdded
- Clwb Hoci
- Clwb Marchogaeth
- Clwb Mynydda
- Clwb Pêl-droed Americanaidd Tarannau Aberystwyth
- Clwb Pŵl Aber
- Clwb Rhwyfo'r Myfyrwyr
- Clwb Triathlon
- Codwyr Hwyl y Tarannau
- Criced
- Cynghrair Bêl-droed y Digs
- DanceSport
- Dawnsio Stryd y Panthers
- Ffitrwydd Awyr (athletau)
- Futsal
- Golff
- Hoci Tanddwr (Octopush)
- Hwylio
- Kalah System
- Karate
- Korfball
- Lacrosse
- Nofio a Pholo Dŵr
- Ogofa
- Pêl-droed
- Pêl-fasged
- Pêl-foli
- Pêl-osgoi
- Pêl-rwyd
- Rygbi (y gynghrair a'r undeb)
- Saethu Colomennod Clai
- Sboncen
- Showdance
- Slacklinking
- Sub Aqua
- Teithiau
- Tennis
- Tennis Bwrdd
- Y Clwb Syrffio
- Y Gymdeithas Ioga
- Y Gymdeithas Reslo

### Diddordebau a chredoau

- AberPara (Cymdeithas Oruwchnaturiol Aberystwyth)
- Cŵn Aber
- Cyfryngau Myfyrwyr Aber
- Cymdeithas AberHowl
- Cymdeithas Cartwnau a Chomics Aberystwyth
- Cymdeithas Ffilm a Theledu Prydeinig
- Cymdeithas Pong Cwrw Aberystwyth
- Ffantasi a Gwyddonias
- Nawdd Nos
- Y Gymdeithas Ail-greu Canoloesol
- Y Gymdeithas Cwrw Go Iawn
- Y Gymdeithas Ffeministaidd
- Y Gymdeithas Gatholig
- Yr Undeb Gristnogol

### Gemau

- Clwb Gwyddbwyll
- Cymuned Chwarae Gemau
- Kaotica Wargames
- Pokemon GO
- WARPSoc
- Y Gymdeithas Cardiau

### Gwleidyddol

- Myfyrwyr Llafur
- Rhyddfrydwyr Ifanc a Myfyrwyr
- Y Gymdeithas Geidwadol
- Y Gymdeithas Union and Liberty
- Yes Myfyrwyr

### Ieithoedd a diwylliannau

- AberBSL (Iaith Arwyddion Prydain)
- Cymdeithas Erasmus ac Ieithoedd Ewropeaidd
- UMCA
- Y Gymdeithas Affricanaidd-Garibïaidd
- Y Gymdeithas Almaenaidd
- Y Gymdeithas Eidalaidd
- Y Gymdeithas Falaysiaidd
- Y Gymdeithas Myfyrwyr Byd-eang
- Y Gymdeithas Nordig

### Perthnasol i adrannau/cyrsiau

- AberCompSoc
- Cymdeithas y Gyfraith
- Daearyddiaeth
- Gwleidyddiaeth Ryngwladol
- Hanes
- Roboteg
- Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol
- Troseddeg
- Y Gymdeithas Addysg
- Y Gymdeithas Amaeth
- Y Gymdeithas Awyrofod
- Y Gymdeithas Biocemeg
- Y Gymdeithas Datblygu Byd-eang
- Y Gymdeithas Drafod
- Y Gymdeithas Fathemateg
- Y Gymdeithas Ffiseg ac Astronomeg
- Y Gymdeithas Forol
- Y Gymdeithas Gemau Argyfwng a Model o'r CU
- Y Gymdeithas Seicoleg
- Y Gymdeithas Swoleg

### Y celfyddydau

- Broad-Ways Theatre and Film
- Curtain Call
- Cymdeithas Ffotograffiaeth Aber
- Nomadic Players
- Y Gymdeithas Gelf

### Yr amgylchedd

- Cymdeithas Cynaliadwyedd Aberystwyth
- Gwirfoddolwyr Cadwraeth (ACV)
- Y Gymdeithas Cadwraeth Gwenyn

# Canolfan y Celfyddydau

**Dyma'r lle delfrydol i weld sioe neu ffilm, mwynhau danteithion, prynu eich llyfrau a chymdeithasu â ffrindiau. Mae yma rywbeth i bob chwaeth, o sioeau o'r 'West End' neu sioeau bale ar daith i'r ffilmiau diweddaraf, ffilmiau arbenigol, amrywiaeth o wyliau, rhai o enwau mwyaf y byd comedi a'r ffeiriau Nadolig, crefftau ac anrhegion a gynhelir bob blwyddyn. Cynhelir hefyd arddangosfeydd yn rheolaidd yn ein horielau. Yn ddiweddar, bu'n bleser gan Ganolfan y Celfyddydau groesawu arddangosfa'r 'Llinell Brintiedig' gyda gweithiau gan Lucian Freud, David Hockney, Pablo Picasso, Bridget Riley a Rachel Whiteread ymhlith eraill.**

Mae ein canolfan gelfyddydau arobryn ar y campws yn cynnal perfformiadau gan gwmnïau teithiol mawr cenedlaethol a rhyngwladol, yn ogystal â'i chynyrchiadau ei hun. Cynhelir y perfformiadau yn neuadd gyngerdd y Ganolfan, sydd â seddi i 1,200, neu yn theatr 300 sedd y Ganolfan a'r stiwdio agos-atoch chi, a cheir rhaglen brysur o ddangosiadau ffilm yn y sinema 120 o seddi.







Rhinoseros o faint llawn gan Stephanie Quayle ar gyfer Gŵyl Gerameg Ryngwladol Canolfan y Celfyddydau, yn defnyddio clai cerflunio â llawer o grog ynddo.



Noson gomedi





Jack Savoretti.





Y tu ôl i Ganolfan y Celfyddydau ceir gofod mawr agored sy'n wych ar gyfer ymlacio, cymdeithasu ac astudio.





Bar a chaffi Canolfan y Celfyddydau



Y Cloc Ffractal, Galeri 1



Y Sinema





# Cerddoriaeth yn Aberystwyth

Mae'r Ganolfan Gerdd ar gael i'r holl fyfyrwyr. Pa bwnc bynnag yr ydych yn ei astudio, gallwch fod yn rhan o gymdeithas gerddorol fywiog yng nghanol Aberystwyth. Ar yr union adeg hon, mae'r ddarpariaeth gerdd yn y Brifysgol ar drothwy cyfnod arloesol a chyffrous wrth i ni benodi cyfarwyddwr newydd i arwain y ddarpariaeth i'r dyfodol mewn modd cynhwysol ac arbrofol, â'r gymuned yn ganolog iddi. Mae'r ddarpariaeth gerdd yn Aberystwyth yn dod â'r dref a'r brifysgol ynghyd i weithio mewn amrywiol ffyrdd ar ffurf ensemblau, cerddorfeydd, bandiau cyngerdd a chorau, yn ogystal â grwpiau llai sy'n canolbwyntio ar deuluoedd offerynnol penodol. Mae'r Brifysgol yn cynnig ystafelloedd a mannau ymarfer i fyfyrwyr ac aelodau o'r gymuned, grwpiau a digwyddiadau cerddorol, a cheir cyfleoedd i hyfforddi, datblygu'n gerddorol a pherfformio a chynhyrchu ar sawl lefel. Rydym hefyd yn hynod o falch ein bod yn gallu cynnig ystod o Ysgoloriaethau Cerdd sy'n rhoi'r cyfle i chi ymarfer amrywiaeth eang o sgiliau cerddorol yma yn Aberystwyth a'r tu hwnt. Os ydych yn ymddiddori mewn cerddoriaeth, ar ba bynnag ffurf neu arddull, mae croeso mawr ichi ei mwynhau gyda ni yma yn Aberystwyth.






Mae'r Ganolfan Gerdd yn paratoi gweithiau mawr ar gyfer cyngherddau gydag unawdwyr a cherddorfa yn ystod tymor y gwanwyn. Mae uchafbwyntiau yn cynnwys Carmina Burana gan Carl Orff a Requiem Verdi.



Mae cerddorfa symffoni'r Ganolfan Gerdd, Philomusica, yn cynnal dau gyngerdd y flwyddyn yng Nghanolfan y Celfyddydau.



# Aberystwyth i bawb

**Yma yn Aberystwyth rydym yn falch iawn o'n cymuned agos-atoch-chi, yn y Brifysgol ac yn y dref. Er ei fod yn lle cymharol fach, mae'r gymuned yn un eang. Mae ein myfyrwyr yn cynnwys amrywiaeth cyfoethog o bobl, diwylliannau a chredoau.**

Mae Prifysgol Aberystwyth wedi ymrwymo i ymdrin â chydraddoldeb mewn ffordd ragweithiol a chynhwysol sy'n cefnogi ac sy'n annog pob grŵp heb gynrychiolaeth ddigonol, sy'n hyrwyddo diwylliant cynhwysol ac sy'n gwerthfawrogi amrywioldeb.

Mae Cynllun Strategol y Brifysgol ar Gydraddoldeb 2020-2024 yn sail i'r ymrwymiad hwn. Mae'r Cynllun hwn yn pwysleisio ein hymrwymiad i gynwysoldeb:

> "Os ydym am greu amgylchfyd cynhwysol, credwn fod yn rhaid inni sicrhau bod pawb, ni waeth pwy yr ydyn nhw, yn cael yr un cyfleoedd. Rhaid inni hefyd sicrhau bod rhwystrau diwylliannol, megis gwahaniaethu a diffyg goddefgarwch, yn cael eu symud."

**Yr Athro Elizabeth Treasure**
**Is-Ganghellor**

Dyma rai enghreifftiau o fentrau cydraddoldeb yr ydym wedi'u gweithredu:

- prosiect y Blychau Coch - sy'n darparu nwyddau mislif yn rhad ac am ddim ledled y campws i'r staff ac i'r myfyrwyr
- cyfres gynadleddau 'All Our Trans Tomorrows' - prosiect a gyrhaeddodd restr fer tair gwobr ac a gafodd sylw yn y wasg genedlaethol
- saith mlynedd o Ddigwyddiadau Celfyddydol Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol (LHDT) Aberration mewn cydweithrediad â Chanolfan y Celfyddydau a Chyngor Celfyddydau Cymru, gan gynnwys taith a ymwelodd â Chaerdydd, Caernarfon, Llandudno a'r Eisteddfod Genedlaethol
- prosiect 'Diversifying Portraiture' ar gyfer Diwrnod Rhyngwladol y Merched - gyda'r amcan yn wreiddiol y byddai hwn yn brosiect dros dro ond sydd bellach wedi dod o hyd i gartref parhaol yn y Ganolfan Ddelweddu
- fforymau megis 'Is Our University Too White?' - o ganlyniad i'r fforwm hwn, gallai myfyrwyr a'r staff gyfrannu at y broses o wneud penderfyniadau ac o gynllunio strategaethau ar lefel weithredol
- gweithio ar draws adrannau i greu systemau sy'n sicrhau bod pobl yn defnyddio'r 'enw a roddir' ar staff a myfyrwyr bob tro - er mwyn diogelu'r staff a'r myfyrwyr rhag cael eu trin yn wahaniaethol
- creu'r rhwydwaith Menywod ym maes Ymchwil, sydd bellach yn rhan annatod o'r strategaeth weithredol
- gweithredu'r Rhwydwaith Hyrwyddwyr Cydraddoldeb
- rhwydweithiau ar gyfer staff o gefndir du ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (BAME).

Fel myfyriwr ym Mhrifysgol Aberystwyth, bydd ein hamgylchedd cynhwysol a diogel yn rhoi'r cyfle ichi roi cynnig ar bethau gwahanol, gwneud ffrindiau newydd ond, yn bwysicach oll, byddwch yn rhydd i fod yn chi eich hun.

## LHDT

Mae Prifysgol Aberystwyth yn cynnig amgylchedd cefnogol, cynhwysol a diogel lle gallwch ddathlu'r hyn sy'n eich gwneud chi'n CHI. Mae cymdeithas myfyrwyr AberPride yn trefnu digwyddiadau rheolaidd, un digwyddiad mawr olaf bob blwyddyn, a nosweithiau cymdeithasol bob wythnos. Mae gan y Brifysgol hefyd rwydwaith staff LHDT ac mae ymhlith 100 Cyflogwr Gorau Stonewall.





# Cymorth i fyfyrwyr

**Bydd ystod eang o wasanaethau cymorth ar gael ichi yn y Brifysgol. Gall y gwasanaethau hyn eich helpu i oresgyn y rhan fwyaf o'r heriau a ddaw i'ch rhan fel myfyriwr.**

## Y Gwasanaeth Cyngor, Gwybodaeth ac Arian

Mae'r Gwasanaeth Cyngor, Gwybodaeth ac Arian yn darparu cymorth ar ystod eang o faterion. Mae ein cynghorwyr wedi'u hachredu gan Gymdeithas Genedlaethol Cynghorwyr Arian Myfyrwyr (NASMA) a gallant hefyd eich cyfeirio at gymorth sy'n ymwneud â llety, cynnydd academaidd a gweithdrefnau'r Brifysgol.

## Y Gwasanaeth Hygyrchedd

Fel Prifysgol, rydym yn ymrwymedig i gynnal cymuned y gall pawb fanteisio arni ac rydym yn croesawu ceisiadau gan ystod eang o fyfyrwyr. Mae ein Gwasanaeth Hygyrchedd yn darparu cymorth i fyfyrwyr anabl ac i'r rhai sydd â gwahaniaethau dysgu penodol, yn ogystal ag i fyfyrwyr sy'n gadael gofal a myfyrwyr eraill heb gefnogaeth. Mae hefyd yn cefnogi myfyrwyr trawsryweddol ac anneuaidd.

Os ydych yn byw ag amhariad, neu os oes gennych ofynion penodol, dewch i'n gweld neu cysylltwch â ni cyn ichi wneud cais er mwyn ichi drafod eich anghenion a'r cymorth y gallwn ei gynnig ichi.
Os ydych yn gymwys, gall ein cynghorwyr drefnu gweithiwr cymorth, gan gynnwys cymorth â sgiliau astudio unigol. Gellir gwneud trefniadau arbennig mewn arholiadau, neu asesiadau amgen, i fyfyrwyr sydd ag amhariadau amrywiol, gan gynnwys gwahaniaethau dysgu penodol, er enghraifft dyslecsia a dyspracsia.

Rydym hefyd yn argymell eich bod yn cysylltu â'n Cynghorwyr Hygyrchedd i drafod asesiad o anghenion astudio ac i gael cyngor ar grantiau, er enghraifft y Lwfans Myfyrwyr Anabl (LMA).

## Gwasanaeth Lles Myfyrwyr

Er bod ein staff yn dal cymwysterau proffesiynol ac yn gwnselwyr cofrestredig neu'n arbenigwyr iechyd meddwl, nid yw'r gwasanaeth yn disodli gwasanaethau iechyd meddwl statudol. Ein nod ni yn hytrach yw gweithio gyda chi, gan ddefnyddio technegau sy'n canolbwyntio ar ddatrysiadau, er mwyn ichi feithrin gwytnwch, a'ch helpu i ddatblygu pecyn o sgiliau a fydd yn eich galluogi chi i reoli eich lles yn effeithiol tra byddwch yn y brifysgol a'r tu hwnt. Lle bo hynny'n briodol, byddwn yn eich cyfeirio at ddeunyddiau hunangymorth neu at lwyfannau ar-lein, neu efallai y byddwn yn eich cyfeirio at gymorth allanol os mai hynny sydd orau ichi.

## Mentora 'Ffordd Hyn'

Cynllun mentora gan gymheiriaid cyfeillgar a chyfrinachol yw 'Ffordd Hyn' ar gyfer yr holl israddedigion newydd. Mae'n cynnig cyngor unigol i'ch helpu chi i ymgartrefu, i gynllunio at y dyfodol ac i wneud y gorau o'ch cyfnod yn y brifysgol.

## Cyngor ar Fisâu a Mewnfudo

Mae'r Cynghorydd Myfyrwyr Rhyngwladol yn darparu cyngor arbenigol ar fisâu astudio i ddarpar fyfyrwyr a myfyrwyr cyfredol o'r Ardal Economaidd Ewropeaidd ac o'r tu allan iddi sy'n dod i astudio ym Mhrifysgol Aberystwyth. Mae'r cyngor y mae'r Cynghorydd Myfyrwyr Rhyngwladol yn ei roi wedi'i reoleiddio gan Swyddfa Comisiynydd y Gwasanaethau Mewnfudo.

## Nawdd Nos

Mae'r gwasanaeth gwrando annibynnol hwn yn cael ei redeg gan fyfyrwyr, i fyfyrwyr. Mae'n cynnig llinell gymorth gyfrinachol a gwasanaeth e-bost a negeseua gwib. Ewch i **www.nightline.aber.ac.uk** i gael rhagor o wybodaeth.



# Gyrfaoedd

**Bydd ein Hymgynghorwyr Gyrfaoedd yn rhoi cymorth ichi adnabod y sgiliau sydd gennych chi eisoes, a'ch annog i fanteisio ar bob cyfle sydd ar gael yn Aberystwyth. Mae astudio cwrs uwchraddedig yn golygu ymroi gymaint â phosibl i'r profiad myfyriwr cyflawn. Bydd hynny yn rhoi'r cyfle ichi gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau na fydd mor hawdd i'w cyrchu ar unrhyw adeg arall yn y dyfodol.**

Er mai'ch astudiaethau academaidd fydd eich prif flaenoriaeth yn y brifysgol, dylech hefyd ddysgu sut i reoli ac i drefnu'ch amser yn effeithiol i roi cyfle i'ch hun gymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol.

Mae'r Gwasanaeth Gyrfaoedd yma i'ch helpu i ddeall sut mae sicrhau bod eich gradd a'r holl brofiadau sydd ar gael i chi wrth astudio yn y Brifysgol yn cyfrannu tuag at eich gyrfa i'r dyfodol.

Bydd ein staff profiadol a phroffesiynol yn eich cynorthwyo i:

- ddewis a darganfod opsiynau profiad gwaith
- adnabod y sgiliau a ddaw yn rhinwedd eich astudiaethau – sgiliau a werthfawrogir gan gyflogwyr
- cynllunio llwybr gyrfa addas ar gyfer eich dyfodol
- ymgeisio am swyddi yn hyderus
- asesu perthnasedd cyrsiau uwchraddedig i'ch dyheadau gyrfaol
- deall sut i fynd ati i sefydlu busnes eich hun a'r camau angenrheidiol nesaf
- cysylltu â chyflogwyr, cyn-raddedigion a chyrff proffesiynol i ddatblygu eich cynlluniau gyrfaol.

## Cysylltiadau â Diwydiant

Fe gynigir ichi ddigonedd o gyfleoedd i gysylltu â chyflogwyr ar ffurf gweminarau a ffeiriau gyrfaoedd, ac yn y cwricwlwm. Yma fe allech gael cyfle i weithio gyda chyflogwyr ar broblemau go iawn sy'n eu hwynebu, a fydd yn gyfle ichi gynnig datrysiadau i broblemau'r lle gwaith, sy'n brofiad unigryw! Ein nod yw cynnwys cyswllt â chyflogwyr ym mhob un o'n cynlluniau gradd, yn ogystal â rhoi cyfle ichi fanteisio ar weithgareddau gyda chyflogwyr y tu hwnt i'ch cwrs. Mae'r rhain yn cynnwys cwmnïau mawr amlwladol, megis PwC, IBM ac Enterprise Rent-a-Car, sefydliadau gwladol megis Network Rail, Teach First a Qinetiq, yn ogystal â chyrff sector cyhoeddus, Llywodraeth leol a'r Gwasanaeth Sifil.

## Profiad Gwaith

Byddwch yn wynebu llu o wahanol gyfleoedd am brofiad gwaith, o swyddi rhan-amser achlysurol ar y campws ac yn yr adrannau Prifysgol, i swyddi i raddedigion gyda chwmnïau a sefydliadau - yn lleol a'r tu hwnt. Ochr yn ochr â'r rhain i gyd ceir cyfleoedd i ddatblygu profiadau cysylltiedig â gwaith trwy fod yn Llysgennad i'ch adran, cymryd rhan yn y gwaith o redeg clybiau a chymdeithasau, a chyfleoedd gwirfoddoli o bob math.

Mae Aberystwyth yn benodol yn cynnig amrywiaeth o brofiadau AberYmlaen i chi hefyd, sy'n rhoi rhagor o bosibiliadau i chi, yn ogystal â llu o ddewisiadau semester/blwyddyn dramor gyda phrifysgolion partneriaethol ar draws y byd. Cymerwch ran mewn cynifer o'r rhain â phosibl oherwydd byddant yn bendant yn gwneud i chi sefyll allan yn y dyfodol wrth i chi ddatblygu eich cynlluniau gyrfaol, a byddant yn gwella eich dealltwriaeth o'ch cwrs gradd ac yn rhoi golwg llawer ehangach i chi ar fywyd.

Rydym yn cynnig gwasanaethau ar-lein, ar sail un i un, ac ar ffurf gweminarau a digwyddiadau. Rydym yma i'ch helpu gyda phob agwedd o'ch siwrne a'ch llwyddiant gyrfaol yn y dyfodol.

# Dysgu ychwanegol





Ar ben eich cwrs gradd caiff cyrsiau Dysgu Gydol Oes eu cynnig a gellir eu hastudio heb amharu ar amserlen eich cwrs uwchraddedig. Mae'r adran Dysgu Gydol Oes yn darparu cyrsiau addysg uwch wedi'u hachredu sy'n cael eu cynnwys ar eich cofnod myfyriwr academaidd.

Yn Aberystwyth gallwch fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd hyn i wella eich sgiliau a datblygu diddordebau newydd a fydd yn eich gwneud yn fwy atyniadol i gyflogwyr wedi ichi orffen eich gradd, gan olygu y byddwch gam ar y blaen i'r rhai sy'n cystadlu yn eich erbyn. I gael rhagor o wybodaeth am y cyrsiau a gynigir, ewch i:

**www.aber.ac.uk/cy/lifelong-learning/courses**

Dyma'r pynciau sydd ar gael:

- Celf a Dylunio
- Ecoleg a Chadwraeth
- Llenyddiaeth ac Ysgrifennu Creadigol
- Ffotografiaeth
- Hanes, Achyddiaeth ac Archaeoleg
- Athroniaeth
- Seicoleg
- Ieithoedd Modern: Almaeneg, Arabeg, Eidaleg, Ffrangeg, Rwsieg, Sbaeneg, Japaneeg a Tsieineeg.

Os ydych yn fyfyriwr uwchraddedig, cynigir rhai cyrsiau am ddim i chi. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i:

**www.aber.ac.uk/cy/lifelong-learning/freecourses**

Mae pob cwrs arall ar gael am ffi ostyngol.

> “Amgylchedd dysgu arbennig o dda, addysgu rhagorol a digon o gyfle am drafodaethau dosbarth.”







# Darganfod Aberystwyth













**Aberystwyth yw'r lle perffaith i astudio, i gael hwyl ac i wneud ffrindiau am oes. Mae modd cyrraedd y dref yn rhwydd drwy gerdded i lawr Rhiw Penglais. Cewch hyd i bopeth ar y campws i gyfoethogi'ch bywyd fel myfyriwr, a gallwch fwynhau golygfa fendigedig o'r dref lan môr ysblennydd hon.**

Mae tref Aberystwyth yn lle bach ond bywiog lle gallwch fwyta, yfed a siopa. Mae llawer o fusnesau annibynnol i'w cael yma, felly mae gan y dref ei chymeriad unigryw ei hun ac mae'n wahanol i bobman arall yng ngwledydd y DU. Mae gan Aberystwyth ddewis mawr o fariau, tafarndai a chlybiau nos o fewn pellter cerdded o'i gilydd. Hon oedd y dref gyntaf i ennill Baner Borffor am ei bywyd nos croesawgar a diogel.

Mae'r promenâd Fictoraidd yn lle perffaith i fynd am dro neu i loncian. Cofiwch fynd i 'gicio'r bar' ym mhen gogleddol y prom. Mae hwn yn draddodiad a ddechreuodd dros ganrif yn ôl.


Y tri thraeth hyfryd yn Aberystwyth yw eich lle chwarae. Dyma'r lle i fwynhau nofio yn y môr, ymlacio a gwylio'r dolffiniaid neu wneud ffrindiau newydd o gwmpas tân agored.

Cewch fwynhau golygfeydd o lan y môr y byddwch yn eu cofio am byth o Graig Glais (neu 'Consti' i'r bobl leol). Os ydych yn teimlo'n egnïol, dilynwch y llwybr. Fel arall, gallwch deithio ar y trên bach os ydych am fwynhau taith fwy hamddenol i'r copa.

Saif yr Hen Goleg, sef adeilad gwreiddiol y brifysgol, ar y prom rhwng y pier a'r castell sy'n dyddio'n ôl i'r 12fed ganrif. I ddathlu pen-blwydd y Brifysgol yn 150 oed, mae cynlluniau mawr ar droed i droi'r adeilad hanesyddol hwn yn ganolfan ddiwylliannol a chreadigol flaenllaw i Gymru.

Cewch eich ysbrydoli yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, sy'n dal dros 6.5 miliwn o lyfrau a chyfnodolion ynghyd â'r casgliadau mwyaf o archifau, portreadau, mapiau a ffotograffau yn y wlad.

Saif Aberystwyth rhwng mynyddoedd y Canolbarth a glannau Bae Ceredigion, ac nid oes rhaid ichi deithio'n bell i fwynhau teithiau cerdded ar hyd yr arfordir a thrwy goetiroedd pert, ac i nofio mewn dŵr gwyllt. Os ydych yn hoff o'r awyr agored, mae popeth yma ar garreg eich drws. Nid yw Parciau Cenedlaethol Eryri ac Arfordir Penfro nepell o Aberystwyth chwaith.




Yr Hen Goleg, sef prif adeilad y Brifysgol pan gafodd ei sefydlu yn 1872. Y gobaith yw y bydd yn cael ei drawsnewid yn fuan yn ganolfan fywiog ar gyfer treftadaeth, diwylliant a menter.



Dafliad carreg oddi wrth gampws Penglais saif Llyfrgell Genedlaethol Cymru, sydd hefyd yn gartref i Archif Genedlaethol Sgrin a Sain Cymru.









Darganfod Aberystwyth












Tua 9 milltir y tu allan i Aberystwyth mae canolfan feicio mynydd a bwydo barcutiaid enwog Nant yr Arian.

# Ymweld ag Aber

**Daw myfyrwyr o bell ac agos i Brifysgol Aberystwyth – gallwch gwrdd â myfyrwyr o bob rhan o'r byd yma. Bydd y croeso cynnes sy'n eich disgwyl a'r adnoddau rhagorol sydd gennym ar eich cyfer yn gwneud eich ymweliad yn un gwerth chweil.**




## Sut i gyrraedd...

### Ar y Trên
Mae'r orsaf reilffordd yng nghanol Aberystwyth. Daw'r prif wasanaeth trwy Amwythig, gyda threnau uniongyrchol i Birmingham. Mae gwasanaeth bws rheolaidd yn teithio o'r orsaf i gampws Penglais, ac mae gwasanaeth tacsi gerllaw hefyd.

### Mewn Car
Mae'r Brifysgol wedi'i lleoli ar yr A487 sy'n rhedeg rhwng de a gogledd Cymru. Taith o ychydig dros ddwy awr ar y mwyaf yw hi i Aberystwyth o'r de neu o'r gogledd, ac o Birmingham a chanolbarth Lloegr.

### Ar Fws
Mae sawl gwasanaeth bws (Megabus, National Express) yn rhedeg o'r Campws i dde a gogledd Cymru, yn ogystal â chanolbarth Lloegr a Llundain.

### Aros dros nos
Os hoffech aros dros nos mae digon o leoedd ar gael yn Aberystwyth. Cewch restr o gyfeiriadau gan y Swyddfa Gwybodaeth i Ymwelwyr (ffôn: 01970 612125).

Os byddwch yn ymweld yn ystod gwyliau'r Brifysgol gall fod llety myfyrwyr ar gael ar eich cyfer (yn ystod Ebrill, Mehefin, Gorffennaf ac Awst). Cysylltwch â'r Swyddfa Gynadleddau ar 01970 621960, neu e-bostiwch **conferences@aber.ac.uk**.



# Mynegai o'r cyrsiau

Addysg (Cymru) 34
Amaethyddiaeth 66
Arloesi Bwyd-Amaeth 67
Astudiaethau Cyfieithu Proffesiynol 112
Astudiaethau Gwybodaeth a Llyfrgellyddiaeth 38
Astudiaethau Llenyddol 160
BioArloesedd 68, 69
Biotechnoleg 56
Busnes Rhyngwladol a Marchnata 81
Cadwraeth Ddigidol 41
Celfyddyd Gain 92, 94
Creu Ffilm Ddogfen: Tirwedd ac Ecoleg 46
Cyfiawnder Ieuenctid 172
Cyfraith Fasnachol Ryngwladol 173
Cyfrifiadureg Uwch 101
Cyfrifiadureg 100
Cyllid a Bancio Rhyngwladol 83
Cyllid Rhyngwladol 84
Cyllid 82
Cymraeg ac Astudiaethau Celtaidd 113
Cynhyrchu Bwyd yn Gynaliadwy ac Effeithlon 70
Cynhyrchu Cyfryngau Uwch 50, 105
Cynhyrchu Ffilm 47
Cynlluniau Meistr Gweithredol 80
Cysylltiadau Rhyngwladol 132
Daearyddiaeth Ddynol ar Waith 118
Deallusrwydd Artiffisial 102
Gwleidyddiaeth Ryngwladol (Gradd Ddeuol gyda American University) 133
Gwybodaeth Ddigidol a Rheolaeth Cyfryngau 39
Gwyddor Anifeiliaid 57, 58
Gwyddor Ceffylau 59, 60
Gwyddor Da Byw 61
Gwyddor Data 103, 154
Gwyddorau Biolegol 62
Hanes a Threftadaeth 140
Hanes Celf 93, 95
Hanes Cymru 141
Hanes Modern 142
Hawliau Dynol a Chyfraith Ddyngarol 174
Meistr mewn Gweinyddiaeth Fusnes (MBA) 78
Newid i Ymddygiad 166
Newid, Effaith ac Addasu Amgylcheddol 119
Peirianneg Sbectrwm Radio 126
Prydain ac Ewrop yr Oesoedd Canol 143
Rhaglenni Meistr mewn Gweinyddiaeth Fusnes (MBA) Proffesiynol 79
Rheolaeth a Chyllid 85
Rheolaeth Amgylcheddol 63
Rheolaeth Busnes Ryngwladol 86
Rheoli Archifau a Chofnodion 40
Rheoli Parasitiaid 64
Rhyfel, Strategaeth a Chudd-wybodaeth 134
Synhwyro o Bell a Systemau Gwybodaeth Daearyddol (SGD) 120
TAR 26
Troseddeg a Chyfiawnder Troseddol 175
Y Gyfraith 176
Ymarfer Theatr: Perfformio a Senograffi 48
Ymgynghoriaeth Fferm a Chyfnewid Gwybodaeth, MRes 71
Ysgrifennu Creadigol 161
Ystadegaeth ar gyfer Bioleg Gyfrifiadol 65, 104, 155





# Gwybodaeth bwysig

## - Darllenwch yn ofalus

Y mae'n amod cofrestru bod yn rhaid i bob myfyriwr dderbyn a chadw at drefniadaeth y Brifysgol fel y'i nodir yn y Rheolau, Rheoliadau a Gwybodaeth i Fyfyrwyr, a'n Telerau ac Amodau. Gellir cael copi o'r Rheolau, Rheoliadau a Gwybodaeth i Fyfyrwyr sydd mewn grym ar hyn o bryd trwy gysylltu â'r Swyddfa Derbyn Graddedigion (01970) 622270.

Mae'r Brifysgol yn cynnig yr wybodaeth yn y prosbectws hwn i fod yn ganllaw yn unig. Nid yw'r wybodaeth yn y prosbectws hwn yn creu contract ac nid yw'n rhwymo darpar fyfyrwyr na'r Brifysgol. Er bod y Brifysgol yn gwneud pob ymdrech i wirio cywirdeb y cynnwys ffeithiol ar adeg cyhoeddi, bydd rhai newidiadau yn digwydd yn anorfod rhwng cyhoeddi a dechrau'r flwyddyn academaidd y mae'r prosbectws yn ymdrin â hi. Er enghraifft, gall cyrsiau, gofynion mynediad a chynigion nodweddiadol newid yn ôl y galw gan fyfyrwyr, gofynion allanol a datblygiadau ymchwil. Ni ddylai ymgeiswyr ddibynnu'n llwyr felly ar yr wybodaeth yn y prosbectws hwn a dylent fynd i wefan y Brifysgol (www.aber.ac.uk) i gael manylion y sefyllfa ddiweddaraf yn achos cynnwys y cyrsiau, achredu a gofynion mynediad ar gyfer y flwyddyn y maent yn ystyried gwneud cais i'r Brifysgol.

Ni fydd y Brifysgol yn rhoi gradd, diploma, tystysgrif na chymhwyster i unrhyw fyfyriwr sydd â ffioedd heb eu talu tan i'r ddyled gael ei thalu. Bydd y myfyrwyr hyn yn cael eu rhwystro rhag ailgofrestru yn y Brifysgol ac ni fyddant yn cael defnyddio cyfleusterau'r Brifysgol.

Sylwch: Mae Prifysgol Aberystwyth yn cadw'r hawl i addasu'r gofynion mynediad a oedd yn gywir pan argraffwyd y prosbectws Uwchraddedig (Gorffennaf 2021).

*Yr ystadegau a dadogir i HESA 2018 yn y ddogfen hon yw ein ffigurau cyflogadwyedd. Maent wedi eu cymryd o arolwg Cyrchfannau rhai sy'n Gadael Addysg Uwch 2016-17 a gyhoeddwyd gan yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA) ym mis Mehefin 2018. **www.aber.ac.uk/cy/why-aber/facts-and-figures/employability**

Mae'r holl ystadegau a dadogir i Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr (ACF) 2019 yn y prosbectws hwn wedi dod o'r ACF 2020. Mae hwn yn arolwg a gydnabyddir yn eang ac sy'n casglu barn myfyrwyr am eu cyfnod mewn addysg uwch ac yn gofyn iddynt roi adborth gonest. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i'n gwefan **www.aber.ac.uk/cy/why-aber/facts-and-figures/satisfaction**

Ar dudalennau'r cyrsiau, mae'r ffigurau sy'n dynodi'r canran o'r cwrs sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg yn seiliedig ar wybodaeth oedd ar gael pan aeth y prosbectws hwn i brint. Gofynnwn i chi felly ddefnyddio'r ffigurau hyn fel canllaw yn unig. Am fwy o fanylion cysylltwch â ni.

Y mae'r wybodaeth yn y cyhoeddiad hwn yn gywir wrth fynd i'r wasg - Gorffennaf 2021.

Wedi'i ddylunio a'i gynhyrchu gan Marchnata a Denu Myfyrwyr, Prifysgol Aberystwyth 2021.

Mae Prifysgol Aberystwyth yn elusen gofrestredig. Rhif 1145141.

Prifysgol Aberystwyth
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3DD

+44 (0) 1970 622270
+44 (0) 1970 623111

derbyn-uwchraddedig@aber.ac.uk

/Prif.Aberystwyth

@prifysgol.aberystwyth

@Prifysgol_Aber

/prifysgolAberystwyth

THE TIMES THE SUNDAY TIMES
CANLLAW PRIFYSGOLION DA 2020
PRIFYSGOL Y FLWYDDYN YNG NGHYMRU

MIX
Paper from responsible sources
FSC® C023480
FSC www.fsc.org